*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 21 HYDREF 2024** yn rhithiol **trwy Zoom** am **09:30**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiannau**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2024**

5. **Cofnodion y Cyfarfod Busnes a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2024**

6. **Materion yn Codi**

7. **Diweddariad y Prif Swyddog Tân**

8. **Adroddiad y Cadeirydd**

9. **Achos Busnes y Ganolfan Hyfforddi Newydd**

10. **Llywodraethiant Awdurdodau Tân ac Achub gan Archwilio Cymru**

11. **Datganiad o Gyfrifon 2023-24**

12. **Diweddariad Ariannol 2024-25**

13. **Pennu Cyllideb 2025-26**

14. **Asesiad Perfformiad Blynyddol 2023-24**

## 15. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24

## 16. Safonau'r Gymraeg 2023-24

## 17. Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol Drafft 25/26

## 18. Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi

## 19. Cwynion, Datgeliadau er Budd y Cyhoedd a Datganiadau o Werthfawrogiad

## 20. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

## RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion **Cyfarfod Blynyddol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15 Gorffennaf 2024 yn rhithiwr trwy Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am.

**YN BRESENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees-Cadeirydd | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham-Dirprwy (o 09:40) | Cyngor Sir y Fflint |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Coke (o 09:47) | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Anthony Jones | Rheolwr Ardal (RhA) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Matthew Powell | Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| George Jones | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |

**1 YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |

| | |
|---|---|
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**2 PENODI CADEIRYDD 2024/25**

2.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd yr Awdurdod am flwyddyn y cynghorau 2024/25.

2.2 Cynigiodd y Cynghorydd Austin Roberts y Cynghorydd Dylan Rees ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Jeff Evans.

2.3 Ni dderbyniwyd unrhyw wrth-enwebiadau a chynhaliwyd pleidlais electronig i bawb o blaid ailethol y Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd.

2.4 **PENDERFYNWYD yn unfrydol bod y Cynghorydd Dylan Rees yn cael ei ethol yn Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn cynghorau 2024/25.**

2.5 Manteisiodd y Cynghorydd Rees ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth, o ran y Gadeiryddiaeth a'r heriau a brofwyd dros y deuddeg mis diwethaf. Roedd her yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn parhau a byddai materion eraill fel gosod y gyllideb, yr Adolygiad Diwylliant a'r penderfyniad ynghylch y Ganolfan Hyfforddi Newydd hefyd yn cyflwyno eu heriau eu hunain.

**3 DATGANIADAU BUDDIANT**

Datganwyd buddiant personol gan y Clerc ar ran yr holl Aelodau ar gyfer yr eitem tâl.

**4 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD 2024/25**

4.1 Aeth y Cadeirydd ymlaen i geisio enwebiadau ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod am flwyddyn y cynghorau 2024/25.

4.2 Cynigiodd y Cyng. Gareth Sandilands y Cyng. Paul Cunningham a chafodd ei eilio gan y Cyng. Tina Claydon.

4.3 Ni dderbyniwyd unrhyw wrth-enwebiadau a chynhaliwyd pleidlais electronig i bawb o blaid ailethol y Cynghorydd Paul Cunningham yn Ddirprwy Gadeirydd.

4.4 **PENDERFYNWYD bod y Cynghorydd Paul Cunningham yn cael ei ethol yn Ddirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn y cynghorau 2024/25.**

**5 PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2024/25**

5.1 Dywedodd y Clerc wrth y rhai a oedd yn bresennol y bu gwahaniaeth mewn arfer ar hyd y blynyddoedd mewn perthynas â phenodi Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio oherwydd afreoleidd-dra o fewn y Cyfansoddiad. Felly cynigiwyd diwygio'r Cyfansoddiad i nodi bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei ethol yn y cyfarfod Blynyddol. Byddai hyn yn golygu bod pob Aelod wedi cael cyfle i bleidleisio.

5.2 **PENDERFYNWYD:**

i) **Bod Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei benodi gan yr Awdurdod llawn a bod y cyfansoddiad yn cael ei newid i adlewyrchu hyn; a**
ii) **Bod yr Awdurdod yn penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2024/25.**

5.3 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn y cynghorau 2024/25.

5.4 Cynigiodd y Cyng. Jeff Evans ailethol y Cyng. Mark Young fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac eiliwyd hyn gan y Cyng. Austin Roberts.

5.5 Ni dderbyniwyd unrhyw wrth-enwebiadau a chynhaliwyd pleidlais electronig i bawb o blaid ailethol y Cyng. Mark Young yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

5.6 **PENDERFYNWYD:**

iii) **Ethol y Cynghorydd Mark Young i wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn y cynghorau 2024/25.**

5.7 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn y cynghorau 2024/25.

5.8 Cynigiodd y Cyng. Austin Roberts ailethol y Cyng. Gwynfor Owen fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac eiliwyd hyn gan y Cyng. Jeff Evans.

5.9 Ni dderbyniwyd unrhyw wrth-enwebiadau a chynhaliwyd pleidlais electronig i bawb o blaid ailethol y Cyng. Gwynfor Owen yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

5.10 **PENDERFYNWYD:**

**iv) Ethol y Cynghorydd Gwynfor Owen i wasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am flwyddyn y cynghorau 2024/25.**

**6 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

6.1 Cadarnhawyd nad oedd unrhyw eitemau wedi'u cyflwyno i'r Clerc i'w hystyried.

**7 PWYLLGORAU A PHENODIADAU**

7.1 Cyflwynodd y Clerc y papur ar y Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol, gyda'r nod o wahodd Aelodau i nodi aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a'i bwyllgorau a oedd wedi newid ers y llynedd. Y pwrpas arall oedd nodi'r penodiadau allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

7.2 Cynigiwyd y penodiadau a restrir yn y papur gan y Cynghorydd Mark Young a'u heilio gan y Cynghorydd Jeff Evans.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cadarnhau aelodaeth yr Awdurdod, penodiadau i bwyllgorau a phenodiadau allanol fel y nodir yn y papur a ddarparwyd.**

**8 DYDDIADAU CYFARFODYDD 24/25**

8.1 Dywedodd y Clerc mai bwriad y papur hwn oedd hysbysu'r Aelodau o'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2024-25.

8.2 Nodwyd y byddai dyddiad cyfarfod 21 Ebrill 2025 yn disgyn ar ddydd Llun y Pasg ac felly cynigiwyd ei newid i 28 Ebrill 2025.

8.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod llawn, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio, gyda'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 21 Ebrill 2025 wedi'i newid i 28 Ebrill 2025.**

**9 CYNLLUN TÂL AELODAU**

9.1 Cyflwynodd y Clerc bapur ar Gynllun Tâl yr Aelodau gyda'r nod o roi gwybod i'r Aelodau am y cyfraddau presennol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i aelodau, ac roedd yn cynnwys cais i

gymeradwyo’n ffurfiol y rhestr o daliadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

9.2 Nodwyd bod cynnydd o 6% wedi bod i gyflog sylfaenol yr holl Aelodau a'r Cadeirydd, a 2.4% i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Mae'r cyfraddau ar gyfer Aelodau Annibynnol yn aros yr un fath. Mae costau cynhaliaeth a threuliau hefyd yn parhau i fod yn sefydlog.

9.3 Nodwyd y dylai'r cyfeiriad at baragraff 6 gyfeirio at y flwyddyn ariannol 2024-25 yn hytrach na 2023-24.

9.4 Nododd y Trysorydd nad oedd yr Aelodau'n gallu gwneud unrhyw newidiadau i'r ffigurau hyn, ac mai’r unig weithred oedd o fewn eu swyddogaeth oedd naill ai eu derbyn neu eu gwrthod.

9.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) mewn perthynas â lwfansau a chydnabyddiaeth ariannol yr aelodau a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2024;**
**ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc ddiweddaru rhestr cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2024/25 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cynghorau, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; a**
**iii) chymeradwyo'r rhestr o daliadau a wnaed yn ystod 2023/24 fel sy'n ofynnol gan y Panel**

**10 MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, daeth y cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben: 09:55

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 15 Gorffennaf 2024** yn rhithwir trwy **Zoom.** Dechreuodd y cyfarfod am **09.55 o'r gloch**.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Matt Powell | Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| George Jones | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |
| Lisa Allington | Gwasanaethau Aelodau |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Ni dderbyniwyd unrhyw rybudd o faterion brys.

**4 COFNODION CYFARFOD AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU A GYNHALIWYD AR 15 EBRILL 2024**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2024 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub o 15 Ebrill 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Gan gyfeirio at baragraff 7.5 mewn cysylltiad â'r penodiadau i swyddi rhanbarthol o fewn Undeb y Brigadau Tân (FBU), cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân (PST) fod Terry Ledden a Rebekah Uden wedi'u penodi'n swyddogol yn Gadeirydd Rhanbarthol ac Ysgrifennydd Rhanbarthol yr FBU, yn y drefn honno. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu atynt ar ran Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i'w llongyfarch.

**6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd swyddogol eu swyddi rhwng mis Ebrill a Mehefin 2024.

6.2 Ychwanegodd y Cadeirydd ddiweddariad ar lafar bod Ysgrifennydd y Cabinet Julie James, ar 28 Mai 2024, wedi ysgrifennu at bob Arweinydd Awdurdod Lleol i gadarnhau ei bod yn ystyried cynnal adolygiad o drefniadau Llywodraethu ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub ledled Cymru. Gwahoddodd Arweinwyr Awdurdodau Lleol i gyflwyno eu barn ac er mwyn hwyluso hyn, cynhaliodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyfarfod rhithwir ar 28 Mehefin lle gellid rhoi adborth.

6.3 Y consensws cyffredinol oedd bod angen gormod o Aelodau i ffurfio Awdurdod Tân ac y dylid lleihau hyn o'r 28 presennol. Teimlwyd hefyd y gallai penodiadau cyfetholedig fod yn fuddiol, ond y dylai'r rhain gael eu gwneud gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

6.4 Byddai unrhyw drefniadau Llywodraethu newydd yn cael eu treialu yn Ne Cymru i ddechrau ac ni fyddai deddfwriaeth ar gyfer y newidiadau hynny'n digwydd yn ystod tymor presennol y Senedd.

6.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r wybodaeth a ddarperir yn y papur.**

## 7 ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS (ECR)

7.1 Cyflwynodd PSTC Evans bapur yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar y cynnydd sydd wedi ei wneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a sefydlwyd mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023. Pwrpas y grŵp hwn oedd ymchwilio a datblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.

7.2 Mynegodd un Aelod rywfaint o bryder ynghylch pwy oedd aelodau'r gweithgor ac a fu digon o gynrychiolaeth o ardaloedd gwledig Gogledd Cymru er mwyn sicrhau tegwch. Gofynnon nhw hefyd am fanylion ynghylch pa ardaloedd a fyddai'n cael eu gwasanaethu'n well a pha orsafoedd fyddai'n cael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau, ac ym mha ffordd.

7.3 Cadarnhawyd gan y RhA Jones y bu cynrychiolaeth o ardaloedd gwledig ar y gweithgor, gan gynnwys Rheolwyr Gwylfa o Aberdyfi a Thywyn, Llanfairfechan a'r tîm gwledig. Roedd llawer o'r aelodau yn ddiffoddwyr tân ar alwad hefyd ac felly roedd ystod eang o brofiad ar draws Gogledd Cymru, ac ar draws systemau dyletswydd amser cyflawn ac ar alwad. Roedd y cyfarfodydd hefyd wedi cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau ar draws Gogledd Cymru.

7.4 Cadarnhaodd y PST mai'r gorsafoedd a gyflwynwyd yn wreiddiol yn yr Adolygiad ECR gwreiddiol fyddai'r rhai mwyaf tebygol o gael eu newid i orsafoedd â staff dydd. Roedd hyn oherwydd bod y modelu'n dangos mai dyma lle byddai'r ymateb gorau yn cael ei dderbyn. Dywedodd ymhellach fod dealltwriaeth llawer ehangach o'r mater wedi codi o'r cyfarfodydd hyn ynghyd â dealltwriaeth ac awydd i weithredu i ddatrys y mater.

7.5 **PENDERFYNWYD:**

i) **cymeradwyo bod Swyddogion yn parhau i weithio gyda staff a chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i symud ymlaen, datblygu a gweithredu modelau ymchwil dau a thri Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, neu amrywiadau arnynt, yn dilyn ymgynghori â staff;**
ii) **cymeradwyo bod y Gwasanaeth yn ymgymryd â'r trefniadau angenrheidiol i wneud y gorsafoedd a nodwyd ar gyfer cyflwyno system dyletswydd staffio dydd yn addas ar gyfer hynny; a**
iii) **gwerthfawrogi ymdrechion a chyfraniad Aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i ddatblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ledled Gogledd Cymru.**

**8 CYNLLUN DATGARBONEIDDIO'R FFLYD**

8.1 Cyflwynodd y PSTC Evans bapur ar Gynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (y Cynllun), a oedd yn anelu at amlinellu'r mesurau a'r amserlenni manwl ar gyfer lliniaru'r allyriadau carbon sy'n codi o'n fflyd gerbydau am y cyfnod hyd at 2030.

8.2 Mynegodd un Aelod bryder ynghylch y risgiau o ran y gost o ddefnyddio Olew Llysiau Hydrodrin (HVO) a gofynnodd o ble roedd yr olew yn dod i mewn i'r Wlad. Cadarnhaodd PSTC Evans y byddai'n casglu'r wybodaeth hon ac yn rhoi gwybod i'r Aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

8.3 Holodd Aelod arall am gynaliadwyedd yr HVO a gofynnodd bod y gwasanaeth yn gwneud yn siŵr nad oedd olew palmwydd yn cael ei ddefnyddio wrth ei gynhyrchu. Roeddent hefyd yn holi a fyddai HVO yn ansefydlogi mewn cyfnodau o dywydd oer.

8.4 Cadarnhaodd y PSTC fod HVO yn ddiogel i dymheredd o -10 gradd, ac y byddai pob peiriant yn gwbl gyfnewidiol â disel beth bynnag, ac felly gellid defnyddio hyn fel cynllun wrth gefn pe bai tywydd oer yn creu problemau.

8.5 Roedd yr Aelod yn teimlo y dylid defnyddio hwn fel cynllun peilot ac na ddylid ei gyflwyno ar draws y Gwasanaeth nes y gellid gweld sut roedd y farchnad HVO yn datblygu.

8.6 Gofynnwyd a oedd ceisiadau cynllunio wedi'u gwneud ar gyfer storio'r HVO a chadarnhaodd PSTC Evans eu bod wedi gwneud hynny. Cadarnhaodd PSTC Evans hefyd fod profi'r tanwydd eisoes wedi digwydd o fewn y Gwasanaeth gyda'r offer hyfforddi. Nodwyd mai addasu'r fflyd bresennol oedd y mater mwyaf i'w oresgyn bob amser wrth ddefnyddio tanwydd amgen,

8.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd.**

## 9 PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU RHWNG AELODAU/CYFLOGEION

9.1 Cyflwynodd Matthew Powell, Dirprwy Glerc Monitro, y Protocol diwygiedig ar Gysylltiadau rhwng Aelodau/Cyflogeion a chadarnhaodd mai diben y papur oedd adolygu'r Protocol ar Gysylltiadau rhwng Aelodau/Cyflogeion (y Protocol) i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol.

9.2 Cyfeiriodd un o’r Aelodau at drydydd paragraff eitem 2.6 y protocol, a dywedodd eu bod yn teimlo bod rhai Aelodau wedi anwybyddu'r paragraff hwn mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Teimlent ymhellach ei fod yn broblem nad oedd unrhyw sôn am y berthynas rhwng swyddogion a'r Undebau o fewn y Protocol.

9.3 Cadarnhaodd y Dirprwy Glerc nad oedd y diwygiadau i'r Protocol yn cael eu gwneud er mwyn newid ei gwmpas, ond yn hytrach i grynhoi categori ehangach o weithiwr.

9.4 Ychwanegodd y Clerc ymhellach ei bod yn anochel y byddai'r Aelodau'n dymuno siarad â chriwiau tân lleol mewn perthynas â'r Adolygiad, a bod yr FBU wedi manteisio'n llawn ar eu gallu i gysylltu â'r Aelodau yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw. Nid oedd y Protocol yn ceisio cyfyngu hynny, dim ond gosod safonau ar gyfer arfer da.

9.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) cytuno y dylid mabwysiadu'r Protocol diwygiedig fel rhan o'r Cyfansoddiad.**

## 10 MONITRO PERFFORMIAD: BLWYDDYN ARIANNOL 2023/24

10.1 Cyflwynodd RhA Jones Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2023/24, a'i diben oedd darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, y perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), ac unrhyw weithgarwch digwyddiadau nodedig arall.

10.2 Gofynnodd un Aelod i'r Awdurdod ddiolch i bob aelod o staff am y gwaith atal ardderchog sy'n cael ei wneud ar draws y Gwasanaeth.

10.3 Mewn cysylltiad â'r cynnydd mewn galwadau ffug yn yr ysbyty, gofynnwyd a oedd posibilrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn llithro gyda'u buddsoddiad mewn systemau atal tân, ac felly'n trosglwyddo'r risg a'r baich ariannol i'r Gwasanaeth. Ymatebodd RhA Jones fod gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaeth a'r Bwrdd Iechyd, a'i fod yn hysbys bod gan y Bwrdd gynlluniau i fuddsoddi yn seilwaith eu systemau larwm er mwyn gwella'r sefyllfa.

10.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

## 11 CYNLLUN RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2024-2029 A CHYNLLUN GWEITHREDU RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2024-2025

11.1 Cyflwynodd RhA Jones y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2024-2029 a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) 2024-2025 i'r Aelodau. Roedd pwrpas y papur hwn yn ddeublyg; rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar CRMP 2024-2029, CRMIP 2024-2025 a'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig; a cheisio cymeradwyaeth i fersiwn derfynol y dogfennau uchod.

11.2 Mynegwyd pryder nad oedd rhagfynegiadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar gyfer llifogydd. Ymatebodd RhA Jones fod llifogydd yn anodd ei ragweld ac er y bu gostyngiad mewn tanau gwyllt eleni, bu cynnydd mewn llifogydd oherwydd y tywydd garw. Roedd y tîm cynllunio yn gwneud gwaith ar sut y gellid rhagweld hyn yn well yn y dyfodol.

11.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad adborth; a**
**ii) Chymeradwyo Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029, Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25 a'r Asesiad cysylltiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'w cyhoeddi.**

## 12 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT

12.1 Cyflwynodd RhA Jones y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft i'r Aelodau, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Cadarnhawyd bod y drafft hwn wedi'i gyflwyno i Archwilio Cymru cyn 31 Mai, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth uchod.

12.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023/24;**
**ii) nodi'r rhaglen waith ar gyfer 2024/25; a**
**iii) chymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24.**

**13 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24 A'R CYLCH GWAITH**

5.1 Cyflwynodd y PSTC Helen MacArthur adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i'r Aelodau (y Bwrdd) oedd yn rhoi manylion gwaith y Bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol ynghlwm yn atodiad 1.

13.2 Ymhellach, gofynnwyd am gymeradwyaeth yr Aelodau i gynyddu aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol. Nodwyd y newidiadau arfaethedig hyn yn y Cylch Gorchwyl sydd wedi'i ddiweddaru yn atodiad 2.

13.3 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol am eu gwaith yn y maes pwysig hwn.

13.4 **PENDERFYNWYD:**

- **i) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2023/24; a**
- **ii) chymeradwyo cylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol, gan nodi'r cynnydd yn yr aelodaeth i 10 aelod.**

**14 DIWEDDARIAD AR BROSES UNIONI GWAHANIAETHU AR SAIL OEDRAN**

14.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y papur ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, gyda'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y newidiadau statudol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn dilyn heriau cyfreithiol sylweddol, a elwir yn fwy cyffredin yn ymarferion unioni pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).

14.2 Gofynnodd un o'r Aelodau pwy oedd yn ysgwyddo'r risg ariannol mewn perthynas â'r mater cymhleth hwn. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur fod y risg ariannol yn y pen draw yn cael ei ysgwyddo gan y gronfa bensiwn a bod amcangyfrif o'r ôl-ddyledion ar gyfer yr ail ddewis ac effaith y gwahaniaethu ar sail oedran wedi'i gynnwys ym mhrisiad y Cynllun Pensiwn ac y byddai'n cael ei adlewyrchu yng nghyfraniadau'r gweithwyr. Derbyniai'r Gwasanaeth arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol er mwyn sicrhau bod y gost yn aros yn niwtral i'r Gwasanaeth.

14.3 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi'r gofynion statudol i weithredu'r newidiadau a wnaed i reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân; a**
- **ii) Chymeradwyo'r cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gyfer rheoli achosion y mae'r deddfau treth yn effeithio arnynt.**

**15 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIAD MEWNOL 2023/24**

15.1 Cyflwynodd y PSTC HM y papur ar Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2023/24. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn ofynnol o dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2) i'r Awdurdod gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system Reoli Mewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

15.2 Ymhellach, mae Safonau Archwilio Mewnol 2017 CIPFA i'r Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd i'r Awdurdod ynglŷn â'r holl system reolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

15.3 Mae'r adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.

15.4 Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio eisoes wedi craffu ar y papur hwn a'i fod wedi ei gefnogi i'w gymeradwyo.

15.5 Nododd y Trysorydd mai'r unig argymhelliad oedd o unrhyw bwys yn yr adroddiad oedd seiberddiogelwch; fodd bynnag, roedd yr Awdurdod yn cymryd camau i wella amddiffynfeydd seiber y Gwasanaeth.

15.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.**

**16 DATGANIAD CYFRIFON 2023/24**

16.1 Esboniodd y Trysorydd mai pwrpas y papur hwn oedd cadarnhau'r sefyllfa alldro diwedd blwyddyn ar gyfer 2023/24 a chyflwyno'r Datganiad Cyfrifon heb eu harchwilio ar gyfer 2023/24. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r amserlen ar gyfer archwilio'r datganiad cyfrifon hefyd.

16.2 Nodwyd bod yr adroddiad hefyd yn rhoi cadarnhad ynglŷn â materion ariannol eraill sy'n ymwneud â 2023/24, gan gynnwys sefyllfa'r Awdurdod o ran cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, dileu dyledion drwg, a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y flwyddyn gyfan.

16.3 Tynnwyd sylw'r Aelodau at baragraff 11 yr adroddiad, a nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn llofnodi fersiwn derfynol y Datganiad, ar ôl ei archwilio ac ar ran yr Awdurdod, a fyddai wedyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod dilynol i'w gymeradwyo'n ffurfiol. Felly, fel arfer da,

cadarnhaodd y papur hwn y sefyllfa gyllidol ar 31 Mawrth 2024 er mwyn gallu cyfeirio ati.

16.4 Tynnodd y Trysorydd sylw ymhellach fod y papur hefyd wedi cadarnhau safle cronfeydd wrth gefn diwedd blwyddyn yr Awdurdod, a dileu deunaw dyled ddrwg, sef cyfanswm o £1,492 yn y flwyddyn. Er bod Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru wedi caniatáu goddefgarwch am gyfnod estynedig ers Covid, roedd swyddogion Cyllid yr Awdurdod wedi ymdrechu'n wirfoddol i gadw at amserlen wreiddiol y rheoliadau ar gyfer cau cyfrifon ac wedi llwyddo i wneud hynny. Diolchwyd i Helen Howard, y Pennaeth Cyllid a Chaffael sydd bellach wedi ymddeol, am ei gwaith cydwybodol hi a'i thîm.

16.5 Nodwyd bod paragraff 4 ar dudalen 266 y pecyn yn dangos bod gwariant gwirioneddol ar gyfer 2023/24 yn £44.3m yn erbyn cyllideb o £44.4m.

16.6 Fel yr eglurwyd ym mharagraff 5, roedd y gyllideb gyfalaf o £6.532m ar gyfer 2023/24 yn cynnwys £3 miliwn i brynu tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, y disgwylir iddi gael ei chwblhau yn ystod 2024/25. Ymestynnwyd gweddill y rhaglen gyfalaf ac roedd blaenoriaeth i aros o fewn y gyllideb. Gofynnwyd i Aelodau nodi bod y gwariant yn £2.2m erbyn diwedd y flwyddyn, ond gofynnwyd i £3.9m gael ei ddwyn ymlaen. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael eu diweddaru am hyn yn eu cyfarfod ar 17 Mehefin, ac roedd Gweithgor y Gyllideb yn craffu ar ddileu dyledion.

16.7 Tanwariant 'ymylol' o £94mil oedd y sefyllfa derfynol. Nodwyd y prif benawdau gwariant refeniw a'r sefyllfa alldro drafft yn y tabl o dan baragraff 14 ar dudalen 268 y pecyn. Roedd arbedion o swyddi gweigion wedi lliniaru'r setliad cyflog cenedlaethol uwch na'r disgwyl.

16.8 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf heb ei harchwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, gan gynnwys y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel y nodwyd yn yr adroddiad;**
**ii) nodi'r sefyllfa o ran mantolen 31/03/2024 heb ei harchwilio;**
**iii) derbyn a nodi'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2023/24, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A;**
**iv) nodi'r dangosyddion darbodus fel yr oeddent ym mhedwerydd chwarter 2023/24; a**
**v) nodi'r dileadau a gymeradwywyd gan y Trysorydd, yn unol â'r rheoliadau ariannol.**

## 17 PENODI SWYDDOG PRIODOL AR GYFER A.36 DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000

17.1 Eglurodd y Clerc mai pwrpas y papur hwn oedd gofyn i'r Aelodau benodi'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc fel y swyddogion priodol, a elwir yn "berson cymwys", er mwyn gallu gweithredu'r eithriad o dan adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("DRhG")

17.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) dynodi'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc fel y personau cymwysedig at ddiben gweithredu'r eithriad yn adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.**

## 18 MATERION BRYS

18.1 Nid oedd materion brys i'w codi.

## RHAN II

## 19 ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL

19.1 Cadarnhaodd y PST, yn dilyn ymarferiad caffael helaeth, fod cwmni o'r enw Crest Consultancy wedi'i gyflogi i gynnal yr adolygiad diwylliant annibynnol i Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Byddai Crest yn cyflenwi gwasanaeth cwbl ddwyieithog.

19.2 Mae Crest yn gwmni â phrofiad helaeth o edrych ar thema diwylliant a sut roedd Gwasanaethau Tân ac Achub eraill wedi gwneud eu gwaith yn hyn o beth.

19.3 Byddai cyfarfod gyda Crest yn cael ei gynnal ddydd Mercher 17 Gorffennaf, pan fyddai brîff strategol yn cael ei nodi. Cafodd yr holl ddogfennau y gofynnwyd amdanynt eu cyflwyno iddynt ac ym mis Awst, byddai arolwg staff annibynnol yn cael ei anfon allan. Byddai cyfweliadau staff a grwpiau ffocws yn cael eu cynnal ym mis Hydref/Tachwedd 2024 er mwyn i Crest ganfod barn staff tuag at ddiwylliant dros y tair blynedd diwethaf. Mae'n debygol y gofynnir i'r Aelodau gymryd rhan yn yr agwedd hon ar yr adolygiad.

19.4 Byddai adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2025.

19.5 Gofynnodd un Aelod a fyddai Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw gyfraniad ariannol tuag at yr adolygiad hwn gan fod y cais i'w gynnal wedi dod ganddyn nhw. Cadarnhaodd y PST na fyddai unrhyw gyfraniad ariannol gan Lywodraeth Cymru.

## 20 CANLYNIAD Y CYN-WRANDAWIAD GAN Y TRIBIWNLYS CYFLOGAETH

20.1 Cynghorwyd yr Aelodau y gallai'r eitem hon fod yn destun apêl o hyd ac y dylent drin y mater yn gyfrinachol.

20.2 Rhoddwyd rhywfaint o gefndir i'r eitem hon i'r Aelodau a dywedwyd wrthynt fod cwyn wedi'i chyflwyno yn erbyn uwch swyddog yn 2023. Bryd hynny, cafwyd ymchwilydd allanol i gynnal ymchwiliad annibynnol a hysbyswyd Llywodraeth Cymru oherwydd lefel uchel y swyddog dan sylw.

20.3 Trafodwyd canlyniad yr ymchwiliad gyda'r ddau weithiwr ac ym mis Rhagfyr 2023, cychwynnodd yr achwynydd achos tribiwnlys cyflogaeth gan eu bod yn parhau i fod yn anfodlon, er gwaethaf yr ymchwiliad annibynnol. Yna daeth hyn yn fater o ddiddordeb cyhoeddus oherwydd penodi'r uwch swyddog i rôl â phroffil uchel yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a'r sylw yn y cyfryngau wedi hynny.

20.4 Roedd canlyniad y gwrandawiadau ar gyfer Tribiwnlys Cyflogaeth wedi dod i'r fei ac roedd y dyfarniad yn y parth cyhoeddus. Derbyniwyd safbwynt y Gwasanaeth bod y rhan fwyaf o'r honiadau wedi dyddio ac yn annhebygol o lwyddo. Byddai dau honiad bellach yn mynd yn eu blaenau, a byddai'r rhain yn mynd i wrandawiad rhagarweiniol ynghyd â dwy gŵyn arall yn ymwneud â'r modd y rheolwyd yr achwyniad.

20.5 Roedd y gweithiwr dan sylw yn ôl yn y gweithle ac yn cael ei gefnogi gan y Gwasanaeth.

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Hydref 2024.

**Daeth y cyfarfod i ben: 11:43**

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem 8 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **30 Medi 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.

6 Ar 1 Gorffennaf aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i gyfarfod o'r Bartneriaeth Gymdeithasol a gynhaliwyd o bell.

7 Ar 12 Gorffennaf aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Dathlu Cyflawniad ar gyfer recriwtiaid newydd a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân y Rhyl.

8. Ar 23 Gorffennaf aeth y Cadeirydd i gyfarfod o'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gynhaliwyd o bell.

9. Ar 2 Medi, aeth y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân i Wasanaeth Coffa ar gyfer diffoddwyr tân a fu farw a gafodd ei gynnal yn y Goedardd Goffa Genedlaethol yn Swydd Stafford.

10. Ar 5 Medi aeth y Dirprwy Gadeirydd i sesiwn friffio ar-lein gan Crest Advisory Consultants ynghylch yr adolygiad annibynnol o ddiwylliant GTAGC.

11. Ar 19 Medi aeth y Dirprwy Gadeirydd i Seremoni Dathlu Cyflawniad yng Ngorsaf Dân y Waun ar gyfer y bobl ifanc hynny a oedd wedi cwblhau Cwrs y Ffenics yn llwyddiannus.

12. Ar 20 Medi aeth y Cadeirydd i gyfarfod hybrid o'r Comisiwn Tân.

13. Ar 26 Medi aeth y Cadeirydd i weminar diogelwch adeiladau a gynhaliwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â newidiadau polisi a deddfwriaethol arfaethedig.

14. Bu'r Dirprwy Gadeirydd hefyd yn angladd diffoddwr tân oedd wedi ymddeol, sef Ben Dudley, ac angladd y Swyddog Rhanbarthol Cynorthwyol (ADO) W.G.Jones, ill dau yn Amlosgfa Llaneurgain.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |

# Llywodraethiant Awdurdodau Tân ac Achub

Medi 2024



Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn dan adran 41 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Senedd ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus sy’n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo’r pŵer i gyflwyno adroddiadau i’r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân gyda’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu’n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Adroddiad Cryno

Argymhellion 8

Yr hyn a adolygwyd gennym a pham 9

## Adroddiad manwl

Yn gyffredinol, nodir rolau a chyfrifoldebau mewn strwythurau llywodraethu yn glir ond nid yw dealltwriaeth o rolau bob amser yn cael ei harddangos yn ymarferol 11

Mae'r model llywodraethu ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) yn cydnabod pwysigrwydd cynrychiolaeth gymunedol, ond nid yw'r trefniadau'n adlewyrchu natur arbenigol eu swyddogaethau ac nid yw cyfraniad aelodau ATA yn cael ei werthuso fel arfer. 12

Mae ATAau wedi sefydlu trefniadau i oruchwylio cydymffurfiaeth aelodau â chodau ymddygiad, ac mae aelodau'n gyffredinol yn gweithredu yn unol â gwerthoedd ac ymddygiadau disgwyliedig. 15

Mae gan ATAau bolisïau a threfniadau chwythu'r chwiban ar waith ac maent yn eu hadolygu yn dilyn canfyddiadau Adolygiad Diwylliant ATA De Cymru 16

Mae ATAau yn adolygu effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu ond nododd Llywodraeth Cymru yn flaenorol fod angen diwygio strwythurau llywodraethu ATA 16

## Atodiad

1 Cwmpas archwilio, ymagwedd a dulliau, a ffeithiau allweddol am awdurdodau tân ac achub 18

# Adroddiad Cryno

1 Fel rhan o raglen astudiaethau llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2023-24, gwnaethom adolygu'r trefniadau llywodraethu ar draws y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.

2 Gwnaethom archwilio llywodraethiant ATA am sawl rheswm, gan gynnwys y canlynol:

- nid yw Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â'i chynigion i ddiwygio strwythurau llywodraethu ATAau, er ei bod wedi dod i'r casgliad yn ei Phapur Gwyn yn 2018 bod angen diwygio strwythurau llywodraethu ATA; ac
- mae'r hinsawdd ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd yn golygu bod trefniadau llywodraethu cryf yn arbennig o bwysig.

# Negeseuon allweddol

3 Canfuom y canlynol:

- mae rolau a chyfrifoldebau aelodau ATA wedi'u nodi'n glir ond nid ydynt bob amser yn cael eu hadlewyrchu yn eu gweithredoedd yn ymarferol.
- fodd bynnag, yn gyffredinol, mae aelodau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac ymddygiadau disgwyliedig.
- mae trefniadau llywodraethu yn cydnabod pwysigrwydd cynrychiolaeth gymunedol ond nid ydynt yn adlewyrchu natur arbenigol swyddogaethau ATA.
- er bod yr ATAau yn adolygu effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu, fel arfer ni chaiff cyfraniad aelodau unigol ATA ei werthuso. Mae ein tystiolaeth hefyd yn awgrymu bod gweithgaredd hyfforddi a datblygu yn gyfyngedig ac nad yw bob amser yn cael ei lywio gan anghenion aelodau.

4 Rydym wedi gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru adolygu'r model llywodraethu, ac i ATAau gryfhau trefniadau hyfforddi a datblygu.

# Ffeithiau allweddol

Mae'n rhaid i'r ATAau wneud darpariaeth ar gyfer y **gwasanaethau allweddol**, megis:

- hyrwyddo diogelwch tân
- diffodd tân
- ymateb i ddamweiniau traffig ar y ffyrdd
- ymdrin ag argyfyngau eraill rhagnodedig





Mae pob aelod o'r ATAau yn gynghorwyr, wedi'u henwebu gan eu hawdurdod cynnal.

Mae cyllidebau refeniw cyfun y tri ATA oddeutu **£200 miliwn** ar gyfer 2024-25, sy'n cyfateb i **£64** y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.



Mae gan aelodau ATAau hawl i'r cyflogau canlynol:

- cyflog sylfaenol aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yw **£2,632**
- cyflog cadeirydd yw **£11,965**
- cyflog dirprwy gadeirydd neu gadeirydd pwyllgor yw **£6,372**



Mae **tri ATA** yng Nghymru – Gogledd Cymru, De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru (**Arddangosyn 1**).

1 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Penderfyniadau 2024 i 2025, Mai 2024

**Arddangosyn 1: Awdurdodau Tân ac Achub Cymru**

Mae'r map isod yn dangos ardal ddaearyddol pob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Argymhellion

## Arddangosyn 2: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

### Argymhellion

**Mynd i'r afael â gwendidau yn y model llywodraethu**

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at wendidau yn y model llywodraethu ar gyfer ATAau. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain, rydym yn argymell y canlynol:

A1 Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r model llywodraethu er mwyn sicrhau:

- 1.1 bod aelodaeth awdurdodau tân ac achub yn sicrhau gwybodaeth, arbenigedd ac amrywiaeth briodol i gyflawni eu rolau llywodraethu yn effeithiol; ac
- 1.2 mae trefniadau atebolrwydd clir i werthuso cyfraniad aelodau ATA yn rheolaidd.

A2 Mae awdurdodau tân ac achub yn cryfhau'r ddarpariaeth o hyfforddiant a datblygiad i aelodau drwy:

- 2.1 sefydlu trefniadau i asesu anghenion datblygu'r aelodau yn rheolaidd er mwyn llywio hyfforddiant a datblygiad; a
- 2.2 gwerthuso effeithiolrwydd hyfforddiant a gweithgaredd datblygu wrth sicrhau dealltwriaeth aelodau o'r trefniadau llywodraethu a'u cyfrannu atynt.

# Adroddiad Manwl

## Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Fel rhan o raglen astudiaethau llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol[2] yn 2023-24, gwnaethom adolygu'r trefniadau llywodraethu ar draws y tri Awdurdod Tân ac Achub. Ystyriodd ein hadolygiad bum elfen allweddol:

- eglurder a phriodoldeb strwythurau llywodraethu;
- swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol o fewn y strwythurau hyn;
- diwylliant llywodraethu;
- seilwaith i gefnogi llywodraethu effeithiol; a
- threfniadau i adolygu a chryfhau effeithiolrwydd llywodraethu.

2 Gwnaethom archwilio llywodraethiant ATA am sawl rheswm. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn destun diwygiad diweddar, ond nid yw'r ATAau wedi gwneud hynny. Er enghraifft, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gwnaeth hon newidiadau i brif gynghorau ac roedd yn ofynnol iddynt weithio'n rhanbarthol mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau). Nid oedd ATAau yn destun y diwygiad deddfwriaethol hwn.

3 Y cynnig diweddaraf ar gyfer diwygio a chryfhau llywodraethiant Awdurdodau Lleol oedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru 2018[3]. Nododd y papur ei achos dros ddiwygio drwy ddadlau nad yw'r trefniadau presennol 'mor atebol ag y dylent fod'. Roedd yn beirniadu'r ffaith bod diffyg naill ai aelodau a etholwyd yn uniongyrchol neu ATAau a oedd yn ffurfiol atebol i gorff etholedig lleol neu genedlaethol[4]. Roedd hefyd yn feirniadol bod aelodau enwebedig ATA yn gynghorwyr 'meinciau cefn' yn bennaf heb fawr o wybodaeth na phrofiad o'r sector Tân ac Achub. Roedd yn dadlau nad oedd llawer o feysydd lle gallai'r aelod etholedig ychwanegu gwerth fel hyrwyddwr dros ei gymuned, gan nodi trafodaethau prin fel cau gorsafoedd fel enghreifftiau o benderfyniadau sy'n wleidyddol neu sydd angen mewnwelediad cymunedol.

2 Mae'r adroddiad hwn yn cwblhau ail ran adolygiad dau gam yn ystyried y trefniadau llywodraethu ar draws Awdurdodau Diben Arbennig yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2024, cyhoeddwyd adroddiad ar drefniadau llywodraethu ar draws yr APCau yn dilyn cam cyntaf yr adolygiad hwn.

3 Llywodraeth Cymru, Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, Tachwedd 2018

4 Mae'n ofynnol i aelodau etholedig weithredu er budd yr ATA, yn hytrach na'u hawdurdod enwebu.

4 Cynigiodd y Papur Gwyn ddiwygiadau llywodraethu i gyflawni'r canlynol:

- lleihau cynrychiolwyr aelodau etholedig ATA i un fesul cyngor enwebu;
- ei gwneud yn ofynnol i enwebeion fod yn aelod o gabinet y cyngor; a
- chyflwyno aelodau anweithredol (traean o'r aelodaeth bresennol o ATA), a benodir yn fwyaf tebygol gan Lywodraeth Cymru.

5 Nododd y Papur Gwyn y byddai hyn yn darparu llywodraethiant symlach, yn cadw'r wybodaeth leol a ddygir gan gynghorwyr, ac yn cynyddu gwybodaeth dechnegol drwy benodiadau uniongyrchol. Byddai hyn yn dod ag ATAau yn fwy cyson â'r APCau, sy'n cynnwys traean o benodeion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghoriad ac adborth gan ATAau ac eraill, ni chyflwynwyd cynigion y Papur Gwyn yn dilyn ymgynghoriad.

6 Mae newid yn nodwedd sylfaenol o lywodraethiant ATA. Yn ystod cylch etholiadol 2017-22, gwnaed cyfanswm o 40 o newidiadau i aelodaeth ATAau yng Nghymru, sef tua 52% o'r aelodaeth gyffredinol. Digwyddodd newidiadau pellach mewn aelodaeth yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2022.

7 Mae trefniadau llywodraethu yn arbennig o bwysig o ystyried yr hinsawdd ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynyddu pwysigrwydd gosod amcanion, goruchwyliaeth strategol, a chraffu ar berfformiad yn effeithiol i sicrhau bod ATAau yn darparu gwerth am arian.

8 Dechreuodd ein hastudiaeth cyn i Lywodraeth Cymru benodi pedwar Comisiynydd i redeg Awdurdod Tan ac Achub De Cymru ym mis Chwefror 2024. Mae ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu yn seiliedig ar y model Llywodraethu sydd ar waith yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru cyn penodi'r Comisiynwyr.

9 Ers i'n hadolygiad ddechrau mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd hefyd wedi cyhoeddi ei adroddiad yn dilyn ei ymchwiliad i Lywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub – 'Seinio'r Larwm: Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub.' Darparodd Archwilydd Cyffredinol Cymru dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r ymchwiliad hwn.

10 Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r ffynonellau canlynol:

- adolygiad o dystiolaeth ddogfennol;
- cyfweliadau gydag uwch swyddogion ac aelodau o'r ATAau a Chomisiynwyr Awdurdod Tan ac Achub De Cymru, Llywodraeth Cymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- arsylwadau ar ystod o gyfarfodydd pwyllgor ac awdurdod ATA; ac
- arolwg o uwch swyddogion ac aelodau ATA (gan gynnwys cyn-aelodau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru).

## Yn gyffredinol, nodir rolau a chyfrifoldebau mewn strwythurau llywodraethu yn glir ond nid yw dealltwriaeth o rolau bob amser yn cael ei harddangos yn ymarferol

11 Yn gyffredinol, mae ATAau yn nodi cyfrifoldebau trefniadau llywodraethu swyddogion ac aelodau yn glir. Mae gan bob un gyfansoddiad sy'n nodi ei fframwaith llywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys cylch gorchwyl pwyllgorau sy'n cwmpasu aelodaeth a rôl eang y pwyllgorau. Cefnogir cyfansoddiadau ATA gan ddogfennau eraill, er enghraifft deunyddiau cynefino ar gyfer aelodau sy'n gosod cadwyn reoli o fewn y gwasanaeth tân. Fodd bynnag, nid oes gan Awdurdodau Lleol drefniadau ffurfiol ar waith i adolygu dealltwriaeth yr aelodau o'r trefniadau llywodraethu a'u rôl o fewn y trefniadau llywodraethu.

12 Mae aelodau ATA yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gyffredinol roeddent yn gallu eu disgrifio. Dywedodd yr Aelodau wrthym fod ganddynt ddealltwriaeth glir o ble mae penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn y strwythur llywodraethu a'u cyfrifoldebau llywodraethu eu hunain. Gwelsom gyfarfodydd ffurfiol lle arddangoswyd y ddealltwriaeth hon, a chadeiriwyd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd a welsom yn effeithiol. Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau a'r swyddogion a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno bod cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n dda.

13 Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn ymddangos bod aelodau'n deall neu'n gweithredu'n glir yn unol â'u rolau. Clywsom bryderon bod y model llywodraethu yn arwain at densiwn cynhenid rhwng rôl aelodau fel cynghorwyr ac aelodau ATA. Er enghraifft, clywsom bryderon bod aelodau weithiau'n canolbwyntio ar ystyriaethau plwyfol yn hytrach na'r ATA yn ei gyfanrwydd.

14 Mae eglurder ynghylch cyfrifoldebau allweddol ynghylch gwneud penderfyniadau yn agwedd sylfaenol ar lywodraethu da. Mae'r rhain yn cael eu gosod a'u deall yn glir ar y cyfan, ond mae perygl bod diffyg dealltwriaeth mewn ymarfer yn gwanhau effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu.

## Mae'r model llywodraethu ar gyfer ATAau yn cydnabod pwysigrwydd cynrychiolaeth gymunedol, ond nid yw'r trefniadau'n adlewyrchu natur arbenigol eu swyddogaethau ac nid yw cyfraniad aelodau ATA yn cael ei werthuso fel arfer.

15 Mae aelodaeth ATAau yn cynnwys cynghorwyr etholedig yn unig, a enwebwyd gan eu cyngor cynnal. Gwnaethom sylwadau o'r blaen mewn ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru yn 2018 bod cryn rinweddau i gynghorau yn enwebu aelodau o ATAau. Mae hyn yn cynnwys adborth y mae aelodau'r cyngor yn ei ddarparu ar bryderon cymunedol cyfreithlon. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y broses enwebu yn deg ac yn dryloyw i sicrhau cynrychiolwyr sydd â statws, sgiliau a gallu digonol. Mae sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn ddigon medrus a gwybodus yn bwysig er mwyn bod yn sail i lywodraethu da.

16 Yn y model llywodraethu presennol ar gyfer ATAau, mae perygl nad oes gan yr aelodau etholedig y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol sy'n adlewyrchu eu swyddogaethau arbenigol. Mae ymatebion aelodau i'n harolwg yn awgrymu eu bod yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth hyn (gweler **atodiad 1** am fanylion y gyfradd ymateb i'n harolwg). Fodd bynnag, clywsom bryderon hefyd yn ystod gwaith maes nad yw aelodau yn gyfunol bob amser yn meddu arnynt nac yn eu harddangos. Mae ymatebion ein harolwg a'n gwaith maes hefyd yn awgrymu amrywiant wrth ystyried yr wybodaeth arbenigol a natur y rôl wrth enwebu aelodau i ATAau. Mae hyn yn golygu bod risg nad oes gan aelodau ddigon o wybodaeth berthnasol am wasanaethau tân ac achub bob amser i allu cyflawni eu rôl lywodraethu'n effeithiol.

17 Felly, mae angen i'r Awdurdod Lleol ddarparu hyfforddiant sylweddol i aelodau i'w galluogi i ymgymryd â'u rolau. Fodd bynnag, mae materion systematig ehangach yn golygu efallai na fydd hyfforddiant yn ddigon i liniaru'r risg hon. Mae sicrhau bod aelodau sy'n cael eu penodi heb ystyried natur arbenigol y rôl yn derbyn hyfforddiant a datblygiad priodol yn anodd oherwydd:

- mae cyfradd trosiant aelodau yn gymharol uchel. Mae hyn yn cyfyngu ar i ba raddau y gall unigolion ddatblygu a chadw gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i'r rôl.
- clywsom am rai pryderon fod maint aelodaeth yn ei gwneud hi'n anodd datblygu aelodaeth wybodus ac ymgysylltiol. Yn flaenorol, roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn meincnodi maint aelodaeth yr ATA gyda chyrff eraill, ac yn nodi hwn fel gwendid mewn trefniadau llywodraethu ATAau.

18 Gall maint aelodaeth gyflwyno heriau wrth ymgysylltu ag aelodau. Datblygodd yr ATAau eu trefniadau yn ystod ac ar ôl y pandemig i ddarparu ar gyfer presenoldeb o bell, ac mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd ATA bellach yn hybrid. Fodd bynnag, er bod y trefniadau hyn yn ei gwneud yn haws i aelodau fynychu cyfarfodydd, clywsom bryderon yn ystod ein gwaith maes bod rhai aelodau sy'n mynychu o bell weithiau'n diffodd eu camerâu yn ystod cyfarfodydd ac nad ydynt yn ymgysylltu â thrafodaethau.

19 Er mwyn helpu i wella ymgysylltiad a dealltwriaeth aelodau, mae ATAau wedi cyflwyno gweithgorau llai i archwilio materion penodol. Mae swyddogion wedi disgrifio'r ymgysylltiad a'r 'her' gwell dilynol y maent yn eu derbyn gan aelodau mewn sesiynau preifat wrth graffu ar bolisïau neu benderfyniadau arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys craffu a'r her sy'n gysylltiedig â gosod cyllideb flynyddol. Fodd bynnag, mae hyn yn creu perygl o leihau tryloywder y broses o wneud penderfyniadau, yn enwedig gan mai anaml y caiff y ddadl ei hailadrodd mewn cyfarfodydd cyhoeddus neu ei chrynhoi mewn papurau cyhoeddus.

20 Er bod ein hymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod aelodau'n gyffredinol yn teimlo eu bod yn gallu holi swyddogion yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, ar y cyfan, gwnaethom sylwi bod craffu a herio yn gyfyngedig. Gwnaethom arsylwi ar nifer o gyfarfodydd o wahanol bwyllgorau lle nad oedd her neu gwestiynu cyfyngedig. Er enghraifft, gwnaethom arsylwi ar ddau gyfarfod mewn gwahanol ATAau lle roedd yna graffu cyfyngedig ar y cofrestrau risg strategol a oedd ar agendâu priodol. Gwelsom hefyd enghreifftiau o adroddiadau 'i'w nodi' yn cael eu darparu i bwyllgorau sydd â chyfrifoldeb dros 'graffu', sy'n awgrymu diffyg eglurder o'r hyn a ddisgwylir o waith craffu yng nghyd-destun trefniadau llywodraethu. Clywsom bryderon hefyd ynghylch effeithiolrwydd neu eglurder trefniadau 'craffu' yn fwy cyffredinol o fewn rhai ATAau. Mae hyn yn golygu bod risg na chaiff swyddogion eu dwyn i gyfrif yn effeithiol gan aelodau, a allai wanhau cadernid rheolaethau mewnol i reoli risgiau llywodraethu.

21 Mae penodi aelodau ATA o gynghorau lleol yn unig hefyd wedi arwain at ddiffyg amrywiaeth mewn aelodaeth. Yn ein hymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, awgrymwyd y gallent annog awdurdodau i greu Awdurdodau Tân ac Achub cynhwysol a chynrychioliadol gyda mwy o aelodau etholedig benywaidd, lleiafrifoedd ethnig ac iau yn cael eu henwebu. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o Aelodau ATA yn ddynion, gydag ychydig iawn o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. Mae'r diffyg amrywiaeth yn broblem oherwydd, fel yr amlygwyd gan y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, mae'n 'bwysig felly bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau ar ein rhan... yn deall eu cymunedau lleol ac yn gynrychiadol ohonynt.'[5]

22 Ar y cyfan, mae perygl nad yw'r model llywodraethu presennol yn cefnogi aelodau ATA i fod â'r cyfuniad angenrheidiol o sgiliau a gwybodaeth i allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a dwyn y Gwasanaeth Tân ac Achub i gyfrif yn effeithiol.

23 Er bod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod ATAau yn defnyddio dulliau anffurfiol, ad hoc o ddarganfod pa hyfforddiant y gallai fod ei angen ar aelodau, nid yw'r un o'r ATAau yn cynnal archwiliadau sgiliau aelodau rheolaidd i lywio datblygiad aelodau. O ganlyniad, nid yw hyfforddiant bob amser yn cael ei ddatblygu mewn ymateb i asesiad o anghenion aelodau.

24 O'r tri ATA, dim ond Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n darparu rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi a datblygu i aelodau. Mae ATAau De Cymru a Gogledd Cymru yn cynnig hyfforddiant a hyfforddiant cynefino a hyfforddiant mewn meysydd penodol, megis pensiynau neu lywodraethu, ond mae'n tueddu i fod yn hyfforddiant ad hoc. Ni ddaethon ni o hyd i fawr o dystiolaeth hefyd o gynllunio olyniaeth i ddatblygu sgiliau arwain aelodau gyda'r bwriad iddynt ddod yn gadeiryddion awdurdod yn y dyfodol, er enghraifft.

25 Nid yw cyfraniad aelodau at lywodraethianr ATAau yn cael ei werthuso fel arfer ychwaith. Er bod aelodau ATA yn cael eu hethol i'w cynghorau cynnal, nid ydynt yn cael eu hethol yn uniongyrchol i'r ATAau. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru hefyd yn amlygu pryderon nad yw'r model hwn yn darparu atebolrwydd democrataidd. Felly, er ei bod yn rôl â thâl ni all ATAau ddangos y gwerth am arian y mae aelodau'n ei ddarparu. Mae absenoldeb unrhyw werthusiad o gyfraniadau'r aelodau hefyd yn lleihau'r cyfle i ddeall a mynd i'r afael â'u hanghenion hyfforddi a datblygu. At ei gilydd, mae ein canfyddiadau a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn awgrymu nad yw'r hyfforddiant a ddarperir i aelodau yn mynd i'r afael â'r risg yn gyson bod diffyg gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd. O ganlyniad, nid ydym yn sicr bod gan bob aelod o ATA bob tro y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i ymgymryd â'u rôl i lywodraethu'n effeithiol.

5 Adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, Mawrth 2014

## Mae ATAau wedi sefydlu trefniadau i oruchwylio cydymffurfiaeth aelodau â chodau ymddygiad, ac mae aelodau'n gyffredinol yn gweithredu yn unol â gwerthoedd ac ymddygiadau disgwyliedig.

26 Roedd y rhan fwyaf o'r ymddygiad a welsom yng nghyfarfodydd a chyfarfodydd pwyllgor ATA yn gyson â'r gwerthoedd a'r ymddygiadau disgwyliedig. Cytunodd y rhan fwyaf o aelodau ATA a ymatebodd i'n harolwg fod pob ATA wedi nodi ei ddisgwyliadau o ran swyddogion ac aelodau mewn ystod o ddogfennau. Roedd y rhai a holwyd yn gallu nodi achosion lle roedd ymddygiad a oedd yn anghyson â'r gwerthoedd a'r ymddygiadau disgwyliedig wedi cael eu herio a'u trin, ac fe welsom hyn wrth arsylwi ar gyfarfodydd.

27 Fodd bynnag, amlygodd ein harolygon o aelodau ATA ac uwch swyddogion ychydig o achosion pan oedd ymatebwyr yn teimlo na chafodd ymddygiad gwael neu amhriodol ei drin ar unwaith. Gwelsom achosion o'r fath hefyd, er enghraifft iaith a allai fod yn amhriodol neu'n anffurfiol, fel petai'n cael ei goddef mewn cyfarfod ffurfiol. Fodd bynnag, ymddengys bod ymddygiad cyffredinol yr aelodau yn y cyfarfodydd a welsom yn unol â'r gwerthoedd a'r ymddygiadau disgwyliedig.

28 Mae ATAau wedi sefydlu pwyllgorau safonau sy'n cwrdd yn rheolaidd ac sydd â chylch gorchwyl clir. Mae pob pwyllgor safonau yn adrodd yn flynyddol i'w Awdurdod Tân priodol ac mae rhai yn gweithio'n rhagweithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth a monitro cydymffurfiaeth aelodau â chodau ymddygiad.

29 Mae gan aelodau a swyddogion berthynas waith gadarnhaol ar y cyfan. Mae mwyafrif yr aelodau a'r uwch swyddogion yn credu eu bod yn cael gwybodaeth glir, gynhwysfawr ac amserol i lywio eu penderfyniadau. Mae aelodau hefyd fel arfer yn dilyn cyngor proffesiynol swyddogion. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod perthnasoedd gwaith adeiladol ac arddangos ymddygiadau a gwerthoedd disgwyliedig yn helpu i fod yn sail i ddiwylliant llywodraethu priodol.

## Mae gan ATAau bolisïau a threfniadau chwythu'r chwiban ar waith ac maent yn eu hadolygu yn dilyn canfyddiadau Adolygiad Diwylliant ATA De Cymru

30 Nid oedd yr astudiaeth hon yn adolygiad manwl o effeithiolrwydd trefniadau chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, gwelsom fod gan bob ATA bolisi chwythu'r chwiban yn nodi gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion o'r fath, a daethom o hyd i dystiolaeth o ATAau yn gweithio i gryfhau eu trefniadau er mwyn i staff godi pryderon. Mae'r ffaith bod ATAau yn cydnabod yr angen i gryfhau'r trefniadau chwythu'r chwiban yn cytuno ag adroddiad Adolygiad Diwylliant ATA De Cymru[6], a nododd ddiffyg anogaeth a chefnogaeth i bobl godi llais, ac nid oes digon o weithredu pan fyddant yn gwneud hynny.

## Mae ATAau yn adolygu effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu ond nododd Llywodraeth Cymru yn flaenorol fod angen diwygio strwythurau llywodraethu ATA

31 Mae pob ATA wedi adolygu agweddau ar eu trefniadau llywodraethu, ac mae eu datganiadau llywodraethu blynyddol yn gyfredol. Mae datganiadau llywodraethu blynyddol yn nodi sut mae ATAau yn adolygu effeithiolrwydd eu fframweithiau llywodraethu. Maent yn cynnwys y ffynonellau tystiolaeth y maent yn tynnu arnynt, y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i gryfhau trefniadau llywodraethu a diweddariad ar gamau gweithredu o flynyddoedd blaenorol. Mae ATAau hefyd wedi edrych ar agweddau penodol ar eu trefniadau llywodraethu. Er enghraifft, adolygodd ATA Gogledd Cymru lywodraethiant mewn perthynas â threfniadau gwneud penderfyniadau gweithredol y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac mae swyddogaeth Archwilio Mewnol ATA De Cymru wedi adolygu ei threfniadau cynllunio a phartneriaeth strategol.

32 Mae ATAau hefyd wedi dangos y gallu i amrywio eu trefniadau llywodraethu i ystyried materion penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys y gweithgorau a sefydlwyd yn ATA Gogledd Cymru i adolygu'r ddarpariaeth o drefniadau cyflenwi brys, a'r defnydd o weithgorau craffu cyllideb neu weithgorau tebyg ar draws pob ATA. Cyflwynodd ATA De Cymru hefyd yr opsiwn i grwpiau craffu gyfethol aelodau ychwanegol sydd â'r potensial i gryfhau'r wybodaeth arbenigol sydd ar gael i'r grwpiau hynny.

6 Adolygiad Diwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Ionawr 2024

33 Er gwaethaf y ffaith iddi ddod i'r casgliad yn ei Phapur Gwyn yn 2018 bod angen diwygio strwythurau llywodraethu ATA, nid yw Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â'i chynigion ar gyfer diwygio. Ymyrrodd Llywodraeth Cymru hefyd yn ATA De Cymru yn dilyn cyhoeddi adroddiad Adolygiad Diwylliant yr ATA, a hefyd yn rhannol oherwydd ei barn nad oedd yr Awdurdod wedi ymateb yn ddigonol i gyfleoedd eraill i wella[7].

34 Mae adolygu a gwneud newidiadau i drefniadau llywodraethu a bod yn agored i her allanol yn bwysig er mwyn sicrhau bod gwendidau'n cael sylw a bod cyfleoedd i wella yn cael eu croesawu.

7 Cyfarfod Llawn 06/02/2024 - Senedd Cymru (senedd.cymru)

# Atodiad

## 1 Cwmpas archwilio, ymagwedd a dulliau, a ffeithiau allweddol am awdurdodau tân ac achub

# 1 Cwmpas archwilio, ymagwedd a dulliau, a ffeithiau allweddol am awdurdodau tân ac achub

## Cwmpas

Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn 'A oes gan awdurdodau lleol diben arbennig yng Nghymru drefniadau llywodraethu effeithiol sy'n ategu deilliannau da ar gyfer dinasyddion?'

I ateb y cwestiwn hwn, fe wnaethom fwrw golwg ar strwythurau llywodraethu, y model llywodraethu, sut mae aelodau a swyddogion yn gweithio o fewn strwythurau, a'r dulliau a ddefnyddir i adolygu a gwella trefniadau llywodraethu.

Ni wnaethom fwrw golwg ar ymddygiad aelodau na swyddogion unigol, ac nid ydym wedi llunio casgliadau ynghylch pob ATA yn unigol.

## Ymagwedd

Mae'r archwiliad hwn wedi cyfuno system ac ymagwedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i nodi meysydd i'w gwella gyda'r system lywodraethu ac asesu sut mae'n cael ei chyflawni ar hyn o bryd. Ceisiom ddeall sut mae strwythurau llywodraethu ym mhob Awdurdod 'ar bapur', yn cael eu cymhwyso mewn gwirionedd, a sut y cânt eu hadolygu. Ein nod oedd darparu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd llywodraethu mewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn gyffredinol. Buom yn gweithio'n hyblyg i drefnu darpariaeth ac fe wnaethom reoli ein gwaith gan ystyried y pwysau a wynebir gan swyddogion. Gwnaethom sicrhau bod cwmpas ein gwaith yn ddigon i roi trosolwg o'r sector cyfan ond ni wnaethom amharu ar ddarparu gwasanaethau. Cafodd ein hymagwedd ei lywio gan egwyddorion llywodraethu da a gyhoeddwyd gan CIPFA ac IFAC. Mae'r rhain yn cael eu hamlinellu yn **Arddangosyn 4**. Mae ein canfyddiadau a'n casgliadau yn seiliedig ar gyfanswm ein tystiolaeth drionglog. Nodir ein dulliau ar gyfer casglu'r dystiolaeth hon isod.

## Dulliau

Cwblhawyd ein gwaith maes rhwng Medi 2023 a Mai 2024, gan ddefnyddio'r dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau – fe wnaethom adolygu dogfennau llywodraethu allweddol o bob ATA. Roedd y rhain yn cynnwys rheolau sefydlog, swydd-ddisgrifiadau swyddogion allweddol, cyfansoddiadau, cylchoedd gorchwyl a phapurau pwyllgorau.
- cyfweliadau lleol – fe wnaethom gynnal cyfanswm o 38 o gyfweliadau ar draws y tri ATA, gan gynnwys gydag uwch swyddogion ac aelodau.
- cyfweliadau cenedlaethol – fe wnaethom hefyd gynnal cyfweliadau gyda chyrff cenedlaethol, sef Llywodraeth Cymru a CLlLC.
- arolygon – fe gynhaliom ni arolwg o uwch swyddogion sy'n rhyngweithio'n rheolaidd ag aelodau. Cawsom 26 o ymatebion (61% o'r rhai a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr arolwg). Fe wnaethom hefyd arolygu aelodau ATA (gan gynnwys cyn-aelodau ATA De Cymru ar ôl i Gomisiynwyr gael eu penodi) a derbyn cyfanswm o 36 o ymatebion (47% o'r rhai a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr arolwg).
- arsylwadau – fe wnaethom arsylwi ar gyfanswm o 16 cyfarfod ymhob ATA, gan gynnwys yr Awdurdod Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau allweddol.

# Beth yw ‘llywodraethu da’?

Mae angen i sefydliadau’r sector cyhoeddus gael eu llywodraethu mewn modd sy’n adlewyrchu’r cyhoedd a’r amgylchedd y maent yn eu gwasanaethu. I gefnogi hyn, mae’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifwyr (IFAC) wedi diffinio llywodraethu da yn y sector cyhoeddus (**Arddangosyn 3**).

**Arddangosyn 3: diffiniad o lywodraethu da**

Y trefniadau a roddir ar waith i sicrhau bod y deiliannau bwriadedig ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu diffinio a’u cyflawni. I gyflawni llywodraethu da yn y sector cyhoeddus, rhaid i gyrff llywodraethu ac unigolion sy’n gweithio i endidau’r sector cyhoeddus geisio cyflawni amcanion eu hendid gan weithredu er budd y cyhoedd bob amser. Mae gweithredu er budd y cyhoedd yn awgrymu rhoi’r brif ystyriaeth i’r manteision i gymdeithas, a ddylai arwain at ddeilliannau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Ffynhonnell: CIPFA/IFAC

I wreiddio'r diffiniad hwn, mae wedi cael ei ddatblygu ymhellach yn saith egwyddor (**Arddangosyn 4**).

**Arddangosyn 4: saith egwyddor llywodraethu da**



Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.



Bod yn agored a sicrhau ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid.



Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.



Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig yn y ffordd orau.



Datblygu capasiti, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo.



Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.



Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio, i gyflawni atebolrwydd effeithiol.

Ffynhonnell: CIPFA/IFAC

# Ffeithiau allweddol am Awdurdodau Tân ac Achub

Mae ATAau yn derbyn dyraniad o brif aelodau'r cyngor a benodir i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr ardal ddaearyddol ehangach a gwmpesir fel awdurdod cyfunol. Mae pob aelod o'r ATA yn cael ei benodi fel hyn. Pan benodir aelodau etholedig i'r ATA, nid ydynt yn cynrychioli eu ward na'r awdurdod cyfansoddol a'u henwebodd.

Ar gyfer 2024-25 mae cyllidebau refeniw cyfun y tair cyllideb ATA oddeutu £200m, sy'n cyfateb i £64 y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Cynyddodd o £184m neu £59 y pen o'r boblogaeth yn 2023-24.[8]

Caiff ATAau eu ffurfio mewn deddfwriaeth drwy uno gwahanol ardaloedd cyngor yn awdurdodau cyfunol. Digwyddodd hyn ddiwethaf yn 2015. Gan fod y ddeddfwriaeth yn cael ei gosod gan y Senedd, ni all cynghorau unigol ac awdurdodau lleol newid eu maint, cyfansoddiad nac ardal a wasanaethir.

Mae Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn gosod gofynion y gwasanaethau y mae'n rhaid i'r Awdurdod Tân wneud darpariaeth ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys:

- hyrwyddo diogelwch tân
- diffodd tân
- ymateb i ddamweiniau traffig ar y ffyrdd
- ymdrin ag argyfyngau rhagnodedig

Rhaid i ATAau hefyd gyflawni nodau strategol y Fframwaith Cenedlaethol[9]. Mae'r Fframwaith yn galw am yr 'ymdrech mwyaf posibl i adnabod a chyflawni arbedion effeithlonrwydd, i gynnal safonau llywodraethu uchel, ac i roi cyfrif mewn modd tryloyw am y modd y cyflenwir gwasanaethau'. Nid yw'r Fframwaith Cenedlaethol wedi'i ddiweddaru ers nifer o flynyddoedd, ac fe'i diweddarwyd ddiwethaf yn 2016.

Rhaid i aelodau ATA hefyd osod cyllideb i gyflawni'r nodau a chraffu ar berfformiad er mwyn sicrhau y cyflawnir y deilliannau a ddymunir. Mae'r broses gyllidebu'n cynnwys gosod yr ardoll ariannu, sy'n cael ei chodi ar awdurdodau cyfansoddol yn seiliedig ar faint y boblogaeth. Rhaid i aelodau hefyd benodi uwch swyddogion, fel y Prif Swyddog Tân.

8 Gwariant refeniw wedi'i gyllidebu yn ôl manylion gwasanaeth (llyw.cymru)

9 Llywodraeth Cymru: Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub o 2016, Tachwedd 2015

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

*This document is available in English* **Eitem 11 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, PSTC Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Datganiad Archwiliedig o Gyfrifon 2023-24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno Datganiad Archwiliedig o Gyfrifon 2023/24 i'r Aelodau. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y cyfrifon drafft eu cyflwyno i'w harchwilio ar 31 Mai 2024. Cadarnhaodd y rhain wariant net o £44.3m gan gynnwys cyfraniadau i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Adroddwyd cynnydd o £0.09m i'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r sefyllfa archwiliedig yn aros yr un fath, er bod addasiad technegol i ailddosbarthu darpariaeth cyflogres fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi wedi'i wneud.

3 Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'i nodi yn Atodiad 2 ac mae'n cadarnhau barn archwilio ddiamod.

4 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 31 Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, ers y pandemig, mae'r amserlenni hyn wedi'u hymestyn gan Lywodraeth Cymru hyd at 30 Tachwedd 2024.

**YSTYRIAETH GAN BWYLLGORAU ERAILL**

5 Cyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2023/24 i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 15 Gorffennaf 2024.

**ARGYMHELLIAD**

6 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r perfformiad a'r sefyllfa alldro a archwiliwyd fel y manylir yn Natganiad Cyfrifon 2023/24 (Atodiad 1);

(ii) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 2);

(iii) nodi'r llythyr cynrychiolaeth arfaethedig gan gynnwys y cam-ddatganiad heb ei gywiro; a

(iv) chadarnhau'r argymhelliad o gymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2023/24 fel y maent yn archwiliedig ac yn derfynol.

**CEFNDIR**

7 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, lluniodd yr Awdurdod ddatganiad o gyfrifon drafft erbyn 31 Mai 2024. Cyflwynwyd y datganiad o gyfrifon drafft i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf 2024 gydag adroddiad naratif eglurhaol. Mae'r datganiad o gyfrifon drafft wedi bod yn destun archwiliad allanol ac mae'r atodiadau'n cynnwys y fersiynau archwiliedig terfynol.

**GWYBODAETH**

**GWARIANT REFENIW**

8 Cyflwynwyd adroddiad ar berfformiad ariannol 2023/24 i aelodau'r Awdurdod yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 15 Gorffennaf 2024. Roedd hwn yn cadarnhau sefyllfa alldro drafft o wariant net o £44.3m gan gynnwys cyfraniadau i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

9 Mae'r sefyllfa archwiliedig derfynol yn cadarnhau gwariant net o £44.3m, er bod addasiad cyfrifyddu technegol wedi'i wneud i ailddosbarthu darpariaeth cyflogres o £0.47m fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi. Darperir yr adroddiad naratif wedi'i ddiweddaru ar dudalen xx o'r Cyfrifon (gweler Atodiad 1, tudalen 7)

10 Nododd yr archwiliad nifer o addasiadau eraill y cytunwyd arnynt gyda rheolwyr ond nad ydynt yn cael unrhyw effaith gyffredinol ar y sefyllfa a adroddwyd.

**Y FANTOLEN**

11 Mae'r Fantolen yn darparu rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2024, ac mae wedi'i chynnwys ar dudalen xx o'r Cyfrifon (Atodiad 1).

**Asedau sefydlog a benthyciadau**

12 Cadarnhaodd y cyfrifon archwiliedig terfynol fod gan yr Awdurdod

asedau sefydlog o £56.2m ar 31 Mawrth 2024, sy'n cynnwys eiddo, cerbydau ac offer.

13 Caniateir i'r Awdurdod fenthyca i ariannu asedau cyfalaf, ac ar 31 Mawrth 2024 gwerth archwiliedig y benthyciadau sy'n weddill oedd £17.9m, sy'n unol â'r terfynau a osodwyd gan yr Awdurdod.

**Rhwymedigaethau Pensiwn**

14 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi cyfrif am y rhwymedigaethau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â'i gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Caiff gwerth ymrwymiadau'r dyfodol ei gyfrifo gan actiwari pob cynllun, ac roeddent yn £231.6m ar ddyddiad y fantolen. Mae hyn yn cynnwys addasiad archwilio mewn perthynas â phrisiad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o £1.2m. Mae hwn yn faes cyfrifyddu hynod dechnegol ac roedd angen yr addasiad yn dilyn arweiniad pellach gan yr actiwari ac mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru.

**Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy**

15 Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2024 oedd £9.1m a oedd yn cynnwys £1.6m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a £7.5m o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Cafodd y polisi cronfeydd wrth gefn ei gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2024.

**ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL**

16 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am ddarparu barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o berfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

17 Wrth gyflawni'r gwaith archwilio, nid yw Archwilio Cymru yn ceisio darparu sicrwydd absoliwt. Yn hytrach, mae'n ystyried a oes materion arwyddocaol a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon. Pan nodir gwall neu gamddatganiad, bydd Archwilio Cymru yn ystyried a oes angen diwygio.

18 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnig cyhoeddi barn archwilio ddiamod, sy'n golygu bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol yr Awdurdod. Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad 2, a nodir y pethau canlynol:

- Nododd yr archwiliad nifer o ddiwygiadau y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr ac a oedd yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol. Nododd yr archwiliad ddau addasiad y mae angen eu hamlygu cyn cymeradwyo'r cyfrifon
- Gwnaed addasiad cyfrifyddu technegol i ailddosbarthu darpariaeth cyflogres o £0.5 miliwn fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi yn gysylltiedig â strwythur cyflog y diffoddwyr tân.
- Gwnaed newid o £1.2 miliwn i brisiad y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn dilyn cyngor gan actiwari'r cynllun ac mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru, cafodd addasiad technegol ei brosesu i roi ystyriaeth i'r terfyn asedau pensiwn, yn unol ag IAS 19 ac IFRIC 14.

19 Nododd yr archwiliad un mater na chafodd ei gywiro, gwerth cyfanswm o £0.1 miliwn, a oedd yn ymwneud â dosbarthu dyledwyr a chredydwyr. Cododd y mater hwn oherwydd anghysondeb amseru, gan fod Cyfrifon Taladwy wedi cael eu gadael ar agor i sicrhau taliadau prydlon i Fusnesau Bach a Chanolig. Gan na fyddai'r addasiad wedi effeithio ar y fantolen nac wedi darparu unrhyw fudd i ddefnyddwyr y cyfrifon, fe'i gadawyd heb ei gywiro.

20 Roedd Adroddiad yr Archwiliad hefyd yn cynnwys y llythyr cynrychiolaeth terfynol. Mae'r llythyr hwn yn darparu cynrychiolaeth gan y Cadeirydd a'r Trysorydd i gydnabod eu cyfrifoldebau ac i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod y cyfrifon yn darparu darlun gwir a theg.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae ariannu'r Gwasanaeth yn fuddiol i gymunedau Gogledd Cymru ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn digwydd yn y seilwaith er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Caiff y gyllideb ei phennu bob blwyddyn yn unol â'r ddarpariaeth gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n |

| | |
|---|---|
| | briodol i'r Aelodau. |

# Dataganiad o Gyfrifon

2023-2024

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



## DATGANIAD O GYFRIFON


| DATGANIAD O GYFRIFON | TUDALEN |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2-11 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau | 12 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 13-16 |
| Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 17 |
| Datganiadau Ariannol Craidd | 18-22 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Craidd | 23-59 |
| Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân | 60-61 |
| Polisïau Cyfrifyddu | 62-76 |


Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw cynnal a chadw gwefan yr Awdurdod a sicrhau ei bod yn gywir; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn wreiddiol.

## ADRODDIAD NARATIF

Diben yr adroddiad naratif hwn ydi rhoi gwybodaeth glir i bartïon â diddordeb ynghylch sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24.

## TROSOLWG O'R SEFYDLIAD

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn cynnwys 28 Aelod Etholedig sydd wedi eu henwebu gan bob un o'r chwe awdurdod lleol ac maent yn darparu cyfeiriad a llywodraethu'r gweithgarwch dydd i ddydd a ddarperir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn gwasanaethu cymunedau oddi mewn i ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint.

Mae ATAGC yn gyfrifol am ddarparu, hyfforddi a chyflenwi Gwasanaeth Tân ac Achub gyda'r gallu i ymgymryd â'r swyddogaethau canlynol:




Mae'r Gwasanaeth yn delio gyda phob math o argyfyngau, digwyddiadau Tân, gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, llifogydd a gollyngiadau cemegol. Caiff gwaith helaeth ei gyflawni gydag ysgolion, busnesau a chymunedau lleol i hyrwyddo diogelwch tân ac atal a helpu i gadw pobl ac eiddo yn ddiogel.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu trwy gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol, mewn cyfrannedd â phoblogaeth.

Ceir manylion am ein hardal gwasanaeth, dull ariannu a gweithgarwch yn y tudalennau canlynol

# Ynglŷn â'n Hardal Gwasanaeth



## Adnoddau

**44** gorsaf dân

**54** injan dan rheng flaen

**39** peiriant arbennig gan gynnwys cychod achub a pheiriannau cyrraedd yn uchel

**909** o staff gyda **20%** ohonynt yn

## Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn

Cwblhawyd **19,859** o Archwiliadau Diogel ac Iach

Cynhaliwyd **482** o archwiliadau busnes

**216** o sgyrsiau diogelwch gyda **20,837** o blant a phobl ifanc

**22** o gyrsiau ffenics gyda **190** o gyfranogwyr yn

## Gweithgareddau ymateb

Deliwyd â **12,743** o alwadau brys

Wedi mynychu **5935** o ddigwyddiadau brys

Mynychwyd **1656** o danau gyda **14** ohonynt yn danau gwyllt

**2900** fo alwadau diangen

## AMCANION GWELLA A LLESIANT YR AWDURDOD

Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod cânt eu trin fel un.

Mae'r amcanion tymor hir hyn yn newidiadau y mae'r Awdurdod am eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru er mwyn helpu i wella llesiant yn lleol a symud Cymru gam yn nes tuag at gyflawni ei nodau llesiant. Ar ôl nodi ei amcanion tymor hir, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni ac i adrodd yn gyhoeddus am y cynnydd a wnaed ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021/24, gyda set o saith o amcanion hirdymor:

- Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a lles pobl yng Ngogledd Cymru
- Parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn
- Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
- Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltiad â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid
- Cynnal gweithlu sy'n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg
- Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgarwch yn ei chael ar yr amgylchedd
- Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.

Mae'r ddolen ganlynol yn rhoi gwybodaeth am weithgareddau a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o gymharu ag amcanion gwella dros y deuddeg mis diwethaf - Gwybodaeth ac ystadegau – Perfformiad a gwella – Amdanom Ni – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)

Y dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi Asesiad Perfformiad Blynyddol yw 30ain Medi 2024. Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gael ar y wefan yn Cynllunio Corfforaethol – Perfformiad a gwella – Amdanom Ni – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)

## CYNALIADWYEDD A NEWID YN YR HINSAWDD

Yn ystod 2023/24, cymeradwyodd yr Awdurdod ei Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y cyfnod 2023-2030. Mae Gweithgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, dan gadeiryddiaeth Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd, wedi datblygu cynlluniau datgarboneiddio manwl yn dilyn cyfres o Weithgorau gydag aelodau'r Awdurdod dros y flwyddyn, gan gyd-fynd â'n nod o gyrraedd allyriadau carbon Sero Net erbyn 2030. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys y fflyd, ystadau a chaffael.

I ddechrau'r broses o ddatgarboneiddio ein fflyd, cynhaliwyd treial gweithredol o Olew Llysiau wedi'i Hydro-drin fel dewis amgen cynaliadwy yn lle diesel. Bu'r treial hwn yn

llwyddiannus a chyn bo hir bydd treial gweithredol mewn gorsafoedd, cyn cyflwyno tanciau ac offer dosbarthu o amgylch ein hystad.

Yn ogystal, fe wnaeth Adran y Fflyd gaffael pedair fan gwbl drydanol sydd ar brawf ar hyn o bryd, ar draws gwahanol adrannau, i brofi eu hymarferoldeb o ran gofynion y gwasanaeth.



Llun: Fan EV yn y gweithdy

Gan weithio'n agos gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, mae cynllun wedi'i ddatblygu i ddatgarboneiddio ein systemau gwresogi. Bydd hyn yn sail i raglen o ddisodli'r system wresogi ar sail dreigl dros y blynyddoedd nesaf, wedi'i blaenoriaethu fel y mae cyllid a gofynion gweithredol yn caniatáu.



Llun: Gorsaf Dân Bae Colwyn

Mae nifer o gynlluniau gwella bioamrywiaeth wedi'u cynnal, gan gynnwys gosod blychau nythu gwenoliaid du ar rai o'n safleoedd, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu System Rheoli Amgylcheddol bwrpasol yn seiliedig ar safon ISO:14001. Mae hon yn system a fydd yn helpu i adnabod, rheoli, monitro a rheoli'r effaith y mae'r gwasanaeth yn ei chael ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn helpu i wella perfformiad amgylcheddol trwy ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a lleihau gwastraff.

## PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i barhau i ddarparu gwasanaethau atal a gorfodi diogelwch tân rhagorol, yn ogystal ag ymateb brys cynhwysfawr. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyfrannu at greu cymunedau cryfach a mwy diogel, ond mae hefyd yn cydnabod bod y sefyllfa ariannol yn golygu y bydd angen llawer iawn o hyblygrwydd ac arloesedd yn y dyfodol i gynnal darpariaeth y gwasanaethau.

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod a chynnal lefelau gwasanaeth, cytunodd yr Aelodau ar strategaeth ariannol tymor canolig 3 blynedd. Cytunodd yr Aelodau i gynyddu'r cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol 9.9% ar gyfer 2023/24, i £43,314k. O'i ychwanegu at y cyfraniadau mewn perthynas â chyllid Costau Cyfraniad Cyflogwr Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân o £1.081m, a dderbyniwyd yn flaenorol fel grant ond sydd bellach yn cael ei dalu i'r awdurdodau cyfansoddol, arweiniodd hyn at gyfanswm cyllideb o £44,394k. Wrth bennu cyllideb 2023/24, fe wnaeth yr Aelodau hefyd gymeradwyo ystod o fesurau anghylchol oedd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol o fewn 2023/24 ac sydd wedi cael effaith ar gyflwyno gwasanaethau ac ar gapasiti corfforaethol. Roedd y rhain yn

cynnwys gohirio gwariant a, lle roedd angen, defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai a glustnodwyd; camau a oedd yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â cholli £0.4m o incwm grant gan Lywodraeth Cymru yn sgil cytundeb Airwave, pwysau hysbys eraill, yn ogystal ag ansicrwydd yn ymwneud â thrafodaethau cyflog cenedlaethol.

Ym mis Mehefin 2023, cafodd y strwythur staffio ei fireinio. Er hyn, mae wedi parhau i fod yn anodd penodi i rolau corfforaethol arbenigol a diffoddwyr tân ar alwad. Yn ystod 2023/24 parhaodd y gwaith i weithredu'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o'r system ddyletswydd ar alwad (RDS), gan ystyried y drafodaeth genedlaethol ynghylch telerau ac amodau, sydd wedi disodli rhai elfennau o'r adolygiad.

Yn ystod 2022/23 comisiynodd yr Awdurdod Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys i ystyried modelau darparu gwasanaethau yn y dyfodol i fynd i'r afael â materion argaeledd mewn cymunedau gwledig ac i ystyried risgiau yn y dyfodol. Yn ystod 2023/24, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad ar nifer o fodelau, a chafodd y canlyniadau eu hystyried gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2023. Ni wnaeth yr Awdurdod symud ymlaen gyda'r argymhellion ac mae gwaith pellach yn parhau er mwyn datblygu opsiwn newydd yn 2024/25.

Mae dyfarniadau cyflog uwch na'r disgwyl a chwyddiant ar gyfer costau heblaw cyflog, yn enwedig cyfleustodau, costau adeiladu, tanwydd a chostau TGCh, wedi rhoi pwysau sylweddol ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r pwysau hyn o ran costau wedi’u lliniaru i raddau helaeth gan yr arbedion a wnaed yn sgil swyddi gwag staff, derbyniadau incwm eithriadol yn ystod y flwyddyn ac oedi o ran gwario. Mae adrannau'n parhau i fonitro effaith y sefyllfa economaidd gan gydnabod y gallai newidiadau ddigwydd o ran refeniw a chyfalaf dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Bydd gofyn i’r Awdurdod yn y tymor canolig roi sylw gofalus i'r holl wariant, ond yn arbennig y pwysau oherwydd costau'n ymwneud â phensiynau a chyflogres.

## PERFFORMIAD REFENIW

Adroddodd yr Awdurdod danwariant o £94,000 yn 2023/24. Mae dadansoddiad o'r gwariant yn cael ei nodi isod.

| 2023/24 | Cyllideb £000 | Outturn £000 | Defnyddion cronfeydd wrth gefn £000 | CERA Cyfraniadau £000 | Cyfanswm £000 | Amrywiant £000 | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogwyr | 31,902 | 30,896 | 473 | | 31,369 | (532) | -2% |
| Safle | 3,616 | 3,297 | | | 3,297 | (319) | -9% |
| Trafnidiaeth | 1,273 | 1,390 | | | 1,390 | 117 | 9% |
| Cyflenwadau | 5,453 | 5,393 | 833 | | 6,226 | 772 | 14% |
| Taliadau Trydydd Parti | 342 | 319 | | | 319 | (23) | -7% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 3,129 | 2,165 | (130) | 1,101 | 3,136 | 7 | 0% |
| Incwm | (1,321) | (1,437) | | | (1,437) | (116) | 9% |
| **Rhagolwg Alldro** | **44,394** | **42,023** | **1,176** | **1,101** | **44,300** | **(94)** | **-0.2%** |

## CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO

Mae’r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio wedi cynyddu £0.703m yn 2023/24, i dalu am ofynion parhaus y gwasanaeth gan gynnwys hawliadau yswiriant a chit tân. Rhagwelir y bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu lleihau yn y blynyddoedd i ddod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn 8.

| | Balans 31 Mawrth 2023 £’000 | Trosglwyddiadau (i mewn/)/allan 2023/24 £’000 | Balans 31 Mawrth 2024 £’000 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | (6,222) | (1,176) | (7,398) |
| Cronfa Gyffredinol | (1,480) | (95) | (1,575) |
| Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | (85) | 37 | (48) |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | (34) | (39) | (73) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy** | **(7,821)** | **(1,273)** | **(9,094)** |

## PERFFORMIAD CYFALAF

Cyfanswm y gwariant cyfalaf ar gyfer 2023/24 oedd £2,182k, ac mae manylion y gwahanol gynlluniau yn y tabl isod.



Llun: Uned Lles yn y Gweithdy

Mae problemau’n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a phwysau chwyddiant yn parhau a bu’n rhaid adolygu a diwygio'r rhaglen gyfalaf i adlewyrchu prosiectau y gellid eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Prynodd Adran y Fflyd gerbydau amrywiol i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau, gan gynnwys 3 cerbyd lles ac 8 cerbyd gorsaf aml-ddefnydd.

Un maes arbennig o heriol yw darparu tyrau newydd. Er bod y tendrau wedi'u dyfarnu, bu oedi oherwydd newidiadau dylunio, capasiti cyflenwyr a chaniatâd cynllunio.

Trefnwyd i gyfanswm o bum tŵr newydd gael eu cwblhau yn ystod 2023/24. O’r rhain, bydd tri yn cael eu cwblhau yn chwarter cyntaf 2024/25 erbyn hyn.




Llun: Cerbyd gorsaf aml-bwrpas

Mae angen trosglwyddo cyllid o £3,951k ymlaen i gwblhau prosiectau parhaus, fel y manylir isod.

| Cynllun | Dyraniad Diwygiedig £000 | Rhagolwg £000 | Arian Treigl £000 |
|---|---|---|---|
| Adnewyddu Peiriannau Tân | 475 | 475 | 960 |
| Faniau amlbwrpas | 189 | 268 | - |
| Peilot Fan Trydan | - | 107 | - |
| Unedau Lles | 150 | 150 | - |
| Adfywio Gorchymyn a Rheoli | - | 71 | - |
| Man Waith Adeiladu | 600 | - | - |
| Tyrau Hyfforddi | 100 | 52 | 48 |
| Fflyd - system rhwystro cwympiadau a gwaith to | 250 | - | |
| Drysau bae peiriannau | 126 | - | 134 |
| Uwchraddio Gwresogi Llandudno | 180 | 165 | 19 |
| Gwaith yn Nhŷ Mwg Dolgellau | 150 | - | 150 |
| Tir canolfan hyfforddi arfaethedig | 365 | 256 | - |
| Heb ei ddyrannu | 3,000 | - | 2,630 |
| **Cyfanswm: Cynllun Cyfalaf** | 947 | - | |
| **Arian Treigl 2022/23** | **6,532** | **1,544** | **3,941** |
| Tyrau Hyfforddi | | | |
| Faniau gorsaf amlbwrpas | 307 | 318 | 10 |
| Adeiladau - Man Waith | 160 | 162 | - |
| **Cyfanswm: Arian Treigl** | 158 | 158 | - |
| **Cyfanswm** | **625** | **638** | **10** |
| | **7,157** | **2,182** | **3,951** |

Caiff y cynllun cyfalaf ei ariannu fel a ganlyn:

| Cyllid | Swm £'000 |
|---|---|
| Benthyca Mewnol | 1,010 |
| Cyllid Grant | 71 |
| Cyfraniadau | 1,101 |
| **Cyfanswm** | **2,182** |

## RHEOLI'R TRYSORLYS

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau ar waith i reoli risgiau ariannol. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 mewn cyfarfod ar 20 Mawrth 2023. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Dangosyddion Darbodus (PI) ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn mae adroddiadau chwarterol yn manylu ar y cynnydd yn erbyn y strategaeth.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Mae manylion ynghylch sut mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol yn cael eu nodi yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a gellir cael mynediad iddynt o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - https://www.northwalesfire.gov.wales

Roedd hyn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddangosyddion darbodus, gyda benthyca diwedd blwyddyn yn £17.78 miliwn. Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro effaith cyfraddau llog cynyddol wrth bennu cyllidebau yn y dyfodol.

## COSTAU PENSIYNAU

### Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

Yn ystod 2023/24, roedd cyfraniadau arferol y cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn yn £4.055 miliwn (2022/23: £3.893 miliwn). Cyfanswm gwerth y taliadau i aelodau sydd wedi ymddeol oedd £9.005 miliwn, gyda chymorth ariannol wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw'r cynllun wedi'i ariannu ac mae'r rhwymedigaeth o ran ymrwymiadau pensiwn yn y dyfodol wedi gostwng i £231.610 miliwn (2022/23: £225.390 miliwn). Roedd hyn oherwydd newid yn y rhagdybiaethau actiwaraidd.

Bydd canlyniadau prisiad ffurfiol 2020 o'r gronfa bensiwn yn arwain at gynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr o 27.3% i 31.0%, o 1 Ebrill 2024.

### Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

Mae cynlluniau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) wedi'u rhagnodi'n statudol ac mae ganddynt broses arferol benodol ar gyfer penderfynu ar gyfraniadau cyflogwyr. Cynhelir y broses hon ar gyfer y gronfa bensiwn yn ei chyfanrwydd, ond gosodir cyfraddau cyfrannu ar wahân ar gyfer pob cyflogwr. Gosodir cyfraddau am gyfnod o dair blynedd, yn seiliedig ar gyngor actiwaraidd gan ystyried y prisiad tair blynedd diweddaraf. Mae'r cyfraddau ar gyfer pob cyflogwr wedi'u gwahanu'n ffurfiol i:

- brif gyfraddau, sy'n cwrdd â chost croniad parhaus ar gyfer aelodau gweithredol presennol, a
- chyfraddau eilaidd, sy'n bennaf yn lleihau diffyg ariannol neu'n lleihau gwarged dros gyfnod penodol.

Mae'r gyfradd eilaidd yn cynyddu neu'n lleihau cyfraniad y cyflogwr yn seiliedig ar ffactorau sy'n benodol i'r cyflogwr hwnnw. Yn bennaf, mae'r gyfradd eilaidd yn:

- lleihau diffygion yn narpariaeth pensiwn y cyflogwr drwy ddarparu cyfraniadau ychwanegol i'r gronfa, neu'n
- lleihau gwargedion yn narpariaeth pensiwn y cyflogwr drwy leihau lefel y cyfraniadau i'r gronfa.

O 1 Ebrill 2023, cynyddodd prif gyfradd cyfraniadau y cyflogwr o 17.0% i 18.3%. Yn 2023/24, roedd cyfraniadau cyflogwyr i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar y brif gyfradd cyfraniadau, yn £1.112m. (2022/23: £1.02m).

Fodd bynnag, roedd lefel y cyfraniadau a dalwyd i'r gronfa bensiwn yn is oherwydd gostyngiad yn y gyfradd eilaidd o £503k.

Roedd y swm a aseswyd gan yr actiwarïaid ar 31 Mawrth 2024 yn £0.000m (2022/23: -£1.753m). Mae'r gostyngiad oherwydd newid yn y rhagdybiaethau actiwarïaid a'r safonau cyfrifo a ddefnyddiwyd i fesur rhwymedigaethau ac asedau'r cynllun.

Mae Nodyn 30, sy'n seiliedig ar yr adroddiad actiwarïaid, a Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn rhoi rhagor o wybodaeth.

## GWYBODAETH BELLACH

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan y Trysorydd. Mae hawl statudol gan aelodau'r cyhoedd â diddordeb i weld y cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Hysbysebir bod y cyfrifon ar gael i'w gweld ar wefan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (https://www.northwalesfire.gov.wales/fire-and-rescue-authority/financial/) a rhoddir hysbysiad ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Llanelwy, LL17 0JJ.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O GYFRIFON

### CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud y canlynol:

- gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd
- rheoli ei faterion i sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau
- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**ARDYSTIAD YR AWDURDOD**

Rwy'n cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2024.

Llofnod ______________________________ Dyddiad _________________

**Y Cynghorydd, Cadeirydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

### CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD

Y Trysorydd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas, ac yn wedi eu defnyddio'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus
- cydymffurfio â'r Cod Ymarfer
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfoes
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

**ARDYSTIAD Y TRYSORYDD**

Rwy'n tystio bod y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2024, ynghyd â'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Llofnod D L Edwards Dyddiad 31/05/2024

**Trysorydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

[Adroddiad Archwilwyr Annibynnol i'w mewnosod yma]

## DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

Mae’r datganiad hwn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a’i ariannu o adnoddau (grantiau, cyfraniadau ac ati) gan awdurdodau lleol o’i gymharu ag adnoddau a ddefnyddir neu a enillir gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu at ddibenion gwneud penderfyniadau yn unol â'r math o wariant yr eir iddo. Caiff Incwm a Gwariant y cyfrifir amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP) eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2022/23 | | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net y gellir ei Godi ar y Gronfa Gyffredinol £’000** | **Addasiadau Rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Gyllido £’000** | **Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant £’000** | | **Gwariant Net y gellir ei Godi ar y Gronfa Gyffredinol £’000** | **Addasiadau Rhwng y Sail Gyllido a’r Gyfrifyddu £’000** | **Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant £’000** |
| 38,797 | (3,081) | 35,716 | Darparu Gwasanaethau Tân | 43,123 | (7,682) | 35,441 |
| (39,412) | 8,805 | (30,607) | Incwm a Gwariant Arall | (44,394) | 10,557 | (33,837) |
| **(615)** | **5,724** | **5,109** | **Diffyg (neu Warged) ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(1,271)** | **2,875** | **1,604** |

| 2022/23 | | | | 2023/24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans y Gronfa Gyffredinol £’000** | **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £’000** | **Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol £’000** | | **Balans y Gronfa Gyffredinol £’000** | **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd y Gronfa Gyffredinol £’000** | **Cyfanswm y Gronfa Gyffredinol £’000** |
| (1,520) | (5,805) | (7,325) | Dygwyd Ymlaen | (1,480) | (6,341) | (7,821) |
| (615) | | (615) | (Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (1,271) | | (1,271) |
| | 153 | 153 | Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso | | 37 | 37 |
| 655 | (689) | (34) | Trosglwyddo rhwng Balans y Gronfa Gyffredinol a Chronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Glustnodwyd | 1,176 | (1,215) | (39) |
| **(1,480)** | **(6,341)** | **(7,821)** | **Balans Terfynol y Gronfa Gyffredinol** | **(1,575)** | **(7,519)** | **(9,094)** |

## DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Mae'r datganiad hwn yn dangos y gost gyfrifo yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (GAAP), yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o gyfraniadau. Mae gwariant yr Awdurdod yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa cyfrannu yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

| 2022/23 | | | | 2023/24 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** | | **Sylwer** | **Gwariant Gros £'000** | **Incwm Gros £'000** | **Gwariant Net £'000** |
| 38,640 | (2,925) | 35,715 | Darparu Gwasanaethau Tân | | 36,878 | (1,437) | 35,441 |
| **38,640** | **(2,925)** | **35,715** | **Cost Gwasanaethau** | | **36,878** | **(1,437)** | **35,441** |
| (11) | 0 | (11) | Treuliau Gweithredu Eraill | | (14) | 0 | (14) |
| 9,130 | (61) | 9,069 | Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi | **9** | 11,071 | (429) | 10,642 |
| 0 | (39,664) | (39,664) | Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol | **10** | 0 | (44,465) | (44,465) |
| | | **5,109** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | | | **1,604** |
| 0 | (9,832) | (9,832) | (Gwarged) neu ddiffyg ar Ailbrisio Eiddo, ac Asedau Offer | **18** | 557 | 0 | 557 |
| | | (109,388) | Ailfesur yr Ymrwymiad Buddion Diffiniedig Net | **18** | | | 1,096 |
| | | **(119,220)** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **1,653** |
| | | **(114,111)** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **3,257** |

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr Awdurdod, wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy' (sef y rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant neu i leihau cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) a chronfeydd eraill. Mae'r Gwarged neu'r (Diffyg) ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, a dangosir rhagor o fanylion am hynny yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sydd angen eu codi ar Falans y Gronfa Gyffredinol, sy'n cael ei hariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol. Mae'r llinell Cynnydd / Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol cyn i'r Awdurdod wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i'r cronfeydd a glustnodwyd ac ohonynt.

| 2023-24 | Sylwer | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000 | Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000 | Derbyniadau Cyfalaf a Glustnodwyd £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(1,480)** | **(6,222)** | **(85)** | **(34)** | **(7,821)** | **199,227** | **191,406** |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2023/2024** | | | | | | | | |
| Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau | | 1,604 | 0 | 0 | 0 | 1,604 | 0 | 1,604 |
| (Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,653 | 1,653 |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **1,604** | **0** | **0** | | **1,604** | **1,653** | **3,257** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau | **7** | (2,877) | 0 | | 0 | (2,877) | 2,877 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | **(1,273)** | **0** | **0** | **0** | **(1,273)** | **4,530** | **3,257** |
| Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | **8** | 1,178 | (1,176) | 37 | (39) | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2023/24** | **6** | **(95)** | **(1,176)** | **37** | **(39)** | **(1,273)** | **4,530** | **3,257** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **(1,575)** | **(7,398)** | **(48)** | **(73)** | **(9,094)** | **203,757** | **194,663** |

## DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

| 2022-23 | Sylwer | Balans y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cronfeydd wrth Gefn a Grantiau a Glustnodwyd £'000 | Grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso £'000 | Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000 | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £'000 | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **(1,520)** | **(5,567)** | **(238)** | **0** | **(7,325)** | **312,842** | **305,517** |
| **Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2022/2023** | | | | | | | | |
| Diffyg (neu Warged) ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau | | 5,109 | 0 | 0 | 0 | 5,109 | 0 | 5,109 |
| (Incwm) a Gwariant Arall Cynhwysfawr | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (119,220) | (119,220) |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **5,109** | **0** | **0** | | **5,109** | **(119,220)** | **(114,111)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail ariannu o dan y rheoliadau | **4** | (5,605) | 0 | | 0 | (5,605) | 5,605 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd** | | (496) | 0 | 0 | 0 | (496) | (113,615) | (114,111) |
| Trosglwyddiadau Eraill i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | **8** | 536 | (655) | 153 | (34) | 0 | 0 | 0 |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2022/23** | **6** | **40** | **(655)** | **153** | **(34)** | **(496)** | **(113,615)** | **(114,111)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **(1,480)** | **(6,222)** | **(85)** | **(34)** | **(7,821)** | **199,227** | **191,406** |

## Y FANTOLEN

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth, ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r ymrwymiadau a gydnabyddir gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cael eu cyfateb gan y cronfeydd sydd gan yr Awdurdod. Adroddir ynghylch cronfeydd mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd yw cronfeydd defnyddiadwy sef cronfeydd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (e.e. y Gronfa Dderbyniadau na ellir ond ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd yw'r rhai nad yw'r Awdurdod yn gallu eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd yn cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion na wireddwyd a cholledion (e.e. y Gronfa Ailbrisio), pryd na fyddai symiau ond ar gael i ddarparu gwasanaethau os caiff yr asedau eu gwerthu; ac mae cronfeydd sy'n dal gwahaniaethau amseru yn cael eu dangos yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd 'Addasiadau rhwng y sail cyfrifyddu a'r sail ariannu o dan reoliadau.'

| 31 Mawrth 2023 £'000 | | Sylwer | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| 56,841 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | **11** | 56,044 |
| 222 | Asedau Anniriaethol | **11** | 141 |
| 33 | Dyledwyr Tymor Hir | **14** | 62 |
| **57,096** | **Asedau Tymor Hir** | | **56,247** |
| 638 | Rhestrau Stoc | **13** | 614 |
| 5,041 | Dyledwyr Tymor Byr | **14** | 1,275 |
| 0 | Buddsoddiadau Tymor Byr | **15** | 0 |
| 4,177 | Arian a Chyfwerth Ariannol | **15** | 2,973 |
| **9,856** | **Asedau Cyfredol** | | **4,862** |
| (8,868) | Benthyca Tymor Byr | **12** | (3,830) |
| (273) | Darpariaethau | **17** | (217) |
| (4,287) | Credydwyr Tymor Byr | **16** | (6,042) |
| **(13,428)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(10,089)** |
| (227,143) | Rhwymedigaeth Pensiwn | **18** | (231,610) |
| 0 | Darpariaethau Tymor Hir | **17** | 0 |
| (17,787) | Benthyca Tymor Hir | **12** | (14,073) |
| **(244,930)** | **Rhwymedigaethau Tymor Hir** | | **(245,683)** |
| **(191,406)** | **Asedau Net** | | **(194,663)** |
| (7,821) | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | **8** | (9,094) |
| 199,227 | Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio | **18** | 203,757 |
| **191,406** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | | **194,663** |

## DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau yn arian a chyfwerth ag arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Awdurdod yn creu ac yn defnyddio arian a chyfwerth ag arian trwy gategoreiddio llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o'r gweithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu trwy gyfraniadau ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r gweithgareddau buddsoddi yn dangos y graddau y mae'r all-lifiadau arian wedi eu gwneud ar gyfer adnoddau sydd â'u bwriad o gyfrannu at y modd y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld ceisiadau o lifiadau arian yn y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Awdurdod.

| 2022/2023 £'000 | | Sylwer | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|
| **5,109** | **(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau** | | **1,604** |
| (7,889) | Addasiadau i'r (Gwarged) neu Ddiffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Symudiadau nad ydynt yn Arian | **19** | (11,409) |
| (404) | Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd yn y (Gwarged) neu Ddiffyg net wrth Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi neu Ariannu | **19** | (263) |
| (3,184) | Llifoedd Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | **19** | (10,068) |
| 3,356 | Gweithgareddau Buddsoddi | **20** | 2,240 |
| (1,816) | Gweithgareddau Cyllido | **21** | 9,032 |
| (1,644) | (Cynnydd) neu Ostyngiad Net mewn Arian a Chyfwerth ag Arian | | 1,204 |
| **(2,533)** | **Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddechrau'r Cyfnod adrodd** | | **(4,177)** |
| **(4,177)** | **Arian a Chyfwerth ag Arian ar ddiwedd y Cyfnod adrodd** | **15** | **(2,973)** |

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae'r nodiadau'n rhoi gwybodaeth am sail y gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol a'r polisïau cyfrifyddu penodol a ddefnyddiwyd. Maent yn darparu gwybodaeth nad yw'n cael ei chyflwyno yn unlle arall yn y datganiadau ariannol ac sy'n berthnasol er mwyn deall y cyfrifon.

### 1 SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI CAEL EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI'U MABWYSIADU ETO

Pan fo Safon newydd wedi'i chyhoeddi ond heb ei mabwysiadu gan y Cod, rhaid i'r Awdurdod ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith y newid o ran cyfrifyddu. Dyma'r newidiadau a gyflwynwyd gan God 2024/25:

a) **IFRS 16 Prydlesi** a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016, i'w weithredu gan yr Awdurdod yn 2024/25. Gweler Nodyn 29 am fwy o wybodaeth.

b) **Dosbarthu Rhwymedigaethau fel rhai Cyfredol neu Anghyfredol (Diwygiadau i IAS 1)** a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Y diwygiadau:

- pennu bod yn rhaid i hawl yr endid i ohirio'r setliad fodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd
- egluro nad yw dosbarthiad yn cael ei effeithio gan fwriad neu ddisgwyliadau rheolwyr ynghylch a fydd yr endid yn arfer ei hawl i ohirio'r setliad
- egluro sut mae amodau benthyca yn effeithio ar ddosbarthiad, ac
- egluro'r gofynion ar gyfer dosbarthu rhwymedigaethau y bydd endid yn eu setlo, neu rai y gallent eu setlo, trwy gyhoeddi ei offerynnau ecwiti ei hun.

c) **Atebolrwydd am Brydles wrth Werthu a Lesio'n Ôl (Diwygiadau i IFRS 16)** a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022. Mae'r diwygiadau i IFRS 16 yn ychwanegu gofynion mesur dilynol ar gyfer trafodion gwerthu a lesio'n ôl.

d) **Rhwymedigaethau Anghyfredol sydd â Chyfamodau (Diwygiadau IAS 1)** a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022. Roedd y diwygiadau yn gwella'r wybodaeth a ddarperir gan endid pan fo ei hawl i ohirio setliad atebolrwydd am o leiaf 12 mis yn amodol ar gydymffurfio â chyfamodau.

e) **Diwygio Trethi Rhyngwladol: Rheolau Model Colofn Dau (Diwygiadau i IAS 12)** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Mae Colofn Dau yn berthnasol i grwpiau rhyngwladol sydd ag isafswm trosiant. Roedd y gwelliannau yn cyflwyno:

- eithriad dros dro i'r gofynion i adnabod ac i ddatgelu gwybodaeth am rwymedigaethau ac asedau treth ohiriedig sy'n gysylltiedig â threthi incwm Colofn Dau, a
- gofynion datgelu wedi'u targedu ar gyfer yr endidau sy'n cael eu heffeithio.

f) **Trefniadau Cyllid Cyflenwyr (Diwygiadau i IAS 7 and IFRS 7)** a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Mae'r diwygiadau'n ei gwneud yn ofynnol i endid wneud datgeliadau ychwanegol ynghylch ei drefniadau cyllid cyflenwyr.Datblygwyd y gofynion newydd gan yr IASB er mwyn rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n defnyddio datganiadau ariannol a fyddai'n eu

- asesu sut mae trefniadau cyllid cyflenwyr yn effeithio ar rwymedigaethau a llif arian parod yr endid
- deall effaith trefniadau cyllid cyflenwyr ar y risg hylifedd i endid, a pha effaith fyddai colli'r trefniadau hynny yn ei chael ar yr endid.

Er eu bod yn cynnig eglurhad, mae'n debyg na fydd eitemau b), c) a d) yn cael effaith sylweddol ar y symiau sy'n cael eu rhagweld ar gyfer y datganiadau ariannol. Bydd eitemau e) ac f) yn cael defnydd cyfyngedig.

## 2 DYFARNIADAU HOLLBWYSIG WRTH GYMHWYSO POLISIAU CYFRIFYDDU

Wrth ddilyn y polisïau cyfrifyddu sydd yn Atodiad 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod arfer doethineb wrth ymdrin â thrafodion cymhleth neu'r rhai lle mae ansicrwydd am y dyfodol. Y dyfarniad beirniadol yn y Datganiad Cyfrifon yw:

- Mae llawer o ansicrwydd ynghylch lefelau cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigon eto i ddarparu arwydd y gallai asedau'r Awdurdod gael eu niweidio o ganlyniad i'r angen i ostwng lefelau darpariaeth gwasanaethau.

## 3 RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL O AMCANGYFRIF AC ANSICRWYDD

Mae'r datganiad o gyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr awdurdod ynglŷn â'r dyfodol neu eu bod fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r prif eitemau ym Mantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2024, y mae risg sylweddol y bydd angen addasiad perthnasol ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

**Eiddo, Peiriannau ac Offer** - Mae'r Awdurdod yn ailbrisio ei asedau bob 5 mlynedd. Mae'n bosibl y gallai gwerth eiddo barhau i amrywio, yn enwedig ar adegau o ansicrwydd economaidd. Mae prisiadau'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyflwr asedau, bywyd defnyddiol, gwerthoedd gweddilliol ac amodau'r farchnad. Mae'r dyfarniadau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael ac yn cael eu gwneud gan briswyr cymwys.

Cwblhawyd yr ailbrisiad llawn diwethaf ar 31 Mawrth 2023. Oherwydd bod data pellach ar gael mewn perthynas â phrisio gorsafoedd tân, mae adolygiad wedi'i gwblhau, o holl adeiladau'r orsaf, ar 31 Mawrth 2024.

**Ymrwymiad Pensiwn** - Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau yn cynyddu yn unol â hi, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac, ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn.

Penodir actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ynglŷn â'r rhagdybiaethau i'w cymhwyso. Darperir rhagor o wybodaeth o fewn cyfrif y gronfa bensiwn.

## 4 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi cael ei awdurdodi I'w gyhoeddi gan y Trysorydd ar 16 Hydref 2024. Nid yw digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau.

Pan oedd digwyddiadau a gynhaliwyd cyn y dyddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am yr amodau sy'n bodoli ar 31 Mawrth 2024, mae'r ffigurau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob ffordd berthnasol i adlewyrchu effaith y wybodaeth hon.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau perthnasol ar ôl dyddiad y fantolen.

## 5 NODYN I'R DADANSODDIAD O WARIANT A CHYLLID

| **2023/24** | **Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000** | **Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000** | **Arall Addasiadau £'000** | **Cyfanswm Addasiadau £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Tân | (1,217) | (7,008) | 543 | (7,682) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(1,217)** | **(7,008)** | **543** | **(7,682)** |
| **Incwm a Gwariant Arall**<br>Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu | (85) | 10,379 | 263 | 10,557 |
| **Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau** | **(1,302)** | **3,371** | **806** | **2,875** |

| **2022/23** | **Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000** | **Tâl net ar gyfer Addasiadau Pensiwn £'000** | **Arall Addasiadau £'000** | **Cyfanswm Addasiadau £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Tân | (3,444) | 367 | (4) | (3,081) |
| **Cost Net Gwasanaethau** | **(3,444)** | **367** | **(4)** | **(3,081)** |
| **Incwm a Gwariant Arall**<br>Incwm a Gwariant Arall o'r dadansoddiad gwariant ac ariannu | (264) | 8,666 | 403 | 8,805 |
| **Gwahaniaethau rhwng gwarged y Gronfa Gyffredinol a gwarged Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar ddarparu gwasanaethau** | **(3,708)** | **9,033** | **399** | **5,724** |

**Addasiadau at ddibenion cyfalaf** – mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac enillion a cholledion amhariad ac ailbrisio yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf drwy drosglwyddo incwm wrth waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- Gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi - y newidiadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. didynnir isafswm darpariaeth refeniw a chyfraniadau refeniw eraill o wasanaethau gan nad yw'r rhain yn symiau y gellir codi amdanynt o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

- Trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol - caiff grantiau cyfalaf eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o'r rhai y gellir eu derbyn yn y flwyddyn i'r rhai y gellir eu derbyn heb amodau neu y bodlonwyd amodau ar eu cyfer drwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell trethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cael ei gredydu â grantiau cyfalaf y gellir eu derbyn yn y flwyddyn heb amodau neu rai y bodlonwyd amodau ar eu cyfer yn y flwyddyn.

**Newid net ar gyfer yr addasiadau pensiwn -** Newid net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm Buddiannau Cyflogeion IAS19 sy'n ymwneud â phensiwn:

- Ar gyfer gwasanaethau, mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y'i caniateir drwy statud a disodli costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth a roddwyd.
- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi – codir y llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Addasiadau Eraill** - Gwahaniaethau eraill rhwng symiau a ddebydwyd/credydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud:

- Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi, mae'r golofn addasiadau statudol arall yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.
- Mae'r tâl o dan Drethiant ac incwm a gwariant grant amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gellir ei godi o dan reoliadau statudol y rhagamcanwyd y byddid yn ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Cod. Mae hwn yn wahaniaeth amseru gan y bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen mewn Gwargedion neu Ddiffygion ar y Gronfa Gyffredinol yn y dyfodol.

## 6 DADANSODDI GWARIANT AC INCWM YN ÓL NATUR

| 2022/23 £000 | | 2023/24 £000 |
|---|---|---|
| | **Gwariant** | |
| 30,194 | Gweithwyr | 24,003 |
| 8,522 | Costau Gweithredu Eraill | 10,079 |
| 419 | Gwasanaethau Cefnogi | 318 |
| (11) | Enillion ar waredu asedau | (14) |
| 9,131 | Gwariant Ariannu a Buddsoddi | 11,071 |
| (495) | Costau Ariannu Cyfalaf | 2,478 |
| **47,760** | **Cyfanswm y Gwariant** | **47,935** |
| | **Incwm** | |
| (540) | Ffioedd, Taliadau & Incwm Gwasanaeth Arall | (546) |
| (61) | Incwm Llog a Buddsoddi | (429) |
| (39,412) | Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol | (44,394) |
| (2,638) | Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth | (962) |
| **(42,651)** | **Cyfanswm yr Incwm** | **(46,331)** |
| **5,109** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **1,604** |

## 7 ADDASIADAU RHWNG Y SAIL GYFRIFYDDU A'R SAIL ARIANNU YN ÓL STATUD

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol i nodi'r adnoddau y mae darpariaethau statudol yn pennu eu bod ar gael i'r awdurdod i fodloni gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Mae'r canlynol yn nodi disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn y gwneir yr addasiadau yn eu herbyn.

**Balans y Gronfa Gyffredinol**

Y Gronfa Gyffredinol yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol i holl dderbyniadau awdurdod gael eu talu iddi ac y mae holl rwymedigaethau'r awdurdod i'w talu ohoni, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol ddarparu fel arall. Gall y rheolau hyn hefyd nodi'r flwyddyn ariannol lle dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar falans y Gronfa Gyffredinol, nad yw o reidrwydd yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol. Felly, mae balans y Gronfa Gyffredinol yn crynhoi'r adnoddau y mae'r awdurdod wedi'i rymuso'n statudol i'w wario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu'r diffyg adnoddau y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei adennill) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Cronfa derbyniadau cyfalaf**

Mae'r gronfa derbyniadau cyfalaf yn dal yr elw o waredu tir neu asedau eraill, sydd wedi'i gyfyngu gan statud rhag cael ei ddefnyddio heblaw am ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i'w neilltuo i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae'r balans ar y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

**Grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso**

Mae'r cyfrif (cronfa wrth gefn) grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. Mae'r balans wedi'i gyfyngu gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn a/neu'r flwyddyn ariannol y gellir gwneud hyn.

| 2022/23 | | | | | Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan y Rheoliadau | 2023/24 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000** | **Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | | **Balans y Gronfa Gyffredinol £'000** | **Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £'000** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** | **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy £'000** |
| (2,089) | 0 | 0 | (2,089) | 2,089 | Dibrisiant ac amhariad | (2,446) | 0 | 0 | (2,446) | 2,446 |
| 2,584 | 0 | 0 | 2,584 | (2,584) | Colledion/enillion ailbrisio/enillion ar Eiddo | (32) | 0 | 0 | (32) | 32 |
| 11 | 0 | (34) | (23) | 23 | Gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol | 14 | 0 | (39) | (25) | 25 |
| 525 | 0 | 0 | 525 | (525) | Gwariant cyfalaf wedi'i ariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd/CERA | 1,101 | 0 | 0 | 1,101 | (1,101) |
| 253 | (36) | 0 | 217 | (217) | Ariannu gwariant cyfalaf o grantiau | 71 | 0 | 0 | 71 | (71) |
| 1,959 | 0 | 0 | 1,959 | (1,959) | Cyllid Ariannu (MRP) | 1,902 | 0 | 0 | 1,902 | (1,902) |
| **3,243** | **(36)** | **(34)** | **3,173** | **(3,173)** | | **610** | **0** | **(39)** | **571** | **(571)** |
| 9,386 | 0 | 0 | 9,386 | (9,386) | Cyfraniadau a thaliadau Pensiwn Cyflogwyr i bensiynwyr | 10,532 | 0 | 0 | 10,532 | (10,532) |
| (18,419) | 0 | 0 | (18,419) | 18,419 | Gwrthdroi buddion ymddeol yn y CIES | (13,903) | 0 | 0 | (13,903) | 13,903 |
| **(9,033)** | **0** | **0** | **(9,033)** | **9,033** | | **(3,371)** | **0** | **0** | **(3,371)** | **3,371** |
| 0 | 189 | 0 | 189 | (189) | Addasiad i'r Gronfa Grantiau wrth Gefn | 0 | 37 | 0 | 37 | (37) |
| 66 | | | 66 | (66) | Symuiad o ran cronni Absenoldeb Cronedig | (114) | | | (114) | 114 |
| **(5,724)** | **153** | **(34)** | **(5,605)** | **5,605** | **Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu o dan y rheoliadau** | **(2,875)** | **37** | **(39)** | **(2,877)** | **2,877** |

## 8 CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o falans y Gronfa Gyffredinol mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwariant yn y dyfodol a'r symiau a drosglwyddwyd yn ôl o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i fodloni gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2023/24.

| Cronfa | Diben y Gronfa Wrth Gefn | Balans 1 Ebrill 2022 £'000 | Trosglwydd-iadau (i mewn) / allan 2022/23 £'000 | Balans 31 Mawrth 2023 £'000 | Trosglwydd-iadau (i mewn) / allan £'000 | Balans 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth** | | | | | | |
| Cronfa Bensiwn | Costau pensiwn ychwanegol yn ymwneud â newidiadau i reolau pensiwn | (85) | (460) | (545) | 0 | (545) |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Llog | Gwrthbwyso cynnydd mewn cyfraddau llog a fyddai'n effeithio ar y gyllideb refeniw | (300) | 0 | (300) | 0 | (300) |
| Atgyweirio Hydrantau Tân | Ariannu ôl-groniad o ran atgyweirio hydrantau | (90) | 0 | (90) | 0 | (90) |
| PPE Gwisg / Stoc | Mwy o gostau gwisg oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth | (250) | 0 | (250) | (447) | (697) |
| Newid Trawsffurfio | Cyllid ar gyfer cyflawni prosiectau newid trawsnewidiol | (851) | 0 | (851) | 0 | (851) |
| Gwella Cyfleusterau | Sicrhau bod adeiladau'n cwrdd â'r safon ofynnol a gwella effeithlonrwydd ynni | (1,323) | 672 | (651) | 0 | (651) |
| Atebolrwydd Cyfreithiol | Ariannu rhwymedigaethau cyfreithiol yn y dyfodol ar gyfer hawliadau hysbys/ disgwyliedig | (225) | 39 | (186) | (124) | (310) |
| Hyfforddiant | Gweithredu gofynion deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth hyfforddiant | (250) | 0 | (250) | 0 | (250) |
| Digwyddiadau mawr | Gwrthbwyso costau digwyddiadau mawr sy'n fwy na'r gyllideb | (150) | 0 | (150) | 0 | (150) |
| Gwella Systemau | Cyllid ar gael i weithredu gwelliannau i'r system | (848) | 137 | (711) | 0 | (711) |
| Chwyddiant | Gwrthbwyso costau chwyddiant sy'n fwy na'r gyllideb | (250) | 0 | (250) | 0 | (250) |
| Adolygiad o Strwythur Tâl Diffoddwyr Tân | Cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer trafodaethau parhaus ynghylch y strwythur tâl ar gyfer dilyniant cyflog i staff | 0 | 0 | 0 | (473) | (473) |
| **Cronfeydd Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn** | | | | | | |
| Prosiectau Cyfalaf | Cyllid ar gyfer cynlluniau lle ceir oedi a chostau cadw | 0 | (1,043) | (1,043) | 129 | (914) |
| Cynllun Radio | Uwchraddio'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys - gwrthbwyso rhai o'r costau ychwanegol | (750) | 0 | (750) | (261) | (1,011) |
| Gostyngiad Grant | Gwrthbwyso gostyngiad yn y cyllid Diogelwch Tân gan Lywodraeth Cymru | (195) | 0 | (195) | 0 | (195) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **(5,567)** | **(655)** | **(6,222)** | **(1,176)** | **(7,398)** |
| Cronfa Gyffredinol | Ar gael at ddibenion cyffredinol ac i ddarparu gwytnwch gweithredol | (1,520) | 40 | (1,480) | (95) | (1,575) |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | Yn dal derbyniadau o werthu asedau, ar gael i ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol | 0 | (34) | (34) | (39) | (73) |
| Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso | Yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Awdurdod wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer ac a fyddai fel arall yn gofyn am ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto i dalu am wariant. | (238) | 153 | (85) | 37 | (48) |
| **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | **(7,325)** | **(496)** | **(7,821)** | **(1,273)** | **(9,094)** |

## 9 INCWM A GWARIANT ARIANNU A BUDDSODDI

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 464 | Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg a godir | 692 |
| (61) | Llog a dderbynnir ac incwm tebyg | (429) |
| 8,666 | Llog Net ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig net | 10,379 |
| **9,069** | **Cyfanswm** | **10,642** |

## 10 TRETHIANT AC INCWM GRANT AMHENODOL

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 6,631 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 7,478 |
| 3,916 | Cyngor Sir Ynys Môn | 4,403 |
| 7,018 | Cyngor Gwynedd | 7,914 |
| 5,381 | Cyngor Sir Ddinbych | 6,064 |
| 8,814 | Cyngor Sir y Fflint | 9,936 |
| 7,652 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 8,599 |
| **39,412** | **Cyfraniadau gan Awdurdodau Cyfansoddol** | **44,394** |
| 252 | Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | 71 |
| **39,664** | **Cyfanswm Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol** | **44,465** |

Yn 2023/24, mae'r cyfraniadau a dderbyniwyd gan yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol yn cynnwys £1.081m a dderbyniwyd yn flaenorol fel grant gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Chostau Cyfraniad Cyflogwr Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

## 11 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER AC ASEDAU ANNIRIAETHOL

### Symudiadau ar Falansau

| 2023-2024 | Tir ac Adeiladau £'000 | Cerbydau ac Offer £'000 | Asedau Wrthi'n cael eu Hadeiladu £'000 | Eiddo, Peiriannau ac Offer Cyfanswm £'000 | Asedau Anniriaethol Cyfanswm £'000 | Asedau a Gedwir i'w Gwerthu Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2023** | **47,289** | **24,721** | **85** | **72,095** | **431** | **0** |
| Ailgategoreiddio asedau | 0 | 36 | (36) | 0 | 0 | 0 |
| Ychwanegiadau | 414 | 758 | 1,011 | 2,183 | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | (1,352) | 0 | 0 | (1,352) | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | (95) | 0 | 0 | (95) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | (3) | (1,303) | 0 | (1,306) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | (83) | 0 | (83) | (198) | 0 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2024** | **46,253** | **24,129** | **1,060** | **71,442** | **233** | **0** |
| **Dibrisiant Cronedig & Amhariad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | (4) | (15,250) | 0 | (15,254) | (209) | 0 |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir | (897) | (1,468) | 0 | (2,365) | (81) | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio | 795 | 0 | 0 | 795 | 0 | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 63 | 0 | 0 | 63 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | 1,280 | 0 | 1,280 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 83 | 0 | 83 | 198 | 0 |
| **Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2024** | **(43)** | **(15,355)** | **0** | **(15,398)** | **(92)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2024** | **46,210** | **8,774** | **1,060** | **56,044** | **141** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2023** | **47,285** | **9,471** | **85** | **56,841** | **222** | **0** |

| **2022-2023** | **Land and Buildings** <br> **£'000** | **Vehicles and Equipment** <br> **£'000** | **Assets Under Construction** <br> **£'000** | **Property Plant & Equipment Total** <br> **£'000** | **Intangible Assets Total** <br> **£'000** | **Assets Held for Sale Total** <br> **£'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Ebrill 2022** | **34,836** | **22,250** | **1,027** | **58,113** | **672** | **0** |
| Ailgategoreiddio asedau | 0 | 1,027 | (1,027) | 0 | 0 | 0 |
| Ychwanegiadau | 696 | 2,461 | 85 | 3,242 | 125 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 9,173 | 0 | 0 | 9,173 | 0 | 0 |
| Cynnydd / (gostyngiad) ailbrisio a gydnabuwyd yn y Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 2,584 | 0 | 0 | 2,584 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | (1,004) | 0 | (1,004) | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | (13) | 0 | (13) | (366) | 0 |
| **Gwerth Llyfr Gros ar 1 Mawrth 2023** | **47,289** | **24,721** | **85** | **72,095** | **431** | **0** |
| **Dibrisiant Cronedig & Amhariad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 0 | (14,948) | 0 | (14,948) | (446) | 0 |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad a godir | (663) | (1,297) | 0 | (1,960) | (129) | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu o'r Gronfa Ailbrisio | 659 | 0 | 0 | 659 | | 0 |
| Dibrisiant wedi'i ysgrifennu i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Gwarediadau | 0 | 982 | 0 | 982 | 0 | 0 |
| Dadgydnabyddiaeth - Arall | 0 | 13 | 0 | 13 | 366 | 0 |
| **Dibrisiant Cronedig ar 31 Mawrth 2023** | **(4)** | **(15,250)** | **0** | **(15,254)** | **(209)** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2023** | **47,285** | **9,471** | **85** | **56,841** | **222** | **0** |
| **GWERTH LLYFR NET AR 1 MAWRTH 2022** | **34,836** | **7,302** | **1,027** | **43,165** | **226** | **0** |

**Dibrisiad**
Dibrisir adeiladau gan ddefnyddio cydranu, lle gwneir amcangyfrif o oes ddefnyddiol pob cydran o'r adeilad ac yna defnyddir cyfartaledd pwysol i gyfrifo'r tâl blynyddol.

Mae asedau eraill yn cael eu cydnabod ar y gost hanesyddol, sy'n brocsi ar gyfer y gost bresennol ar asedau ag oes fer ac yn cael ei ddibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

**Ailbrisiadau ac Amariadau**
Mae'r awdurdod yn sicrhau bod yr holl eiddo, peiriannau ac offer y mae'n ofynnol eu mesur ar eu gwerth cyfredol yn cael eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd fel nad yw eu swm cario yn sylweddol wahanol i'w gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn, ac o leiaf bob pum mlynedd. Cyflawnwyd yr holl brisiadau'n fewnol. Cynhaliwyd prisiadau tir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau a'r sail ar gyfer amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Cynhaliwyd adolygiad o holl adeiladau'r gorsafoedd tân, fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2024, yn dilyn cyngor gan y priswyr bod y gost o godi adeiladau eraill yn eu lle wedi gostwng. Mae gorsafoedd tân yn cael eu prisio ar gost codi adeilad arall yn eu lle gyda dibrisiant. Cafodd y swyddfeydd a'r gweithdai eu hailbrisio yn 2022/23 ac maent wedi'u prisio ar sail gwerth eu defnydd presennol.

Mae prisiadau cerbydau, peiriannau ac offer yn seiliedig ar brisiau cyfredol lle mae marchnad ail-law weithredol neu'r prisiau rhestr diweddaraf wedi'u haddasu yn ôl cyflwr yr ased.

**YMRWYMIADAU CYFALAF**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwyo i wariant cyfalaf mewn cyfnodau yn y dyfodol sy'n deillio o gontractau a oedd yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r gwariant cyfalaf yr ymrwymwyd iddo ar 31 Mawrth 2024 ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol yn cyfateb i £3,804k (2022/23: £882k). Mae'r ymrwymiadau'n ymwneud â'r canlynol:

| **Disgrifiad** | **£'000** |
|---|---:|
| Gwaith Adeiladu | 214 |
| Prynu tir | 2,629 |
| Peiriant tân | 961 |
| **Cyfanswm** | **3,804** |

**ASEDAU DROS BEN (Eiddo, peiriannau ac offer nad ydynt yn weithredol**)

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau perthnasol dros ben.

## 12 OFFERYNNAU ARIANNOL

### Categorïau Offerynnau Ariannol

Mae'r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario yn y Fantolen:

| | Heb fod yn gyfredol | | Cyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2023 £’000 | 31 Mawrth 2024 £’000 | 31 Mawrth 2023 £’000 | 31 Mawrth 2024 £’000 |
| **Asedau Ariannol ar Gost** | | | | |
| Arian parod a Chyfwerth ag arian parod | 0 | 0 | 4,177 | 2,973 |
| Dyledwyr | 33 | 62 | 5,041 | 1,275 |
| **Rhwymedigaeth Ariannol ar Gost Amorteiddiedig**: | | | | |
| Llog Cronedig | 0 | 0 | (194) | (116) |
| Benthyciadau | (17,787) | (14,073) | (8,674) | (3,714) |
| Cyfanswm Benthyciadau | (17,787) | (14,073) | (8,868) | (3,830) |
| Credydwyr | 0 | 0 | (4,287) | (6,042) |

### Offerynnau Ariannol Enillion/Colledion

Mae'r enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| | 2022/23 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | Ymrwymiadau Ariannol Mesur ar gost amorteiddiedig £’000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £’000 | Ymrwymiadau Ariannol Mesur ar gost amorteiddiedig £’000 | Asedau Ariannol Benthyciadau a derbyniadau £’000 |
| Gwariant llog | 464 | | 692 | |
| **Cyfanswm y gwariant yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **464** | | **692** | |
| Incwm llog | | (61) | | (429) |
| **Cyfanswm yr incwm yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | | **(61)** | | **(429)** |
| **Enillion net/(colledion) am y flwyddyn** | **464** | **(61)** | **692** | **(429)** |

### Gwerth Teg Asedau ac Ymrwymiadau sy’n cael eu Cario ar Gost Amorteiddiedig

Mae'r ymrwymiadau ariannol a'r asedau ariannol a gynrychiolir gan fenthyciadau a derbyniadau yn cael eu cario ar y Fantolen ar gost amorteiddiedig (mewn asedau/ymrwymiadau tymor hir gyda llog cronedig mewn asedau/ymrwymiadau cyfredol). Gellir asesu eu gwerth teg trwy gyfrifo gwerth presennol y llif arian sy'n digwydd dros weddill oes yr offerynnau, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- O ran benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a benthyciadau eraill sy'n daladwy, mae benthyciadau gan y Bwrdd wedi cael eu defnyddio i ddarparu gwerth teg dan weithdrefnau ad-dalu dyledion y Bwrdd;
- O ran benthyciadau a dderbynnir, defnyddiwyd y cyfraddau farchnad meincnod cyffredinol i ddarparu'r gwerth teg;
- Ni chydnabyddir ad-daliad cynnar nac amhariad;
- Pan fo offeryn yn aeddfedu ymhen llai na 12 mis, neu pan fo'n swm masnach neu'n swm derbyniadwy arall, cymerir mai'r gwerth teg yw'r swm sy'n cario neu'r swm ar yr anfoneb;
- Cymerir mai gwerth teg swm masnach neu swm derbyniadwy arall yw'r swm ar yr anfoneb neu’r infois.

Dyma'r gwerthoedd teg a gyfrifir:

| | 31-Mar-23 | | 31-Mar-24 | |
|---|---|---|---|---|
| | Swm cario £’000 | Gwerth teg £’000 | Swm cario £’000 | Gwerth teg £’000 |
| Dyled y BBGC | (20,460) | (18,630) | (17,787) | (17,118) |
| Dyled nad yw'r BBGC | (6,000) | (6,000) | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **(26,460)** | **(24,630)** | **(17,787)** | **(17,118)** |

Mae'r gwerth teg wedi ei gyfrifo gan gyfeirio'n benodol at ddyfynbrisiau a gyhoeddwyd mewn marchnad weithredol. Yn achos yr Awdurdod Tân ac Achub, maent yn seiliedig ar bremiymau a fyddai'n daladwy pe ildiwyd benthyciadau'r BBGC ac maent yn darparu rhagamcan o'r llog ychwanegol sy'n daladwy i'w gymharu â'r un benthyciad ar gyfraddau cyfredol y farchnad â disgownt yn ôl i'r cyfnod presennol.

### 13 RHESTRAU STOC

| | Prif Storfeydd | | Stoc Fflyd | | Cyfansymiau | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 £’000 | 2023/24 £’000 | 2022/23 £’000 | 2023/24 £’000 | 2022/23 £’000 | 2023/24 £’000 |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | 420 | 451 | 181 | 187 | 601 | 638 |
| Pryniadau | 101 | 314 | 203 | 229 | 304 | 543 |
| Dileuadau | (15) | (50) | (1) | (1) | (16) | (51) |
| Cydnabyddir fel Gwariant yn y flwyddyn | (55) | (302) | (196) | (214) | (251) | (516) |
| **Balans sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn** | **451** | **413** | **187** | **201** | **638** | **614** |

## 14 DYLEDWYR

| 2022/23 £’000 | | 2023/24 £’000 |
|---|---|---|
| | **Tymor Hir** | |
| 33 | Rhagdaliadau | 62 |
| **33** | **Cyfanswm Tymor Hir** | **62** |
| | **Tymor Byr** | |
| 372 | Symiau Derbyniadwy Eraill | 286 |
| 3,692 | Symiau Masnach Derbyniadwy | 488 |
| 977 | Rhagdaliadau | 501 |
| **5,041** | **Cyfanswm Tymor Byr** | **1,275** |
| **5,074** | **Cyfanswm Dyledwyr Tymor Hir a Thymor Byr** | **1,337** |

## 15 ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

| 31-Mar-23 £’000 | | 31-Mar-24 £’000 |
|---|---|---|
| 4,167 | Balansau Arian Parod a Balansau Banc | 1,483 |
| 0 | Adneuon Tymor Byr | 1,480 |
| 10 | Imprest Arian Mân | 10 |
| **4,177** | **Cyfanswm** | **2,973** |

## 16 CREDYDWYR

| 2022/23 £’000 | | 2023/24 £’000 |
|---|---|---|
| (811) | Symiau Taladwy Eraill | (3,364) |
| (3,476) | Symiau Masnach Taladwy | (2,678) |
| **(4,287)** | **Cyfanswm** | **(6,042)** |

## 17 DARPARIAETHAU

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan yr Awdurdod ddarpariaethau yn werth £690k yn ymwneud ag ymrwymiadau tuag at weithwyr cyflogedig. Defnyddir y ddarpariaeth hon yn erbyn gwariant refeniw, pan fydd yn digwydd:

| | Balans Agoriadol £’000 | Symudiadau I Mewn £’000 | Symudiadau Allan £’000 | Balans Terfynol £’000 |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaethau Tymor Byr | (273) | (25) | 81 | (217) |
| Darpariaethau Tymor Hir | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **(273)** | **(25)** | **81** | **(217)** |

## 18 CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31-Mar-23 £’000 | | 31-Mar-24 £’000 |
|---|---|---|
| (18,175) | Cronfa Ailbrisio | (17,304) |
| (10,013) | Cyfrif Addasu Cyfalaf | (10,935) |
| 227,143 | Cronfa Pensiynau | 231,610 |
| 272 | Cyfrif Absenoldebau Cronedig | 386 |
| **199,227** | **Cyfanswm** | **203,757** |

### 18a Cronfa Ailbrisio

Mae'r Gronfa Ailbrisio yn cynnwys yr enillion a wnaed gan yr Awdurdod sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Beiriannau a'i Offer.

Bydd y balans yn cael ei ostwng pan fo asedau gydag enillion cronedig yn:
- cael eu hailbrisio am i lawr, neu'n cael eu hamharu a'r enillion yn cael eu colli;
- cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, a'r enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiad, neu'n cael eu gwaredu, a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Nid yw'r Gronfa ond yn cynnwys enillion cronedig ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa. Mae enillion cronedig sy'n deillio cyn y dyddiad hwnnw yn cael eu cyfuno yn y balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2022/23 £’000 | | 2023/24 £’000 |
|---|---|---|
| **(8,550)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(18,175)** |
| (9,832) | Ailbrisio asedau am i fyny | 0 |
| 0 | Ailbrisio asedau a cholledion amhariad i lawr nas codir ar y gwarged/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau | 557 |
| 57 | Addasiad o’r Cyfrif Addasu Cyfalaf | 0 |
| 150 | Gwahaniaeth rhwng dibrisiad gwerth teg a dibrisiad cost hanesyddol | 314 |
| **(18,175)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(17,304)** |

### 18b Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sydd rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer rhoi cyfrif am dreuliant asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan y darpariaethau statudol.

Debydir y Cyfrif gyda chost caffael, adeiladu neu wella gan fod dibrisiad, colled amhariad ac amorteiddiad yn cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda chofnodion cyson o'r Gronfa Ailbrisio i drosi ffigyrau gwerth teg yn sail cost hanesyddol). Credydir y Cyfrif gyda'r symiau a neilltuwyd gan yr Awdurdod fel arian ar gyfer costau caffael, adeiladu a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi, ac enillion a gydnabuwyd ar asedau rhoddedig sydd eto i gael eu defnyddio gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion prisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau ac Offer cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crewyd y Gronfa Ailbrisio ar gyfer dal enillion o'r fath.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **(6,444)** | **Balans ar 1 Ebrill** | **(10,013)** |
| 2,089 | Taliadau am ddibrisiad ac amhariad asedau anghyfredol | 2,445 |
| 23 | Swm yr ased anghyfredol wedi'i ddileu wrth waredu neu werthu | 25 |
| (57) | Addasiad Blwyddyn Flaenorol - trosglwyddo rhwng CAC ac CA | 0 |
| (2,584) | Addasiad sy'n ymwneud ag ailbrisio asedau | 32 |
| (150) | Addasu symiau a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisio | (314) |
| **(679)** | **Swm net a ddilëwyd o gost yr asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn** | **2,188** |
| (216) | Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a ddefnyddiwyd ar gyfer ariannu cyfalaf | (71) |
| (525) | Gwariant cyfalaf a godir yn erbyn y Gronfa Gyffredinol/ Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | (1,101) |
| (189) | Defnydd o grantiau i ariannu cyfalaf o'r cyfrif grantiau cyfalaf nas defnyddiwyd | (36) |
| (1,960) | Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol | (1,902) |
| **(2,890)** | **Ariannu Cyfalaf a Ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn** | **(3,110)** |
| **(10,013)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(10,935)** |

## 18c Cronfa Pensiynau

Mae'r gronfa pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n digwydd oherwydd y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifyddu buddion ôl-gyflogi a buddion ariannu yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn rhoi cyfrif am fuddion ôl-gyflogi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan fod y buddion yn cael eu hennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r ymrwymiadau a gydnabyddir i adlfewyrchu chwyddiant, newid rhagdybiaethau ac adenillion buddsoddiadau ar unrhyw adnoddau a neilltuir i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fuddion a enillir gael eu hariannu gan fod yr awdurdod yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu yn y pen draw yn talu unrhyw bensiynau y mae'n gyfrifol amdanynt yn uniongyrchol. Felly mae'r balans debyd ar y gronfa pensiynau yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion a enillwyd gan weithwyr blaenorol a chyfredol a'r adnoddau y mae'r Awdurdod wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn adeg talu'r buddion.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **327,498** | **Balans Agoriadol ar 1 Ebrill** | **227,143** |
| (109,388) | Ailfesur yr ymrwymiad budd diffiniedig net | 1,096 |
| 18,419 | Gwrthdroi eitemau yn berthnasol i fuddion ymddeoliad wedi'u debydu i'r Darpariaeth Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 13,903 |
| (9,386) | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn | (10,532) |
| **(100,355)** | **Symudiad ar y Gronfa Pensiynau** | **4,467** |
| **227,143** | **Balans ar 31 Mawrth** | **231,610** |

## 18d Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn digwydd ar falans y Gronfa Cyffredinol o ganlyniad i absenoldebau digolledol a enillwyd ond chymerwyd yn y flwyddyn e.e hawl i wyliau blynyddol wedi ei gario drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn mynnu bod yr effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei niwtraleiddio trwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **338** | **Balans ar 1 Ebrill** | **272** |
| (338) | Setlo neu ganslo croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol | (272) |
| 272 | Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol | 386 |
| **272** | **Balans ar 31 Mawrth** | **386** |

## 19 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| **5,109** | **(Gwarged)/Diffyg Net wrth Ddarparu Gwasanaethau** | **1,604** |
| | **Addasiadau i (warged)/diffyg net ar gyfer symudiadau anariannol** | |
| 38 | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Stoc | (26) |
| 1,310 | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Dyledwyr | (3,736) |
| (1,240) | Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Credydwyr | (1,754) |
| (2,089) | Cost Dibrisio | (2,446) |
| 34 | Cyfraniadau a Dderbyniwyd/Derbyniadau Cyfalaf | 39 |
| (9,033) | Addasiadau Pensiwn IAS 19 | (3,371) |
| 2,584 | Codi am Amhariad/Ailbrisio Asedau | (32) |
| (23) | Swm cario Asedau Anghyfredol wedi'u gwerthu neu eu dadadnabod | (25) |
| 464 | Cyfraniad (i)/o Wahanol Ddarpariaethau | 56 |
| 0 | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu costio i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | 0 |
| 66 | Cronfa wrth gefn Absenoldebau Cronedig | (114) |
| **(7,889)** | **Llai Cyfanswm** | **(11,409)** |
| | **Addasiadau am eitemau sydd yn y (Gwarged) neu'r Diffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi ac Ariannu** | |
| (465) | Llog a dalwyd | (692) |
| 61 | Llog a gafwyd | 429 |
| **(404)** | | **(263)** |
| **(3,184)** | **Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol** | **(10,068)** |

## 20 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 3,367 | Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 2,183 |
| (11) | Enillion o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (14) |
| 0 | Derbyniadau eraill o weithgareddau buddsoddi | 71 |
| **3,356** | **Llifau arian net o weithgareddau buddsoddi** | **2,240** |

## 21 DATGANIAD LLIF ARIAN - GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| (13,000) | Derbyniadau arian parod o fenthyca tymor byr a thymor hir | 0 |
| 10,780 | Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir | 8,769 |
| 404 | Taliadau eraill am weithgareddau ariannu | 263 |
| **(1,816)** | **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **9,032** |

## 22 LWFANSAU AELODAU

Talodd yr Awdurdod y symiau canlynol i aelodau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn:

| 2022/23 £ | | 2023/24 £ |
|---|---|---|
| 74,215 | Lwfansau Aelodau Etholedig | 84,804 |
| 1,226 | Treuliau Aelodau Etholedig | 2,209 |
| 12 | Costau Aelodau Cyfetholedig | 2,390 |
| **75,441** | **Cyfanswm** | **89,403** |

Sylwch fod ffigurau aelodau cyfetholedig 2022-23 wedi'u hailddatgan i ddatgelu'r treuliau a dalwyd i'r Aelodau Annibynnol.

## 23 TALIADAU SWYDDOGION

Mae'r taliadau a delir i uwch weithwyr yr Awdurdod fel a ganlyn:

| Teitl Swydd | Blwyddyn | Cyflog (gan gynnwys Ffioedd a Lwfansau) £ | Treuliau a ad-dalwyd £ | Budd mewn Nwyddau £ | Cyfanswm (Ac Eithrio Cyfraniadau Pensiwn) £ | Cyfraniadau Pensiwn £ | Cyfanswm y Taliadau £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddog Tân | 2022/23 | 138,685 | 57 | 0 | 138,742 | 23,576 | 162,318 |
| | **2023/24** | **160,231** | **0** | **0** | **160,231** | **29,216** | **175,579** |
| Dirprwy Brif Swyddog Tân | 2022/23 | 110,948 | 5,565 | 1,380 | 117,893 | 30,289 | 148,182 |
| | **2023/24** | **127,594** | **0** | **0** | **127,594** | **34,833** | **162,427** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (wedi ymddeol Mehefin 2023) | 2022/23 | 105,795 | 126 | 1,896 | 107,817 | 28,882 | 136,699 |
| | **2023/24** | **31,348** | **21** | **0** | **31,369** | **6,888** | **38,257** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (eiliwyd Mawrth 2024)* | 2022/23 | 104,014 | 0 | 1,595 | 105,609 | 17,682 | 123,291 |
| | **2023/24** | **104,335** | **0** | **0** | **104,335** | **28,483** | **132,818** |
| Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | 2022/23 | 104,014 | 0 | 0 | 104,014 | 28,396 | 132,410 |
| | **2023/24** | **120,176** | **0** | **0** | **120,176** | **21,912** | **131,687** |
| Temporary Prif Swyddog Cynorthwyol (penodwyd ym mis Mawrth 2024) | 2022/23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **2023/24** | **6,523** | **7** | **0** | **6,530** | **1,421** | **7,951** |
| Trysorydd - Swyddog Adran 151 (15 diwrnod y flwyddyn) | 2022/23 | 8,020 | 251 | 0 | 8,271 | 0 | 8,271 |
| | **2023/24** | **8,180** | **0** | **0** | **8,180** | **2,860** | **11,040** |

Mae’r ffigurau uchod yn cynnwys ôl-daliadau o £38k, o fis Ionawr 2022, oherwydd setliad dyfarniad cyflog Rheolwyr y Frigâd y cytunwyd arno ym mis Mai 2023.

*Prif Swyddog Tân Cynorthwyol ar secondiad dros dro i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel Prif Swyddog Tân, o 12 Chwefror 2024. Mae costau cyflog o'r dyddiad hwn, sef cyfanswm o £23,589, a chostau pensiwn o £4,324, wedi'u talu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r Swyddog. Monitro yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth felly ni ddangosir unrhyw gostau unigolyn yn y tabl uchod. Ceir rhagor o wybodaeth ar gostau'r Swyddog Monitro yn Nodyn 27 - Partion Cysylltiedig.

Talwyd y symiau canlynol i gyflogeion eraill yr awdurdod a oedd yn cael cydnabyddiaeth o fwy na £60,000 ar gyfer y flwyddyn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr):

| BAND TALIAD | 2022/23 NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG | 2023/24 NIFER Y GWEITHWYR CYFLOGEDIG |
|---|---|---|
| £60,000 - £64,999 | 9 | 19 |
| £65,000 - £69,999 | 7 | 6 |
| £70,000 - £74,999 | 0 | 6 |
| £75,000 - £79,999 | 4 | 1 |
| £80,000 - £84,999 | 0 | 0 |
| £85,000 - £89,999 | 0 | 2 |
| £90,000 - £94,999 | 0 | 1 |

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r gymhareb rhwng tâl y Prif Swyddog Tân a thál canolrifol staff y Gwasanaeth Tân ac Achub:

| 2022/23 £ | | 2023/24 £ |
|---|---|---|
| 138,685 | Prif Swyddog Tân | 160,231 |
| 34,501 | Canolrif | 36,226 |
| 4.02 | Cymhareb | 4.42 |

Mae'r staff a gyflogir o dan gontractau System Dyletswydd wrth gefn wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ar eu pwynt graddfa Cyfwerth ag Amser Llawn yn hytrach nag enillion gwirioneddol. Mae'r data uchod yn cynnwys cyfanswm y cyflog a dalwyd ac mae hefyd yn cynnwys ôl-daliad ar gyfer y CFO sy'n ymwneud â 2022-23 sydd wedi adlewyrchu ar y gymhareb (ac eithrio cyfraniadau pensiwn).

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn 2023/24 a 2024/25.

## 24 COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | Ffioedd sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a gynhelir gan yr archwilydd penodedig | |
| 56 | Gwaith archwilio ariannol | 60 |
| 16 | Gwaith Archwilio Perfformiad | 16 |
| **72** | **Cyfanswm** | **76** |

## 25 GRANTIAU

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| | **Credydwyd i Wasanaethau** | |
| 416 | Ffioedd Gwasanaeth Firelink | 0 |
| 179 | Lleihau Tanau Bwriadol | 169 |
| 226 | Offer Diogelwch yn y Cartref | 240 |
| 10 | Gofyn a Gweithredu | 0 |
| 314 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 322 |
| 147 | Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid | 141 |
| 1,081 | Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Costau Cyfraniadau Cyflogwr | 0 |
| 2 | Arolwg Gwresogi | 0 |
| 10 | Rheoli Digwyddiadau Gwybodaeth Diogelwch | 0 |
| 0 | Operation Ugain | 14 |
| 0 | Hanfodion Seibr | 5 |
| **2,385** | **CYFANSWM** | **891** |
| | **Credydwyd i drethiant ac incwm a gwariant amhenodol** | |
| 133 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 71 |
| 120 | Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan | 0 |
| **253** | **CYFANSWM** | **71** |

## 26 GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru wrth weinyddu dau gynllun grant ar gyfer yr holl Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r grantiau cymeradwy yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd wedyn yn gyfrifol am ddosbarthu'r grantiau i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Fforwm Cadernid Lleol. Mae hon yn bartneriaeth amlasiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, y GIG, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill. Mae cyfraniadau gan y cyrff cyhoeddus amrywiol yn cael eu talu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Defnyddir y cyllid hwn i dalu am wariant y Fforwm. Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan yr Awdurdod gyllid o £36k yn ymwneud â'r Fforwm.

| 2022/23<br>£'000 | | 2023/24<br>£'000 |
|---|---|---|
| 2,545 | Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru Gyfan | 3,144 |
| 247 | Ymgysylltu â Phlant ac Ieuenctid | 266 |
| 129 | Fforwm Cydnerthedd Lleol | 135 |
| **2,921** | **Cyfanswm** | **3,545** |

## 27 PARTION CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodion o bwys gyda phartion cysylltiedig – cyrff neu unigolion a allai reoli neu ddylanwadu ar yr Awdurdod neu gael eu rheoli neu eu dylanwadu gan yr Awdurdod. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai'r Awdurdod fod wedi cael ei gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu fod wedi sicrhau'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhwydd â'r awdurdod.

### Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru gryn ddylanwad dros weithrediad cyffredinol yr Awdurdod – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r awdurdod yn gweithredu o’i fewn. Mae'n darparu'r rhan fwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau (caiff y Grant Cynnal Refeniw ei dalu i awdurdodau cyfansoddol) ac mae'n rhagnodi telerau llawer o'r trafodion sydd gan yr awdurdod â phartion eraill. Yn Nodyn 25, dangosir y derbyniadau grant a geir yn uniongyrchol, ac yn Nodyn 10 dangosir cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol.

### Aelodau

Mae gan aelodau'r awdurdod reolaeth uniongyrchol dros bolisiau ariannol a gweithredol yr awdurdod. Yn Nodyn 22 gwelir cyfanswm lwfansau'r aelodau a dalwyd yn 2023/24.

Cwblhaodd 26 Aelod ffurflen datganiad o fuddiant gyda phartïon cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn 2023/24. Ni wnaeth 2 Aelod ddychwelyd eu ffurflenni, er gofyn iddynt dro ar ôl tro. Yn achos y 2 Aelod na wnaethant ddychwelyd eu ffurflenni, cwblhawyd adolygiad o’r wybodaeth a gedwir gan eu hawdurdod cyfansoddol.

Ac eithrio lwfanau a threuliau, ni nodwyd unrhyw drafodion eraill. Ni thalwyd dim gan yr Awdurdod yn ystod 2023/24, dan drefniadau o'r fath (2022/23: dim), ac nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2023/24 (2022/23: dim).

Mae rhestr o fuddiannau Aelodau Etholedig yn cael ei chadw gan y Swyddog Monitro ac mae ar gael i'w gweld ar y wefan - Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (gov.wales)

### Uwch Swyddogion

Roedd yr Uwch Swyddogion wedi cwblhau datganiad buddiannau gyda phartion cysylltiol am y flwyddyn 2023/24. Yn Nodyn 23, dangosir cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Swyddogion.

Roedd un o'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol wedi datgan buddiant fel un o ymddiriedolwyr Pentre Peryglon. Mae'r elusen annibynnol yn rhedeg canolfan gweithgareddau addysg sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru. Roedd taliadau gwerth £12,844 wedi cael eu gwneud i Bentre Peryglon yn 2023/24 fel rhan o gyllid grant Llywodraeth Cymru (2022/23: £5,450). Hefyd, darperir cyllid ar gyfer cost gweinyddwr, sy'n werth £32,258 (2022/23: £29,287).

Am y cyfnod Ebrill i Fehefin 2023, roedd y Trysorydd hefyd yn cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd fel Cyfarwyddwr Cronfa Bensiwn Gwynedd, a chan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fel Swyddog Adran 151.

Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw incwm yn ystod 2022/23 a 2023/24.

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu rôl Swyddog Monitro. Delir y swydd hon gan y Prif Swyddog (Llywodraethu)/Swyddog Monitro ac roedd taliadau yn £19k (2022/23: £18k).

Darparwyd gwasanaethau cyfreithiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a chyfanswm y taliadau am hyn oedd £12k (2022/23: £12k). Ar 31 Mawrth 2024, roedd £12k yn ddyledus.

Ers 1 Ebrill 2023, mae Mersey Internal Audit wedi darparu gwasanaethau archwilio mewnol, a thalwyd cyfanswm o £24k amdanynt. Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd unrhyw daliadau'n ddyledus.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n gweithredu ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed, yn rheoli'r taliadau a wneir i ddiffoddwyr tân sy'n bensiynwyr ar ran yr Awdurdod. Maent hefyd yn gyfrifol am reoli cofnodion pensiynwyr presennol ac aelodau gweithredol y cynllun. Roedd y trafodion yn y flwyddyn yn £91k (2022/23: £98k). Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd unrhyw daliadau'n ddyledus.

Ym mis Chwefror 2024, dechreuodd cytundeb secondiad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru er mwyn cael Arweinydd Pensiwn Diffoddwyr Tân, a chyfanswm y gost am hyn oedd £2k. Roedd y balans hwn yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau ar y cyd gyda Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn ogystal ag ystafell reoli a rennir. Cyfanswm cyfraniad yr Awdurdod tuag at reoli cyfleusterau oedd £220k (2022/23: £219k), ac ar gyfer cyngor caffael, talwyd £7k (2022/23: £7k). Ar 31 Mawrth 2024 arhosodd £117k yn rhagorol.

## 28 GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yr aed iddo yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod, (gan gynnwys gwerth asedau a gaffaelwyd dan brydlesi ariannu a chytundebau PFI), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bwriedir ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy daliadau a godir ar refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan yr awdurdod, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y gofyniad ariannu cyfalaf, sef mesur o'r gwariant cyfalaf yr aed iddo'n hanesyddol gan yr awdurdod sydd eto i'w ariannu.

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 28,401 | Gofyniad Ariannu Cyfalaf Agoriadol | 28,877 |
| | **Buddsoddiad Cyfalaf** | |
| 3,366 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | 2,183 |
| | **Ffynonellau Cyllid** | |
| (406) | Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth | (107) |
| (1,959) | Symiau wedi'u neilltuo o refeniw | (1,902) |
| (525) | Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol | (1,101) |
| **28,877** | Gofyniad Ariannu Cyfalaf Terfynol | **27,950** |
| 476 | Cynnydd)/gostyngiad yn yr angen gwaelodol i fenthyca (heb gymorth ariannol gan y llywodraeth) | (927) |
| **476** | **Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Ariannu Cyfalaf** | **(927)** |

## 29 PRYDLESI

### Prydlesi Cyllid

Yn 2016/17 cafodd yr Awdurdod orsaf dân Wrecsam dan les cyllid. Mae'r ased a gafwyd dan y les yn cael ei chario ar y Fantolen dan Eiddo, Peiriannau ac Offer gyda gwerth net o £6,663k. Rhent rhad yw'r taliad les ar gyfer Gorsaf Dân Wrecsam, felly nid oes cysoniad rhwng cyfanswm y taliadau les gofynnol yn y dyfodol a'r gwerth presennol.

### Prydlesi Gweithredu

Mae'r Awdurdod wedi caffael cerbydau a chyfarpar drwy gael prydlesi gweithredu ag oes o bedair blynedd fel arfer.

Hefyd, mae'r Awdurdod yn prydlesu tri adeilad, â chyfnodau prydlesu o bum mlynedd fel arfer.

Dyma'r cyfnodau prydlesu isaf ar gyfer y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu canslo yn y dyfodol:

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| 362 | Dim hwyrach na blwyddyn | 444 |
| 644 | Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 1,182 |
| 59 | Hwyrach na 5 mlynedd | 72 |
| **1,065** | | **1,698** |

### IFRS 16 Prydlesi Gweithredu

Bydd IFRS 16 yn arwain at newid yn y modd y caiff prydlesi eu trin yn natganiadau ariannol yr Awdurdod.

Bydd IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i brydlesi a ddaliwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredu gael eu cydnabod ar y fantolen drwy ased 'hawl i ddefnyddio', sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o wariant cyfalaf.

Nodir effaith ddisgwyliedig gweithredu IFRS16 yn y tabl isod, lle mae costau'r prydlesi gweithredu cyfredol wedi'u rhannu i ddangos yr elfen o'r les a fydd yn cael ei thrin fel ased cyfalaf.

| 2023/24 Prydlesi Gweithredu Cyfredol £'000 | | 2023/24 Trosglwyddo i asedau Hawl i Ddefnyddio £'000 | 2023/24 Costau'r Gwasanaeth a godir ar refeniw £'000 | 2023/24 Prydlesi gwerth isel sydd wedi'u heithrio o IFRS16 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 444 | Dim hwyrach na blwyddyn | 273 | 169 | 2 |
| 1,182 | Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 607 | 575 | 0 |
| 72 | Hwyrach na 5 mlynedd | 70 | 2 | 0 |
| **1,698** | | **950** | **746** | **2** |

## 30 CYNLLUNIAU PENSIWN BUDDION DIFFINIEDIG

### Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniad tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy mewn gwirionedd nes bod gweithwyr cyflogedig yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu ar yr adeg y mae gweithwyr cyflogedig yn ennill eu hawl iddynt yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yn cael ei weithredu o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a chyfrifoldeb Cronfa Bensiwn Clwyd, Cyngor Sir y Fflint yw llywodraethu'r cynllun. Penderfynir ar y polisi yn unol â Rheoliadau Cronfeydd Pensiynau. Mae rheolwyr buddsoddi'r gronfa yn cael eu penodi gan bwyllgor pensiynau Cyngor Sir y Fflint. Prif risgiau'r cynllun i'r awdurdod yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu allan o'r cynllun ar raddfa fawr), newidiadau i chwyddiant, arenillion bond a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i raddau gan y gofynion statudol i'w codi i'r Gronfa Gyffredinol a'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifyddu. Rydym yn cydnabod cost buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan delir y buddion ar ffurf pensiynau yn y pen draw.

Fodd bynnag, mae'r taliad y mae'n rhaid inni ei godi yn erbyn yr ardoll yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth / buddion ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Mae buddion ôl-ymddeol yn ôl disgresiwn ar ymddeoliad cynnar yn drefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu, lle mae ymrwymiadau yn cael eu cydnabod pan wneir dyfarniadau. Nid oes unrhyw asedau cynllun wedi'u cronni i fodloni'r ymrwymiadau pensiwn hyn.

Mae Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn gynllun diffiniedig heb ei ariannu â buddion, sy'n golygu na ddelir buddsoddiadau i ariannu'r ymrwymiadau. Mae cyfraniadau, ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru, a wneir gan y cyflogwr a'r gweithwyr cyflogedig yn cael eu cadw mewn cyfrif cronfa bensiwn; codir buddion a delir i'r cyfrif gydag unrhyw falans ar y cyfrif yn cael ei dderbyn neu ei dalu i Lywodraeth Cymru.

### O'Brien

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd y dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pryd y gallai gweithiwr rhan-amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad ac y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007

(Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 ei wneud a'i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn (h.y. i'w gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2025).

Ni ellir cyfrifo'n llawn effaith ariannol lawn y rheoliadau wedi'u diweddaru er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

**Cyfartalu a Mynegeio Isafswm Pensiwn Gwaranatedig (GMP)**
Yn ddiweddar, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar fynegeio a chyfartalu Isafswm Pensiynau Gwarantedig, a'r cynnig yw ymestyn y "datrysiad interim" i'r aelodau sy'n cyrraedd Oedran Pensiwn Gwladol ar ôl 5 Ebrill 2021.

Cafodd cost gwasanaeth blaenorol ei gynnwys yn natgeliadau 2019/20 ar gyfer ymestyn y cyfartalu i bawb sy'n ymddeol yn y dyfodol. Roedd dyfarniad llys pellach hefyd ar 20 Tachwedd 2020 ynghylch cyfartalu GMP. Dyfarnodd y llys fod rhaid i ymddiriedolwyr cynlluniau ailedrych ar gyn-Werthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) er mwyn sicrhau bod GMP yn cael ei gyfartalu. Gallai hyn arwain at atodiadau ychwanegol pan fo cyfartalu GMP yn golygu nad yw aelodau wedi derbyn eu holl hawliad. Ar gyfer cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus, disgwylir y bydd y dyfarniad hwn yn cael ei ddilyn ar draws cynlluniau, a bydd angen mewnbwn cyfreithiol.

Efallai y bydd hyn yn gofyn am ailedrych ar achosion CETV yn y gorffennol ar gyfer aelodau ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 5 Ebrill 2016 ac a gymerodd CETV o'r cynllun cyn i CETV gael ei gyfartalu. Nid yw cwmpas unrhyw gostau wedi'i bennu eto. Nid yw data ar CETV hanesyddol ar gael i amcangyfrif yr effaith bosibl. Disgwylir y bydd hwn yn godiad cymharol fach ar gyfer is-set gymharol fach o aelodau (h.y. y rhai a gymerodd CETV ac sydd o fewn y cwmpas ar gyfer ychwanegiad atodol).

**Dyfarniad McCloud a rheolaeth gwerth y costau 2016**
Yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl i achos McCloud yn Rhagfyr 2018, daethpwyd i'r casgliad bod yr amddiffyniadau trosiannol a gyflwynwyd yn 2015 yn gwahaniaethu ar sail oedran. Yn dilyn hyn cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu ar draws cynlluniau pensiwn sector cyhoeddus y DU yn cynnwys Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Ailafaelwyd yn mecanwaith y cap ar gyfer prisiad 2016 ers hynny a chwblhawyd y cyfrifiadau, a'r canlyniad oedd dim newidiadau i fuddion na chyfraniadau.

Cyhoeddwyd hefyd y byddai'r materion yn ymwneud â'r gwerthusiad actiwariadd yn 2016 yn cael eu datrys ac y byddai'r costau yn gysylltiedig â dyfarniad McCloud yn dod o dan y categori 'cost aelod' yn yr elfen rheoli costau o brisiad. Wrth ystyried y cynnydd o ganlyniad i rwymedi McCloud bydd gwerth y costau rheoli ar gyfer cynllun yn uwch na'r disgwyl.

Mae'r costau gwasanaeth blaenorol wedi'u hamcangyfrif er mwyn ystyried effaith dyfarniad McCloud ac maent wedi'u cynnwys yn y Gronfa Bensiwn ers 2018/19. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r rhwymedi a amlinellwyd gan Lywodraeth y DU a'r newidiadau gofynnol i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a osodwyd gan Weinidogion Cymru a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2023.

**Virgin Media Pension Ruling**

Ym mis Mehefin 2023, canfu'r Uchel Lys yn achos Virgin Media bod newidiadau i fuddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio a gafodd eu contractio allan rhwng 1996 a 2016 yn gofyn am dystysgrif actiwaraidd yn unol ag adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 a bod newidiadau heb yr ardystiad hwn i'w hystyried yn ddi-rym. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i hawliau gwasanaeth yn y gorffennol a hawliau gwasanaeth yn y dyfodol, ac i newidiadau sydd er anfantais neu er budd aelodau'r cynllun. Apeliwyd yn erbyn y dyfarniad ym mis Mehefin 2024 ond gwrthodwyd yr apêl.

Ar gyfer y Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol a Diffoddwyr Tân, nid yw'r actiwarïaid yn credu bod unrhyw gadarnhad actiwaraidd yn eisiau. Felly, nid ydynt yn disgwyl i unrhyw newidiadau atebolrwydd godi yn dilyn y dyfarniad hwn.

| LGPS 2022/23 £'000 | FFPS 2022/23 £'000 | Trosglwyddiadau'r Gronfa Gyffredinol | LGPS 2023/24 £'000 | FFPS 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| | | **Cost Gwasanaethau** | | |
| | | **Cost Gwasanaeth sy'n cynnwys:** | | |
| 2,295 | 7,170 | Cost cyfredol y gwasanaeth | 1,055 | 1,620 |
| 0 | 0 | Cost blaenorol y gwasanaeth | 0 | 0 |
| 46 | 0 | Costau Gweinyddu | 49 | 0 |
| | | **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | |
| 396 | 8,270 | Gwariant Llog Net | 69 | 10,310 |
| 0 | 0 | Trosglwyddiadau allan o'r cynllun | 0 | 0 |
| 0 | 220 | Trosglwyddiadau i mewn i'r cynllun | 0 | 800 |
| 22 | 0 | Cwtogiadau | 0 | 0 |
| **2,759** | **15,660** | **Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar Ddarparu Gwasanaethau** | **1,173** | **12,730** |
| | | **Buddion Ôl-gyflogaeth Eraill a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | |
| | | **Ailfesur y budd/rhwymedigaeth net diffiniedig yn cynnwys:** | | |
| 4,634 | 0 | Adenillion ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio llog) | (1,852) | 0 |
| 4,966 | (10,560) | (Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Demograffig | (331) | 0 |
| (24,238) | (101,710) | (Enillion) / Colledion Actwaraidd yn dellio o Newidiadau i'r Rhagdybiaethau Ariannol | (1,359) | (4,410) |
| 0 | 17,520 | (Enillion) / Colledion Actiwaraidd - profiad | 0 | 7,810 |
| **(14,638)** | **(94,750)** | **Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a Godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | **(3,542)** | **3,400** |
| | | **Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd** | | |
| 2,759 | 15,660 | Gwrthdroi costau net a wnaed i'r gwarged neu diffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddion Ôl-gyflogaeth yn unol â'r Cod | (1,173) | (12,730) |
| | | **Symiau Gwirioneddol a godir ar y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn** | | |
| 0 | 8,470 | Buddion Ymddeol sy'n daladwy i Bensiynwyr | 0 | 9,910 |
| 916 | 0 | Cyfraniadau'r Cyflogwr sy'n daladwy i'r cynllun | 622 | 0 |

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen sy'n codi o rwymedigaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'r cynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

| LGPS 2022/23 £'000 | FFPF 2022/23 £'000 | Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gydnabuwyd yn y Fantolen | LGPS 2023/24 £'000 | FFPF 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| (40,312) | (225,390) | Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddion diffiniedig | (40,392) | (231,610) |
| 38,559 | | Gwerth Teg asedau'r cynllun | 41,630 | 0 |
| **(1,753)** | **(225,390)** | **Is-Gyfanswm** | **1,238** | **(231,610)** |
| | | Effaith IAS19 / IFRIC 14 | (1,238) | |
| **(1,753)** | **(225,390)** | **Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig** | **0** | **(231,610)** |

| LGPS 2022/23 £'000 | FFPF 2022/23 £'000 | Symudiad yng Ngwerth Asedau'r Cynllun | LGPS 2023/24 £'000 | FFPF 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| 41,971 | 0 | Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun | 38,559 | 0 |
| 1,176 | 0 | Incwm Llog | 1,837 | 0 |
| | | **Enillion / Colledion wrth Ailfesur** | | |
| (4,634) | 0 | Yr enillion ar asedau'r cynllun, heb gynnwys y swm a gynhwyswyd yn y draul llog net | 1,852 | 0 |
| 916 | 10,270 | Cyfraniadau gan y cyflogwr | 622 | 11,520 |
| 369 | 0 | Cyfraniadau gan weithwyr cyflogedigi'r cynllun | 419 | 0 |
| (1,193) | (10,270) | Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd | (1,610) | (11,520) |
| (46) | 0 | Costau Gweinyddu | (49) | 0 |
| **38,559** | **0** | **Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun** | **41,630** | **0** |

| LPGS 2022/23 £'000 | FFPF 2022/23 £'000 | Symudiad yng Ngwerth Teg Rhwymedigaethau'r Cynllun | LGPS 2023/24 £'000 | FFPF 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| (56,519) | (312,950) | Balans Agoriadol ar 1 Ebrill | (40,312) | (225,390) |
| (2,295) | (7,170) | **Cost Cyfredol y Gwasanaeth** | (1,055) | (1,620) |
| 0 | (220) | Trosglwyddiadau i mewn | 0 | (800) |
| (1,572) | (8,270) | Costau Llog | (1,906) | (10,310) |
| (369) | (1,800) | Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | (419) | (1,610) |
| | | **Enillion a Cholledion wrth Ailfesur** | | |
| 0 | (17,520) | Enillion / Colledion Actiwaraidd - profiad | 331 | (7,810) |
| (4,966) | 10,560 | Enillion / Colledion Actwaraidd yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau demograffig | 1,359 | 4,410 |
| 24,238 | 101,710 | Enillion / Colledion Actwaraidd yn dellio o newidiadau i'r rhagdybiaethau ariannol | 1,610 | 11,520 |
| 1,193 | 10,270 | Buddion/trosglwyddiadau a Dalwyd | 0 | 0 |
| (22) | 0 | Cwtogiadau | 0 | 0 |
| 0 | 0 | Cost Blaenorol y Gwasanaeth | 0 | 0 |
| **(40,312)** | **(225,390)** | **Balans ar 31 Mawrth** | **(40,392)** | **(231,610)** |

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL): Asedau sy'n Cynnwys:

| Dyfynnwyd 2022/23 £'000 | Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | Dyfynnwyd 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Arian a Chyfwerth Arian** | |
| 1,697 | Cyfrifon Arian | 2,122 |
| 0 | Buddsoddiadau Dros Dro | 0 |
| **1,697** | **Is-gyfanswm Arian a Chyfwerth Arian** | **2,122** |
| | **Gwarantu Ecwiti** | |
| 2,236 | Dyfynnwyd yn fyd-eang | 5,787 |
| 1,967 | Marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg | 0 |
| **4,203** | **Is-gyfanswm Ecwiti** | **5,787** |
| | **Bondiau** | |
| 3,933 | Eraill Tramor | 4,205 |
| 10,604 | LDI | 10,990 |
| **14,537** | **Is-gyfanswm Bondiau** | **15,195** |
| | **Eiddo** | |
| 2,044 | DU | 1,748 |
| 308 | Tramor | 167 |
| **2,352** | **Is-gyfanswm Eiddo** | **1,915** |
| | **Dewisiadau amgen** | |
| 2,776 | Cronfeydd Ymddiogelu | 2,040 |
| 5,013 | Ecwiti Preifat | 6,119 |
| 2,236 | Seilwaith | 2,498 |
| 193 | Coed ac Amaethyddiaeth | 167 |
| 4,511 | DGF | 4,746 |
| 1,041 | Credyd Preifat | 1,041 |
| **15,770** | **Is-gyfanswm Dewisiadau Amgen** | **16,611** |
| | | |
| **38,559** | **Cyfanswm yr Asedau** | **41,630** |

Mae gan holl asedau'r cynllun brisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol.

## Y Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau ac Ymrwymiadau

Mae gwerth yr ymrwymiadau wedi eu seilio'n actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol sy'n asesu ymrwymiadau'r cynllun yn y dyfodol gyda disgownt i'w gwerth presennol.

Mae gwerth Cynllun y Diffoddwyr Tân wedi ei wneud gan Adran Actiwaraidd y Llywodraeth.

Mae gwerth ymrwymiadau LGPS wedi ei wneud gan Mercer, sef cwmni annibynnol o actiwariaid. Dyma'r prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau ac maent yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 1 Ebrill 2023.

| 2022/23 | LGPS | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau** | |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol: | |
| 21.4 | Dynion | 21.0 |
| 23.8 | Menywod | 23.5 |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol: | |
| 22.9 | Dynion | 22.4 |
| 25.6 | Menywod | 25.3 |
| | **Rhagdybiaethau Eraill** | |
| 2.7% | Cyfradd Chwyddiant | 2.6% |
| 4.0% | Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau | 3.9% |
| 2.8% | Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau | 2.7% |
| 4.8% | Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun | 4.9% |
| 2.7% | Cyfradd Ailbrisio CARE | 2.6% |

| 2022/23 | Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 2023/24 |
|---|---|---|
| | **Rhagdybiaethau ynglŷn â Marwolaethau** | |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr presennol: | |
| 21.2 | Dynion | 21.3 |
| 21.2 | Menywod | 21.3 |
| | Disgwyliad oes wrth ymddeol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol: | |
| 22.9 | Dynion | 22.9 |
| 22.9 | Menywod | 22.9 |
| | **Rhagdybiaethau Eraill** | |
| 2.6% | Cyfradd Chwyddiant | 2.6% |
| 3.9% | Cyfradd y Cynnydd mewn Cyflogau | 3.9% |
| 2.6% | Cyfradd y Cynnydd mewn Pensiynau | 2.6% |
| 4.7% | Cyfradd Disgowntio Ymrwymiadau'r Cynllun | 4.8% |
| 3.9% | Cyfradd Ailbrisio CARE | 3.9% |

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod.

Mae'r dadansoddiadau o sensitifrwydd isod wedi'u pennu yn seiliedig ar newidiadau posibl rhesymol yn y rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac sy'n tybio ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth a ddadansoddwyd yn newid ond bod yr holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn tybio bod y disgwyliad oes yn cynyddu neu'n gostwng ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau eraill fod yn gydgysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn y polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Ni newidiodd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad o sensitifrwydd isod o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

### Effaith Rhagdybiaethau ar yr ymrwymiad - LGPS

| | Fel yr Adroddwyd | +0.5% gostyngiad y flwyddyn | +0.25% chwyddiant y flwyddyn | +0.25% twf cyflog y flwyddyn | Cynnydd o 1 flwyddyn mewn disgwyliad oes | +/-1% o newid yn enillion buddsoddi 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | +1% | -1% |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ymrwymiadau | 40,392 | 37,228 | 42,073 | 40,711 | 41,380 | 40,392 | 40,392 |
| Asedau | (41,630) | (41,630) | (41,630) | (41,630) | (41,630) | (42,043) | (41,217) |
| Diffyg (gwarged) | (1,238) | (4,402) | 443 | (919) | (250) | (1,651) | (825) |
| Cost y Gwasanaeth a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf | 982 | 851 | 1,053 | 982 | 1,008 | 982 | 982 |
| Cost Llog Net a Ragamcanwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf | (75) | (254) | 7 | (59) | (27) | (96) | (55) |

| | Fel yr Adroddwyd £000 | Cyfradd disgownt ar rwymedigaeth-au Cynnydd o 0.5% £000 | Cynnydd mewn cyflogau Cynnydd o 0.5% £000 | Disgwyliad oes Cynnydd o 1 flwyddyn £000 | Cynnydd mewn pensiynau Cynnydd o 0.5% £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Effaith** | -6.50% | 1% | 6.50% | 2% |
| FFPS | (231,610) | (216,555) | (233,926) | (246,665) | (236,242) |

**Effaith ar lif arian yr Awdurdod**

Cydnabyddir cost buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a nodwyd pan gânt eu hennill gan weithwyr cyflogedig, yn hytrach na phan delir y buddion ar ffurf pensiynau yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r taliad sy’n rhaid ei godi yn erbyn yr ardoll yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddion ôl-gyflogaeth / buddion ymddeol ei gwrthdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

## 31 NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, sy'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fesurau ar waith i reoli risgiau ariannol. Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 yn ffurfiol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Mawrth 2023. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Dangosyddion Darbodus (PI) ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn mae adroddiadau chwarterol yn manylu ar gynnydd yn erbyn y strategaeth ac, os oes angen, adolygiad o’r Dangosyddion Perfformiad.

Ar ddiwedd y flwyddyn, mae adroddiad terfynol yn nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Ceir manylion ynghylch sut mae'r Awdurdod yn rheoli risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol yn adroddiadau'r trysorlys a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio ac maent ar gael o wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - https://www.northwalesfire.gov.wales

Mae gweithgareddau'r awdurdod yn ei amlygu i amrywiaeth o risgiau ariannol, gan gynnwys:

**Risg Credyd**

Dyma'r posibilrwydd y gallai partion eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod.

Mae'r risg credyd uchaf ar gyfer buddsoddiadau ac mae'r rhain yn cael eu rheoli drwy Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol ac yn pwysleisio bod blaenoriaeth i'w rhoi i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau’r trysorlys yw rhoi arian dros ben tymor byr i gyfrifon banc hyd nes y bydd angen. Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau tymor hir. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, gyda banciau o ansawdd uchel dethol, i leihau'r risg o golled.

**Risg Hylifedd**

Dyma'r posiblrwydd na fydd gan yr Awdurdod ddigon o arian ar gael i ateb ei ymrwymiadau i wneud taliadau.

Mae'r Awdurdod yn monitro ei falans arian parod i sicrhau bod arian parod ar gael yn ôl yr angen. Mae'r Awdurdod yn gallu cael gafael yn rhwydd ar fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ac nid oes unrhyw risg sylweddol na fyddai'r Awdurdod yn gallu codi'r arian i gwrdd â'i ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn rhwym o ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol.

**Risg y Farchnad**

Dyma'r posibilrwydd y gallai colled ariannol ddigwydd i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel cyfraddau llog a symudiadau yn y farchnad stoc.

Ar 31 Mawrth 2024, nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw fenthyciadau marchnad.

Mae'r Awdurdod yn agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar yr Awdurdod, yn dibynnu ar sut mae cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn symud ar draws gwahanol gyfnodau offerynnau ariannol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn cyfraddau llog amrywiol a sefydlog yn cael yr effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y gost llog a godir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthyca yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn codi; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn gostwng (dim effaith ar falansau refeniw);

Nid yw benthyciadau’n cael eu cario ar werth teg ar y fantolen, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethauneu neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy’n daladwy neu’n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu postio i’r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans y Gronfa Gyffredinol.

## 32 YMRWYMIADAU DIBYNNOL

### Hawliadau Cyfreithiol

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn delio â hawliadau cyfreithiol ond mae llai na 50% yn debygol o sicrhau setliad. Mae'r Awdurdod wedi cadw £0.310 miliwn wrth gefn rhag ofn y cyfyd ceisiadau nad ydynt yn cael eu cydnabod ar hyn o bryd. Gwerth yr achosion cyfreithiol hysbys yw £0.063 miliwn.

### Hawliadau Pensiwn

Yn dilyn proses gyfreithiol hir, cyhoeddwyd dyfarniad yn achos O'Brien vs Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod 2019. Canfu hwn fod y penderfyniad i gyfyngu ar y cyfnod pryd y gallai gweithiwr rhan amser ymuno â'r cynllun pensiwn yn un gwallus ac y dylai gweithwyr cymwys gael ymuno â'r cynllun perthnasol o ddechrau eu contractau.

Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau cenedlaethol i staff sy'n cael eu cyflogi fel diffoddwyr tân ar alwad y dechreuodd eu contract cyflogaeth cyn 1 Gorffennaf 2000 neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael y cyfle llawn i brynu gwasanaeth blaenorol yr oedd ganddynt hawl iddo.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud diwygiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2007 (Diwygiedig) i ddarparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn. Cafodd Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 ei wneud a'i osod ym mis Ionawr a daeth i rym ar 1 Chwefror 2024. Bydd pob person cymwys yn cael cyfle i brynu hawliau pensiwn yn ôl o fewn yr amserlenni a nodir yn y gorchymyn (h.y. i'w gwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2025).

Ni ellir cyfrifo effaith ariannol lawn y rheoliadau wedi'u diweddaru er bod amcangyfrif wedi'i gynnwys ym mhrisiad 2020 rhwymedigaethau cynllun pensiwn yr Awdurdod a gynhaliwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD).

### Contract Gwasanaethau Brys Airwave

Ym mis Hydref 2021, cychwynnodd Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ymchwiliad i wasanaethau rhwydwaith radio symudol yn sgil pryderon nad yw'r farchnad yn gweithio'n dda. Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad nad oes gan wasanaethau brys y DU unrhyw ddewis ar hyn o bryd ond parhau i ddefnyddio Rhwydwaith Airwave Motorola, oherwydd diffyg darparwyr eraill. O'r herwydd, cododd Motorola brisiau ar y Swyddfa Gartref sy'n negodi contractau ar ran y gwasanaethau brys, sydd ymhell uwchlaw lefelau cystadleuol, gan arwain at gostau uwch i'r gwasanaethau brys.

Er mwyn lleihau'r costau hyn, gosododd Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd gap prisiau ym mis Gorffennaf 2023, a ddaeth â'r pris i lawr i lefel y gellir ei ddisgwyl mewn marchnad gystadleuol sy'n gweithredu'n dda.

Apeliwyd y penderfyniad hwn gan Motorola Solutions Limited ac ym mis Rhagfyr 2023, fe wnaeth y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth, mewn penderfyniad unfrydol, gadarnhau canfyddiad Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fod Motorola yn codi prisiau gormodol oherwydd bod ganddynt, i bob pwrpas, fonopoli digyfyngiad ar ddarparu gwasanaethau rhwydwaith cyfathrebu i wasanaethau brys y DU.

Mae Motorola Solutions wedi apelio'r mater i Lys Apêl y DU. Hyd at 31 Mawrth 2024 ni chafwyd unrhyw benderfyniad.

Yn 2023/24, o ganlyniad i'r cap prisiau, bu gostyngiad o £261,518.93 yn y costau, fodd bynnag gan nad yw penderfyniad y Llys Apêl yn hysbys, mae'r swm hwn wedi'i roi o'r neilltu mewn cronfeydd wedi'u clustnodi, rhag ofn bydd yn rhaid ei ad-dalu.

## 33 ASED DIBYNNOL

**Cyfreithia Cartel Tryc**

Ym mis Gorffennaf 2016, roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi dirwy o 2.926 biliwn ewro i weithgynhyrchwyr tryciau Ewropeaidd am bennu prisiau a gweithgareddau cartél eraill rhwng 1991 a 2001. Roedd DAF, Daimler, Iveco, MAN, a Volvo/Renault wedi cyfaddef eu bod yn euog (mae Scania yn dal i gael ei ymchwilio) gan gadarnhau eu bod wedi gwneud y canlynol:

- Ar lefel uwch reolwyr y Pencadlys, wedi pennu prisiau gros sefydlog ac weithiau prisiau net.
- Wedi alinio prisiau rhestr gros yn Ewrop gan gynnwys y DU ar ddechrau'r cartél.
- Wedi lleihau ad-daliadau pan gyflwynwyd yr Ewro.
- Oedi cyn cyflwyno technolegau Ewro 3, 4, 5 a 6 mwy effeithlon o ran tanwydd.
- Cytunwyd ar y gost y dylai gweithredwyr ei dalu am dechnolegau Ewro.

Mae hyn yn cynnwys unrhyw loriau o 6 thunnell a throsodd, a brynwyd yn llwyr, a ariannwyd neu a brydleswyd rhwng 1997 a 2011. Mae achos cyfreithiol bellach yn mynd rhagddo i adennill peth o'r arian a gollwyd oherwydd y pris cartél hwn. Ni thrafodwyd unrhyw werth na chanran benodol hyd yma, a gall y camau cyfreithiol gymryd sawl blwyddyn i'w cwblhau.

O dan y Cytundeb Cyllido Ymgyfreitha, dim ond y TAW sy'n daladwy gan yr Awdurdod am y costau cyfreithiol.

Cyfanswm y taliadau cyfredol o dan y Cytundeb Cyllido Ymgyfreitha (TAW yn daladwy yn unig) ar gyfer 2023/24 oedd £67 (2022/23: £52).

## CYFRIF CRONFA BENSIWN DIFFODDWYR TÂN

Cyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Cyfraniadau a Dderbynnir:** | |
| (3,893) | Cyfraniadau arferol y cyflogwr | (4,055) |
| (135) | Tâl afiechyd y cyflogwr | 0 |
| 0 | Cyfraniadau ôl-ddyddiedig y cyflogwr | 0 |
| (1,822) | Cyfraniadau arferol yr aelodau | (1,928) |
| (100) | Cyfraniadau ôl-ddyddiedig yr aelodau | (122) |
| (221) | Trosglwyddiadau i mewn | (798) |
| **(6,171)** | **CYFANSWM** | **(6,903)** |
| | **Buddion yn Daladwy:** | |
| 8,246 | Taliadau Pensiwn | 9,005 |
| 2,381 | Gohirio Pensiynau a Chyfandaliadau buddion ymddeol | 1,596 |
| 67 | Taliadau Gohirio Ôl-ddyddiedig | 0 |
| | **Taliadau i Ymadawyr ac ar eu rhan:** | |
| 413 | Trosglwyddiadau allan | 195 |
| **11,107** | **CYFANSWM** | **10,796** |
| 4,936 | Diffyg am y flwyddyn cyn i grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru | 3,893 |
| (4,936) | Grant atodol a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru | (3,893) |
| **0** | **SWM NET (TALADWY)/A DDERBYNNIR AR GYFER Y FLWYDDYN** | **0** |

### Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2024

| 2022/23 £'000 | | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Asedau cyfredol** | |
| 2,616 | Swm sy'n ddyledus (gan) / i'r Gronfa Gyffredinol | (2,320) |
| **2,616** | **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | **(2,320)** |
| | **Ymrwymiadau Cyfredol** | |
| 0 | Taliadau ymlaen llaw i Bensiynwyr | 0 |
| (2,616) | Grant atodol yn daladwy (gan) / i Lywodraeth Cymru | 2,320 |
| **(2,616)** | **Cyfanswm Ymrwymiadau Cyfredol** | **2,320** |

## Nodiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 2007, dan Orchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, ac mae'n cynnwys Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992, 2007 a 2015 ac fe'i gweinyddir gan yr Awdurdod. Mae'r cynllun yn un nad yw'n cael ei ariannu, nid oes ganddo asedau buddsoddi, a bydd unrhyw wahaniaeth rhwng y buddion sy'n daladwy a'r cyfraniadau derbyniadwy yn cael ei ateb gan Grant Atodol gan Lywodraeth Cymru.

Telir cyfraniadau cyflogai a chyflogwr i'r Gronfa, a gwneir taliadau ohoni i bensiynwyr. Mae lefelau cyfraniadau gweithwyr a chyflogwr yn seiliedig ar ganrannau o dâl pensiynadwy a osodir yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ac yn amodol ar ailbrisio gan Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) bob pedair blynedd neu fel y cyfarwyddir fel arall gan Drysorlys EM.

Trosglwyddiadau i'r cynllun yw trosglwyddo buddion pensiwn o gynllun pensiwn arall ar gyfer gweithwyr newydd neu bresennol, a throsglwyddiadau allan yw trosglwyddo buddion i weithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod ac wedi ymuno â chynllun pensiwn arall.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am dalu cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa. Dyma'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer yr Awdurdod.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gwneir asesiad ynghylch swm y Grant Atodol sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru. Mae'r amcangyfrif yn cynnwys asesiad o nifer y diffoddwyr tân sydd i fod i ymddeol o fewn y flwyddyn, yn seiliedig ar oedran a blynyddoedd o wasanaeth.

## Cyfraddau Cyfraniadau

Ar 1 Ebrill 2023, trosglwyddwyd holl gyfranogwyr y cynllun i gynllun 2015. Dan Reoliadau Pensiwn Diffoddwyr Tân, 27.3% (2022/23: 27.3%) o'r cyflog pensiynadwy oedd cyfradd cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer cynllun 2015, gyda chyfraddau'r gweithwyr fel y bandiau cyflog pensiynadwy a nodir isod:

| **Band Cyflog Pensiynadwy** | **Cyfradd Cyfraniad % 2023/24** |
|---|---|
| Hyd at £27,818 | 11.0 |
| £27,819 i £51,515 | 12.9 |
| £51,516 i £142,500 | 13.5 |
| Mwy na 142,501 | 14.5 |

Nid yw Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cymryd ystyriaeth o'r ymrwymiadau am bensiynau a buddion eraill wedi diwedd y cyfnod, gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw hyn. Mae manylion am yr ymrwymiadau pensiwn tymor hir i'w cael yn Nodyn 30 o'r datganiadau ariannol craidd.

**Atodiad 1**

# POLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2024. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn, o dan adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, yn cynnwys yn bennaf y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023/24 a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae'r confensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yn gost hanesyddol yn bennaf, wedi'i haddasu drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol.

## 2. CRONIADAU O INCWM A GWARIANT

Yn y cyfrifon refeniw, cyfrifir am incwm a gwariant, heb TAW (oni bai bod y TAW yn anadferadwy), yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid dim ond pan fydd taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

- Caiff treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan gyflogeion) eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau gan gwsmeriaid yn cael eu cyfrif fel incwm ar y dyddiad mae'r Awdurdod yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol.

- Mae cyflenwadau yn cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio - lle mae bwlch rhwng y dyddiad y mae cyflenwadau yn cael eu derbyn a'u defnydd maen nhw'n cael eu cario fel rhestrau ar y fantolen.

- Cyfrifir am log y gellir ei dderbyn ar fuddsoddiadau ac sy’n daladwy ar fenthyciadau ac y gellir ei dderbyn ar sail y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na'r llif arian a sefydlir neu a bennir gan y contract.

- Pan fo refeniw a gwariant wedi cael eu cydnabod ond nad yw arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, cofnodir dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn y fantolen. Lle na fydd dyledion yn cael eu setlo o bosibl, caiff balans y dyledwyr ei nodi a chodir tâl ar y refeniw o incwm ariannu a buddsoddi a’r gwariant ar gyfer yr incwm na fydd, o bosibl, yn cael ei gasglu.

## 3. ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae arian parod yn golygu arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cyfwerth ag arian parod yn golygu buddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn dim mwy na thri mis neu lai o'r dyddiad caffael ac sy'n hawdd eu trosi'n symiau hysbys o arian parod sydd â risg bach iawn y bydd ei werth yn newid.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb orddrafftiau banc sy'n ad-daladwy yn ôl y galw ac yn ffurfio rhan annatod o system rheoli arian parod yr Awdurdod.

## 4. ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu er mwyn cywiro gwall perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhagolygol, h.y. yn y blynyddoedd presennol ac i ddod yr effeithir arnynt gan y newid ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Gwneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu dim ond pan fo angen hynny gan arferion cyfrifyddu priodol neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, amodau a digwyddiadau eraill ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, caiff ei gymhwyso'n ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol am y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi cael ei gymhwyso erioed. Mae gwallau materol a ddarganfuwyd mewn ffigurau cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol trwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

## 5. TALIADAU I REFENIW AR GYFER ASEDAU NAD YDYNT YN GYFREDOL

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cymorth a chyfrifon masnachu eu codi am amcangyfrif cyfrifyddol o'r gost o ddal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys:

- dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- ailbrisio a cholledion amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronedig yn y gronfa ailbrisio y gellir dileu colledion yn eu herbyn
- amorteiddio asedau anniriaethol y gellir eu priodoli i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod godi ardoll i ariannu dibrisiant, ailbrisio a cholledion amhariad neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae'n mae'n ofynnol iddo wneud cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol (sy'n cyfateb i swm a gyfrifir ar sail ddarbodus a bennir gan yr awdurdod yn unol â chanllawiau statudol). Felly, caiff dibrisiant, a cholledion ailbrisio ac amhariad, ac amorteiddio eu disodli gan y cyfraniad o fewn balans y Gronfa Gyffredinol – MRP, trwy gyfrwng trafodiad addasu gyda'r cyfrif addasiad cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau

## 6. BUDDION I WEITHWYR

### Buddion sy'n daladwy yn ystod eu cyflogaeth

Buddion gweithwyr tymor byr yw'r rhai sydd i fod i gael eu setlo'n gyfan gwbl o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel tâl a chyflogau, gwyliau blynyddol â thâl ac absenoldeb salwch â thâl, taliadau bonws a buddion anariannol (ee ceir) ar gyfer gweithwyr cyfredol. Fe'u cydnabyddir fel treuliau am wasanaethau yn ystod y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r awdurdod. Gwneir croniad am gost yr hawliau gwyliau (neu unrhyw fath o wyliau, ee amser i ffwrdd yn lle oriau a weithir) a enillir gan weithwyr ond na chaiff ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn y gall gweithwyr eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad ar sail y cyfraddau tâl a chyflog cymwys yn ystod y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol, sef y cyfnod y mae'r cyflogai'n cymryd y budd. Codir am y croniad i warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau, ond yna caiff ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel y codir am hawliadau gwyliau i refeniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau yn digwydd.

### Buddion ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Dyfed, Cyngor Sir Caerfyrddin
- y Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Roedd y ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i aelodau (cyfansymiau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth i weithwyr weithio i'r awdurdod.

### Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (FFPS)

Ystyrir cynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân fel cynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu - nid oes gan y cynllun unrhyw asedau nac incwm buddsoddiadau:

- Mae rhwymedigaethau'r Gronfa wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol — h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, a rhagamcanion enillion ar gyfer y gweithwyr presennol.

- Mae rhwymedigaethau'n cael eu gostwng i'w gwerth yn ôl y prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 4.75%, yn seiliedig ar arenillion bondiau'r Llywodraeth o hyd priodol ynghyd ag elw ychwanegol. Mae'r newid yn yr atebolrwydd pensiwn net yn cael ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

- Cost bresennol y gwasanaeth — y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni — a ddyrannwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio iddynt.

- Cost gwasanaeth yn y gorffennol — y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio neu gwtogi cynllun y mae ei effaith yn ymwneud â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd cynharach — wedi ei ddebydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- Buddiant net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net, h.y. costau llog net i'r Awdurdod — y newid yn ystod y cyfnod i'r rhwymedigaeth budd diffiniedig net sy'n deillio o dreigl amser y codir amdani i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr — caiff hyn ei gyfrifo trwy gymhwyso'r gyfradd gostyngiad a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth budd diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth budd diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod — gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth budd diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a buddion.

Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

- Enillion a cholledion actiwaraidd — newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddaru eu rhagdybiaethau — y codir amdanynt i'r Gronfa Bensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Cyfraniadau a dalwyd i'r Gronfa — arian parod a delir fel cyfraniadau cyflogwr i'r gronfa bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans y Gronfa Gyffredinol dalu am y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd, golyga hyn fod yna drosglwyddiadau i ac o'r Gronfa Bensiwn i gael gwared ar y credydau a'r debydau tybiedig ar gyfer buddion ymddeol ac yn eu lle roi debydau am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i bensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol ar y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na buddion sy'n cael eu hennill gan weithwyr.

## Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

Ystyrir y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel cynllun buddion diffiniedig:

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Clwyd i'r a briodolir i'r awdurdod wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol — h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a wneir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, ac ati, a rhagamcanion enillion ar gyfer y gweithwyr presennol.
- Caiff rhwymedigaethau eu gostwng i'w gwerth yn ôl y prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd gostyngol yn seiliedig ar y gyfradd enillion ddangosol ar fondiau corfforaethol.
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd y gellir eu priodoli i'r awdurdod wedi'u cynnwys yn Fantolen yn ôl eu gwerth teg:

– gwarannau a ddyfynnwyd – pris cyfredol y cynnig
– gwarannau heb eu dyfynnu – amcangyfrif proffesiynol
– gwarannau unedol – pris cyfredol y cynnig
– eiddo – gwerth y farchnad.

Mae'r newid yn y rhwymedigaeth pensiynau net yn cael ei ddadansoddi o dan y cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth sy'n cynnwys:

- cost bresennol y gwasanaeth – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd y flwyddyn hon – a ddyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y gweithiodd y gweithwyr iddynt
- cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i wella neu gwtogi cynllun y mae ei effaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd cynharach – wedi'i ddebydu i'r gwarged neu'r diffyg ar y ddarpariaeth gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr [nodwch y bydd y modd y caiff costau gwasanaeth yn y gorffennol eu trin yn dibynnu ar benderfyniadau'r awdurdod ynghylch sut y cânt eu dyrannu i segmentau gwasanaeth]
- buddiant net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased), h.y. gwariant llog net ar gyfer yr awdurdod – y newid yn ystod cyfnod y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) sy'n digwydd oherwydd treigl amser y codir amdano o linell incwm a gwariant cyllido a buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – cyfrifir hyn drwy gymhwyso'r gyfradd ostyngiad a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth budd diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a buddion.

Ailfesuriadau sy'n cynnwys:

- yr enillion ar asedau'r cynllun – ac eithrio symiau sydd wedi'u cynnwys o fewn llog net ar y rhwymedigaeth budd net diffiniedig (ased) – y codir amdanynt i'r gronfa bensiwn wrth gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall
- enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd i ddigwyddiadau beidio â chyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddaru eu rhagdybiaethau – y codir amdanynt i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel incwm a gwariant cynhwysfawr arall.
- cyfraniadau a delir i'r Gronfa — arian parod a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.

Mewn perthynas â buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans y Gronfa Gyffredinol dalu am y swm sy'n daladwy gan yr awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd, golyga hyn fod yna drosglwyddiadau i ac o'r gronfa pensiynau wrth gefn i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian a delir i'r gronfa bensiwn ac i bensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y gronfa bensiwn felly yn mesur yr effaith fuddiol

i'r Gronfa Gyffredinol o orfod cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian parod yn hytrach na buddion sy'n cael eu hennill gan weithwyr.

**Buddion Dewisol**:

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol yn ôl ei ddisgresiwn os bydd gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Caiff unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a chyfrifir amdano gan ddefnyddio'r un polisïau ag a gymhwysir i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 7. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Digwyddiadau ar ôl cyfnod adrodd y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd dyddiad y Fantolen a'r dyddiad pan fydd y datganiad cyfrifon yn cael ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad.

- y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y datganiad cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd wedi'r cyfnod adrodd – nid yw'r datganiad cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai digwyddiadau o'r fath
  yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau o natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Ni chaiff digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl dyddiad awdurdodi ei gyhoeddi eu hadlewyrchu yn y datganiad cyfrifon.

## 8. OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae Offeryn Ariannol yn cael ei ddiffinio fel 'unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i un arall'. I ddechrau, caiff rhwymedigaeth ariannol (benthyciadau) ac asedau ariannol (buddsoddiadau) eu mesur yn ôl gwerth teg a chânt eu cario ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae'r llog blynyddol a delir ac a dderbynnir yn y cyfrif Incwm a Gwariant yn seiliedig ar swm cario'r benthyciad neu'r buddsoddiad wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau sydd gan yr awdurdod, y symiau a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif weddill ynghyd ag unrhyw log cronedig am y flwyddyn.

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod ar y fantolen pan ddaw'r awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a chânt eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl gwerth teg a'u cario ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n gostwng taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol yn union dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan yr awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm ad-daladwy sy'n weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog y codir amdano i’r CIES yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

**Asedau ariannol**

Mae asedau ariannol yn cael eu dynodi ar sail dull dynodi a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r awdurdod yn dal asedau ariannol a fesurir ar sail:

- costau wedi’u hamorteiddio, a
- gwerth teg drwy elw neu golled (FVPL)

Model busnes yr awdurdod yw dal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Felly mae asedau ariannol yn cael eu dynodi fel cost wedi’i hamorteiddio.

**Asedau ariannol a fesurir ar sail cost wedi’i hamorteiddio**

Mae asedau ariannol a fesurir ar sail cost wedi’i hamorteiddio yn cael eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw’r awdurdod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a chânt eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl gwerth teg. Wedi hynny fe'u mesurir ar sail eu cost wedi’i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i’r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y CIES ar gyfer llog sy’n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r ased wedi'i luosi â’r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau ariannol a ddelir gan yr awdurdod, golyga hyn mai’r swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yw'r prif swm taladwy sy’n weddill (ynghyd â llog cronedig), a Llog a gredydir i'r CIES yw'r swm taladwy ar gyfer y flwyddyn o fewn cytundeb y benthyciad.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi wrth ddadgydnabod ased ariannol yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi yn y CIES.

## 9. TRAFODION ARIAN TRAMOR

Pan fo'r awdurdod wedi ymrwymo i drafodiad mewn arian cyfred tramor, caiff y trafodiad ei drawsnewid yn sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sy'n gymwys ar ddyddiad y trafodiad. Pan fydd symiau mewn arian cyfred tramor yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn, maent yn cael eu trosi eto ar sail y gyfradd gyfnewid ar 31 Mawrth. Cydnabyddir enillion neu golledion canlyniadol yn y llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## 10. CYFRIF AM GRANTIAU'R LLYWODRAETH

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, mewn rhandaliadau, neu mewn ôl-ddyledion, cydnabyddir bod grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti yn ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol y bydd:

- yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r taliadau, ac
- y bydd y cyfraniadau neu'r grantiau yn cael eu derbyn.

Nid yw symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr nes bod yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi cael eu bodloni.

Caiff arian a gafwyd fel grantiau a chyfraniadau nad yw’r amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fodlonir yr amodau, caiff y grant neu'r cyfraniad ei gredydu i'r llinell wasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw y gellir eu priodoli) neu Incwm Trethiant a Grantiau Amhenodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd. Pan nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei roi yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle mae wedi'i gymhwyso, caiff cael ei roi yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf. Caiff symiau yn y Gronfa Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi'u cymhwyso i ariannu gwariant cyfalaf

## 11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Caiff gwariant ar asedau anariannol sydd heb sylwedd ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiadau'r gorffennol (ee trwyddedau meddalwedd) ei gyfalafu pan ddisgwylir y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol yn deillio o'r ased anniriaethol i'r awdurdod.

Caiff asedau anniriaethol eu mesur ar sail cost i ddechrau. Caiff symiau eu hailbrisio dim ond pan ellir pennu gwerth teg yr asedau a ddelir gan yr awdurdod drwy gyfeirio at farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes unrhyw ased anniriaethol sy’n cael ei dal gan yr awdurdod yn bodloni'r maen prawf hwn, ac felly maent yn cael eu cario ar sail cost llai’r dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion amhariad cronedig. Bydd swm dibrisiadwy ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros gyfnod ei oes ddefnyddiol i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf ar ased am amhariad pryd bynnag y mae arwydd bod gwerth yr ased wedi lleihau – bydd unrhyw golledion a nodir yn cael eu gosod ar y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion sy’n codi ar ôl gwaredu neu adael ased anniriaethol yn cael eu symud i’r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle gellir ystyried gwariant ar asedau anniriaethol fel gwariant cyfalaf at ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad ac enillion a cholledion gwaredu gael effaith ar falans y Gronfa Gyffredinol. Felly, caiff yr enillion a'r colledion eu gwrthdroi o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd a’u symud i'r cyfrif addasu cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw enillion o werthu sy'n fwy na £10,000) i’r gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn.

## 12. RHESTRAU STOC

Mae rhestrau stoc wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar sail y gwerth cost a net isaf y gellir ei wireddu. Caiff cost rhestrau stoc ei bennu gan ddefnyddio fformiwla cost FIFO.

## 13. LESOEDD

### Lesoedd Cyllid

Mae lesoedd yn cael eu dynodi fel lesoedd cyllid pan fo telerau'r les yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a'r gwobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth ar yr eiddo, peiriannau neu offer o'r lesydd i'r lesai. Mae'r holl lesoedd eraill yn cael eu dynodi fel lesoedd gweithredu.

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a ddelir o dan lesoedd cyllid eu nodi ar y Fantolen ar ddechrau'r les ar sail eu gwerth teg a fesurir ar ddechrau'r les (neu werth presennol y taliadau les isaf, os yw'n is). Caiff yr ased a gydnabyddir ei gyfateb gan rwymedigaeth dros dalu'r lesydd. Ychwanegir costau uniongyrchol cychwynnol yr awdurdod at swm cario'r ased. Mae premiymau a delir wrth gychwyn les yn cael eu cymhwyso wrth nodi rhwymedigaeth y les.

Caiff rhenti wrth gefn eu codi fel treuliau yn y cyfnodau maent yn cael eu tynnu.

Mae taliadau les yn cael eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael y buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer – wedi’i gymhwyso i nodi rhwymedigaeth y les, a
- thâl cyllid (wedi’i ddebydu i’r llinell incwm a gwariant ariannu a buddsoddi o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cyffredinol).

Cyfrifir am eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir o dan lesoedd gan ddefnyddio'r polisïau a gymhwysir yn gyffredinol i asedau o'r fath, yn amodol ar godi am ddibrisiant dros gyfnod y les os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r awdurdod ar ddiwedd cyfnod y les).

Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod godi ardoll i dalu am golledion dibrisiant neu ailbrisio a cholledion amhariad sy'n deillio o roi asedau ar les. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol darbodus o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly, caiff dibrisiant a cholledion ailbrisio ac amhariad eu disodli gan gyfraniad refeniw o fewn balans y Gronfa Gyffredinol, trwy gyfrwng trafodiad addasu gyda'r cyfrif addasiad cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

### Lesoedd Gweithredu

Codir am renti a delir o dan lesoedd gweithredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel treuliau i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer sy’n cael eu rhoi ar les. Gwneir taliadau ar sail llinell syth dros oes y les, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyfateb i batrwm y taliadau (e.e. cyfnod di-rent ar ddechrau'r les).

**IFRS16 - mae’r polisi cyfrifyddu drafft a fydd yn berthnasol ar gyfer cyfrifon 2024/25 wedi’i nodi isod i roi’r hyn sy’n sail i’r amcangyfrif ar gyfer 2023/24 yn ei gyd-destun**

Bydd polisi IFRS16 yr Awdurdod yn berthnasol i’r prydlesi hynny pan mai’r Awdurdod yw’r lesddeiliad a bydd y dull canlynol yn cael ei fabwysiadu.

**Eithriad cost isel**

Mae’r Awdurdod wedi asesu’r hyn y mae’n credu y dylid ei ystyried yn ased gwerth isel.

Mae'r eithriad cost isel wedi'i osod i ddechrau ar £10,000, yn unol â'r lefel gwariant de-minimus ar gyfer Eiddo, Peiriannau ac Offer. Bydd hyn yn cael ei adolygu bob blwyddyn a lle bo angen ail-leoli gan ddefnyddio cyfradd CPI mis Mawrth bob blwyddyn (wedi'i dalgrynnu i'r £1,000 agosaf). Bydd prydlesi o dan y gwerth hwn yn cael eu heithrio ac ni fydd IFRS16 yn cael ei ddefnyddio.

**Defnyddio portffolio o brydlesi sydd â nodweddion cymharol debyg**

Yn dilyn adolygiad o drefniadau prydlesu presennol yn yr Awdurdod, penderfynwyd y dylid cymhwyso'r hwylusydd portffolio ar gyfer llungopiwyr a pheiriannau tebyg (dyfeisiau amlddefnydd (MFD), peiriannau ffrancio ac ati). Nid yw'r Awdurdod yn disgwyl y bydd hyn yn wahanol iawn i gymhwyso IFRS16 ar gyfer prydlesi unigol o fewn y portffolio hwnnw. Mae gan bob un ohonynt hefyd nodweddion tebyg o ran swyddogaeth, cost a chytundebau prydlesi. Ar y sail hon bydd pob un ohonynt yn dod o fewn ffiniau’r eithriad cost isel.

**Contractau presennol ar y dyddiad gweithredu**

Ni fydd yr Awdurdod yn ailasesu unrhyw gontractau presennol ar y dyddiad gweithredu i benderfynu a ydynt yn cynnwys prydles. Wrth symud ymlaen o’r dyddiad gweithredu cychwynnol (1 Ebrill 2024) bydd angen asesu pob contract newydd i benderfynu a ydynt yn cynnwys trefniant prydlesu.

**Prydlesi ar gyfer asedau anniriaethol**

Ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio IFRS16 ar drefniant brydlesu ar gyfer asedau anniriaethol (trwyddedau meddalwedd ac ati).

**Prydlesi gyda llai na blwyddyn sy'n weddill ar y dyddiad gweithredu**

Bydd yr Awdurdod yn gosod eithriad bywyd byr i'r holl lesoedd presennol sydd â llai na blwyddyn yn weddill ar y dyddiad gweithredu. Yn yr achos hwn, bydd y driniaeth gyfrifo bresennol yn parhau am weddill oes y les, oni bai bod addasiad ar ôl y dyddiad gweithredu, lle bydd y les yn cael ei hystyried yn les newydd.

## 14. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Mae asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dynodi fel Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar.

### Cydnabod

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, peiriannau ac offer ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y manteision economaidd neu’r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn y dyfodol yn mynd i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Bydd gwariant sy’n cynnal ond nid yn ychwanegu at botensial yr ased i roi buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. atgyweirio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel treuliau wrth ei ysgwyddo.

Mae lefel gwariant isaf o £10,000 wedi'i gosod ar gyfer Eiddo, Peiriannau ac Offer. Ni fydd gwariant oddi tano’n amodol ar ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Pan fydd ased yn cael ei ailbrisio o dan £10,000, bydd unrhyw wariant a dibrisiant cysylltiedig fel arfer yn cael eu dileu a bydd yr ased yn cael ei dynnu o'r Gofrestr Asedau Sefydlog.

### Mesur

Caiff asedau anniriaethol eu mesur ar sail cost i ddechrau, sy’n cynnwys:

- y pris prynu
- unrhyw gostau y gellir eu priodoli i’r broses o ddod â'r ased i'r lleoliad a’r cyflwr angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd gan y rheolwyr
- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a gwaredu’r eitem ac adfer y safle lle mae wedi'i leoli

Nid yw'r awdurdod yn cyfalafu costau benthyca a dynnir tra bod asedau'n cael eu hadeiladu. Ystyrir mai cost yr asedau sy’n cael eu caffael, ac eithrio trwy eu prynu, yw eu gwerth teg.

Mae asedau'n cael eu cario ar y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Tir ac Adeiladau: Swyddfeydd/Gweithdai – gwerth cyfredol (Gwerth Defnydd Presennol)
- Tir ac Adeiladau: Gorsafoedd Tân – gwerth cyfredol (Cost Adnewyddu Wedi’i Dibrisio)
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Yr holl asedau eraill – gwerth cyfredol, wedi’i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV).

Lle nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o’i werth cyfredol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost adnewyddu wedi’i ddibrisio (DRC) i amcangyfrif ei werth cyfredol.

Lle mae oes ddefnyddiol asedau nad ydynt yn eiddo yn fyr neu eu gwerthoedd yn isel (neu'r ddau), defnyddir eu cost hanesyddol wedi’i disbrisio fel sail ar gyfer eu gwerth cyfredol.

Mae cynnydd mewn prisiadau'n cael eu cyfateb gan gredydau i'r gronfa ailbrisio wrth gefn i gydnabod enillion na chafodd eu gwireddu. [Mewn achosion eithriadol, gellid credydu enillion i'r gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau lle maent yn codi o wrthdroi colled a godwyd yn flaenorol ar wasanaeth.]

Pan fo gwerthoedd wedi gostwng, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- lle mae gweddill o enillion drwy ailbrisio ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio, bydd swm cario'r ased yn cael ei roi yn erbyn y gweddill hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- lle nad oes gweddill yn y gronfa ailbrisio neu os nad oes gweddill digonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei roi yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Amhariadau Gwerth**

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd bod gwerth yr ased wedi lleihau. Os oes arwyddion o'r fath a bod unrhyw wahaniaethau posibl yn cael eu hamcangyfrif yn rhai perthnasol, gwneir amcangyfrif o swm adferadwy'r ased ac, os yw hyn yn llai na swm cario'r ased, bydd unrhyw golled drwy amhariad yn cael ei gydnabod ar gyfer y diffyg.

Pan gaiff colledion amhariad eu nodi, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- lle mae gweddill o enillion drwy ailbrisio ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio, bydd swm cario'r ased yn cael ei roi yn erbyn y gweddill hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- lle nad oes gweddill yn y gronfa ailbrisio neu os nad oes gweddill digonol, bydd swm cario'r ased yn cael ei roi yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fydd colled drwy amhariad gwerth yn cael ei gwrthdroi, caiff y gwrthdroad ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer dibrisiant a fyddai wedi cael ei godi amdano pe na bai'r golled wedi cael ei chydnabod.

**Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant yn yr holl asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar drwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy'n systematig dros eu hoes ddefnyddiol.

**Oes Economaidd Ddefnyddiol Asedau**

| | |
|---|---|
| Tir | Diddiwedd (dim dibrisiant) |
| Adeiladau | oes ddefnyddiol yr eiddo (yn ôl amcangyfrif y prisiwr) |
| Adeiladau (ar les) | Tymor y les |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 5 - 20 mlynedd |
| Asedau Anniriaethol | 5 mlynedd |

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth, gyda'r hyn a gaffaelir yn cael ei ddibrisio yn y flwyddyn ar ôl ei brynu. Codir am ddibrisiant blwyddyn gyfan yn ystod y flwyddyn waredu.

Dibrisir adeiladau gan ddefnyddio cydranu, lle gwneir amcangyfrif o oes ddefnyddiol pob cydran o'r adeilad ac yna defnyddir cyfartaledd pwysol i gyfrifo'r tâl blynyddol. Dyma'r canrannau a ddefnyddir:

| | |
|---|---|
| Adeiladau – gorsafoedd tân | 2.05% - 2.22% |
| Adeiladau – swyddfeydd/gweithdai | 1.98% - 2.15% |

Codir am ddibrisiant o fewn y cyfrif incwm a gwariant. Mae'r swm hwn yn cael ei gredydu i Falans y Gronfa Gyffredinol ac mae'n cael effaith niwtral ar y cyfraniadau a wneir gan yr awdurdodau cyfansoddol.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod wneud cyfraniad blynyddol o'i refeniw tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly, caiff dibrisiant, colledion ailbrisio ac amhariadau gwerth, ac amorteiddio eu disodli gan y cyfraniad o Falans y Gronfa Gyffredinol (MRP) trwy drafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd i gael y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant gwerth cyfredol y codir amdano ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi bod yn daladwy ar sail ar eu costau hanesyddol yn cael eu trosglwyddo bob blwyddyn o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r cyfrif addasiad cyfalaf.

**Gwaredu**

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario'r ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy barhau i'w ddefnyddio, caiff ei ail-ddynodi'n ased sy'n cael ei ddal i'w werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio'n union cyn ei ail-ddynodi a'i gario wedyn ar y swm hwn neu'r gwerth teg, pa un bynnag yw'r isaf, llai'r costau i'w werthu. Os bydd gostyngiad dilynnol i'r gwerth teg llai'r costau i'w werthu, caiff y golled ei symud i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd enillion o ran gwerth teg yn cael eu cydnabod hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd o'r blaen yn y gwarged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau. Ni chodir am ddibrisiant ar asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

Pan fydd ased yn cael ei waredu neu ei ddadgomisiynu, caiff swm cario'r ased yn y Fantolen (boed yn eiddo, peiriannau ac offer neu'n asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu) ei ddileu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth waredu.

Caiff derbyniadau gwaredu (os oes rhai o gwbl) eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion wrth waredu (h.y. ei debydu yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu). Bydd unrhyw enillion ailbrisio a gronnwyd ar gyfer yr ased yn y gronfa ailbrisio yn cael eu trosglwyddo i'r cyfrif addasiadau cyfalaf.

Mae symiau o fwy na £10,000 a dderbynnir am waredu yn cael eu dynodi'n dderbyniadau cyfalaf. Bydd gweddill y derbyniadau'n aros o fewn y gronfa derbyniadau cyfalaf, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddi cyfalaf newydd y gellir ei ddefnyddio [neu ei neilltuo i leihau angen

sylfaenol yr awdurdod i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf)]. Caiff derbyniadau eu priodoli i'r gronfa wrth gefn o weddill y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd.

Nid yw’r gwerth sydd wedi’i ddileu o waredu yn dâl a godir yn erbyn yr ardoll, gan fod darpariaeth lawn ar gyfer cost asedau nad ydynt yn gyfredol o dan drefniadau ar wahân ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae’r symiau’n cael eu priodoli i’r cyfrif addasiadau cyfalaf o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o’r Symudiad mewn Cronfeydd.

## 15. DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETH DDIGWYDDIADOL AC ASEDAU DIGWYDDIADOL.

### Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd ar ddyddiad y Fantolen neu ynghynt:

- sy'n rhoi rhwymedigaeth bresennol i'r awdurdod
- y mae'n debyg y bydd angen ei setlo drwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a
- phan fydd amcangyfrif dibynadwy’n gallu cael ei wneud o swm y rhwymedigaeth.

Os nad yw'n glir a yw digwyddiad wedi digwydd ar ddyddiad y Fantolen neu cyn hynny, bernir ei fod yn arwain at rwymedigaeth bresennol os, gan ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth bresennol fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Codir am ddarpariaethau fel treuliau i'r llinell wasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fydd rhwymedigaeth ar yr awdurdod, a chânt eu mesur ar sail yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o’r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol. Bydd amcangyfrifon y setliadau’n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Pan ddaw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd (neu fod setliad is na'r disgwyl yn cael ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fydd disgwyl i rywfaint neu'r cyfan o'r taliad sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael ei adennill gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), bydd hwn ond yn cael ei gydnabod fel incwm os yw'n sicr bron y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn pan fydd yr awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth.

### Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Cwyd rhwymedigaeth ddigwyddiadol pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rho rhwymedigaeth bosibl i'r awdurdod y bydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau gan ddigwyddiadau ansicr yn digwydd yn y dyfodol neu fel arall ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod. Bydd rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod yn y Fantolen ond byddant yn cael eu datgelu mewn nodyn i’r cyfrifon.

### Asedau Digwyddiadol

Cwyd ased digwyddiadol pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r awdurdod y bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiadau ansicr yn digwydd yn y dyfodol neu fel arall ac nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.

Nid chaiff asedau digwyddiadol eu cydnabod yn y Fantolen ond byddant yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

## 16. CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r awdurdod yn neilltuo symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol neu i dalu am argyfyngau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy drosglwyddo symiau allan o falans y Gronfa Gyffredinol. Pan fydd gwariant fydd yn cael ei ariannu gan gronfa wrth gefn yn digwydd, codir amdano i'r gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn y gwarged neu'r diffyg ar ddarparu gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna caiff y gronfa wrth gefn ei throsglwyddo'n ôl i falans y Gronfa Gyffredinol fel nad oes tâl net yn cael ei godi yn erbyn yr ardoll am y gwariant.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddion gweithwyr ac ymddeoliad ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gallai'r awdurdod eu defnyddio – mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn cael eu hesbonio yn y polisïau perthnasol.

## 17. TAW

Mae'r TAW sy'n daladwy wedi'i gynnwys fel treuliau dim ond i'r graddau na ellir ei adennill gan CThEM. Mae'r TAW sy'n daladwy wedi'i eithrio o'r incwm.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Perthnasedd y datganiadau ariannol | 7 |
| Cydymffurfio moesegol | 8 |
| Barn archwilio arfaethedig | 9 |
| Materion a gododd yn ystod yr archwiliad | 10 |
| Argymhellion | 12 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Adroddiad archwilio arfaethedig | 13 |
| Atodiad 2 – Llythyr sylwadau | 18 |
| Atodiad 3 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed | 21 |
| Atodiad 4 - Argymhellion | 23 |
| Ansawdd archwilio | 25 |
| Eich cefnogi chi | 26 |

# Cyflwyniad

Rwyf bellach wedi cwblhau fy archwiliad i raddau helaeth yn unol â’m Cynllun Archwilio Manwl dyddiedig Mehefin 2024. Mae gwaith yn y meysydd canlynol yn dal i fynd rhagddo:

- Cwblhau ffeil

Mae’r Adroddiad hwn ar yr Archwiliad o Gyfrifon yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o’ch datganiad o gyfrifon ar gyfer 2023-24. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'i thîm.

Rwy’n ddiolchgar iawn i’ch swyddogion am eu cefnogaeth wrth gynnal yr archwiliad hwn.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

# Cipolwg ar eich archwiliad

## Barnau archwilio

Rydym yn cynnig rhoi barn ddiamod ar y cyfrifon.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd o dan adrannau eraill fy adroddiad, hy y rhai sy'n ymwneud â busnes gweithredol; gwybodaeth arall; materion eraill; neu faterion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad.

## Materion arwyddocaol

Nid oes unrhyw gamddatganiadau na materion arwyddocaol i'w hadrodd.

# Perthnasedd y datganiadau ariannol

## Perthnasedd £X miliwn

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau perthnasol, hy y rhai a allai fel arall achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain .

Cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio:

- Gwariant gros 2023-24 o £48.422 miliwn
- Gwariant gros FFPF o £10.796 miliwn
- Perthnasedd canran o 2 %

Cymhwysaf y ganran perthnasedd i wariant gros i gyfrifo perthnasedd.

Byddaf yn adrodd i chi ar unrhyw gamddatganiadau dros £48,000, (FFPF: £10,000) a gyfrifwyd fel 5% o berthnasedd (a elwir yn 'lefel ddibwys').

## Meysydd o ddiddordeb penodol

Mae rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddwyr y cyfrifon. Rydym yn gosod lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain fel a ganlyn:

- Tâl Uwch Swyddogion £1,000
- Datgeliadau partïon cysylltiedig (unigolion) £10,000

# Cydymffurfio moesegol

## Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn credu:

- ein bod wedi cydymffurfio â’r safonau moesegol y mae’n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Yn ein Cynllun Manwl, esboniwyd bod prentis Archwilio Cymru wedi’i secondio i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am y cyfnod Ionawr i Orffennaf 2024.

Er mwyn gwarchod rhag unrhyw fygythiadau posibl i’n hannibyniaeth neu’n gwrthrychedd, cytunwyd ar y mesurau diogelu a ganlyn:

- ni fydd gan y secondai unrhyw gyfrifoldebau rheoli; a
- bydd y secondiad yn un tymor byr (dim mwy na 12 mis).

Roedd hwn yn drefniant dwyochrog, gyda phrentis o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi'i secondio i Archwilio Cymru am yr un cyfnod. Nid yw'r secondai hwn wedi cyfrannu at unrhyw waith archwilio ynghylch yr Awdurdod.

# Barn archwilio arfaethedig

## Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Cynrychiolaeth i ni (gweler isod).

Mae ein hadroddiad archwilio arfaethedig i'w weld yn **Atodiad 1.**

## Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau sy'n eich galluogi i gadarnhau wrthym bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o'r wybodaeth hon wedi'i nodi'n wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

# Materion a gododd yn ystod yr archwiliad

**Camddatganiadau**

Mae camddatganiad yn codi pan nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifyddu.

## Camddatganiadau nas cywirwyd

Isod rydym yn nodi'r camddatganiadau a nodwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi'u trafod â'r rheolwyr ond sydd heb eu cywiro o hyd. Gofynnwn i'r camddatganiadau hyn gael eu cywiro .

Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau'n ysgrifenedig i ni dros beidio â'u cywiro yn y llythyr cynrychioli:

- Mae balansau dyledwyr a chredydwyr wedi'u gorddatgan gan £137,113 oherwydd i gredydwyr gael eu codi pan dderbyniwyd anfonebau, a gafodd eu debydu i ragdaliadau ar gyfer gwariant yn ymwneud â 2024-25. Nid oes unrhyw effaith ar wariant nac ar falansau wrth gefn.

## Camddatganiadau wedi'u cywiro

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi camddatganiadau a gywirwyd gan reolwyr, ond yr ydym yn ystyried y dylid tynnu eich sylw atynt.

Nodir y rhain yn **Atodiad 3** .

## Materion arwyddocaol eraill

Yn ychwanegol at y camddatganiadau a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad rydym hefyd yn adrodd wrthych ar faterion arwyddocaol eraill.

Ni chanfuwyd unrhyw faterion o’r fath yn ystod yr archwiliad.

# Argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion yn ystod yr archwiliad, a nodir yn **Atodiad 4** ynghyd ag ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion.

Byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Lle nad yw unrhyw argymhellion yn cael eu rhoi ar waith yn llawn, byddwn yn adrodd wrthych fel rhan o'r Adroddiad ar yr Archwiliad o Gyfrifon y flwyddyn nesaf.

# Atodiad 1

## Adroddiad archwilio arfaethedig

### Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol y canlynol:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ;
- Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Mae Cyfrifon Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net a nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac o'i incwm a gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU fel y'u dehonglir ac a addaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

### Sail i farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig' . Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, deuthum i’r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi’r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i allu Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân ac Achub Gogledd Cymru i wneud hynny . parhau i fabwysiadu’r sail busnes gweithredol o gyfrifo am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o’r adeg yr awdurdodir cyhoeddi’r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau’r swyddog ariannol cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd ar hynny. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu’r wybodaeth arall ac, ac eithrio i’r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o’r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i’r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi’i gyflawni, fod yna gamddatganiad sylweddol o’r wybodaeth arall hon, mae’n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i’w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24;

- wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r canllawiau.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i

hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Llywodraethu Blynyddol. Datganiad.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn, yr wyf yn adrodd arnynt i chi, os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu .

## Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am:

- paratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg ac yn cydymffurfio ag arferion priodol;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- rheolaethau mewnol y mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau cyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; a
- asesu gallu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes byw oni bai bod y swyddog ariannol cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol ag adran 13(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd , y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, polisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Gogledd Cymru sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu honedig; a
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll wrth bostio cyfnodolion anarferol.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a oedd wedi effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru .
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, yr Awdurdod Tân ac Achub a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Cyfathrebais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio a daliais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll . rheolaethau, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities . Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau archwilwyr eraill

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru .

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad:

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

# Atodiad 2

## Llythyr sylwadau

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

21 Hydref 2024

### Sylwadau ynghylch 2023-24 datganiadau ariannol

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, er mwyn mynegi barn ar eu gwir a'u tegwch a'u paratoad priodol.

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau sy'n ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y cynrychioliadau canlynol i chi.

### Sylwadau rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny;
- cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu:

- mynediad llawn i:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a

  - mynediad anghyfyngedig at staff yr oeddech yn credu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;

- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn sylweddol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am dwyll neu amheuaeth o dwyll yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy’n effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac sy’n ymwneud â:
  - rheoli;
  - gweithwyr sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëir gan gyflogeion, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio neu amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol; a
- hunaniaeth yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

## Sylwadau datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi'u cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

Mae’r dulliau, y data a’r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, a’u datgeliadau cysylltiedig yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy’n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol cymwys.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig a'u datgelu.

Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen eu haddasu neu eu datgelu wedi'u haddasu neu eu datgelu.

ymgyfreitha a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol wedi’u datgelu i’r archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt a’u datgelu yn unol â’r fframwaith adrodd ariannol cymwys.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad (gorddatganiad o £137k o ddyledwyr a chredydwyr) yn amherthnasol, yn unigol ac yn eu cyfanrwydd , i'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi'u trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 21 Hydref 2024.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i wneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu ei bod wedi'i chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Swyddog sy'n llofnodi ar ran rheoli | Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu |
| Dyddiad: 21 Hydref 2024 | Dyddiad: 21 Hydref 2024 |

# Atodiad 3

## Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

| Gwerth y cywiriad | Meysydd yn y cyfrifon | Esboniad |
|---|---|---|
| £1,238,000 | **Nodyn 30 Cynlluniau Pensiwn â Buddion Diffiniedig**<br>Mae gwarged yr ased o £1,238,000 ar gyfer y CPLlL wedi'i ostwng i ddim , gan gynyddu'r ailfesuriad net o'r llinell atebolrwydd buddion diffiniedig net yn y CIES a'r gronfa bensiwn wrth gefn yn y MiRS a'r Fantolen.<br><br>cronfeydd defnyddiadwy na gwerthoedd gwariant yr Awdurdod . | Mae gwarged yr ased wedi'i ostwng i ddim, i adlewyrchu gwerth uchaf yr ased. Mae hwn yn fater cyfrifyddu technegol sy'n datblygu ac mae'r driniaeth gyfrifo derfynol wedi'i chadarnhau yn ystod y cyfnod archwilio terfynol. |
| £473,000 | **Nodyn 8 Cronfeydd Defnyddiadwy**<br>£473,000 wedi'i ailddosbarthu o ddarpariaethau i gronfeydd a glustnodwyd, gan arwain at ostyngiad mewn gwariant net o'r swm hwn yn y CIES. | Codwyd darpariaeth i adlewyrchu newidiadau yn y dyfodol i fandiau cyflog diffoddwyr tân fel darpariaeth ond nid oedd yn bodloni'r meini prawf oherwydd nad oedd unrhyw rwymedigaeth bresennol. |
| £95,238 | **Nodyn 16 Credydwyr**<br>£95,238 wedi'i ailddosbarthu o log cronedig i gredydwyr tymor byr. | Er mwyn adlewyrchu prif swm benthyca a ddangoswyd yn anghywir o fewn y llog cronedig a oedd yn ddyledus ar 30/03/2024 fodd bynnag a ad-dalwyd ar ôl diwedd y |

| | | |
|---|---|---|
| | | flwyddyn oherwydd bod y dyddiad dod i ben yn ŵyl banc. |
| £24,269 | **Nodyn 23 Tâl Swyddogion**<br>Cynyddodd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ar gyfer CFO o £15,348 i £29,216 a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr ar gyfer ACFO i gael eu cynyddu o £11,511 i £21,912 | I ddangos y tâl pensiynadwy llawn wedi'i luosi â chyfraniad y cyflogwr, yn unol â pharagraff 8 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| £8,197 | **Nodyn 23 Tâl Swyddogion: Cymhareb Tâl**<br>Diwygio tâl y Prif Swyddog Tân o £152,034 i £160,231, gan gynyddu'r gymhareb o 4.20 i 4.42. | Er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Tân rhwng y tabl a'r gymhareb tâl. |
| Newidiadau amrywiol cyflwyniadol i nodiadau ategol | Nifer o rai eraill naratif, cyflwyniadol a mân ddiwygiadau eu gwneud i gefnogi nodiadau datgelu. | Er mwyn sicrhau bod pob datgeliadau yn cyflwyno'n gywir |

# Atodiad 4

## Argymhellion

Rydym yn nodi isod yr argymhellion o’n harchwiliad ynghyd ag ymateb eich rheolwyr iddynt.

| Mater yn codi 1 – Ffurflenni datganiadau o fuddiant anghyflawn gan aelodau | |
|---|---|
| Canfyddiadau | Methodd dau aelod â chwblhau eu datganiadau o ddiddordeb mewn perthynas â'u rôl yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, er gwaethaf ceisiadau mynych gan y swyddogaeth gyllid a'r Swyddog Monitro. Mae hyn yn dangos methiant i gydymffurfio â'u gofynion, sy'n golygu bod gan yr Awdurdod lai o wybodaeth am ei berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig posibl .<br><br>Gofynnodd y tîm archwilio am dystiolaeth arall ar gyfer yr aelodau hyn; fodd bynnag, roedd hwn yn ddull llai effeithlon o gael sicrwydd. |
| Blaenoriaeth | Uchel |
| Argymhelliad | Argymhellir bod pob aelod yn cwblhau eu datganiadau o ddiddordeb ar gyfer eu rôl yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru . |
| Manteision gweithredu'r argymhelliad | Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy i'r Awdurdod am ei berthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig.<br><br>Bydd hefyd yn arbed amser archwilwyr a swyddogion, gan arwain at fwy o effeithlonrwydd archwilio. |
| Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr | Oes |

| | |
|---|---|
| Ymateb rheolwyr | Mae swyddogion yn dibynnu ar ddatganiadau o fuddiant i gwblhau eu nodyn partïon cysylltiedig. Mae'r rheolwyr yn bwriadu ailadrodd yr angen i ffurflenni penodol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gael eu cwblhau. |
| Dyddiad gweithredu | 31 Mawrth 2025 |

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru’n un llwyr. Rydym ni’n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â gwneud pethau’n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio’r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan QAD*, ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel dolen gyswllt i’n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2023.



**Ein Pobl**

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a’n rheolwyr sy’n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni’r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



**Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio**

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a’r datblygiad, y canllawiau, a’r arweinyddiaeth a ddarparwn i’n staff i’w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



**Sicrwydd annibynnol**

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy’n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi’r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw’r Adran Sicrhau Ansawdd.

# Eich cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i gynorthwyo'r cyrff hynny i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer pobl Cymru.

## Ewch at ein gwefan i ganfod:

| | |
|---|---|
| | ein gwaith Arfer Da lle'r ydym yn rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio i ategu ein hamcanion i roi sicrwydd, egluro ac ysbrydoli. |
| | ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd ar eich cyfer am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau. |
| | ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio a gwblhawyd mewn cyrff cyhoeddus. |
| | gwybodaeth am ein blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad 2023-2026 a gaiff ei llywio gan weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n dadansoddiad sy'n rhoi darlun o wasanaethau cyhoeddus. |
| | amryw offer data a ffeithluniau i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau gwariant cyhoeddus gan gynnwys ystod o fewnwelediadau eraill i graffu ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. |

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 a hefyd Ein Strategaeth 2022-27.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Audit Wales

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

*This document is available in English.*

**Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Adolygiad yr Awdurdod o Gyllideb 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad i'r aelodau ar y rhagolygon gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2024/25, fel ar 31 Medi 2024.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Cafodd y gofyniad cyllideb net ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Cadarnhaodd hyn ofyniad net o £48.322m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Er mwyn cyfyngu gofyniad y gyllideb i £48.322m, cymeradwyodd yr Awdurdod Tân ac Achub rhai mesurau anghylchol, gan gynnwys y defnydd o gronfeydd wrth gefn.

3 Rhagwelir y bydd gwariant gwirioneddol yn £47.695m, sy'n cynnwys costau sy'n ymwneud â phrosiectau amrywiol a setliadau cyflog cenedlaethol.

4 Cymeradwyodd yr Awdurdod y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2024/25 o £5.676m, ar 22 Ionawr 2024, sy'n cynnwys cyllid trosglwyddiad o £1.110m o flynyddoedd blaenorol. Mae'r rhaglen gyfalaf yn profi llithriad ar gynlluniau ac mae'n cael ei ragweld y bydd gwariant yn £4.403m a bydd angen trosglwyddo cyllid o £1.379m.

## ARGYMHELLION

5 Gofynnir i aelodau:

(I) nodi'r tanwariant refeniw drafft rhagamcan a'r rhagolygon alldro llithriad cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad; a

(II) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi, a'r her gyfreithiol, lle mae natur y ffigurau a ragwelir yn yr adroddiad hwn yn ddarbodus.

## SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr aelodau o'r blaen.

## CEFNDIR

7 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw cytbwys y mae'n rhaid ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn. Cymeradwywyd y gyllideb derfynol ar gyfer 2024/25 gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb refeniw net o £48.322m i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

8 Wrth bennu'r gyllideb, cymeradwyodd yr Aelodau amrywiaeth o fesurau anghyson er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol o fewn 2024/25 a oedd yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn.

9 Cyflwynwyd y cynllun cyfalaf o £5.676m i'r grŵp gwaith Craffu cyllideb a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. Cymeradwywyd y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 hyd Fawrth 2034 yn y Pwyllgor Archwilio ym Mawrth 2024 ac fe'i cadarnhawyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 15 Ebrill 2024.

10 Mae'r adroddiad monitro cyllideb hwn yn darparu gwybodaeth am sefyllfa drafft allbynnau gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

## GWYBODAETH

## CYLLIDEB REFENIW

11 **Tâl:** Mae costau gweithwyr yn cynrychioli dros 70% o'r gwariant gros. Cyllideb staffio 2024/25 yw £35.430m ac mae'n cynnwys mesurau a gymerwyd wrth osod y gyllideb i gadw gwariant o fewn y ffigwr a gymeradwywyd. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bryd hynny bod y trafodaethau cyflog cenedlaethol ar gyfer yr holl staff yn dal i fynd rhagddynt.

12 Roedd y broses gosod cyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth y byddai dyfarniadau cyflog ar gyfer 2024/25 yn 4% i'r holl staff. Mae canlyniad dyfarniad cyflog Ebrill 2024 ar gyfer staff llywodraeth leol yn dal heb ei fodloni.

13 Cafodd dyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ei setlo ym mis Mai 2024 a chadarnhawyd bod 4% wedi cael ei dderbyn o 1 Gorffennaf 2024 ymlaen. Mae newidiadau i strwythur ffi cadw RDS i'w gweithredu o 1 Ionawr 2025.

14 **Anghyflog:** Mae'r rhagolygon anghyflog yn ystyried costau hysbys ac unrhyw ostyngiadau mewn gwariant; fodd bynnag, mae ansicrwydd yn parhau oherwydd y rhagolwg economaidd cyffredinol, pwysau chwyddiant posibl, a heriau cadwyn gyflenwi sy'n codi o amgylchiadau byd-eang.

15 **Incwm:** Tra bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu gan dreth yr awdurdodau cyfansoddol, mae incwm yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau a ariennir gan grant, yn ogystal ag ad-daliadau gan gyrff eraill mewn perthynas â defnyddio ein hadeiladau. Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi elwa ar incwm ychwanegol o secondiadau ac ar grant untro gan Lywodraeth Cymru i gefnogi addysg o gwmpas y cyfyngiadau cyflymder 20 milltir yr awr yng Nghymru.

16 **Costau refeniw cyfalaf:** Mae costau cyllido cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Rhagwelir y bydd y gyllideb hon yn tanwario oherwydd yr oedi wrth gwblhau prosiectau cyfalaf.

## RHAGOLYGON ALLDRO REFENIW AR GYFER 2024/25

17 Ar yr adeg hon o fewn y flwyddyn ariannol, mae nifer o ansicrwydd a risgiau a allai effeithio ar berfformiad ariannol yr Awdurdod. Rhagwelir y gallai'r allbwn amrywio o £0m hyd at danwariant o £1.1m cyn trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn penodedig. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y gwariant hyd yma, mae'r rhagolwg refeniw blynyddol mwyaf tebygol fel ar 30 Medi 2024 wedi'i nodi isod ac mae'n dangos tanwariant o £0.628m.

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiant (£m) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 35.430 | 34.227 | (1.203) | -3.40% |
| Eiddo | 3.530 | 3.330 | (0.200) | -5.66% |
| Cludiant | 1.284 | 1.254 | (0.030) | -2.36% |
| Cyfenwadau | 6.597 | 6.584 | (0.013) | -0.19% |
| Taliadau Trydydd Pari | 0.363 | 0.363 | 0.000 | 0.00% |
| Cyllid Cyfalaf a Thaliadau | 2.989 | 2.989 | 0.000 | 0.00% |
| Incwm | (0.946) | (1.052) | (0.106) | 11.17% |
| Gronfeydd Wrth Gefn | (0.924) | 0.000 | 0.924 | -100.00% |
| **Rhagolwg Alldro** | **48.322** | **47.695** | **(0.628)** | **-1.30%** |

18 Mae ansicrwydd ynghylch costau 'Firelink', oherwydd her gyfreithiol genedlaethol sy'n mynd rhagddi. Os caiff yr her gyfreithiol ei phenderfynu o blaid y sector, bydd costau'r flwyddyn yn lleihau o £0.500m. Mae ansicrwydd pellach ynglŷn â'r angen am fenthyca ychwanegol a'r ail-gyllido benthyciadau ddiwedd 2024 hyd ddechrau 2025, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu cronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant yn y dyfodol.

**COSTAU GWEITHWYR**

19 Mae costau cyflogon yn ffurfio elfen sylweddol o’r gyllideb (dros 70% o’r costau gros) ac yn cynnwys cyflogau, costau pensiwn, costau recriwtio a hyfforddi, a gwasanaethau i weithwyr, megis gwasanaethau iechyd galwedigaethol.

20 Mae camau'n parhau i gael eu cymryd i gynyddu nifer y diffoddwyr tân dyletswydd cadw (RDS) er mwyn mynd i’r afael â materion argaeledd a’u cynnal. Wrth osod y gyllideb ar gyfer 2024/25 roedd 474 o bersonél RDS ac fe wnaed darpariaeth bellach i gynyddu capasiti RDS o 30 arall ar gost o £0.413m. Roedd hyn yn adlewyrchu’r gwelliannau a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf i gynyddu’r capasiti cadw ac i ddarparu’r clawr sydd ei angen yn fawr. Fodd bynnag, fel y gwelir o’r tabl isod, mae hyn wedi parhau i fod yn her sylweddol gyda niferoedd gwirioneddol yn gostwng islaw’r gyllideb wreiddiol yn y camau cynnar o’r flwyddyn ariannol. Yn ystod mis Medi 2024, yn dilyn recriwtio llwyddiannus, mae’r niferoedd wedi cynyddu ond mae tanwariant sylweddol yn y gyllideb yn cael ei brofi.

| Dadansoddiad RDS | Cyllideb 2024/25 | Ebr-24 | Gorff-24 | Med-24 |
|---|---|---|---|---|
| Niferoedd Penodi | 474 | 459 | 465 | 487 |
| Cyfwerth 100% | 378 | 365 | 367 | 385 |

21 Mae’r tanwariant yn y gyllideb staff RDS yn adlewyrchu’r anawsterau recriwtio a chadw staff a’r amrywiadau yn y tâl amrywiol, gan gynnwys ffioedd ymarferion, lwfansau hyfforddi a gweithgaredd.

22 O fewn y grŵp staff sy’n ymwneud â staff gweithredol amser llawn, bu nifer uwch na’r disgwyl o ymddeoliadau gan arwain at fylchau yn y gweithlu gweithredol. Mae camau recriwtio wedi’u cymryd i fynd i’r afael â’r diffyg hwn er bod tanwariant yn cael ei ragweld. Fodd bynnag, oherwydd yr angen i gynnal capasiti gweithredol a darparu hyfforddiant, bu’n angenrheidiol defnyddio goramser.

23 Mae’r anhawster i recriwtio i swyddi arbenigol o fewn yr adrannau corfforaethol wedi parhau yn ystod 2024/25 gyda thanwariant ar gyfer y flwyddyn lawn yn cael ei ragweld.

24 Mae’r adolygiad ac ailstrwythuro arfaethedig o’r adran diogelwch tân wedi’i ohirio tan 2025/26 er mwyn caniatáu i gapasiti o fewn y criwiau gweithredol gael ei asesu.

25 Rhagwelir y bydd y gwariant cyffredinol ar gyfer costau cyflogon yn £34.227m, sef tanwariant o £1.203m, gyda’r prif symudiadau i’w dadansoddi isod:




**COSTAU NAD YDYNT AR GYFLOGAU**

26 Mae'r gyllideb anghyflog sy'n cynnwys Ystadau, Trafnidiaeth, Cyflenwadau, Taliadau Trydydd Parti, a Chyllid a Thaliadau Cyfalaf, yn rhagweld tanwariant o £0.243m.

27 Gwelir y gwelliant mwyaf o fewn cyfleusterau lle mae costau ar gyfer cyfleustodau'n gostwng gan fod yr Awdurdod wedi elwa o amodau ffafriol yn y farchnad a chredydau a dderbyniwyd yn dilyn apeliadau llwyddiannus yn erbyn gwerthoedd trethi annomestig cenedlaethol.

28 Mae'r rhagolwg yn cynnwys arbedion unwaith gan fod gwaith arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r fflyd forol wedi'i ohirio tan y flwyddyn nesaf. Mae'r gostyngiadau yn y rhagolwg TGCh yn cynnwys arbedion sy'n codi wrth adnewyddu contractau. Mae'r arbedion hyn wedi galluogi'r costau parhaus sy'n deillio o'r adolygiad diwylliannol allanol i gael eu talu o adnoddau ariannol presennol.

29 Mae costau cyfalaf a ragwelir ar hyn o bryd yn unol â'r gyllideb. Fodd bynnag, mae rhywfaint o lithriad o fewn y cynllun cyfalaf a fydd yn effeithio ar y sefyllfa alldro. Mae craffu parhaus ar y rhaglen gyfalaf yn ei le, i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni angenrheidiol.

30 Mae gwariant anghyflog yn destun adolygiad parhaus gan ddeiliaid cyllidebau, i sicrhau bod y rhagolygon yn parhau i fod yn rhesymol ac i reoli costau anochel.




**INCWM**

31 Yn ogystal â'r dreth gan yr awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm disgwyliedig o ffioedd, taliadau a grantiau, sy'n ymwneud yn bennaf â'r ad-daliadau am adeiladau a rennir ag endidau eraill a chytundebau lefel gwasanaeth gyda gwahanol sefydliadau.

32 Mae'r Awdurdod wedi derbyn incwm gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparu addysg i yrwyr sy'n mynd y tu hwnt i'r terfynau cyflymder 20mya a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae incwm ychwanegol hefyd wedi'i dderbyn yn dilyn gwerthu cerbydau

33 Mae'r incwm yn rhagori ar y gyllideb o £0.106m, fel y manylir isod:



**RHAGLEN GYFALAF**

34 Cymeradwyodd yr Awdurdod Tân raglen gyfalaf o £5.676m ym mis Ionawr 2024, y mae £1.1m ohono'n gyllid trosglwyddiad o flwyddyn ariannol 2023/24.

35 Oherwydd oedi parhaus, mae cyfanswm gwariant cyfalaf hyd yma wedi bod yn £0.581m, gyda'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cael ei amcangyfrif i fod yn £4.403m.

36 O ystyried y llithriad cyfalaf, rhagwelir cais am gyllid trosglwyddiad yn gyfwerth â £1.379m. Rhoddir manylion pellach isod:

| Enw/Disgrifiad y Prosiect | Cyllideb £'000 | Costau £'000 | Rhagolwg £'000 | Trosglwyddiad £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Gweinydd TGCh a chyfarpar symudol | 827 | | 227 | 591 |
| Tŵr hyfforddi | 305 | 6 | 314 | |
| Gwelliannau gorsaf | 1,100 | 336 | 672 | 428 |
| Gwaith cynaliadwyedd | 469 | | 470 | |
| Gwellau cyfleusterau hyfforddi | 300 | | | 300 |
| Cerbydau Tân | 426 | | 533 | |
| Cerbydau Ysgafn | 166 | 161 | 165 | |
| Cerbydau Ysgafn Arbenigol | 632 | 66 | 572 | 60 |
| Offer Gweithredol | 290 | | 290 | |
| Offer Fflyd | 50 | | 50 | |
| **Trosglwyddiad Cyllid o 2023/24** | | | | |
| Cerbydau Tân | 960 | | 960 | |
| Gwaith cynaliadwyedd | 150 | 12 | 150 | |
| **Cyfanswm** | **5,676** | **581** | **4,403** | **1,379** |

37 Nodir yr arian a ragwelir ar gyfer gwariant cyfalaf isod:

| | **£m** |
|---|---|
| Benthyca | 3.676 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Chlustnodwyd | 0.727 |
| **Cyfanswm** | **4.403** |

**Benthyca**

38 Ariennir gwariant cyfalaf yn bennaf trwy fenthyca allanol. Yn y tymor byr mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw dros ben, a elwir yn benthyca mewnol.

39 Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio benthyca mewnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r benthyca cyfalaf sydd ei angen, fel y'i cyfrifwyd gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), wedi'i ariannu'n llawn gyda dyled benthyciad allanol gan fod arian sy'n cefnogi cronfeydd wrth gefn, a llif arian yr Awdurdod wedi'i ddefnyddio fel ateb dros dro i ariannu gwariant cyfalaf a chynhyrchu arbedion refeniw. Fodd bynnag, wrth i'r arian wrth gefn gael ei ddefnyddio, bydd angen disodli'r benthyca mewnol gyda benthyca allanol. Roedd y benthyciad heb ei dalu fel ar 30 Medi 2024 yn £17.767m (£18.827m fel ar 31 Mawrth 2024). Rhagwelir benthyca pellach wrth i'r rhaglen gyfalaf fynd yn ei blaen.

**DANGOSYDDION DARBODUS– Ch2 2024/25**

40 Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei wariant cyfalaf a'i fenthyca drwy gyfeirio at y dangosyddion canlynol. Mae bellach yn ofyniad o dan Gôd Darostyngol CIPFA bod y rhain yn cael eu hadrodd drwy gydol y flwyddyn ariannol. Cyfrifir y dangosyddion yn seiliedig ar y wybodaeth yn y Strategaeth Gyfalaf 2024/25, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024.'

**Gwariant Cyfalaf**

41 Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwariant cyfalaf ac mae'n cynllunio gwariant cyfalaf fel y nodir isod:

| | 2023/24 gwirioneddol £m | 2024/25 amcangyfrif £m | 2025/26 cyllideb £m |
|---|---|---|---|
| Cynllun Gwariant Cyfalaf | 2.182 | 4.403 | 6.424 |

42 Mae manylion pellach am y prosiectau cyfalaf hyd yma wedi'u cynnwys yn adra Rhaglen Gyfalaf yr adroddiad hwn.

**Gofyniad Ariannu Cyfalaf**

43 Mae swm cronnol yr Awdurdod o gyllid dyled yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf a ariennir gan ddyled newydd ac yn lleihau gyda MRP a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyledion.

| | 2022/23 gwirioneddol £m | 2023/24* gwirioneddol £m | 2024/25 amcangyfrif £m | 2025/26 amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 28.877 | 27.949 | 30.647 | 36.003 |

*Yn eithrio costau sy'n gysylltiedig â phrynu tir.

**Dyled Gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf**

44 Canllawiau statudol yw bod dyled yn aros yn is na'r gofyniad cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio ac yn disgwyl parhau i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn y tymor canolig fel y dangosir isod.

| | **2022/23 gwirioneddol £m** | **2023/24 gwirioneddol £m** | **2024/25 cyllideb £m** | **2025/26 cyllideb £m** |
|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Prydlesi Cyllid) | 26.650 | 20.787 | 24.493 | 28.508 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 28.877 | 27.949 | 30.647 | 36.003 |

**GOBLYGIADAU IMPLICATIONS**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yr Awdurdod yn cynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon yn unol â'r safonau penodedig. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n briodol i'r Aelodau. |

*This document is available in English*

**Eitem 13 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Pennu Cyllideb 2025/26** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i'r Aelodau broses y gyllideb, rhagdybiaethau cynllunio a'r amserlenni ar gyfer pennu cyllideb refeniw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar gyfer 2025/26.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod bennu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26 yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025. Mae'r gwaith rhagarweiniol sydd ei angen i sefydlu'r gyllideb sylfaenol wedi dechrau, ac mae'n cynnwys adolygiad o'r lefelau gwariant presennol, rhagdybiaethau cynllunio allweddol a risgiau. Ceir crynodeb yn Atodiad 1.

## SYLWADAU GAN BWYLLGORAU ERAILL

3 Mae'r broses o bennu cyllideb yn destun craffu gan Aelodau drwy'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb. Mae hwn yn is-grŵp o'r Pwyllgor Archwilio, gyda chynrychiolaeth o bob awdurdod lleol cyfansoddol. Mae gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb flaenraglen waith a'i nod yw cyfarfod ar chwe achlysur rhwng Mehefin a Rhagfyr 2024.

## ARGYMHELLION

4 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26;

ii) nodi cylch gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a sefydlwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'r amserlen adrodd arfaethedig;

iii) nodi'r cynnig i ddarparu amcangyfrifon cyllideb cychwynnol i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2023; a

IV) nodi'r cynnig i geisio cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer cyllideb refeniw 2025/26 yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

**CEFNDIR**

5 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys ac mae'n rhaid i'r Awdurdod llawn ei chymeradwyo. Er nad yw'r term "cytbwys" wedi'i ddiffinio'n ffurfiol yn y ddeddfwriaeth, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn cydnabod y dylai fod gan sefydliadau gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y caiff gwariant ei ariannu yn y tymor byr a'r tymor canolig.

6 Ategir cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn y tymor byr, canolig a hir gan wybodaeth a dealltwriaeth o'r costau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion sefydliadol gan gynnwys gwerthuso risgiau ac ansicrwydd. Yn ganolog i hyn mae dealltwriaeth o ofynion y gwasanaeth, yr adnoddau sydd ar gael a'r weledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol.

7 Nodwyd yr heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod yn adroddiad y Prif Swyddog Tân i'r Aelodau ym mis Medi 2021 gan gynnwys sicrhau bod digon o griwiau tân ar-alwad ar gael; sicrhau digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a bod â digon o gapasiti corfforaethol i ddiwallu'r gofynion presennol a gofynion y dyfodol.

8 Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r weledigaeth strategol, cynhaliwyd Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) gan yr Awdurdod yn ystod 2023/24. Roedd hwn yn cynnwys nifer o opsiynau arfaethedig i newid y fframwaith cyflwyno'r gwasanaethau i fynd i'r afael â'r heriau hysbys sy'n gysylltiedig ag argaeledd yn ystod y dydd mewn lleoliadau gwledig. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau yn yr Adolygiad, cydnabu'r Aelodau yr angen i gynyddu gallu a gwytnwch mewn lleoliadau gwledig a chefnogwyd cynigion y gyllideb i gadw'r capasiti gweithredol presennol heb newidiadau i systemau dyletswydd na nifer y gorsafoedd wrth gefn. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth bod angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â'r heriau gwledig ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

9 Mae'r Awdurdod hefyd yn wynebu risgiau ac ansicrwydd sy'n benodol i'r sector tân, gan gynnwys datblygiadau mewn iechyd a diogelwch criwiau gweithredol sy'n gysylltiedig â risgiau halogi. Mae'r adroddiad i'r digwyddiadau trasig yn 2017 yn ymwneud â Grenfell wedi tynnu sylw at feysydd pellach y mae angen i'r sector eu hystyried, gan gynnwys digonolrwydd ymateb a hyfforddiant.

10 Yn ogystal, ac fel pob corff sector cyhoeddus, mae'r Awdurdod hefyd yn wynebu ansicrwydd ariannol oherwydd chwyddiant mewn meysydd allweddol, gan gynnwys meddalwedd hanfodol ac effaith codiadau

cyfradd llog ar fenthyciadau newydd neu fenthyciadau sydd wedi'u hailariannu.

**GWYBODAETH**

11 Mae proses pennu cyllideb 2025/26 yn seiliedig ar ganlyniad Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys 2023/24 a'r modelau darparu gwasanaethau presennol. Yn ogystal, mae'r broses o bennu cyllideb yn destun trosolwg a chraffu gan Aelodau drwy'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb.

12 Gydag Aelodau'n cynrychioli pob awdurdod lleol, bydd y gweithgor yn cwrdd chwe gwaith rhwng Mehefin a Rhagfyr 2024. Bydd adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â chostau cyflogres, costau nad ydynt yn gyflogau, a chostau ariannu cyfalaf er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i aelodau a chyfle i graffu a herio. Adroddir ynghylch y gwaith hwn i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr a bydd hyn yn llywio'r broses o bennu'r gyllideb.

13 Bydd y gwaith cynllunio hefyd yn ystyried gofynion cyfalaf yr Awdurdod dros y cylch cynllunio tymor canolig. Bydd hyn yn ystyried yr asesiad ariannol o gynlluniau'r dyfodol a'u fforddiadwyedd, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â phrosiect y Ganolfan Hyfforddi.

14 Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer 2025/26 yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2024. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad sensitifrwydd ynghylch risgiau ac ansicrwydd a bydd yn ymgorffori canfyddiadau craffu'r Pwyllgor Archwilio.

15 Bydd cyllideb refeniw ddrafft 2025/26 yn cael ei pharatoi a'i hystyried i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ar hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi nodi gofyniad cyllideb o £50.9m. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru fel rhan o'r gwaith cynllunio manwl, gan gynnwys canlyniad Adolygiad yr Awdurdod o'r Ddarpariaeth Frys. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddyletswydd gyfreithiol i bennu cyllideb gytbwys sy'n seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Mae dros 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor arwyddocaol wrth |

| | |
|---|---|
| | ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nododd y Prif Swyddog Tân yn cynnwys y trafodaethau cyflog parhaus yn ogystal â'r angen i recriwtio mwy o staff dyletswydd ar alwad a gwella cydnerthedd corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth o fewn y cynigion ar gyfer pennu cyllideb. |
| Risgiau | Mae'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol i gyllideb 2025/26 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1. |

Atodiad 1

## Crynodeb o ragdybiaethau a risgiau cynllunio

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy’n cael eu defnyddio wrth bennu’r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Costau cyflogeion | • Bydd y cyllidebau staffio yn cael eu llunio ar fodelau cyflwyno'r gwasanaethau presennol a byddant yn adlewyrchu'r penderfyniad ynghylch canlyniad Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2023.<br>• Mae gwariant y System Dyletswydd ar Alwad (RDS) wedi'i seilio ar gyfrif pennau 2023/24. Byddai cyllidebu ar gyfer y staffio llawn gofynnol yn arwain at gost ychwanegol o tua £3 miliwn.<br>• Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer dyfarniadau cyflog ar gyfer 2025/26 yn gynnydd o 4% ar gyfer pob grŵp staff.<br>• Roedd setliad diffoddwyr tân 2024/25 yn cynnwys codiad o tua 50% yn y tâl cadw a delir i ddiffoddwyr tân ar y systemau dyletswydd ar alwad a chriwio dydd. Amcangyfrifir mai effaith y cynnydd hwn yw £1m y flwyddyn.<br>• Yn ystod 2023/24 adolygodd Llywodraeth Cymru y llif arian mewn perthynas â chymorth ariannol ar gyfer cynnydd i gyfraniadau'r cyflogwr sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Yn dilyn prisiadau actiwaraidd 2016 darparwyd £1.1m o gymorth i'r Awdurdod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (a elwir yn gyllid SCAPE). O 2023/24 mae hyn wedi'i gynnwys o fewn y cyllid i awdurdodau lleol cyfansoddol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r cymorth ariannol ar gyfer y cynnydd sy'n deillio o brisiad 2020 wedi'i gadarnhau eto. At ddiben pennu'r gyllideb | • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ar gyfer 2025/26.<br>• Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb eto ar y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer 2024/25 na 2025/26.<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn tybio y bydd lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llif o alwadau yn digwydd byddwn yn teimlo pwysau cyllidebol. Y dybiaeth weithredol yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| | mae'r holl gostau wedi'u cynnwys o fewn y gwariant sydd i'w gwmpasu gan yr ardoll. | |

| | | |
|---|---|---|
| Costau nad ydynt yn gyflogau | • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau'n cael eu llunio gan ddefnyddio modelau cyflwyno'r gwasanaethau presennol.<br>• Mae'r gofynion ar y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau wedi cynyddu hyd yn oed yn fwy oherwydd yr effaith chwyddiant sy'n gynhenid o fewn contractau presennol ac yn y dyfodol, yn ogystal â materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd hanfodol i fusnes. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwi cit diffodd tân a dod o hyd i rannau newydd ar gyfer cerbydau'r ochr weithredol.<br>• Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflogau. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi diffoddwyr tân gweithredol a rheoli halogyddion.<br>• Mae cyllidebau wedi'u llunio gan bob Pennaeth Adran perthnasol yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u barn broffesiynol am y gwariant sy'n angenrheidiol i gyflawni amcanion corfforaethol.  Mae hyn yn cynnwys adolygiad o rwymedigaethau cytundebol sylfaenol ac amcangyfrifon o weithgarwch. Mae ceisiadau newydd am gyllid dros £10,000 yn destun achos busnes sy'n destun craffu.<br>• Yn ystod 2023/24, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddileu ei chefnogaeth ariannol o £0.4m ar gyfer y rhwydwaith cyfathrebu | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau o ran costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg ac ansicrwydd.  Yn benodol, nodwyd bod oedi wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi effeithio ar broffiliau amser gwariant.<br>• Er bod chwyddiant costau yn gyffredinol yn haws ei reoli nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nodir bod rhai meysydd o bryder yn parhau.  Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn trwyddedau sy'n gysylltiedig â meddalwedd gan gynnwys systemau sy'n bwysig i'r busnes.<br>• Rydym wedi gwybod bod cost nwy a thrydan yn achosi pwysau ers 2022/23 o ganlyniad i'r pwysau cost byd-eang. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd.  Fodd bynnag, mae anwadalrwydd yn y farchnad yn parhau a chaiff hyn ei reoli'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| | gwasanaethau brys cenedlaethol presennol (Firelink). Mae pris llawn y contract bellach yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o gyllid craidd. Oherwydd natur sefydlog y contract hwn, ni ellir osgoi'r costau hyn ac mae'r contract yn cynnwys cynnydd blynyddol yn sgil chwyddiant. Yn dilyn her gyfreithiol genedlaethol, mae costau yn ystod y flwyddyn wedi gostwng £0.5m i £0.5m er nad yw'n glir a fydd yr apêl gan y cyflenwr yn llwyddo. | |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy’n cael eu defnyddio wrth bennu’r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Ariannu Cyfalaf | • Mae'r gofynion ariannu cyfalaf ar gyfer 2025/26 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer yr isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n deillio o fenthyca. Effeithir ar y costau hyn yn sgil gwariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2025/26 ac effaith y cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ailariannu benthyciadau sy’n aeddfedu.<br>• Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn rhagdybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar adeg pennu’r gyllideb, a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn 4.5%. Mae'r Awdurdod yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol ar y mater hwn gan Arlingclose, cwmni cynghori arbenigol.<br>• Mae'r cynllun cyfalaf yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig ag achosion busnes a gyflwynir gan bob Pennaeth Adran. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â Phrosiect y Ganolfan Hyfforddi i alluogi datblygu achos busnes manwl a model ariannu. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn faes risg allweddol ac mae'n gwaethygu oherwydd bod angen ailariannu nifer o fenthyciadau yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd modelu ariannol yn cael ei wneud i asesu fforddiadwyedd yr holl gynigion yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.<br>• Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir na fydd yr achos busnes terfynol a'r opsiynau ariannu yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo tan 2027 bydd darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl yn cael ei chynnwys yn amcangyfrifon cychwynnol y gyllideb. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi'u hadolygu a'u pennu yn unol â blynyddoedd blaenorol, yn amodol ar gynnydd mewn chwyddiant. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag incwm o eiddo lle mae ein safleoedd yn cael eu meddiannu ar y cyd.<br>• Bu gostyngiad sylweddol yn incwm grant Llywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd y broses o bennu'r gyllideb yn rhagdybio y bydd gweddill y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar lefelau 2024/25. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru, na ragwelir codiadau chwyddiant ar ei gyfer. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda** 14

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Asesiad o Berfformiad Blynyddol 2023/24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2023/24 i aelodau Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân ac Achub.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol, a hynny erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol wedi'r flwyddyn ariannol dan sylw.

3 Mae darpariaeth o fewn Atodlen 1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus gyhoeddi adroddiadau blynyddol o'u cynnydd o ran cyflawni eu hamcanion llesiant.

## SYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Ar 16 Medi 2024 cyflwyniad yr Asesiad Perfformiad Blynyddol (APA) i Banel Gweithredol yr Awdurdod, lle y'l nodwyd a'i gymeradwyo i ddod i'r Awdurdod Llawn ar 16 Hydref 2023.

## ARGYMHELLIAD

5 Bod yr Aelodau'n:

i) nodi cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer cyfnod 2023/24; ac yn

ii) cymeradwyo'r Asesiad Blynyddol o Berfformiad 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân ac Achub.

## CEFNDIR

6 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn hunanasesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion gwelliant (Mesur 2009) a Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) y flwyddyn flaenorol.

7 Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub hyblygrwydd i ddewis sut y byddant yn adrodd ar eu perfformiad, ond er mwyn sicrhau cysondeb o ran adrodd ac atebolrwydd, argymhellir bod pob adroddiad yn cynnwys:

- Tystiolaeth o'r prosesau y mae'r ATA wedi'u defnyddio er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, fel sydd wedi'i nodi yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;

- Asesiad cryno o farn yr ATA ynghylch ei lwyddiant wrth fodloni ei amcanion gwella, fel sydd wedi'u nodi yng nghynllun gwella'r flwyddyn flaenorol;

- Datganiad o berfformiad ar sail yr holl Ddangosyddion Perfformiad statudol, p'un a ydynt yn ymwneud â'r amcanion gwella yn uniongyrchol neu ddim;

- Manylion eraill ynghylch gwybodaeth am berfformiad a'i defnydd, gan gynnwys canlyniadau adolygiadau gan gymheiriaid, unrhyw asesiadau a wnaed gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, a ffynonellau gwybodaeth ansoddol eraill gan gynnwys data meincnodi;

- Asesiad o berfformiad trwy gymhariaeth â pherfformiad yr ATA mewn blynyddoedd blaenorol a thrwy gymharu â chyrff cyffelyb eraill (gan gynnwys ATA eraill), i'r graddau y bo hyn yn ymarferol;

- Manylion am y ffyrdd y mae'r ATA wedi arfer ei bwerau cydweithredu yn ystod y flwyddyn adrodd, gan nodi a yw gweithgareddau cydweithredol wedi arwain at y canlyniadau a fwriadwyd; ac

- Unrhyw ddatganiadau o weithgareddau a gyhoeddwyd gan yr ATA mewn ymateb i adroddiadau a gyhoeddwyd iddynt gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dan Adran 19 y Mesur yn ystod y flwyddyn adrodd honno.

**GWYBODAETH**

8 Mae dyluniad yr Asesiad Perfformiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu fersiynau blaenorol o'r asesiad yn ystod cyfnod Cynllun Corfforaethol 21-24. Bydd dyluniad Asesiad Perfformiad Blynyddol 24-25 yn adlewyrchu dyluniad 'Ein 5 Egwyddor'.

9 Gan mai dyma'r olaf o dair blynedd y cynllun, mae trosolwg o'r cynnydd a wnaed dros oes y cynllun wedi'i gynnwys ynghyd â'r diweddariad blynyddol ar gynnydd.

10 Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys Siarter Ymateb i Danau Annedd Cymru Gyfan.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Mae cyhoeddi'r Asesiad Perfformiad Blynyddol yn un o ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. |
| Risgiau | Dim goblygiadau |



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Asesiad Perfformiad Blynyddol 2023-24

Cyhoeddwyd Hydref 2024

This publication is available in English

# Cynnwys


Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Adrodd .... 4

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru .... 4

Gogledd Cymru .... 4

Adnoddau a Gweithgaredd .... 5

Staffio .... 5

Beth a Ddisgwylir Gan yr Awdurdod Tân .... 6

Cynnydd yn Erbyn Amcanion Gwella a Llesiant .... 7

Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru .... 8

Amcan 2: Parhau i gydweithio i helpu cymunedau i wella eu gwytnwch .... 14

Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael .... 17

Amcan 4: Parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid .... 20

Amcan 5: Cynnal gweithlu cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg .... 23

Amcan 6: Datblygu ffyrdd o ddod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd .... 26

Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael .... 28

Crynodeb Gwybodaeth Perfformiad .... 31

Siarter Ymateb i Danau Mewn Cartrefi yn 2023-24 .... 33

Beth Mae Eraill yn ei Ddweud Amdanom ni .... 39

Gwybodaeth Arall .... 39

Ymgynghoriadau .... 40

Geirfa a Diffiniadau .... 41

Dweud eich dweud .... 43

## Croeso i'r trydydd asesiad perfformiad, a'r olaf, o'n cynllun Corfforaethol 2021-24.

Mae'r adroddiad asesu hwn, ar ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion gwella a llesiant, yn nodi blwyddyn olaf y cynllun corfforaethol tair blynedd, a ddechreuodd yn fuan cyn i mi gyrraedd fel Prif Swyddog Tân, a phenodiad Cadeirydd presennol yr Awdurdod Tân ac Achub.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cyflawni cymaint ac wedi addasu i heriau fel adfer ar ôl Covid-19, bygythiadau seiber cynyddol i'n seilwaith TG, a heriau ariannol sylweddol. Fodd bynnag, natur gwelliant parhaus yw ei fod yn sicrhau bod yn rhaid i wasanaethau cyhoeddus datblygu ac addasu'n gyson er mwyn rhoi'r gwerth gorau posibl am arian.

Yn fy 100 diwrnod cyntaf, sefydlais flaenoriaethau ar gyfer argaeledd y System Dyletswydd ar Alwad (RDS), Hyfforddiant, a chapasiti Corfforaethol, a fyddai'n cael eu cynnwys mewn fersiynau dilynol o'r Cynllun Corfforaethol tair blynedd. Mae'r rhain wedi'u hamlygu yn yr adolygiad o brofiad staff RDS, y gwaith parhaus o Adolygu'r Ddarpariaeth Frys, a Phrosiect y Ganolfan Hyfforddi.

Rydym wedi cynyddu'r capasiti Corfforaethol er mwyn cydymffurfio â chyfrifoldebau llywodraethu a llywodraethu corfforaethol, gan yr un pryd leihau nifer ein staff corfforaethol cyffredinol. Mae penodi Swyddog yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd, Rheolwr Diogelwch, Risg a Hawliadau, a Swyddog Caffael, yn arbennig, wedi cryfhau ein sefyllfa.

Yn weithredol, rydym wedi parhau i ddarparu ar gyfartaledd dros 17,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach bob blwyddyn i'r bobl a nodwyd fel y rhai mwyaf agored i dân yn eu cartrefi. Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad o 15.75% mewn tanau damweiniol mewn cartrefi dros y tair blynedd diwethaf, ac er nad oedd unrhyw farwolaethau oherwydd tanau ar draws Gogledd Cymru yn ystod 2022-23, yn anffodus bu chwe marwolaeth oherwydd tanau y llynedd, gan amlygu'r angen i wneud mwy o ymdrech a chael ein harwain hyd yn oed yn fwy gan wybodaeth yn ein gweithgaredd.

Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef ar draws ein cymunedau amrywiol. Er bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchiad o'n gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac oes y Cynllun Corfforaethol 2021-24, rydym bellach wedi cyhoeddi cynllun pum mlynedd newydd ar gyfer Cadw ein Cymunedau'n Ddiogel er mwyn cefnogi ein cenhadaeth, y gallwch ei ddarllen yma.

Fel bob amser, rydym yn croesawu eich adborth ar unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ein hadrodd. Mae ein manylion cyswllt ar dudalen olaf yr adroddiad hwn.

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**



**Prif Swyddog Tân**



**Cadeirydd yr Awdurdod Tân**

**Gwneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag ef**

# Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Adrodd

Mae'r Awdurdod o'r farn bod atebolrwydd i'r cyhoedd a thryloywder yn hollbwysig ym mhob agwedd ar ei berthynas â chymunedau lleol, partneriaid a sefydliadau ac mae'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad.

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn unol â'r ddeddfwriaeth sydd i'w gweld yma.

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae 28 aelod etholedig o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Gwasanaeth, dan arweiniad y Prif Swyddog Tân, yn cynnwys llawer o wahanol adrannau sydd i gyd yn cyfrannu at redeg y gwasanaeth tân. Mae mwy o wybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar gael yma.

# Gogledd Cymru

Mae adnabod Gogledd Cymru heddiw yn helpu'r Awdurdod i gynllunio i wneud newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr ardal y mae'r Gwasanaeth yn helpu i'w diogelu yma.



# Adnoddau a Gweithgaredd

Isod ceir crynodeb o adnoddau a lefelau gweithgareddau'r Awdurdod yn 2023-24.

| Gorsafoedd Tân | Injans Tân Llinell Blaen | Galwadau 999 yr Ymdriniwyd â Hwy | Staff y Gwasanaeth Tân (ar 31 Mawrth 2024) |
|---|---|---|---|
| 44 | 54 | 12,744 | 907 (nifer) |
| **Digwyddiadau Argyfwng y Rhoddwyd Sylw Iddynt** | **Tanau** | **Galwadau Diangen** | **Argyfyngau nad oeddent yn Dân** |
| 5,936 | 1,657 | 2,901 | 1,378 |

# Staffio

| Ar 31 Mawrth 2024 | Cryfder cyfwerth ag amser llawn | Cyfrif pennau staff unigol |
|---|---|---|
| Gweithredol Amser Cyflawn (System Dyletswydd Amser Cyflawn) | 269.00 | 270 |
| Gweithredol Rhan Amser (System Dyletswydd Rhan Amser/ar- alwad) | 370.75 | 466 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 137.40 | 140 |
| Ystafell Reoli | 31.00 | 31 |
| **Cyfansymiau** | **808.15** | **907** |

Nodwch fod y ffigur o 907 a ddyfynnir uchod yn cyfateb i 863 o bobl. Mae hyn oherwydd unigolion sy'n cael eu cyflogi gan y Gwasanaeth mewn mwy nag un rôl neu swydd.

Mae bron i hanner y personél a gyflogir gan yr Awdurdod yn cael eu categoreiddio fel diffoddwyr tân ar-alwad.

# Beth a Ddisgwylir Gan yr Awdurdod Tân

Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Atal Tân** | drefnu bod diogelwch tân yn cael ei hyrwyddo yn eu hardaloedd. Mae hyn yn cynnwys addysgu pobl ynghylch atal tân a'u cynghori pa ymateb sydd orau os bydd tân yn digwydd. |
| **Gorfodi Diogelwch Tân** | bod yn gyfrifol am orfodi diogelwch tân mewn adeiladau annomestig, er enghraifft, gwestai, ysgolion, siopau a swyddfeydd. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys arfer pwerau i orfodi newidiadau, gorfodi a hyd yn oed roi hysbysiadau gwahardd os ydynt yn canfod bod trefniadau diogelwch tân yn anfoddhaol mewn safleoedd. |
| **Ymateb Brys** | gwneud trefniadau ar gyfer derbyn galwadau 999 ac anfon personél hyfforddedig â'r offer priodol i ddiffodd tanau ac amddiffyn bywydau ac eiddo yn y tanau hynny. Mae'n rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau ar gyfer achub pobl mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a'u hamddiffyn rhag niwed difrifol. |
| **Cynllunio ac Ymateb i Argyfyngau Eraill** | gwneud trefniadau ar gyfer dadheintio pobl ar lefel dorfol ar ôl digwyddiadau cemegol, biolegol neu ymbelydrol, ac ar gyfer achub pobl o drenau, awyrennau ac adeiladau sydd wedi cwympo. Mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn barod i gynorthwyo gydag argyfyngau ar raddfa fawr (gan gynnwys ymosodiadau terfysgol) mewn mannau eraill yn y DU. Fel ymatebwyr 'Categori 1' o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil, mae gan awdurdodau tân ac achub ddyletswyddau hefyd yn ymwneud â dyletswyddau digwyddiadau ar raddfa fawr sy'n bygwth niwed difrifol i les pobl, bywyd gwyllt, yr amgylchedd a phrif gadwyni cyflenwi. |
| **Argyfyngau Llifogydd a Dŵr Mewndirol** | gwneud trefniadau i ymateb i achosion o lifogydd neu achub o ddŵr sy'n peri bygythiad uniongyrchol a allai achosi marwolaeth neu anaf. |
| **Cydraddoldeb** | gweithio tuag at ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol. |
| **Y Gymraeg** | trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chydymffurfio â safonau'r Gymraeg sy'n ddiffiniedig. |
| **Gwella Parhaus** | gosod amcanion yn barhaus i wella'r hyn a wnânt, a chyhoeddi gwybodaeth am eu gwelliannau a'u perfformiad. |
| **Cynllunio ar gyfer y Dyfodol** | gweithio tuag at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl yn ogystal â gweithio mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol. |

Gallwch ddarllen mwy am ein rhwymedigaethau statudol yma.

# Cynnydd yn Erbyn Amcanion Gwella a Llesiant

Mae'r adran hon yn disgrifio'r cynnydd a wnaeth yr Awdurdod tuag at gyflawni ei amcanion gwella a llesiant hirdymor yn ystod 2023-24. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi'r asesiad hwn o'i berfformiad ei hun ar gyfer 2023-24 a'r dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer yr un flwyddyn erbyn 31ain Hydref 2024.

Yn 2018-19 cynyddodd yr Awdurdod nifer yr amcanion yr oedd yn eu dilyn er mwyn cydymffurfio'n well ag adran 3(2) (a) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion "…sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant".

Gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ar wefan y Comisiynydd megis 'gwirwyr taith', datblygwyd casgliad newydd o amcanion yn unol â'r datblygiad cynaliadwyedd a fu o gymorth i nodi cyfleoedd o ran sut y gallai'r Awdurdod wella ei gyfraniad at amcanion llesiant Cymru.




Yn ystod 2023-24 gwnaed gwaith i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn cael eu hymgorffori ym mhob cynllun adrannol lle bo hynny'n berthnasol. Tanategir y gwaith hwn ymhellach gan ddatblygu set o 'Flociau Adeiladu' sy'n set o fesurau i gefnogi'r amcanion llesiant a'r amcanion adrannol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023-24 yn aros am gymeradwyaeth gan yr Awdurdod ar hyn o bryd ac mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu yn ogystal â chadarnhau cynllun gwaith ar gyfer 2024-25.

Ar ôl ei gymeradwyo a'i gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn y blaengynllun gwaith yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth.

# Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Gall amrywiaeth o ffactorau gynyddu'r risg i bobl ddioddef tanau damweiniol yn y cartref, er enghraifft eu hoedran (plant ifanc ac oedolion hŷn), bod ag anabledd neu gyflwr meddygol cyfyngol, bod ar eu pennau eu hunain adeg y tân, a chael eu heffeithio gan alcohol a/neu gyffuriau.

Mae unigolion a chymunedau sy'n gwybod sut i atal tanau ac aros yn ddiogel pan fyddant yn digwydd nid yn unig yn fwy diogel ac yn iachach, ond hefyd yn fwy gwydn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae effeithiau llygredd o danau yn cyfrannu at amgylchedd llai iach, sydd yn ei dro yn atal pobl rhag gwneud

gweithgareddau awyr agored a all effeithio'n negyddol ar les corfforol a meddyliol. Trwy gydol 2023-24, parhaodd yr Awdurdod i ganolbwyntio ei ymdrechion ar helpu pobl i gadw'n ddiogel, boed gartref, yn y gwaith, ar y ffyrdd, neu allan yn y gymuned.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 1

Yn ystod blwyddyn gyntaf ein Cynllun Corfforaethol, roedd pawb yn dal i gadw at reolau cyfnod clo llym Covid-19 Llywodraeth Cymru, ac eto roedd yn rhaid i'r Gwasanaeth barhau i weithredu wrth gadw ein holl staff yn ddiogel. Roedd yn rhaid archwilio ffyrdd newydd o weithio, ynghyd â dod o hyd i ffyrdd o barhau i gyflawni gweithgareddau atal a diogelwch, gan gynnwys cwblhau Archwiliadau Diogel ac Iach dros y ffôn yn hytrach nag yn bersonol.

Cynhelir Archwiliad Diogel ac Iach gan bersonél y Gwasanaeth a gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig o asiantaethau partner eraill. Yn ystod yr archwiliad, bydd personél yn nodi peryglon diogelwch yn y cartref, yn trafod atal tanau, ac yn cynorthwyo'r deiliad i greu cynllun dianc i'w ddefnyddio yn ystod tân.

Mae ein targed ar gyfer nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd wedi'i leihau o 20,000 (2021-22) i 17,500, ond mae hwn yn benderfyniad ymwybodol er mwyn cyfeirio ein hadnoddau'n well at yr unigolion hynny y nodwyd mai nhw sydd fwyaf mewn perygl o gael tân yn y cartref.

| Yn ystod oes tair blynedd y cynllun hwn rydym wedi: | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| • Cwblhau 51,991 o Archwiliadau Diogel ac Iach | **14,080** | **18,052** | **19,859** |
| • Cwblhau 15,466 o Archwiliadau Diogel ac Iach a ddeilliodd o asiantaethau eraill | **4,895** | **5,733** | **4,838** |
| • Mynychu 1,081 o danau mewn anheddau; mae nifer y presenoldebau wedi gostwng ychydig bob blwyddyn | **400** | **344** | **337** |
| • Cwblhau 1,331 o Archwiliadau Diogelwch Tân | **334** | **575** | **422** |

Fel yr Awdurdod sy'n gyfrifol am orfodi Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yng Ngogledd Cymru, mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan mewn strategaeth archwilio sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Mae ein Datganiad Polisi Gorfodi yn nodi'r polisi cyffredinol, a'r egwyddorion y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn disgwyl eu dilyn.

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Cyflawni 17,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach gydag o leiaf 25% o'r rheini'n cael eu cyflawni ar aelwydydd a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth gan asiantaeth arall.

- Cwblhawyd cyfanswm o 19,859 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y flwyddyn, ar roedd 24.4% ohonynt wedi'u cyfeirio gan asiantaeth bartner.
- Dosbarthwyd cyfanswm o 6,032 o Archwiliadau Diogel ac Iach fel blaenoriaeth uchel ac o'r rhain cafodd 54.5% eu cyfeirio gan asiantaeth bartner.
- Cwblhawyd 12,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach gan griwiau gweithredol.
- Mewn cydweithrediad â'r GIG, mae dadansoddwyr perfformiad wedi gwneud gwaith i nodi'r unigolion hynny yn y gymuned a allai fod mewn mwy o berygl o gael anaf pe bai tân yn digwydd.
- Mae criwiau gweithredol bellach yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau dull mwy penodol wrth gwblhau Archwiliadau Diogel ac Iach yn eu hardal leol.
- Parhaodd Rheolwyr Partneriaeth i feithrin perthnasoedd ag asiantaethau allanol i annog atgyfeiriadau o ansawdd uchel.

### Cam gweithredu 2: Bodloni'r galw cynyddol am ddarpariaeth a chymorth cyfathrebu digidol, gan gynnwys Safonau ac Achrediad Seiberddiogelwch.

- Llwyddodd y Gwasanaeth i ennill ardystiad 'Cyber Essentials'.
- Cyflawnodd yr holl staff TGCh a enwebwyd hyfforddiant seiber a llwyddo yn yr arholiad.
- Recriwtiodd y Gwasanaeth beiriannydd technegol ag arbenigedd mewn seiberddiogelwch.

### Cam gweithredu 3: Datblygu ein cynlluniau ar gyfer canolfan hyfforddi a datblygu ymdrochol newydd i gynnig ystod ehangach o senarios hyfforddi, a chyflwyno gwelliannau mewn hyfforddiant.

- Ymwelodd y 'gweithgor', sy'n cynnwys aelodau'r Awdurdod Tân ac aelodau allweddol o staff, â'r ganolfan hyfforddi diffoddwyr tân yn Nolgellau i adolygu'r cyfleusterau hyfforddi presennol.
- Cynhaliwyd ymweliadau casglu ffeithiau yng nghanolfannau hyfforddi Tân ac Achub Swydd Gaer a Manceinion Fwyaf i weld y cyfleoedd y gall cyfleusterau hyfforddi modern eu cynnig.

- Mae'r canlynol bellach wedi'u cwblhau:
  - Arolygon topograffig
  - Gwaith archwilio'r safle
  - Arolwg ecolegol
  - Arolwg Coedyddiaeth
  - Asesiad canlyniadau llifogydd
  - Diweddariad a datblygiad cynllun gan y tîm dylunio
  - Diweddariad cynllunio
  - Gwerthusiad o'r opsiynau
  - Cytundeb cyfyngedig
- Mae angen gwaith lliniaru newydd ar y safle, a dim ond yn ystod un cyfnod o'r flwyddyn y gellir ei wneud. Felly, bydd angen cynnal y gwaith hwn o fis Rhagfyr 2023 hyd at fis Hydref 2024 i sicrhau bod y safle'n barod ar gyfer unrhyw ddatblygiad posibl yn y dyfodol o fis Rhagfyr 2024.
- Cynhelir ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cynnig dylunio ar gyfer y Ganolfan Hyfforddiant a Datblygu newydd, gan arwain at gyflwyno cynllun terfynol i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo.

## Cam gweithredu 4: Parhau i gynnal archwiliadau diogelwch tân yn seiliedig ar y rhaglen arolygu ar sail risg.

- Bu'r Gwasanaeth yn hyrwyddo 'Wythnos Diogelwch Busnesau' yn ystod mis Medi gan gynnig amrywiaeth o gyngor diogelwch tân i fusnesau bach a chanolig.
- Tynnodd staff Diogelwch Tân Busnesau sylw at ddeddfwriaeth newydd a ddaeth i rym ar 1 Hydref, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob busnes gofnodi asesiad risg tân a threfniadau diogelwch tân yn llawn, waeth nifer y bobl a gyflogir a maint neu fath y busnes.
- Mynychodd staff diogelwch tân busnesau gyfarfod i drafod yr heriau diogelwch tân sy'n wynebu darparwyr tai. Trafodwyd cyngor diogelwch ac arferion gorau, gan gynnwys rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â sgwteri sy'n cael eu pweru gan fatrïau ïon lithiwm ac e-feiciau yn cael eu storio mewn blociau o fflatiau.
- Yn ddiweddar, mae'r Adran Diogelwch Tân wedi gwella ei gwaith o fonitro tanau sy'n ymwneud â 'nwyddau gwynion'.

## Cam gweithredu 5: Parhau i greu gweithle cynhwysol sy'n galluogi'r holl staff i berfformio hyd eithaf eu gallu, a diwallu anghenion amrywiol ein cymunedau.

- Mae gan y Gwasanaeth swyddog 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' penodedig.

- Trwy'r Rhwydwaith Staff Niwroamrywiaeth, mae staff wedi cael cymorth i fynychu cyfleoedd datblygu allanol, gan gynnwys:
    - Penwythnos Datblygu Menywod yn y Gwasanaeth Tân
    - Uwchgynhadledd Gwrth-hiliaeth
- Mynychodd staff y Gynhadledd Cymdeithas Gwasanaeth Tân Asiaidd yn Leeds a oedd â'r thema 'Ysgogi Symud a Deall Eich Dylanwad'. Dywedodd y rhai a oedd yn bresennol fod hyn yn rhywbeth i'n hatgoffa mai cyfrifoldeb pawb yw cefnogi newid yn y gwasanaeth tân yn gadarnhaol.
- Hyrwyddodd y Gwasanaeth ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan gynnwys:
    - Wythnos Ymwybyddiaeth o Fyddardod
    - Mis Pride
    - Mis Hanes Sipsiwn, Roma, a Theithwy
- Cyhoeddwyd adroddiad 'Bwlch Cyflog Rhywedd' (GPG) 2022, sy'n rhoi cipolwg ar ddata cyflog y Gwasanaeth ar gyfer 31 Mawrth bob blwyddyn. Y data GPG diweddaraf yw 8.29%, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 8.30% ar gyfer 2022.
- Rhoddodd yr adran Hyfforddiant a Datblygu wasanaeth adrodd ar waith i adolygu asesiadau dysgu ymgeiswyr, sy'n helpu i ddatblygu sgiliau a nodi rhwystrau a rhagfarnau systemig i'w galluogi i gynllunio polisïau, arferion a gwasanaethau sy'n deg ac yn gynhwysol i bawb yn effeithiol.
- Mae'r Gwasanaeth yn cyfrannu at Grŵp Datblygu Sefydliadol a Phobl Cymru Gyfan (PODG) i nodi cyfleoedd a chynnal trosolwg rhagweithiol o'r holl weithgareddau AD, Dysgu a Datblygu, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a'r Iaith Gymraeg.
- Roedd Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cymru Gyfan wedi'i ailsefydlu gyda'r bwriad o sefydlu llinellau sylfaen yn erbyn Adroddiad Sbotolau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Thân Ei Fawrhydi (HMIFRS) ac unrhyw gynlluniau diwylliant a chynhwysiant eraill.
- Mae canllawiau cymorth i ofalwyr ar gael i bob aelod o staff. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod gan rai pobl eisoes gyfrifoldebau gofalu neu eu bod yn debygol o ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu, ac y bydd gofalwyr yn anochel yn rhan o'r gweithlu. Mae hefyd yn gwerthfawrogi y gall rhai gweithwyr gael anhawster i gydbwyso eu hymrwymiadau gwaith a gofalu.

## Cam gweithredu 6: Gwella iechyd, ffitrwydd a lles staff trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth, monitro gweithredol ac addysg.

- Mae gan y Gwasanaeth dîm 'Iechyd, Ffitrwydd a Lles' penodedig sy'n rhoi cyngor ar ffordd o fyw. Gallant gefnogi staff gyda rhaglenni ymarfer corff a chymorth maeth. Mae'r tîm hefyd yn Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ac yn gallu cynorthwyo mewn argyfwng.

- Gall pob aelod o'r staff gynnal adolygiad ffordd o fyw gyda'r tîm Ffitrwydd Corfforol, sy'n cynnwys asesiad ffitrwydd.
- Gan weithio'n agos gyda'r darparwr iechyd galwedigaethol penodedig, datblygodd y Gwasanaeth ffyrdd newydd o weithio i wella a blaenoriaethu iechyd gweithwyr yn y gweithle.
- Mynychodd staff y gwasanaeth gynadleddau Ffitrwydd Tân i gael y wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau, gweithgareddau ac arloesiadau.
- Roedd y tîm 'Iechyd, Ffitrwydd a Lles' hefyd yn rhoi cymorth i ddarpar ymgeiswyr i fod yn ddiffoddwyr tân newydd ar ddiwrnodau dethol diffoddwyr tân.
- Hyrwyddo ffitrwydd:
    - Mae 'Traed ar Dân' wedi'i gynllunio fel her grŵp i annog staff o unrhyw allu ffitrwydd i fynd allan i gerdded ac olrhain eu symudiadau dyddiol.
    - Digwyddiadau Park Run ar draws ardal Gogledd Cymru.
- Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i Siarter Teithio Llesol Cymru.
- Cafwyd effaith gadarnhaol, gyda nifer y dyddiau o absenoldeb gan staff yn lleihau 7.5% (343 diwrnod neu shifftiau) rhwng 2021-22 a 2023-24.
- Mae'r Arbenigwyr AD yn ymweld â gorsafoedd ac adrannau (yn ystod y dydd a gyda'r nos) ac yn darparu sesiynau Trosolwg AD, gan gynnwys diweddariadau pwysig diweeddar, i ymgyfarwyddo gweithwyr â'r gwasanaethau y mae AD yn eu darparu a'r buddion sydd ar gael iddynt.
- Parhad o'r sesiynau Siop Siarad, a ysgogwyd gan yr Arolwg Staff Teulu Tân. Mae'r sesiynau hyn wedi'u hanelu at hyrwyddo sgyrsiau dwyffordd, gan roi'r cyfle i siarad yn rhydd am faterion ehangach, yn ogystal â thynnu sylw at safbwyntiau a syniadau newydd gan staff mewn gorsafoedd a lleoliadau ar draws y rhanbarth. Mae'n gyfle i rwydweithio ac i rannu syniadau newydd, i fod yn agored i ffyrdd newydd o feddwl, ac i helpu staff i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu herio prosesau mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol i'r ddwy ochr.
- Cyflwyno llinell gymorth hunanladdiad. Mynychodd staff Adnoddau Dynol hefyd ddigwyddiad atal hunanladdiad a hunan-niweidio, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygiadau cenedlaethol a chynnig drafft ar gyfer gwasanaeth yng Ngogledd Cymru.
- Cymerodd staff AD ran mewn Archwiliad Rheoli Presenoldeb lle gwerthuswyd cadernid ac effeithiolrwydd y rheolaethau sy'n cefnogi'r system(au) AD/cyflogres ac absenoldeb oherwydd salwch i sicrhau dilysrwydd, cywirdeb ac amseroldeb taliadau i weithwyr.
- Cyflwynodd y Gwasanaeth gyfweliadau ymadael ar-lein i fonitro a deall yn well pam mae gweithwyr yn gadael y Gwasanaeth Tân, ac i nodi meysydd i'w gwella o ran cadw ac ymgysylltu â gweithwyr.
- Cyflwyno Arolwg Adborth Gwasanaeth 12 mis i ganfod a yw gweithwyr newydd yn cael digon o gefnogaeth yn ystod camau cychwynnol eu gyrfa yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu iechyd a diogelwch yn y gweithle ym Mhrydain Fawr. Mae digwyddiadau sy'n ymwneud â gwaith a damweiniau a fu bron â digwydd yn cael eu monitro drwy'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles. Er nad yw'n orfodol ar hyn o bryd, anogir cyrff cyhoeddus i gynnwys crynodeb o'u perfformiad iechyd a diogelwch yn eu hadroddiadau blynyddol.

# Iechyd a Diogelwch

## Ystadegau digwyddiadau diogelwch dros y flwyddyn ariannol 2023/24

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**Gostyngiad o 10% o ddamweiniau**

Cafodd **307** o ddigwyddiadau diogelwch ei gofnodi rhwng Ebrill 1af a Mawrth 31ain, i gymharu â chyfanswm o **412** dros y cyfnod 2022/23. Mae hyn yn ostyngiad o **34%**.

**149**

**Achosion Agos**

**51**

**o anafiadau**

**24%**

**o anafiadau yn arwain at amser i ffwrdd o'r gweithle**

**32**

**adroddiadau o ddifrod i Fflyd Wen**

**45**

**adroddiadau o ddifrod i Fflyd Goch**

### Fath o Ddifrod Cerbyd



Ymlaen: **58%**
Nôl: **25%**
Sefydlog: **17%**

# Amcan 2: Parhau i gydweithio i helpu cymunedau i wella eu gwytnwch

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Mae gweithio gyda chymunedau lleol yn hynod bwysig i wella diogelwch ac i helpu cymunedau i ddod yn fwy gwydn. Bu'r Awdurdod yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner drwy gydol 2023-24 o amgylch ardaloedd wedi'u targedu er mwyn cynorthwyo cymunedau a busnesau lleol i rag-gynllunio ac addysg, gan eu galluogi i ddod yn fwy gwydn mewn argyfyngau.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 2 Cynllun Corfforaethol 2021-24.

Rhoddodd y Gwasanaeth gynlluniau Parhad Busnes a oedd wedi'u hymarfer yn dda ar waith yn ystod pandemig Covid-19, ac addasodd staff yn gyflym i weithio gartref neu o eiddo arall a ystyriwyd yn ddiogel. O ganlyniad, ni fu unrhyw darfu ar ein hymateb i argyfwng.

Parhaodd technoleg i ddatblygu'n gyflym, gyda staff yn trosglwyddo o ddefnyddio Skype i Microsoft Teams. Mae'r Gwasanaeth bellach hefyd yn defnyddio dilysu aml-ffactor i gynyddu diogelwch rhag ymosodiadau seiberddiogelwch.

Prynwyd asedau gweithredol newydd, megis camerâu tanddwr, Polion Achub, ac ysbienddrychau, i gynorthwyo criwiau gweithredol mewn digwyddiadau llifogydd a digwyddiadau argyfwng eraill.

Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gael eu defnyddio'n rheolaidd i hyrwyddo diogelwch rhag tân, ac i ddarparu gwybodaeth i ardaloedd lleol a allai gael eu heffeithio gan ddigwyddiadau brys parhaus neu fawr.

Yn ystod oes tair blynedd y cynllun hwn, rydym wedi:

- Cwblhau prosiect arfaethedig i ddisodli'r holl Derfynellau Data Symudol (MDTs), gan fod y dechnoleg bresennol yn agosáu at 'ddiwedd oes'.
- Daeth y feddalwedd a gymerodd le'r Terfynellau Data Symudol â gwelliannau i berfformiad ac argaeledd gwybodaeth, ynghyd â gwelliant ychwanegol i'r caledwedd, sydd bellach yn ddyfais y gellir ei thynnu o'r injan dân.
- Cyflwyno rheolaethau diogelwch seilwaith rhwydwaith ychwanegol i wella diogelwch y system TG.

# Cyflawniadau yn 2023-24

## Cam gweithredu 1: Cyflwyno Microsoft 365 fel ffordd o wella cyfathrebu ac integreiddio gyda phartneriaid.

- Yn ystod mis Awst, lansiodd y Gwasanaeth ei fewnrwyd newydd sbon, 'Hwb Tân'. Mae gan bob adran, ardal neu orsaf ei 'hwb' (ardal electronig) ei hun, gyda'r gallu i uwchlwytho eu gwybodaeth a'u digwyddiadau eu hunain i'w rhannu â chydweithwyr. Trwy M365, mae'r ffeiliau a'r ffolderi hyn hefyd yn hygyrch o ddyfeisiau personol.
- Parhaodd hyfforddiant M365 i gael ei raeadru trwy gydol y Gwasanaeth.
- Cafodd aelod o staff ei recriwtio i gynllunio a rheoli hyfforddiant M365 ac ymateb i ymholiadau M365 yn ôl yr angen.

## Cam gweithredu 2: Parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys hyrwyddo gweithgareddau a dysgu.

- Ym mis Mai, cymerodd staff ran yn ffilmio'r gyfres ddrama sebon Gymraeg 'Rownd a Rownd', gyda'r golygfeydd yn cael eu darlledu yn ystod yr hydref. Roedd un o'r prif gymeriadau yn rhan o dân yn y stori, a diolch i'n cyfranogiad ni fe gafodd pwyslais cryf ei roi ar gyfleu negeseuon diogelwch tân.
- Roedd Gwylfa Las, Caernarfon hefyd ar gamera ym mis Mai, yn cael ei ffilmio fel rhan o raglen 'Rygbi am byth' S4C. Roedd y Rheolwr Criw sy'n rhan o dîm rygbi Merched Caernarfon, yn cael ei ffilmio fel rhan o gyfres ddogfen yn dilyn y tîm drwy'r tymor rygbi. Roedd cynhyrchwyr y gyfres yn awyddus i ddarganfod mwy am y gwaith mewn gorsaf dân, a oedd yn gyfle i hyrwyddo llwybrau gyrfa o fewn y gwasanaeth.
- Cefnogodd y Gwasanaeth yr ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg', a lansiwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i annog pawb i ddefnyddio'u Cymraeg bob dydd. Darparwyd byrddau 'weip-sych' newydd i'w defnyddio mewn gweithleoedd a gorsafoedd i helpu i gefnogi dysgwyr Cymraeg a Phencampwyr y Gymraeg.

## Cam gweithredu 3: Gweithio ar y cyd â'n partneriaid a'n cymunedau i ddatblygu cynlluniau i leihau ac ymateb i danau gwyllt ac argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

- Mynychodd staff Gynhadledd Tanau Gwyllt Cymru Gyfan ddeuddydd ym Merthyr Tudful ym mis Mehefin. Cafodd y digwyddiad ei gynnal gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a roddodd gyfle i gydweithwyr ledled Cymru gysylltu â'i gilydd a datblygu strategaethau ar gyfer y dyfodol wrth ymateb i danau gwyllt.
- Mynychodd staff Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf i dynnu sylw at negeseuon diogelwch a thynnu sylw at beryglon tanau gwyllt.
- Mae menter Dawns Glaw Cymru gyfan, sef tasglu aml-asiantaeth sy'n ceisio mynd i'r afael ag effaith tanau glaswellt, yn y broses o drawsnewid yn Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru. Cyfarfu ar faes y Sioe Frenhinol i lansio'r Siarter Tanau Gwyllt newydd.
- Yn ystod mis Medi, derbyniodd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) hyfforddiant gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub ar alluoedd ein Huned Amddiffyn yr Amgylchedd ac offer diogelu rhag llygredd. Cafodd swyddogion CNC gipolwg ar

gynnwys y pecyn amgylchedd ynghyd â chyfle i ddefnyddio rhywfaint o bast 'dammit' i atal gollyngiad. Cawsant gyfle hefyd i weld arddangosiad ar sut i ddefnyddio mat 'dammit', cyn gweld yr offer sy'n cael ei gludo gan Uned amddiffyn yr amgylchedd a chael esboniad ar sut mae'r offer yn cael ei ddefnyddio.

- Mae'r 'Grŵp Llywio Ymgyrchoedd' wedi parhau i weithio gyda'r adran Cyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo diogelwch a negeseuon ynghylch Tanau gwyllt yn rhagweithiol ar draws holl lwyfannau'r cyfryngau.

## Cam gweithredu 4: Gweithredu argymhellion yr adolygiad tanau gwyllt.

- Fel rhan o waith parhaus Tanau Gwyllt Cymru Gyfan, cafodd y Siarter Tanau Gwyllt ei drafftio, ei hadolygu a'i chwblhau gan bob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i baratoi ar gyfer ei lansio a'i chyhoeddi yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt, yn ystod mis Gorffennaf. Gellir gweld y Siarter Tanau Gwyllt yma.
- Mae'r Siarter Tanau Gwyllt yn canolbwyntio ar dri ymrwymiad allweddol:
    - Gweithio mewn partneriaeth
    - Cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol
    - Atal a Diogelu
- Rhoddwyd gwybodaeth i uwch reolwyr am symud a defnyddio asedau a gludir yn yr awyr, er enghraifft, dronau a hofrenyddion.
- Yn ystod mis Mawrth, roedd staff gweithredol ar draws ardal y Gwasanaeth yn cael eu mesur ar gyfer Offer Gwarchod Personol FlamePro ar gyfer Tanau Gwyllt a fydd yn cael eu dosbarthu yn ddiweddarach eleni. Dyma becyn ysgafn a fydd o fudd mawr yn ystod amodau tanau gwyllt heriol.
- Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ynghylch gweithgareddau tanau gwyllt, a mynychu a chymryd rhan mewn adolygiadau ôl-drafodaeth rhithwir a diweddariadau hyfforddiant.
- Mynychodd swyddogion tanau gwyllt tactegol ddigwyddiadau hyfforddi ar-lein y Swyddfa Dywydd, a oedd yn cynnwys:
    - Tueddiadau tywydd byd-eang a'r DU
    - Gwyddor Tân: Ymddygiad Tanau Gwyllt
    - Ffactorau meteorolegol tanau gwyllt a phlu mwg
    - Newid yn yr hinsawdd ac effeithiau tanau gwyllt

# Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

O ystyried y cefndir o ansicrwydd ariannol, yr argyfwng costau byw, chwyddiant cynyddol a'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ar draws y sector cyhoeddus, mae'n anochel y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran gallu cynnal ei wasanaethau dros y degawdau nesaf. Mae'r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys y gallu i recriwtio a chadw digon o ddiffoddwyr tân ar-alwad.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 3 Cynllun Corfforaethol 2021-24.

Cynyddodd cyllideb y Gwasanaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn (£37.07m - £39.41m - £44.39m); fodd bynnag, parhaodd y Gwasanaeth i chwilio am fesurau arbed costau i sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaethau gwerth am arian.

Er mwyn cynnal cyflwyno'r gwasanaethau, cynhaliwyd nifer o adolygiadau mewnol, gan gynnwys:

- Adolygiad o Danau Gwyllt (2022-23)
- Adolygiad o'r System Dyletswydd ar Alwad (2022-23)
- Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (2022-parhaus)
- Adolygiad Arlwyo i ystyried rôl cogyddion mewn Gorsafoedd (2021-22)
- Adolygiad Gweinyddol (2021-22)

Ar 16 Ionawr 2023, cymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel rhan o Strategaeth Ariannol 2023-26, i dreialu uchafswm amser ymateb o 35 munud. Mae'r penderfyniad hwn yn lleihau nifer y peiriannau sydd ar gael ledled Gogledd Cymru o 20 i 18 o beiriannau tân yn ystod y dydd, ac i 28 yn ystod y nos. Daeth hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Cwblhau'r adolygiad ymateb brys ac ymgynghori ar y canlyniadau gyda rhanddeiliaid perthnasol cyn gweithredu argymhellion.

- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yr Ymateb i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) rhwng 21 Gorffennaf a 22 Medi, a oedd yn cynnwys estyniad oherwydd y lefel uchel o ddiddordeb ynddo.

- Derbyniwyd dros 1,700 o ymatebion, gan ddangos pa mor bwysig oedd yr ymgynghoriad hwn i bobl Gogledd Cymru.

- Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18 Rhagfyr 2023, wrth ystyried pa opsiwn i'w weithredu gan yr ECR, gofynnodd Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub (FRA) i "Swyddogion barhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid i ddatblygu opsiwn parhaol newydd, gan ystyried penderfyniad heddiw a chyfyngiadau'r gyllideb arfaethedig."

- Lansiwyd apêl fewnol yn gofyn i aelodau o staff gymryd rhan a bod yn rhan o 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys' newydd i edrych ar opsiynau amgen ar gyfer darpariaeth frys. Mae'r grŵp hwn wedi dechrau edrych o'r newydd ar yr heriau sy'n ymwneud â'r rhag-gynllunio cyfredol, a'r ymyrraethau dyddiol sydd eu hangen i gefnogi'r ddarpariaeth o ddarpariaeth frys decach. Mae hyn wedyn yn caniatáu i'r grŵp archwilio sut y gellir cyflawni gwelliannau mewn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o fewn y gyllideb.

- Ym mis Chwefror cafwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, lle cafwyd cyflwyniadau gan Dîm Trawsnewid y Gwasanaeth, Cyllid a'r Rheolwr Argaeledd i atgoffa pawb am y sefyllfa bresennol a'r heriau i gynhyrchu syniadau a thrafodaeth. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn parhau i gyfarfod bob pythefnos i dair wythnos i ddatblygu'r darn hwn o waith.

## Cam gweithredu 2: Mabwysiadu Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ar gyfer ystafelloedd Rheoli fel rhan o adolygiad o'n trefniadau staffio Ystafelloedd Rheoli a sgiliau'r gweithlu gyda'r nod o wella ein gwydnwch.

- Cynhaliwyd a chwblhawyd dadansoddiad bwlch strategol.

- Nododd y dadansoddiad hwn y gwaith sydd ei angen i weithredu'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol.

- Mae'r gwaith yn mynd rhagddo a dylid ei gwblhau erbyn diwedd 2024.

## Cam gweithredu 3: Cefnogi'r gwaith o gyflawni deilliannau o adolygiad profiad staff y system ddyletswydd ar alwad.

- Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r System Dyletswydd ar Alwad (RDS), gan ganolbwyntio ar brofiadau staff sy'n gweithio o fewn y system ddyletswydd hon. Ymchwiliodd yr adolygiad faterion a godwyd gan staff RDS; nododd yr adborth a gasglwyd ac adroddiadau am y system ddyletswydd ar alwad ffynonellau'r materion a nodwyd, a datblygu opsiynau ar gyfer gwelliannau posibl.

- At ei gilydd, sefydlwyd 10 prif ymholiad:
  - Talu a gwobrwyo staff RDS
  - Denu, dethol, recriwtio a chynefino staff RDS
  - Proses dyrchafu staff RDS
  - Cadw staff a rheolwyr llinell leol
  - Neilltuo amser ar gyfer hyfforddi
  - Neilltuo amser ar gyfer gweinyddu
  - Defnydd o sgiliau

- Ymgysylltu â'u prif gyflogwyr
- Cydnabod cyfraniadau a dathlu llwyddiannau
- Gofynion adnoddau

- Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn erbyn llawer o'r argymhellion. Gwyliodd rheolwyr goruchwylio a chanol gyflwyniad ar y gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn, a'r gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo i fynd i'r afael â'r argymhellion.

**Cam gweithredu 4: Mireinio prosesau pensiynau a chyflogres a gweithredu modiwlau cyllideb.**

- Roedd cynnydd ar gyfer y cam hwn yn arafach na'r disgwyl oherwydd adolygiad Cyllid a Thollau EF, archwiliad allanol, a gweithredu gofynion cyfreithiol ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân.
- Nodwyd gwaith gan yr ymgynghorwyr meddalwedd ond nid yw wedi'i gytuno eto.
- Mae taflen ffeithiau diffoddwyr tân sy'n gadael wedi cael ei hadolygu a'i dychwelyd i'w datblygu ymhellach.
- Bydd y gwaith yn parhau i gwblhau'r cam hwn.



# Amcan 4: Parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Yn ystod 2023-24, parhaodd yr Awdurdod i wella'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chymunedau ynghylch y gwasanaethau y mae'n eu cyflawni.

Mae dull cydweithredol o weithio ar draws ein swyddogaethau ein hunain ac ar y cyd â'n partneriaid gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu hyrwyddo'n gyson ac yn eang yn ogystal â datblygu technegau arloesol a rhannu arferion gorau.

Ffocws arbennig eleni oedd gwella cyfathrebu â'n staff, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai a gyflogir o dan y system dyletswydd rhan amser (ar-alwad) a gweithredu'r canfyddiadau allweddol o'n harolwg staff Teulu Tân cyntaf un.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 4 Cynllun Corfforaethol 2021-24.

Roedd yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023. Buom yn gweithio gyda staff, cyrff cynrychioliadol, aelodau'r cyhoedd, cynrychiolwyr y cyngor, a grwpiau agored i niwed lleol i ddeall yr hyn sy'n wirioneddol bwysig petaech chi, neu rywun rydych yn gofalu amdano neu'n ei gynrychioli, angen ein gwasanaethau mewn argyfwng.

Derbyniodd yr ymgynghoriad dros 1,700 o ymatebion. Mae gweithgor Gwasanaeth newydd wedi'i ffurfio i ddatblygu opsiwn parhaol newydd, gan ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad a therfynau'r gyllideb arfaethedig.

| Yn ystod oes tair blynedd y cynllun hwn, rydym wedi: | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| • Mynychu 1,457 o danau bwriadol, yn 2023-24 cofnodwyd y nifer isaf a fynychwyd (466 o ddigwyddiadau). | **472** | **519** | **466** |
| • Cynnal sgyrsiau addysgol diogelwch tân i 40,899 o blant a phobl ifanc. | **2,061** | **18,001** | **20,837** |
| • Cwblhau a dadansoddi dau Arolwg Teulu Tân mewnol yn llwyddiannus yn ystod 2021-22 a 2023-24. | | | |

# Cyflawniadau yn 2023-24

## Cam gweithredu 1: I gaffael a gosod offer stowio i leihau lledaeniad halogyddion tân.

- Yn ystod mis Mai derbyniodd y Gwasanaeth bum peiriant newydd sy'n cynnwys addasiadau halogyddion.
- Roedd yr addasiadau o ganlyniad i waith cydweithredol y 'Grŵp Halogyddion', a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r adran Fflyd, yr adran Gweithrediadau Technegol, ac Undeb y Brigadau Tân.
- Bydd y dull stowio offer diwygiedig ar beiriannau tân, ynghyd â chyflwyno gweithdrefn weithredu gadarn yn sicrhau bod amlygiad diffoddwyr tân i halogyddion yn cael ei leihau'n sylweddol.
- Bydd peiriannau eraill yn y Gwasanaeth yn cael eu haddasu yn y dyfodol er mwyn creu mwy o le i storio bagiau cit.
- Rhoddwyd cyflau gwarchod rhag tân a gronynnau i bob diffoddwr tân i helpu i leihau eu hamlygiad i halogyddion tân.
- Cafodd pob diffoddwr tân fag cit ar gyfer Offer Gwarchod Personol (PPE) i sicrhau bod eu PPE yn cael ei gadw'n lân ac yn rhydd rhag halogyddion tân.
- Comisiynwyd dau beiriant golchi diwydiannol newydd i roi glanheuad dwfn i setiau Offer Anadlu (BA) ac offer cysylltiedig i gael gwared ar halogyddion tân.

## Cam gweithredu 2: Gweithredu Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol Cymru Gyfan.

- Yn ystod y flwyddyn, ehangodd y gwaith drwy weithgor Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl Cymru Gyfan, a chytunwyd ar bedair thema newydd i'w datblygu ar gyfer Strategaeth 2024–27:
  - Adnoddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub
  - Iechyd a Llesiant
  - Diwylliant a Chynhwysiant
  - Arloesedd a Thechnoleg
- Fodd bynnag, ym mis Ionawr, gwnaed penderfyniad i ohirio drafftio'r Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl ar gyfer 2024-27 oherwydd cyhoeddiad adroddiad ar ddiwylliant a gwerthoedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

## Cam gweithredu 3: Parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ac adolygu'r arolwg staff teulu tân.

- Roedd ail arolwg staff 'Teulu Tân' ar agor rhwng 18 Medi ac 16 Hydref, ac fe'i rheolwyd gan gwmni annibynnol o'r enw 'People Insight' i sicrhau tryloywder.

- Roedd yr arolwg yn agored i bawb o fewn y Gwasanaeth a'i nod oedd ceisio barn ar ystod o bynciau.
- Cofnodwyd cyfradd ymateb o 43%, sy'n is na'r arolwg Teulu Tân cyntaf, a oedd â chyfradd ymateb o 50%.
- Mae Grŵp Prosiect wedi'i greu i arwain y gwaith wrth nodi a chyflwyno cynllun gweithredu.
- Mae diweddariadau rheolaidd yn parhau i gael eu cyfleu i holl staff y Gwasanaeth yn fewnol.

**Cam gweithredu 4: Parhau i ddarparu rhaglenni/gweithgareddau ac ymyriadau Plant a Phobl Ifanc, cyflwyno'r Ddyletswydd Trais Difrifol a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2023 gan yr holl bartneriaid strategol ar Fwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel.**

- Lansiwyd platfform dysgu newydd am ddim, sef 'StayWiseCymru', gydag adnoddau wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc ar stondin y Gwasanaethau Tân ac Achub yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
- Mae StayWise Cymru yn darparu adnoddau y gellir eu lawrlwytho am ddim ar ystod o themâu diogelwch, gyda gwersi sy'n canolbwyntio ar y Gwasanaethau Brys ac Elusennau Diogelwch ar gael. Mae adnoddau ar gael i addysgwyr, defnyddwyr golau glas a'r cyhoedd.
- Ym mis Mehefin, ymwelodd staff ag ysbytai ar draws y rhanbarth fel rhan o 'Wythnos Diogelwch Plant', gan gysylltu â chleifion a'u teuluoedd trwy ein masgot diogelwch tân poblogaidd, Sbarc.
- Parhaodd y Gwasanaeth â'i raglen o Gyrsiau Prosiect y Ffenics, sy'n helpu i fagu hyder mewn pobl ifanc.
- Aeth staff y gwasanaeth Ffeiriau Wythnos y Glas i hyrwyddo cyngor diogelwch tân i fyfyrwyr prifysgol.

# Amcan 5: Cynnal gweithlu cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Parhaodd yr Awdurdod i ymestyn ei ymdrechion i ddenu, datblygu a chadw gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth galon diwylliant a gwerthoedd craidd yr Awdurdod, gan groesawu ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant, awydd i ymdrechu am ragoriaeth, amddiffyn cymunedau a gwerthfawrogi ei bobl. Mae gweithlu sydd wedi'i ddatblygu a'i hyfforddi'n briodol i fod yn ddiogel o fudd i bobl Cymru, ac mae fframwaith rheoli perfformiad datblygedig yn cefnogi rheolwyr i fodloni gofynion eu rolau.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 5 Cynllun Corfforaethol 2021-24.

Fe dynnodd tân Tŵr Grenfell yn ystod mis Mehefin 2017 sylw at sut mae'r holl Wasanaethau Tân ac Achub yn ymateb ac yn delio â thanau, yn enwedig mewn adeiladau uchel. Ymatebodd y Gwasanaeth i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru 'Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru'. Sefydlodd Llywodraeth Cymru hefyd Dîm Arolygu ar y Cyd, a oedd yn cynnwys uwch aelod o'n tîm diogelwch Tân.

- Hyfforddwyd Swyddogion Ymchwilio i Danau i gydymffurfio â'r safon ISO 17020 newydd (mae hyn yn cynnwys gweithgareddau cyrff arolygu), a ddaeth i rym ym mis Hydref 2023.
- Parhaodd y Gwasanaeth i fabwysiadu Polisi Gweithio Ystwyth ar gyfer yr holl staff (pan fo'n briodol ar gyfer y Gwasanaeth a'r unigolyn).
- Adnewyddwyd ardystiad Gwobr Aur y Safon Iechyd Corfforaethol.
- Fe wnaeth y Gwasanaeth adolygu a newid y Darparwr Iechyd Galwedigaethol yn ystod y cyfnod hwn.

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Parhau i ganolbwyntio ar recriwtio, datblygu a chadw gweithlu medrus iawn, llawn cymhelliant a dwyieithog.

- Mae'r Gwasanaeth yn cynnig pum rhwydwaith staff, sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb, ond gall unrhyw un ymuno:
  - Merched yn y Gwasanaeth Tân
  - Cefnogwyr Pride Tân
  - Rhwydwaith Staff Niwroamrywiaeth
  - Rhwydwaith Staff Crefydd, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol (REACH)
  - Rhwydweithiau Rhieni a Gofalwyr

- Cyflwynwyd tri cherbyd lles newydd i'r Gwasanaeth. Mae'r cerbydau hyn wedi'u cynllunio i gynnig cyfleusterau fel cyfleusterau toiled, ac offer i gynhesu bwyd yn ystod digwyddiadau o bresenoldeb hir.
- Cyflwyno gwiriadau GDG bob tair blynedd ar gyfer yr holl staff. Mae gwiriadau'r GDG yn rhan bwysig o fesurau diogelu ac yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn cynnal amgylchedd gwaith diogel i'r gweithwyr a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r broses ddyrchafu diffoddwyr Llawn Amser o dan gylch gwaith y Pwyllgor Adnoddau Sefydliadol i sicrhau bod y prosesau dyrchafu gweithredol yn cael eu cwblhau'n deg ac yn gyfiawn. Mae hyn wedi cynnwys adolygu'r meini prawf cymhwysedd, y broses ymgeisio, llunio rhestr fer, a'r broses gyfweld.
- Parhau i weithio gyda Swyddog yr Iaith Gymraeg i wella'r wybodaeth a ddarperir i ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio yn ymwneud â gofynion y Gymraeg. Mae hyn yn caniatáu i'r Gwasanaeth wella ymgysylltiad, a chael gwared ar unrhyw rwystrau canfyddedig i wneud cais.
- Cyflwynwyd sesiynau hyfforddi 'sgiliau cyfweld' i reolwyr gorsafoedd i sicrhau eu bod yn fedrus ac wedi'u hyfforddi'n briodol i gynnal cyfweliadau a thrafodaethau proffesiynol gyda gweithwyr a darpar ymgeiswyr ar gyfer rolau Ar-alwad a Chorfforaethol.

## Cam gweithredu 2: Parhau i weithio tuag at ailddilysu Gwobr Platinwm y Safon Iechyd Corfforaethol.

- Llwyddodd y Gwasanaeth i gael statws aur a phlatinwm yng Ngwobrau 'Cymru Iach ar Waith' yn dilyn gwiriad statws uwch yn ystod mis Ebrill. Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod cyflogwyr sy'n dangos polisïau a chamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo gweithluoedd hapusach ac iachach. Mae'r gwobrau'n anfon neges bwerus, yn fewnol ac yn allanol, ein bod wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith gwell.

## Cam gweithredu 3: Datblygu proses nodi a rheoli talent i ddisodli'r rhaglen datblygiad proffesiynol bresennol.

- Ym mis Ebrill, cafodd cynllun mynediad uniongyrchol arloesol Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ei lansio. Mae'r cynllun yn galluogi'r rhai sydd â sgiliau arwain profedig i wneud cais am swyddi Rheolwr Gorsaf, heb orfod cael profiad blaenorol yn y gwasanaeth tân na dilyn y llwybr dyrchafiad traddodiadol ar gyfer diffoddwyr tân.
- Mae'r Gwasanaeth wedi disodli'r broses ddyrchafu hirsefydlog a osodwyd ac a aseswyd yn fewnol (ADC), a oedd yn mesur perfformiad unigolyn yn erbyn rhinweddau a phriodoleddau personol blaenorol y gwasanaeth tân. Mae hwn wedi'i ddisodli gan gyfres o ymarferion rheolaethol, wedi'u gosod a'u hasesu'n annibynnol, sydd wedi'u marcio yn erbyn Fframwaith Arweinyddiaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC). Mae'r system newydd hon yn defnyddio seicolegwyr hyfforddedig i asesu ymddygiadau a pherfformiad ein rheolwyr goruchwylio a chanol presennol a darpar reolwyr, ac fe'i cyflwynwyd yn ddiweddar gan yr NFCC yn ystod y broses ddethol genedlaethol a ddefnyddiwyd i benodi'r Rheolwyr Gorsaf Mynediad Uniongyrchol newydd. Mantais arall o'r dull newydd hwn yw ei fod yn addas ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys gwasanaethau gweithredol, rheoli a chorfforaethol. Yn ogystal â'r broses hon a ddefnyddir ar gyfer rheolwyr goruchwylio a chanol, mae'n ofynnol hefyd i'n rheolwyr goruchwylio oruchwylio a rhoi adborth i griwiau sy'n ymgymryd ag ymarferiad safonol y gwasanaeth tân.

- Mae cyfweliadau a chyflwyniadau diploma Datblygu Diffoddwyr tân ar gyfer ein rhaglen datblygu prentisiaid diffoddwyr tân, bellach wedi'u cyflwyno, gyda'r sesiynau hyn wedi'u cynllunio i nodi unigolion sy'n dangos y sgiliau a'r potensial i ddatblygu eu gyrfaoedd diffodd tân i rolau arweinyddiaeth.

- Mae Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Oruchwyliol yr NFCC (SLDP) wedi cael ei threialu gan staff ar draws y Gwasanaeth, gyda'r cyntaf o'r rhain bellach yn graddio o'r rhaglen ac yn derbyn tystysgrif a roddwyd gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI). Mae'r cymhwyster hwn bellach yn rhan o gyfres o gymwysterau arweinyddiaeth sydd ar gael i bob aelod o staff eu cwblhau.

- Mae aelodau o'n tîm Hyfforddi a Datblygu wedi gweithio'n agos gyda'r NFCC i ddatblygu Rhaglen Arweinyddiaeth Ganol (MLP) newydd. Mae pedwar aelod o staff wedi dechrau'r rhaglen yn ddiweddar, a byddant yn gweithio'n agos gyda'u Rheolwyr Llinell a'n Cydlynydd Datblygu Proffesiynol i gwblhau'r cymhwyster hwn, yn ogystal â rhoi adborth i lywio penderfyniadau hyfforddiant arweinyddiaeth yn y dyfodol. Yn yr un modd â'r SLDP, mae'r rhaglen hon yn addas ar gyfer staff ym mhob rôl, gan gynnwys gwasanaethau gweithredol, rheolaeth a chorfforaethol.

## Cam gweithredu 4: Cychwyn blwyddyn 1 y strategaeth hyfforddiant gweithredol 3 blynedd.

- Cafodd cynllun hyfforddi ei gwblhau a'i gyhoeddi'n fewnol er mwyn i griwiau gweithredol ddewis ac archebu cyrsiau.

- Ailddatblygwyd y cwrs modiwl diffoddwyr tân i ddiwallu anghenion y diffoddwr tân ar alwad yn well.

- Penodwyd ymarferydd meddygol newydd ar gyfer ysgogi archwiliadau meddygol. Daw hyn yn dilyn oedi sylweddol a gafwyd gan staff sy'n ceisio cael apwyntiadau meddygon teulu.

- Mae aelodau o staff wedi mynychu cyrsiau hyfforddwyr i ddarparu mwy o allu i gyflwyno hyfforddiant sgiliau craidd.

- Mae ffurflenni adborth cyrsiau yn cael eu defnyddio, ac yna mae eu hatebion yn cael eu dadansoddi i nodi lle gellir gwneud gwelliannau.

## Cam gweithredu 5: Adolygu ac ymateb yn unol â hynny i argymhellion Adolygiad Thematig Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru.

- Cyhoeddwyd yr adroddiad thematig diweddaraf 'Dysgu o Grenfell', yn 2021, gydag argymhellion ar gyfer pob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

- Rhoddwyd ymateb anffurfiol i Gynghorydd Tân Cymru ynghylch y cynnig i beidio â gweithredu'r holl newidiadau diogelwch tân sy'n ofynnol gan Ymchwiliad Tŵr Grenfell.

- Ymgysylltodd y Gwasanaeth â pheirianwyr a syrfewyr ymgynghorol Llywodraeth Cymru a PRP Consulting Engineers and Surveyors i nodi unrhyw broblemau gydag adeiladau dros 11 metr.

- Mae cytundebau rhannu data wedi'u drafftio i sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth ystyrlon rhwng PRP a'r Gwasanaeth.

# Amcan 6: Datblygu ffyrdd o ddod yn fwy ymwybodol o’r amgylchedd er mwyn lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:** 

Yn 2017, gosododd Llywodraeth Cymru uchelgais i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral net erbyn 2030. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd ‘Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel’ sy’n ceisio cefnogi’r sector cyhoeddus i waelodlin, monitro ac adrodd ar gynnydd tuag at niwtraliaeth garbon.

Yn 2023-24, ailddatganodd yr Awdurdod ei ymrwymiad i wella perfformiad amgylcheddol a’i ystyried ym mhob maes o’i waith, o atal tân i sicrhau ei fod yn ystyried technoleg sy’n gyfeillgar i’r amgylchedd. Ymrwymodd yr Awdurdod hefyd i adnewyddu ei weledigaeth amgylcheddol er mwyn dod yn sefydliad sy’n fwy amgylcheddol ymwybodol a chyfrifol.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 6

Yn dilyn adolygiad o gynnydd gan Archwilio Cymru, fe wnaeth y Gwasanaeth recriwtio ‘Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd’.

Gofynnwyd am wirfoddolwyr gyda’r gwasanaeth i gymryd rhan yn y ‘Gweithgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd’ newydd i edrych ar leihau allyriadau carbon yn ogystal â materion amgylcheddol ehangach y gellid mynd i’r afael â nhw.

Cafodd Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer y cyfnod 2023-30 ei drafftio mewn ymgynghoriad ag aelodau’r Awdurdod, gan gynnwys polisïau manwl ynghylch Fflyd, Ystadau a Chaffael. Mabwysiadwyd y Strategaeth yn ffurfiol gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn ar 17 Gorffennaf 2023, a gellir dod o hyd iddi yma.

| Yn ystod oes tair blynedd y cynllun hwn, rydym wedi: | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| • Mynychu 290 o lifogydd / gwacáu o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ymwneud â dŵr. Cynyddodd y rhain yn sydyn dros y cyfnod o dair blynedd. | **76** | **68** | **146** |
| • Mynychu 84 o ddigwyddiadau tanau gwyllt, lle’r oedd diffoddwyr tân yn y lleoliad am gyfanswm o 1,750 awr. | **35**<br>**646 hours** | **35**<br>**628 hours** | **14**<br>**476 hours** |
| • Gosod blychau nythu ar eiddo’r Gwasanaeth i helpu i gynyddu’r nifer o wenoliaid duon sy’n gostwng. | | | |
| • Cynnal arolygon delweddu thermol mewn gorsafoedd fel rhan o’n gwaith uwchraddio inswleiddio. | | | |

| |
|---|
| • Cynnal prawf gweithredol o Olew Llysiau Hydrogenaidd (HVO) fel tanwydd cynaliadwy yn lle diesel. |
| • Ymgysylltu â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau manwl i ddatgarboneiddio ein gorsafoedd. |

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Amgylcheddol 2023-30.

- Cyflwynodd y Gwasanaeth ei Strategaeth Amgylcheddol newydd ar gyfer 2023-30 i Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub fel y cam diweddaraf yn ein gwaith i greu Cymru wyrddach a mwy gwydn.
- Mae'r camau gweithredu arfaethedig canlynol wedi'u cwblhau yn unol â'r amserlen:
    - Cynllun datgarboneiddio'r fflyd
    - Cynllun datgarboneiddio gwresogi
    - Cynllun datgarboneiddio pŵer
    - Dechrau ymgysylltu â chyflenwyr er mwyn mynd i'r afael ag allyriadau
- Mae'r Strategaeth Lleihau Gwastraff wedi'i chwblhau ar ffurf ddrafft a bydd yn cael ei chwblhau unwaith y bydd trefniadau ymarferol wedi'u gwneud i gynnwys y rheoliadau rheoli gwastraff newydd yng Nghymru. Yna bydd y Gwasanaeth yn adlewyrchu unrhyw arferion diwygiedig.

### Cam gweithredu 2: Parhau i ddatblygu ein gwaith monitro ac adrodd ar y defnydd o ynni ac allyriadau carbon.

- Cafodd y gwaith ei ohirio i ddechrau oherwydd problemau anfonebu ynni.
- Cafodd materion bilio trydan o fis Gorffennaf hyd at fis Medi eu datrys.
- Disgwylir i daenlenni cofnodion cyllid a defnydd, yn ogystal â'r perfformiad misol ar gyfer 2023-24 yn erbyn llinell sylfaen 2019-20, gael eu cwblhau yn ystod rhan gyntaf blwyddyn ariannol 2024-25.

### Cam gweithredu 3: Datblygu ein hadroddiadau ar nwyon tŷ gwydr yn unol ag adroddiadau carbon Llywodraeth Cymru.

- Roedd angen gwaith i ddatrys problemau anfonebu ynni cyn y gellid cofnodi data.
- Adroddwyd ar ddata defnydd a defnydd ar gyfer trydan, nwy, LPG, dŵr a gwastraff ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.
- Cwblhawyd taflenni data a gyflenwyd gan Lywodraeth Cymru a'u dychwelyd i Lywodraeth Cymru.
- Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau, ac wedi'i adrodd i Lywodraeth Cymru.

# Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael

**Amcanion llesiant a gyflawnwyd:**

Gwerth cymdeithasol yw'r gwerth y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau. Yn ystod 2023-24, parhaodd yr Awdurdod i ddatblygu ei werth cymdeithasol a sicrhaodd fod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried fel rhan o'i weithgareddau, gan gynnwys cefnogaeth i Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc lleol a Phrosiect Ffenics.

## Crynodeb o gyflawniadau yn erbyn Amcan 7 Cynllun Corfforaethol 2021-24.

Parhaodd y Gwasanaeth â'i ymrwymiad i ailgylchu ei gynnyrch diwedd oes ei hun trwy gydweithio â'r elusen 'Fire Aid'. Cynhaliwyd teithiau i Gambia ym mis Mawrth 2022 fel rhan o 'Ymgyrch Zephyr', lle rhoddwyd rhoddion o beiriant tân a chwch achub. Yn fwy diweddar, cymerodd staff o'r Gwasanaeth ran mewn confoi cenedlaethol arall i'r Wcráin i helpu i gyflenwi amrywiaeth o offer diangen.

## Cyflawniadau yn 2023-24

### Cam gweithredu 1: Cynnal adolygiad caffael yn dilyn penodi Rheolwr Caffael newydd.

- Penodwyd y Rheolwr Caffael a Chontractau ym mis Mehefin ac mae wedi bod yn adolygu'r system rhestr eiddo ac yn gwneud cynlluniau cyfluniad cychwynnol.
- Mae gwaith wedi dechrau i ddeall deddfwriaeth caffael newydd, ac mae cyrsiau allanol wedi'u harchebu i edrych ar gaffael cynaliadwy.
- Mae gwaith ar y 'Pecyn Hyfforddi Ymwybyddiaeth Caffael' wedi'i ohirio hyd nes y bydd ymgysylltiad â WRAP Cymru, a fydd yn digwydd yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25.

### Cam gweithredu 2: Parhau â'n rhaglen adeiladu i ddisodli tyrau hyfforddi gyda gosodiadau tŵr dur newydd.

- Mae'r tri thŵr dur wedi'u gosod yng:
  - Ngorsaf Dân Abermaw
  - Gorsaf Dân Harlech
  - Gorsaf Dân Rhosneigr

- Nodwyd rhai mân newidiadau dylunio ar gyfer pob gorsaf, a gofynnodd yr adran Gyfleusterau am arian i gwblhau'r rhain.
- Cwblhawyd yr holl waith, yn amodol ar rai mân addasiadau i'r tyrau yn unol â chais mewnol gan yr Adran Hyfforddi.

## Cam gweithredu 3: Parhau i ddarparu Archwiliadau Diogel ac Iach i gymunedau Gogledd Cymru.

- Bu staff Diogelwch Cymunedol yn cysylltu â phobl sy'n byw ar gychod camlas ar hyd camlas Llangollen fel rhan o Fis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- Mynychodd Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ddigwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) cyntaf Cymru Gyfan yn Llandrindod, a roddodd gyfleoedd i ddysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu arferion gorau.
- Treuliodd Therapydd Galwedigaethol arbenigol amser ar secondiad o Wasanaethau Ambiwlans Cymru i ddarganfod mwy am ein gwaith cydweithio, ac i weld y gwaith sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau 'O'r Ysbyty i Gartrefi Iach'.
- Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd fideo cynhwysfawr i adnewyddu gwybodaeth yr holl griwiau diffodd tân ar sut i gwblhau Archwiliad Diogel ac Iach yn gywir. Rhoddodd hyn gyfle i'r tîm diogelu ac atal rhag tân atgoffa'r holl ddefnyddwyr am newidiadau diweddar, gan gynnwys ymyriadau newydd sydd bellach ar gael.
- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i archwilio perthnasoedd newydd gyda phartneriaid allanol i nodi'r bobl hynny sydd fwyaf agored i dân a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt.
- Mae gwaith yn parhau gyda grwpiau celcio rhanbarthol i nodi pobl sydd mewn perygl.

## Cam gweithredu 4: Adolygu ein trefniadau rheoli iechyd a phresenoldeb.

- Cynhaliwyd adolygiad o bolisïau a'r gweithdrefnau presennol:
    - Mae polisi a gweithdrefn 'Gwrth-Aflonyddu Rhywiol' newydd wedi'i weithredu ers mis Mehefin 2023.
    - Diweddarwyd y polisi 'Dyletswyddau wedi'u Haddasu, Addasiadau Rhesymol a Dychwelyd i'r Gwaith yn Raddol' yn dilyn ymgynghoriad â staff.
    - Gwnaed rhai newidiadau i'r polisi 'Rheoli Presenoldeb' yn unol ag arferion gorau'r Gwasanaeth ac i'w wneud yn haws ei ddefnyddio.
    - Cafodd y polisi 'Cadw ac Adleoli Gweithwyr Anabl' ei adolygu a'i ddiweddaru i sicrhau bod cyfleoedd cyfartal yn cael eu darparu i'r rhai ag anableddau, a hefyd i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn briodol.

- Mae ymdrech gydweithredol ar y gweill rhwng AD, y tîm Iechyd a Llesiant, a'r Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Amrywiaeth i greu datrysiad menopos sy'n rhoi cymorth i bob aelod o staff sy'n wynebu symptomau'r menopos. Gwnaeth y tîm Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a'r Arbenigwyr AD sy'n arbenigo mewn Recriwtio gymryd rhan mewn cwrs Hyrwyddwyr Menopos ym mis Mehefin. Maent bellach yn mynd ati i gyfeirio unigolion at adnoddau cymorth a chyrsiau ychwanegol sydd ar gael yn y gweithle.
- Mae gwasanaeth adrodd wedi'i sefydlu, gan weithio mewn partneriaeth â 'Safecall', sy'n darparu modd proffesiynol, annibynnol, allanol a chyfrinachol i weithwyr roi gwybod am bryderon. Fel Gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw weithgaredd twyllodrus nac arferion anfoesegol yn digwydd fel bod lle diogel a chynhwysol i weithio ynddo yn cael ei greu.
- Mae cyfres o sesiynau hyfforddi ar-lein wedi'i lansio ar gyfer darpar reolwyr. Mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno'n fisol gan arbenigwr AD.
- Mae ymweliadau ffisiotherapi yn parhau i gael eu monitro i sefydlu tueddiadau a chefnogi staff yn well.



# Crynodeb Gwybodaeth Perfformiad

Cyflwynodd Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2015 dri dangosydd perfformiad statudol sy'n cyd-fynd â dangosyddion sector a gasglwyd yn lleol.

| DANGOSYDDION STATUDOL: | Blwyddyn 1 ein Cynllun 2021-22 | | Blwyddyn 2 ein Cynllun 2022-23 | | Blwyddyn 3 ein Cynllun 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd |
| Tanau yr aethpwyd atynt | 1,879 | 26.71 | 2,011 | 29.27 | 1,657 | 24.08 |
| Galwadau diangen yr aethpwyd atynt | 2,517 | 35.79 | 2,674 | 38.92 | 2,901 | 42.15 |
| Gwrthdrawiadau ar y ffyrdd | 207 | 2.94 | 234 | 3.41 | 251 | 3.65 |
| Digwyddiadau brys eraill yr aethpwyd atynt | 751 | 10.68 | 977 | 14.22 | 1,127 | 16.38 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Marwolaethau ac anafiadau tân | 58 | 8.25 | 40 | 5.82 | 44 | 6.39 |
| Marwolaethau ac anafiadau yn sgil tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol | 50 | 7.11 | 35 | 5.09 | 40 | 5.81 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Tanau cartref wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol | 375 | 87.62% | 330 | 86.84% | 329 | 90.88% |
| Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt | | | | | | |

Cyflwynwyd dangosyddion sector ar gyfer 2015 a chytunwyd i gael eu casglu a'u rhannu gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

| DANGOSYDDION SECTOR: | Blwyddyn 1 ein Cynllun 2021-22 | | Blwyddyn 2 ein Cynllun 2022-23 | | Blwyddyn 3 ein Cynllun 2023-24 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd |
| Tanau bwriadol | 472 | 6.71 | 519 | 7.55 | 466 | 6.77 |
| Tân damweiniol (neu ddim yn hysbys) | 1,408 | 20.02 | 1,492 | 21.71 | 1,191 | 17.31 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Marwolaethau yn gysylltiedig â thân | 7 | 1.00 | 0 | 0.00 | 7 | 1.02 |
| Anafiadau wedi'u hachosi gan dân | 51 | 7.25 | 40 | 5.82 | 37 | 5.38 |
| Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn anheddau | 5 | 0.71 | 0 | 0.00 | 6 | 0.87 |
| Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn | 0 | 0 | 0 | 0.00 | 1 | 0.15 |
| tanau bwriadol mewn anheddau | 39 | 5.54 | 26 | 3.78 | 26 | 3.78 |
| Anafiadau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn anheddau | 5 | 0.71 | 3 | 0.44 | 1 | 0.15 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Tanau cartref | 429 | 13.02 | 380 | 11.49 | 362 | 10.90 |
| Tanau damweiniol yn y cartref | 400 | 12.14 | 344 | 10.40 | 339 | 10.20 |
| Tân bwriadol mewn cartrefi | 29 | 0.88 | 36 | 1.09 | 23 | 0.69 |
| Galwadau diangen LTAau mewn cartrefi | 1,100 | 33.40 | 1,165 | 35.23 | 1,387 | 41.74 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o cartrefi | | | | | | |
| Tanau mewn adeiladau annomestig | 156 | 4.74 | 158 | 4.70 | 132 | 3.87 |
| Galwadau diangen LTAau mewn eiddo annomestig | 295 | 8.95 | 365 | 10.86 | 387 | 11.35 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 1,000 o adeiladau annomestig | | | | | | |
| Tanau mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod | 58 | 13.52% | 50 | 13.16% | 54 | 14.92% |
| As Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt | | | | | | |

| 2023-24 CYMRU GYFAN<br>DANGOSYDDION SECTOR: | 2023-24 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | GTA Gogledd Cymru | | GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru | | GTA De Cymru | |
| | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd | Rhif | Cyfradd |
| Tanau bwriadol | 466 | 6.77 | 1,169 | 12.95 | 3,735 | 24.24 |
| Tân damweiniol (neu ddim yn hysbys) | 1,191 | 17.31 | 1,414 | 15.67 | 1,714 | 11.12 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Marwolaethau yn gysylltiedig â thân | 7 | 1.02 | 7 | 0.78 | 4 | 0.26 |
| Anafiadau wedi'u hachosi gan dân | 37 | 5.38 | 28 | 3.10 | 36 | 2.34 |
| Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn anheddau | 6 | 0.87 | 4 | 0.44 | 3 | 0.19 |
| Marwolaethau'n gysylltiedig â thân mewn | 1 | 0.15 | 0 | 0.00 | 0 | 0.00 |
| tanau bwriadol mewn anheddau | 26 | 3.78 | 16 | 1.77 | 27 | 1.75 |
| Anafiadau'n gysylltiedig â thân mewn tanau damweiniol mewn anheddau | 1 | 0.15 | 3 | 0.33 | 2 | 0.13 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 100,000 o'r boblogaeth | | | | | | |
| Tanau cartref | 362 | 10.90 | 452 | 10.35 | 685 | 9.75 |
| Tanau damweiniol yn y cartref | 339 | 10.20 | 418 | 9.58 | 619 | 8.81 |
| Tân bwriadol mewn cartrefi | 23 | 0.69 | 34 | 0.78 | 66 | 0.94 |
| Galwadau diangen LTAau mewn cartrefi | 1,387 | 41.74 | 1,717 | 39.33 | 1,956 | 27.84 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 10,000 o cartrefi | | | | | | |
| Tanau mewn adeiladau annomestig | 132 | 3.87 | 164 | 3.98 | 331 | 6.33 |
| Galwadau diangen LTAau mewn eiddo annomestig | 387 | 11.35 | 1,685 | 40.87 | 4,026 | 76.97 |
| Lle mae'r gyfradd yn seiliedig ar 1,000 o adeiladau annomestig | | | | | | |
| Tanau mewn cartrefi lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod | 54 | 14.92% | 230 | 50.88% | 238 | 34.74% |
| As Fel canran o'r nifer o danau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt | | | | | | |



# Siarter Ymateb i Danau Mewn Cartrefi yn 2023-24

Yn ystod 2012, datblygodd y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru Siarter Cymru gyfan ar y cyd i sicrhau, lle bynnag y mae pobl yn byw yng Nghymru, y gallant ddisgwyl cael cymorth a chefnogaeth i aros yn ddiogel rhag tân yn eu cartrefi. Dylent hefyd allu disgwyl, os bydd tân yn cynnau, y byddant yn cael ymateb brys prydlon, effeithiol a phroffesiynol i'w galwad am gymorth.

Mae'r Siarter yn gwneud saith ymrwymiad penodol y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn:

1. Cymryd yr awenau wrth leihau nifer y tanau mewn cartrefi sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad brys 999 i fynychu tân mewn cartref.
3. Mynychu tanau mewn cartrefi yn gyflym a chyda'r offer priodol i ddelio â nhw.
4. Delio â thanau cartref yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.
5. Helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.
6. Ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi a dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi gwybodaeth am ein cydymffurfiaeth â'r ymrwymiadau hyn yn ystod 2023-24.

Er cysondeb, rydym yn defnyddio naratif safonol ar gyfer adrodd yn erbyn y Siarter bob blwyddyn, a dim ond yn diweddaru'r ffigurau o fewn y fframwaith naratif.

# 1. Byddwn yn arwain y gwaith o leihau nifer y tanau sy'n digwydd mewn cartrefi a lleihau eu heffaith ar bobl.



Rydym wedi ymrwymo i arwain y gwaith o gynnal gostyngiad yn nifer yr achosion o danau mewn cartrefi a'r anafusion cysylltiedig yng Nghymru.

Yn 2023-24 rhoesom gyngor ac anogaeth i bobl ar sut y gallant atal tanau rhag cychwyn yn eu cartref a sut y gallant gadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gweithgarwch atal yn cynnwys cyflwyno 19,859 o

Archwiliadau Diogel ac Iach i ddeiliaid tai, a chafodd 20,837 o blant a phobl ifanc yng nghyfnodau allweddol 1 - 4 sgwrs diogelwch tân.

Yn ystod 2023-24 aethom i 339 o danau damweiniol

mewn cartrefi. O ganlyniad i'r tanau hynny, cofnodwyd 6 marwolaeth, ond cafodd 26 o bobl anafiadau difrifol. Mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ardal yr Awdurdod Tân ac Achub wedi gostwng, gyda 344 o danau damweiniol wedi eu mynychu yn ystod 2022-23.

Yn anffodus, mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi yn ardal yr ATA dros y pum mlynedd diwethaf wedi tueddu i fyny.

# 2. Byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad 999 frys i fynd i dân mewn cartrefi.

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fydd y gweithredwr yn rhoi galwadau 999/112 brys i ni.

Mae ein hystafell reoli tân brys yn parhau i fod ar gael bob awr o'r dydd a'r nos bob dydd o'r flwyddyn, gyda threfniadau arbennig ar waith ar gyfer trosglwyddo galwadau'n ddi-dor o un ystafell reoli i'r llall os bydd aflonyddwch difrifol neu ymchwydd yn nifer y galwadau sy'n dod i mewn ar yr un amser.



Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i: a) nodi lleoliad y digwyddiad a adroddir a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael i fynychu'r digwyddiad.

Yn 2023-24, gwnaethom ddelio â chyfanswm o 12,744 o alwadau 999/112 brys. Roeddem yn gallu cael digon o wybodaeth am achosion o danau mewn cartrefi i rybuddio'r ymateb cychwynnol priodol o fewn 90 eiliad ar 80.7% o achlysuron a rhwng 91 a 120 eiliad ar 9.1% o achlysuron.

Fodd bynnag, gwyddom nad cyflymder trin galwadau - er yn bwysig – yw'r unig ffon fesur berthnasol. Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaethau yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan alwyr a all, er enghraifft, fod yn anghyfarwydd â'r ardal y maent ynddi, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu ag anawsterau cyfathrebu neu iaith.

Sgil bwysig arall yw cydnabod pan fo galwr yn cam-drin y system 999/112 drwy honni ar gam fod yna argyfwng pan nad oes, mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau diangen i'r gwasanaethau brys yn fwriadol. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod hynny'n atal lleiafrif o bobl sy'n clymu'r llinellau 999 ac yn dargyfeirio gwasanaethau i ffwrdd oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa wirioneddol sy'n peryglu bywyd. Bob tro y byddwn yn mynd allan at un o'r galwadau diangen maleisus hyn, mae'n gwastraffu amser ac arian, ac yn peri mwy o berygl i weddill y gymuned.

Yn 2023-24, cawsom 76 o alwadau diangen maleisus. Mewn 47% o achosion, roeddem yn gallu cadarnhau nad oedd y galwadau hyn yn ddilys ac felly osgoi defnyddio adnoddau yn ddiangen i'w mynychu.

## 3. Byddwn yn mynychu tanau mewn cartrefi yn gyflym a chyda'r offer priodol i ddelio â hwy.



Unwaith y byddwn wedi ateb y galwad brys 999/112 a dosbarthu'r adnoddau mwyaf priodol i wneud iawn am y presenoldeb cychwynnol yn y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym, yn ddiogel ac yn meddu ar y cyfarpar priodol i ddelio ag ef.

Yn 2022-23 rydym wedi ymateb i 8% o danau mewn cartrefi o fewn 1-5 munud, 39% o fewn 5-10 munud, 30% o fewn 10-15 munud ac 23% mewn mwy na 15 munud. Mae'r amseroedd hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i bersonél cyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio. O ganlyniad, gall nifer o bethau effeithio ar y ffigurau cyflymder ymateb, gan gynnwys daearyddiaeth drefol/gwledig a natur rhwydweithiau ffyrdd yn yr ardal.

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn cartref yn hynod bwysig, ond ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf, ac o gael o leiaf un larwm mwg gweithredol wedi'i osod a llwybr dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn y bydd tân yn digwydd. Fodd bynnag, os bydd tân mewn cartref wedi digwydd, rydym yn sicrhau bod ein criwiau diffodd tân mewn sefyllfa briodol i ddelio ag ef.

Rydym yn arfogi ein diffoddwyr tân gydag offer amddiffynnol personol ac offer diffodd tân o ansawdd uchel. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn heini ac yn iach yn weithredol ac rydym yn sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn gwirio fel mater o drefn bod y ffordd yr ymdriniodd ein criwiau â digwyddiadau yn unol â gweithdrefnau diffodd tân derbyniol.

Rydym yn cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y

maent yn ei wneud. Yn 2023-24, mynychodd ein criwiau 1,657 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o eiddo ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 16 aelod o staff gweithredol anaf.



## 4. Byddwn yn delio â thanau mewn cartrefi yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.

Rydym wedi ymrwymo i ddelio â thanau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol. I'r perwyl hwn, rydym yn arfogi ein criwiau tân tra hyfforddedig â'r sgiliau cywir, y wybodaeth, yr offer diffodd tân a'r cymorth gorchymyn fel y byddant, beth bynnag fo amgylchiadau'r tân mewn cartref, wedi'u paratoi'n gywir i ddelio ag ef.

Yn 2023-24, o'r holl danau mewn cartrefi a aethpwyd atynt, roedd 92% wedi'u cyfyngu yn llwyddiannus i'r ystafell wreiddiol, heb ledaenu ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn a fyddai y tu allan i reolaeth y criwiau oedd yn mynychu, megis faint o amser y byddai'n ei gymryd i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi'u cau ai peidio i helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell i ffwrdd o orsaf dân y lleolwyd y cartref, rydym yn dal i ystyried hyn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant diffodd tân.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau i offer, ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i gadw mewn cysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf.

Rydym hefyd yn cymryd o ddifrif ddelwedd broffesiynol y gwasanaeth tân ac achub. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar rinweddau a phriodoleddau personol ein holl staff gweithredol, yn ogystal â'u ffitrwydd corfforol a seicolegol a safon uchel eu hyfforddi gweithredol a rheoli.

Rydym yn annog ein holl staff i gadw at set o werthoedd craidd a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan Wasanaeth Tân ac Achub y DU. Mae hyn yn mynegi ein hymrwymiad i werthfawrogi gwasanaeth i'r gymuned, pobl, amrywiaeth a gwelliant.



## 5. Byddwn yn helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.

Rydym wedi ymrwymo i helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn cartrefi.

Mae tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fydd pobl wedi colli eu heiddo, bydd angen cymorth ymarferol ac emosiynol arnynt. Pan fydd pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, gall y profiad effeithio ar gymunedau cyfan yn ogystal â'r unigolyn a'i ffrindiau a'i deulu agos. Am y rheswm hwn, nid yw rôl y gwasanaeth tân ac achub wrth gefnogi cymunedau yn dod i ben pan gafodd y tân ei ddiffodd a phan gyfrifwyd am bawb.

Ym mhob achos, bydd achos y tân yn cael ei ymchwilio a'i gofnodi'n ofalus. Bydd pob manylyn ynghylch sut a ble y cychwynnodd y tân, i ba raddau y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, ac unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell dysgu, ymchwil a monitro yn y dyfodol.

Os oes rhesymau i gredu bod tân wedi'i gynnau'n fwriadol mewn cartref, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill yn mynd ar drywydd hyn.

Mewn rhai adeiladau, megis blociau o fflatiau neu dai a feddiannwyd gan nifer o wahanol denantiaid, gallai'r ymchwiliadau ôl-digwyddiad ddangos bod landlord wedi methu â sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi dechrau'n ddamweiniol, efallai y byddwn yn ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd diogelwch cymunedol.

neu ymgyrch yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a sicrwydd trwy Archwiliadau Diogel ac Iach am ddim.



## 6. Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol i wneud hynny.

Rydym bob amser yn ymchwilio i achosion tanau mewn cartrefi. Mewn llawer o achosion, bydd achos a tharddiad tân yn glir ac yn syml iawn, ond mewn eraill bydd angen ymchwiliad mwy manwl a fforensig i ganfod achos mwyaf tebygol y tân.

Yn 2023-24, cofnodwyd bod achos anhysbys i 10 o danau mewn cartrefi.

Os amheuir trosedd, bydd ymchwiliad y tân yn cael ei gynnal gyda'r heddlu. Mae'n debygol y bydd pobl sy'n cael eu hamau o gynnau tân mewn cartref yn fwriadol yn wynebu erlyniad troseddol, er, mewn rhai achosion, efallai nad dyma'r unig gamau gweithredu sydd ar gael, er enghraifft os cafodd y tân ei gychwyn gan blentyn ifanc neu gan berson sy'n ceisio lladd ei hun.

Yn 2023-24, aethom i 362 o danau mewn cartrefi, a chanfuwyd bod 23 ohonynt wedi'u dechrau'n fwriadol.

Mewn rhai adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r ardaloedd cymunedol a rennir yn dod o dan reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y fangre honno (fel y landlord neu'r rheolwr safle) fod â threfniadau diogelwch tân da ar waith.

Gall methu â gwneud hynny arwain at gau'r safle ac erlyn y person cyfrifol gyda'r posibilrwydd o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn.

Fel awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth hon, ac yn gallu dewis o blith ystod o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, yn dibynnu ar ddifrifoldeb a risg y drosedd.

Yn 2023-24, fe wnaethom gyflwyno un Hysbysiad Gorfodi. Ni ddaeth unrhyw hysbysiad gwahardd, rhybudd ffurfiol nac erlyniad i ben yn ystod y flwyddyn.

## 7. Byddwn yn ymdrechu i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

O dan ddeddfwriaeth, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' a disgwylir iddynt adolygu a gwella eu perfformiad eu hunain yn rheolaidd trwy broses ffurfiol o osod, gweithredu ac adrodd yn erbyn amcanion gwella blynyddol.

Nid ydym yn cyfyngu ein gweithgarwch gwella i'r broses flynyddol ffurfiol hon; mae safonau uchel a gwelliant parhaus yn rhan annatod o'n gwaith beunyddiol o redeg y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae enghreifftiau o weithgareddau gwella sy'n digwydd yn cynnwys:

- Ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau cymheiriaid, archwiliadau ac arolygiadau;
- Ymateb yn gadarnhaol i ymatebion i'r ymgynghoriad, adborth gan randdeiliaid, cwynion a chanmoliaeth;
- Dysgu o'n profiadau, megis o sesiynau briffio ôl-digwyddiad, adroddiadau ar ddamweiniau, neu 'Damweiniau agos';
- • Cyfrannu at weithgorau, rhannu arfer da, a dysgu o ymchwil a wnaed;
- Cymryd cyfleoedd i ddysgu gan, a chyda sefydliadau eraill drwy bartneriaethau, pwyllgorau, byrddau a chymdeithasau proffesiynol;
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl er mwyn cynnal ein gweithrediadau, megis trwy brosesau rheoli parhad busnes;
- Cynllunio ar gyfer heriau posibl i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, megis drwy fforymau cydnerthedd lleol;
- Datblygu sgiliau technegol a phroffesiynol ein staff yn barhaus;
- Cynnal ac adnewyddu ein hasedau ffisegol a chyfrifiadurol fel ein cyfarpar, cerbydau, adeiladau a thechnoleg.

# Beth Mae Eraill yn ei Ddweud Amdanom ni

### Archwilio Cymru – Llywodraethu

Mae eu hadroddiad i'w weld yma.

# Gwybodaeth Arall

## Trwydded i Atgynhyrchu Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Atgynhyrchir deunydd hawlfraint y Goron yn y ddogfen hon o dan Rhif Drwydded C2010002320.

Ffynonellau gwybodaeth allanol a ddefnyddiwyd wrth lunio'r ddogfen hon:

- Ystadegau Digwyddiadau Tân ac Achub Cymru
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru (2021)

## Ymyrraeth os bydd methiant neu fethiant posibl i gydymffurfio:

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau ymyrraeth:

- o dan adran 22 o'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, byddai adran 23 - Protocol Ymyrraeth yn berthnasol.
- o dan adran 29 o Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 os yw'n ystyried bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu mewn perygl o fethu, i gydymffurfio â'r Mesur. Fodd bynnag, ym mhob un ond yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, ni chaiff Gweinidogion Cymru ymyrryd ar ôl iddynt gynnig cymorth gwirfoddol i'r Awdurdod o dan adran 28 o'r Mesur.

# Ymgynghoriadau

Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn ceisio barn a safbwyntiau cyhoedd Gogledd Cymru a rhanddeiliaid eraill fel rhan o'i broses o ddatblygu ei gynlluniau a'i amcanion strategol.

Rhestrir ymgynghoriadau cyhoeddus isod:

| Teitl | Ymgynghori | Cyhoeddi | Am flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-29 | Gwanwyn 2024 | Haf 2024 | 2024-29 |
| Adolygiad Gwasanaeth Brys | Haf/Hydref 2023 | Gaeaf 2023 | 2023-24 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2020-21 ymlaen (strategaeth amgylcheddol newydd) | Hydref/Gaeaf 2019 | Mawrth 2020 | 2020-21 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2019-20 ymlaen | Haf/Hydref 2018 | Mawrth 2019 | 2019-20 |
| Amcanion Gwella a Llesiant ar gyfer 2018-19 ymlaen | Hydref 2017 | Mawrth 2018 | 2018-19 |

Rhestrir arolygon staff diweddar isod:

| Teitl | Ymgynghori | |
|---|---|---|
| Arolwg Teulu Tân | Hydref 2023 | 18 Medi - 16 Hydref 2023 |
| Arolwg Teulu Tân | Hydref 2021 | 18 Hydref – 08 Techwedd 2021 |



# Geirfa a Diffiniadau

## Tanau

Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai.

## Prif Danau

Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau a threlars, storfeydd awyr agored, planhigion a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill fel pontydd, blychau post, twneli, ac ati.

Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, yn ogystal â thanau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân atynt.

## Tanau Eilaidd

Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau. Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n

cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn awyr agored, goleuadau traffig, ac ati.

Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.

## Tanau Simnai

Mae'r rhain yn danau mewn adeiladau a feddiannir lle mae'r tân wedi'i gyfyngu o fewn strwythur y simnai, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.

Nid yw tanau simnai yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd at y digwyddiad.

## Tanau yn yr awyr agored

Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth pedwar cerbyd neu fwy at y digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am chwe awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr.

## Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (digwyddiadau brys eraill)

Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:

- argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffyrdd, achub personau, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;
- trychinebau mawr;

- digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl sydd wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;
- trefniadau blaenorol i fynd at ddigwyddiadau, a all gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau.

## Marwolaethau Tân (cysylltiedig â thân)

Pan fo marwolaeth person yn cael ei phriodoli i dân hyd yn oed os digwyddodd y farwolaeth wythnosau neu fisoedd yn ddiweddarach. Mae yna achosion achlysurol hefyd lle daw'n amlwg wedi hynny nad y tân oedd achos y farwolaeth. Felly, mae'r ffigurau hyn yn destun adolygu.

## Anafiadau tân

Er mwyn sicrhau cysondeb ar ôl mis Ebrill 2009 ledled y DU, cofnodir anafiadau tân o dan bedwar categori difrifoldeb:

- Aeth y dioddefwr i'r ysbyty, ac mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n ddifrifol.
- Aeth y dioddefwr i'r ysbyty, mae'n ymddangos bod yr anafiadau'n rhai bach.
- Rhoddwyd cymorth cyntaf i'r dioddefwr yn y fan a'r lle yn unig, ond nid oedd angen triniaeth bellach.
- Cafodd archwiliad rhagofalus ei argymell - cafodd y person ei anfon i'r ysbyty neu fe'i cynghorwyd i weld meddyg fel rhagofal, ond heb unrhyw anaf na gofid amlwg.

## Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol)

Lle mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd at leoliad gan gredu bod yna ddigwyddiad, ond wrth gyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, neu wedi bodoli.

Sylwer: os yw'r peiriant yn cael ei 'droi nôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad nid yw'n cael ei hystyried fel un ag aethpwyd ato ac nid oes angen adrodd amdano.

## Maleisus

Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynychu digwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys amcanion bwriadol a rhai yr amheuir eu bod yn faleisus.

## Bwriad Da

Mae'r rhain yn alwadau a wneir yn ddidwyll yn y gred y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu digwyddiad tân neu wasanaeth arbennig.

## Larwm Tân Awtomatig (LTAau)

Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u cychwyn gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys offer larwm yn cychwyn yn ddamweiniol neu lle mae larwm yn canu a bod person wedyn yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn rheolaidd fel rhan o drefniant sefydlog, heb unrhyw 'feirniadaeth', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad.

# Dweud eich dweud

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaeth ac i gyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Er mwyn ein helpu i wneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi. Felly, os oes gennych unrhyw sylwadau am yr asesiad hwn, neu sut y gallem wella ein hasesiadau perfformiad blynyddol yn y dyfodol, hoffem glywed gennych.

Mae fersiynau eraill o'r ddogfen hon ar gael

- Mewn fformatau papur ac electronig.
- Yn Gymraeg a Saesneg.
- Fel taflen gryno o'r pwyntiau allweddol.
- Mewn fformatau hygyrch trwy ein gwefan.

| | |
|---|---|
| **Ysgrifennwch atom** | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC)<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ |
| **Ffoniwch ni** | 01745 535 250 |
| **Anfonwch e-bost atom** | Corporateplanning.helpdesk@northwalesfire.gov.wales |
| **Ewch i'n gwefan** | www.tangogleddcymru.llyw.cymru |
| **Neu dilynwch ni ar** | **X (Twitter):** @northwalesfire<br>**Facebook:** www.facebook.com/northwalesfireservice<br>**Instagram:** @northwalesfire |

# Ffoniwch 999 mewn argyfwng yn unig

*This document is available in English* **Eitem 15 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r ATA, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Cyflwynwyd drafft i Archwilio Cymru cyn 31 Mai, fel sy'n ofynnol dan y ddeddfwriaeth uchod.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol i ddangos:

- Bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- Bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- Bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

3 Nodir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1 ac mae wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' CIPFA/Solace (2016). Mae'r flaenraglen waith ar gyfer 2024/25 wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

4 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael adolygiad cam cyntaf ac ail gam gan Archwilio Cymru er mwyn cadarnhau ei fod yn gyson â'r datganiadau ariannol a'i fod wedi'i baratoi yn unol â'r Fframwaith.

5 Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyhoeddi pan fydd wedi'i gymeradwyo gan y Trysorydd, Cadeirydd yr Awdurdod Tân a'r Prif Swyddog Tân, a hynny erbyn 31 Hydref 2024.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

6 Oherwydd cyfyngiadau amser, nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi bod drwy'r Pwyllgor Archwilio na'r Panel Gweithredol.

**ARGYMHELLIAD**

7 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24;
ii) nodi'r flaenraglen waith ar gyfer 2024/25; a
(iii) chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 31 Hydref 2024.

**CEFNDIR**

8 Mae'n ofynnol i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

9 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu ac arddangos bod system gadarn o lywodraethu corfforaethol wedi'i sefydlu ar draws y sefydliad.

**GWYBODAETH**

10 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethu newydd, sef 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' (y Fframwaith). Strwythurwyd y Fframwaith o amgylch saith egwyddor llywodraethu sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol a nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

11 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau:

(i) bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
(ii) bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
(iii) bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

12 Amlinellir Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 yn Atodiad 1. Mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2024/25.

13 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

14 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn blaenraglen waith 24/25 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth bob chwarter.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim goblygiadau |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Mae paratoi a chyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r Datganiad yn cyfeirio'n benodol at gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a Safonau'r Gymraeg. |
| Risgiau | Dim goblygiadau |



# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-2024

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority

MEWN CYFYNGDER Y GELWAIST

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR REOLAETH FEWNOL

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Paratowyd y Datganiad hwn yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac â'r canllawiau a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), sef fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' 2016.

Mae'r berthynas rhwng y saith egwyddor ar gyfer llywodraethu da yn y sector cyhoeddus i'w gweld isod.




Ffig. 1 Sut mae egwyddorion llywodraethu da yn berthnasol i'w gilydd.

Ffynhonnell: [Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus]

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn egluro sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu da a'i saith egwyddor graidd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio yn unol â'r polisi a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

## Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau:

- bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol
- bod adnoddau yn cael eu defnyddio mewn modd diwastraff, effeithlon, effeithiol a theg er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac sydd er budd pobl leol.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae gan yr Aelodau a'r Uwch-swyddogion gyfrifoldeb i sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu materion yr Awdurdod Tân ac Achub ac i ofalu am yr adnoddau sydd ar gael iddo, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod Tân a'i amrywiol Bwyllgorau, paneli a gweithgorau yn rhoi arweinyddiaeth strategol sy'n galluogi'r Aelodau i benderfynu ar y materion sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal yr Awdurdod Tân, yn unol ag egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd democrataidd.

## Diben y System o Reolaeth Fewnol

Er mwyn cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Golyga hyn fod y cyfyngiadau a'r cymhellion allanol a mewnol sydd arno yn wahanol i'r rhai a geir yn y sector preifat, ac mae pob un ohonynt yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethu.

Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried y tymor hwy wrth wneud ei benderfyniadau, ac i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan randdeiliaid ddiddordeb mewn materion fel:

- a yw'r allbynnau a gynlluniwyd gan yr Awdurdod wedi'u cyflawni a'r canlyniadau wedi'u cael, ac
- a yw hyn wedi'i wneud mewn modd effeithlon, diwastraff, effeithiol a theg.

Er mwyn sicrhau llywodraethu da yn y sector cyhoeddus, mae angen i gyrff llywodraethu yn ogystal ag unigolion sy'n gweithio i sefydliadau'r sector cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd trwy'r adeg pan fyddant yn ceisio cyflawni eu hamcanion, sy'n awgrymu mai'r flaenoriaeth yw'r budd i

gymdeithas, a dylai hynny arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r Datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

**Y Fframwaith Llywodraethu**

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr wedi'i bennu gan boblogaeth yr ardal. Mae mwy o wybodaeth am yr Awdurdod, ei aelodau a'i gyfrifoldebau ar gael yma.

Rhaid i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y system lywodraethu yn gadarn. Dyma rai o'r prif bethau sy'n cyfrannu at hyn:

Bod â strwythur Awdurdod a phwyllgorau sydd:

- yn monitro effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg
- yn adolygu'r trefniadau llywodraethu yn rheolaidd
- yn ystyried ac yn adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol
- yn adolygu, yn craffu ar ac yn cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol.

Bod â Panel Gweithredol sydd:

- yn rhoi arweiniad o ran llywodraethu
- yn cyfrannu at gwblhau ac at adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- yn darparu arweiniad clir i'r Gwasanaeth a'r uwch reolwyr.

Y defnydd o wybodaeth o wahanol ffynonellau i lywio'r trefniadau llywodraethu, er enghraifft:

- adroddiadau byrddau gwella a pherfformiad
- trefniadau rheoli risg
- adroddiadau gan reoleiddwyr allanol
- adroddiadau Archwilio Mewnol

Mae cyfarfodydd arferol yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael eu mynychu o bell. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu gweddarlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Mae'r holl gyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd wylio, petaent yn gwneud cais i wneud hynny.

Yn gynnar yn 2023, sefydlodd yr Awdurdod dri gweithgor er mwyn cefnogi datblygiad tair blaenoriaeth sefydliadol allweddol:

- Gweithgor yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys
- Gweithgor newydd y Ganolfan Hyfforddi a Datblygu.

Hefyd, mae aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn rhan o’r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel Hyrwyddwr yr Aelodau.

Ym mis Mawrth 2024 cymeradwyodd yr Awdurdod Tân ac Achub ddrafft o’r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) pum mlynedd newydd ar gyfer 2024-2029, yn ogystal â drafft o’r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft ar gyfer 2024-25. Byddant yn disodli Cynllun Corfforaethol 2021-24. Ar hyn o bryd, mae’r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ymgynghori ar y ddau gynllun.

Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) yw nodi risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu pum egwyddor er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel, ac mae’r CRMP:

- Yn cydnabod gofynion deddfwriaeth allweddol
- Yn ystyried gwaith parhaus y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Yn nodi'r risgiau sy'n wynebu ein cymunedau
- Yn amlinellu gweithgarwch yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r risgiau hyn
- Yn egluro pa gamau y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf i liniaru'r risgiau hynny
- Yn cyd-fynd â chyllideb refeniw yr Awdurdod, ei gynllun cyfalaf a’i gynllun ariannol tymor canolig.



Ffig 2. Pwyllgorau'r Awdurdod Tân ac Achub

Y Grŵp Gweithredol, sy'n cynnwys y Prif Swyddogion, y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy a'r Swyddogion Tân Cynorthwyol, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol.

Mae'r Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth (SLT), yn cynnwys y Prif Swyddogion, y Rheolwyr Ardal a'r Penaethiaid Adran. Mae'n cyfarfod fel Bwrdd Perfformiad er mwyn craffu ar berfformiad, ac fel Bwrdd Gwella er mwyn herio ac i oruchwylio rhaglenni, prosiectau a pholisïau ar lefel uchel. Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn rhoi arweinyddiaeth sefydliadol ac yn cyflwyno'r gwasanaethau.

Mae Strwythur Llywodraethu a Sicrwydd y Gwasanaeth, sef y pwyllgorau a'r grwpiau, sy'n adrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad, gan ddangos bod y llywodraethu yn gadarn o ran adrodd, monitro, craffu a gwneud penderfyniadau ym mhob rhan o'r sefydliad.




Ffig 3. Strwythur Arweinyddiaeth y Gwasanaeth

## Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethu

| | |
|---|---|
| **Cyfansoddiad** | Diben y Cyfansoddiad yw nodi sut mae'r Awdurdod Tân yn gweithio a'r ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau, a hynny mewn iaith glir |
| **Awdurdod Tân** | Darparu'r arweinyddiaeth strategol, y rhyngwyneb gwleidyddol a'r her gorfforaethol mewn perthynas â darparu gwasanaethau tân ac achub ledled Gogledd Cymru, gan annog cyfranogiad y cyhoedd a chan gynnal ei faterion mewn modd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf |
| **Y Panel Gweithredol** | Monitro perfformiad y Gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar ei bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Panel yn adolygu'r gofrestr risg strategol. |
| **Y Pwyllgor Archwilio** | Darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheoli, yn ogystal â goruchwylio'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r cyfrifon blynyddol. |
| **Y Pwyllgor Safonau** | Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Aelodau'r Awdurdod yn ogystal â goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo hynny'n bosibl yn statudol, cael adroddiadau a chŵynion am Aelodau, cynnal neu oruchwylio ymchwiliadau, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod. |
| **Gweithgorau'r Awdurdod Tân** | Ymgymryd â gwaith manwl sy'n gysylltiedig â phroses cynllunio a phennu cyllidebau'r Awdurdod. Maen nhw'n cyflwyno eu sylwadau i'r Panel Gweithredol sydd yn ei dro'n gwneud argymhellion i'r Awdurdod o ran gwella/lleihau risg/amcanion llesiant. |
| **Grŵp Gweithredol** | Gweithredu'r fframwaith polisi a chyllidebol a bennir gan yr Awdurdod Tân, a rhoi cyngor i'r Awdurdod Tân o ran datblygu materion polisi a chyllidebol yn y dyfodol. |
| **Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth** | Gosod safonau llywodraethu ar draws y Gwasanaeth ac arwain y gwaith o'u gweithredu. Derbyn y cynllun gwella blynyddol a chyfrannu at yr hunanasesiad blynyddol. |
| **Swyddog Adran 151** | Sicrhau bod penderfyniadau'n gyfreithlon ac yn ddarbodus yn ariannol.<br>Gweinyddu materion ariannol.<br>Yn atebol am ddatblygu a chynnal fframwaith llywodraethu, risg a rheoli yr Awdurdod Tân.<br>Cyfrannu at reolaeth a llywodraethiant corfforaethol effeithiol yr Awdurdod Tân |
| **Swyddog Monitro** | Adrodd ar achosion o fynd yn groes i unrhyw ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith.<br>Adrodd ar unrhyw gamweinyddu neu anghyfiawnder pan fo'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol wedi cynnal ymchwiliad.<br>Cynnal a diweddaru'r Cyfansoddiad.<br>Cynnal cofrestrau o fuddiannau aelodau yn ogystal â rhoddion a lletygarwch.<br>Cynghori Aelodau ar sut i ddehongli'r Cod Ymddygiad. |
| **Archwilio Mewnol** | Darparu sicrwydd annibynnol a barn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli yr Awdurdod Tân.<br>Cyflwyno rhaglen flynyddol o weithgarwch archwilio sy'n seiliedig ar risgiau, gan gynnwys gweithgarwch atal ac ymchwilio i dwyll.<br>Gwneud argymhellion ar gyfer gwella'r gwaith o reoli risgiau. |

Egwyddorion CIPFA - Sicrwydd Llywodraethu

## Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.

Cyhoeddir cenhadaeth a Gwerthoedd yr Awdurdod yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ac ar wefan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau ac mae'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion wedi'i gynnwys ynddo.

Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cyfansoddiad.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac mae hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau.

Pan fo angen, ceisir cyngor cyfreithiol i lywio penderfyniadau.

Mae Codau Ymddygiad ar waith ar gyfer Aelodau a Swyddogion , sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatgan buddiannau busnes a chofnodi rhoddion a/neu letygarwch a gafwyd. Cyhoeddir y rhain ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod.

Mae polisïau allweddol ar waith i atal ac i leihau risg twyll. Mae'r polisïau'n cynnwys: Polisi Chwythu'r Chwiban, Polisi Gwrth-dwyll, Llygredigaeth a Rheoliadau, Ariannol a Rheolau a Gweithdrefn Contractau. Pan amheuir afreoleidd-dra, mae trefniadau ar waith i sicrhau bod ymchwiliad trwyadl yn cael ei gynnal.

Mae'r polisi recriwtio a'r prosesau sefydlu a hyfforddiant yn cynnwys ymddygiadau personol a gwerthoedd moesegol.

Cael dyfarniad Aur a Phlatinwm gan raglen Iechyd Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru, cynllun gwobrwyo sy'n cael ei redeg gan Cymru Iach ar Waith, ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwobrau hyn yn caniatáu i gyflogwyr arddangos polisïau a gweithredoedd a ddyluniwyd i feithrin gweithluoedd hapusach ac iachach.

Sefydlwyd Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn 2022, a datblygwyd a chyhoeddwyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant bum mlynedd.

Cyhoeddir Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan yr Awdurdod Tân yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Caiff amcanion cydraddoldeb eu hadolygu bob blwyddyn a'u monitro drwy gydol y flwyddyn.

Bydd gweithrediad y strategaeth yn cael ei arwain gan gynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant blynyddol manwl, y bydd ei berfformiad yn cael ei reoli gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal safonau ac yn cymryd pob pryder o ddifrif. Ymchwilir i achosion disgyblu ac i unrhyw honiadau o gamwedd yn unol â Llawlyfr Disgyblu'r Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn bwriadu recriwtio swyddog penodol ar gyfer ymdrin â chŵynion a disgyblaeth.

Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar wefan yr Awdurdod, sy'n manylu ar gydymffurfiad yr Awdurdod â'r Safonau.

Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn golygu bod rhaid i bob aelod newydd o staff gyrraedd o leiaf Lefel 2 yn eu sgiliau Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, sy'n cynnwys amcanion Gwella a Llesiant, yn destun ymgynghoriad â'r cyhoedd ac â rhanddeiliaid. Bydd y Cynllun Pum Mlynedd a Chynllun Gweithredu 2024-25, wedi iddynt gael eu cymeradwyo, yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae hyn yn bodloni ein rhwymedigaethau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisi a gweithdrefn Diogelu ar waith i gyfeirio unrhyw bobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.

Mae'r holl gynlluniau a pholisïau adrannol, lle bo'n berthnasol, yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno llinell adrodd gyfrinachol o'r enw 'Safecall' ar gyfer staff.

Ers 1 Ebrill 2024, mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, a bydd yn adeiladu ar y trefniadau sefydledig hynny sydd rhwng y Gwasanaeth a'r cyrff sy'n cynrychioli staff er mwyn ymgynghori ar amcanion a phenderfyniadau strategol ynghylch sut mae'n bwriadu cyflawni'r amcanion hynny.

## Egwyddor B: Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid.

Mae pob cyfarfod yn cael ei hysbysebu ac mae cyfarfodydd llawn yr Awdurdod yn cael eu gweddarlledu. Mae agendâu a phapurau i'w cael ar wefan yr Awdurdod.

Cyhoeddir gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod fel rhan o'r cynllun cyhoeddi. Darperir fersiynau Darllen/Dweud a fersiynau Cymraeg o ddogfennau.

Mae trefniadau ymgynghori cyhoeddus ar waith i wahodd barn rhanddeiliaid cyn i newidiadau allweddol gael eu datblygu a'u gweithredu. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar yr Amcanion Gwella o fewn Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25.

Mae'r Sefydliad Ymgynghori wedi cydnabod bod gan yr Awdurdod 'Arfer Da' ym mhob elfen o'r ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad parhaus o'r Ddarpariaeth Frys. Cadarnhawyd fod y drefn ymgynghori yn bodloni 'Egwyddorion Gunning', sef y sylfaen gyfreithiol gydnabyddedig a ddefnyddir i asesu cyfreithlondeb ymgyngoriadau cyhoeddus.

Mae'r ymrwymiad i ddidwylledd hefyd yn cael ei ddangos trwy:

- gwblhau asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol;
- y Weithdrefn Cwyno a Chanmoliaeth, sy'n cynnwys y gallu i uwchgyfeirio materion pwysig;
- y Strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd;
- ymgysylltu â Chyrff Cynrychioliadol y Cyflogeion, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghori a Thrafod, rhywbeth a fydd yn cael ei gryfhau ymhellach trwy fabwysiadu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn y flwyddyn ariannol newydd;
- ymrwymiad unwaith bob dwy flynedd i ymgysylltu â staff drwy arolwg 'Teulu Tân'.
- aelodaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Fforwm Arweinwyr Cydraddoldeb Gogledd Cymru, Cyngor Hil Cymru a Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Cymru.

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu gan gynnwys:

- cyfathrebu wedi'i gyfeirio gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfrifon ar Facebook a X (Twitter cynt). Mae hyn yn cynnwys cyfrifon corfforaethol yn ogystal â'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a gynhelir gan staff gorsafoedd tân i ehangu ymgysylltiad mewn cymunedau lleol;
- y gallu i gofrestru ar y wefan i gael diweddariadau e-bost ar faterion penodol;
- ymgysylltu â phobl ifanc drwy raglen Ffenics, Cadetiaid tân ac ymweliadau ysgol;
- gwaith diogelwch cymunedol gyda deiliaid tai a busnesau;
- grŵp Gweithredu Cadarnhaol, dan gadeiryddiaeth y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb, i gynllunio a

chyfarwyddo digwyddiadau ar gyfer yr holl waith recriwtio diffoddwyr tân;
- mynychu diwrnodau agored/digwyddiadau - er enghraifft digwyddiadau wedi'u trefnu, fel yr Eisteddfod, yn ogystal â digwyddiadau gorsafoedd tân a drefnir gan staff;
- cyfathrebu mewnol, gan gynnwys cylchlythyr electronig y Crynodeb Wythnosol i staff;
- ymgyrchoedd cyfathrebu allanol, dan arweiniad y Rheolwyr Diogelwch Cymunedol.
- Drwy weithgareddau Atal a Recriwtio mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â phobl o bob oed a chefndir amrywiol

Mae trefniadau partneriaeth yn eu lle ar gyfer:

- Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd Cymru Gyfan,
- Fforymau Cydnerthedd Lleol;
- y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol;
- y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- y Bwrdd Strategol Lleihau Tanau Bwriadol;
- y Byrddau Diogelu Oedolion Lleol a'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol;
- cydweithio â Gwasanaethau Brys eraill.

## Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd yn pennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod ac yn manylu ar yr amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'r amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae polisïau'r Awdurdod yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nod y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, sy'n cynnwys Cynllun Cyfalaf 10-mlynedd, a phroses y gyllideb flynyddol yw sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at flaenoriaethau'r Awdurdod.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i sicrhau bod yr holl staff yn ymgymryd â'r e-ddysgu gorfodol mewn perthynas â'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i recriwtio a chadw pobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n addewid gan y genedl i sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg. Cefnogir hyn gan Bolisi Lluoedd Arfog wrth Gefn a Chyn-filwyr.

Mae'r Gwasanaeth yn talu mwy na'r cyflog byw go iawn.

Mae polisi a gweithdrefn diogelu ar waith er mwyn cyfeirio unrhyw bobl agored i niwed y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â nhw at asiantaethau eraill.

Mae gan y Gwasanaeth ddyletswydd statudol i sefydlu trefniadau parhad busnes. Mae cynlluniau ar draws y Gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac mae cydweithio parhaus gyda'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella cynllunio ac ystyried risgiau cyfredol.

Mae pob penderfyniad allweddol yn cael asesiad effaith integredig, sy'n ystyried cydraddoldeb; diogelu data; iechyd, diogelwch a lles; y Gymraeg; cyllid; cynaliadwyedd a staffio; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a bydd hefyd yn ystyried y Ddyletswydd Iechyd statudol y disgwylir iddi gael ei chyflwyno.

Mae'r Awdurdod wedi datblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol sy'n nodi targedau perfformiad manwl a chadarn i leihau ein hallyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol sylweddol eraill.

## Egwyddor D: Pennu’r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Cynhelir ymgyngoriadau cyhoeddus fel rhan o broses gosod amcanion yr Awdurdod, sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol.

Cyhoeddir asesiad o berfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei amcanion blynyddol ym mis Hydref bob blwyddyn.

Mae Polisi Rheoli Risg Strategol yr Awdurdod (sydd ar hyn o bryd yn cael ei adolygu yn sgil archwiliad mewnol) yn nodi'r broses a ddefnyddir i nodi ac i reoli amlygiad i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni'r amcanion neu'r gweithgareddau. Caiff ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Cyflwynir adroddiadau perfformiad ac ariannol i'r Awdurdod a'i bwyllgorau, ar ôl i’r Grŵp Gweithredol gael cyfle i graffu arnynt.

Mae Adroddiad Monitro Perfformiad Chwarterol yn cael ei baratoi ar gyfer y Panel Gweithredol, ac mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth yn craffu ar ddata sy'n ymwneud â digwyddiadau, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac

argaeledd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad, gan sicrhau bod materion yn cael eu nodi ac y cytunir ar ymyriadau priodol.

Mae'r prosesau cynllunio'r gyllideb, sy'n cynnwys arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod, yn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu dyrannu i gefnogi amcanion sy'n seiliedig ar risg a'u bod yn cydbwyso'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal ystadau, cerbydau ac offer.  Mae Pwyllgor y Gyllideb, Monitro a Chaffael yn darparu'r llywodraethu a'r oruchwyliaeth strategol angenrheidiol.

Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn darparu goruchwyliaeth strategol ac yn llywodraethu'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol a'r Dysgu Gweithredol ar y Cyd sydd ar gael ac yn gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Rhoddir adroddiadau am ddigwyddiadau Iechyd a Diogelwch, a chânt eu hadolygu a'u monitro er mwyn sicrhau bod diogelwch yr holl staff cystal ag y gall fod a bod y risgiau'n cael eu lleihau. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn llywodraethu ac yn rhoi goruchwyliaeth strategol.

Mae'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan yn nodi saith ymrwymiad lefel uchel mewn perthynas ag atal ac ymateb i danau mewn anheddau. Rhoddir adroddiadau blynyddol arni fel rhan o Asesiad Perfformiad Blynyddol yr Awdurdod.

## Egwyddor E: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono.

Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn amlinellu rolau aelodau etholedig a swyddogion dynodedig i alluogi cyd-ddealltwriaeth o rolau ac amcanion. Mae'r swyddi dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro.

Mae cydweithio rhanbarthol a chenedlaethol yn bodoli, er enghraifft, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn cymryd rhan yn y Fforwm Hyfforddiant ar Ymchwilio i Danau ar gyfer Cymru Gyfan, ac mae hynny'n cefnogi dysgu ar y cyd ac yn annog cysondeb yn y dulliau a ddefnyddir ar draws Cymru.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol Cymru Gyfan 2024-2028, a dyma sylfaen yr ymrwymiad i ddysgu gydol oes a chymhwysedd yn y gweithle.

Mae'r prosesau cynefino i Aelodau a chyflogeion yn cynnwys cyflwyniad i werthoedd craidd y sefydliad, y safonau ymddygiad, a gofynion y rôl.

Nodir anghenion datblygu cyflogeion mewn cyfarfodydd un-i-un.

Darperir cymorth iechyd a lles i gynnal lles corfforol a meddyliol. Mae ystod o fesurau wedi'u sefydlu i gyflawni hyn, gan gynnwys polisïau a chanllawiau AD, dull gweithio hyblyg, y gwasanaeth iechyd galwedigaethol a'r rhaglen cymorth i weithwyr. Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn llywodraethu ac yn rhoi goruchwyliaeth strategol.

Mae gan y Gwasanaeth adran hyfforddi bwrpasol, gyda fframweithiau cymhwysedd ar gyfer staff gweithredol. Rhoddir hyfforddiant gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n cynnwys modiwlau e-ddysgu gorfodol ar gyfer rhai pynciau e.e. Diogelu Data. Mae'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol yn llywodraethu ac yn rhoi goruchwyliaeth strategol.

Mae'r staff yn aelodau o gyrff proffesiynol perthnasol ac yn ymgymryd â'r datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol.

Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod ei brosesau dyrchafu yn cyd-fynd â fframwaith arwain Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC).

## Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol fel sy'n ofynnol gan Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau y cydymffurfir â pholisïau, gweithdrefnau, deddfau a rheoliadau sefydledig.

Mae'r Polisi Rheoli Risg Strategol (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd yn dilyn archwiliad mewnol) yn manylu ar y broses ar gyfer nodi a rheoli risgiau. Mae'r Adran Cynllunio Corfforaethol yn cadw cofrestr risgiau corfforaethol ac mae'n cael ei monitro drwy gydol y flwyddyn.

Mae adroddiadau i'r Awdurdod a'i bwyllgorau yn cynnwys asesiad effaith integredig i lywio ac i gefnogi penderfyniadau.

Mae trefniadau parhad busnes ar waith i sicrhau y gellir parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol bob amser, a chânt eu hadolygu bob blwyddyn.

Mae Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod yn sicrhau bod argymhellion gwella gan yr Archwilydd Allanol, Archwilio Cymru, a'r Archwilydd Mewnol yn cael eu cytuno a'u monitro.

Rhoddir adroddiadau chwarterol i Aelodau ac uwch reolwyr am welliant a pherfformiad y Gwasanaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad a cherrig milltir allweddol.

Mae gan yr Awdurdod drefniadau i gadw cofrestrau o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau a chofrestr o roddion a lletygarwch. Cyhoeddir y rhain ar wefan yr Awdurdod fel rhan o broffil personol pob Aelod.

Ceir polisïau ar gyfer Gwrth-dwyll a Llygredigaeth a Chwythu'r Chwiban sy'n cadarnhau ymrwymiad yr Awdurdod i weithredu'n deg a thryloyw.

Mae polisïau a threfniadau ar waith i reoli'r modd y caiff data eu trin. Y rhain yw'r Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data a Pholisi Diogelu Cyfathrebu a Gwybodaeth. Mae'r polisïau hyn yn cael eu hategu gan hyfforddiant, ac mae'r modiwl e-ddysgu ar ddiogelu data yn orfodol i'r holl staff.

Datblygwyd a chytunwyd ar weithdrefnau rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid.

Mae rheolaeth ariannol yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau a newid trawsnewidiol yn ogystal â sicrhau stiwardiaeth dda. Cyflwynir diweddariad ariannol yn holl gyfarfodydd yr Awdurdod, gydag adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.

Mae'r trefniadau Rheoli Trysorlys yn dilyn arferion proffesiynol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr Aelodau.

Mae Datganiadau Cyfrifon yr Awdurdod a'i berfformiad yn erbyn meysydd risg a blaenoriaeth allweddol yn destun craffu drwy archwiliad allanol.

## Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adroddiadau ac archwiliadau er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru wedi penodi Crest Advisory ar y cyd i hwyluso adolygiad diwylliannol annibynnol. Daw'r adolygiad ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn cynnig gan y Gwasanaethau Tân ac Achub ym mis Mawrth 2024 i gael gwell dealltwriaeth o gynnydd y gwelliannau i ddiwylliant sefydliadol pob Gwasanaeth.

Roedd y cynnig yn sail i ddatganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol ar y pryd, Hannah Blythyn, a gellir darllen ei datganiad yn llawn yma.

Bydd Crest Advisory sy'n cynnal yr adolygiad yn rhoi cyfle i'r holl staff a chyn-gyflogeion gymryd rhan yn y broses hon cyn iddynt gyhoeddi adroddiad ar eu canfyddiadau ym mis Ionawr 2025, a fydd yn cael ei rannu'n gyhoeddus a bydd unrhyw argymhellion yn cael eu hystyried.

Mae'r Awdurdod, gyda chymorth y Swyddog Monitro, yn goruchwylio ac yn adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a'r amgylchedd rheoli mewnol.

Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd, ynghyd â gweddarllediadau o gyfarfodydd yr Awdurdod.

Mae adroddiadau'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig sy'n sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno mewn modd clir a chyson i gynorthwyo penderfyniadau.

Mae gan y Gwasanaeth ddyletswydd statudol i sefydlu trefniadau parhad busnes. Mae cynlluniau ar draws y Gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac mae cydweithio parhaus gyda'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella cynllunio ac ystyried risgiau cyfredol.

Mae’r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn dogfennu amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod ac mae’n cael ei adolygu gan Archwilio Cymru mewn cysylltiad â dyfarnu Tystysgrif Cydymffurfio.

Cynhyrchir y Datganiad Cyfrifon Blynyddol mewn fformat hawdd ei ddefnyddio. Mae hwn yn rhoi gwybodaeth glir am incwm a gwariant ac yn dangos y stiwardiaeth ar arian cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn. Cyflwynir y cyfrifon i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau statudol.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl Blynyddol yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Telir cyflogau'r Aelodau yn unol â phenderfyniadau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac adroddir amdanynt ar y rhyngrwyd.

Mae Aelodau ac uwch swyddogion yn datgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y DU. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r Awdurdod i nodi ac i roi gwybod am unrhyw drafodion parti perthynol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn darparu tryloywder ar y trefniadau llywodraethu a'r camau gweithredu i wella llywodraethu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol a benodir drwy statud ac mae'n rhoi barn ar y Datganiad o Gyfrifon, a gyhoeddir ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.

Mae'r trefniadau Archwilio Mewnol yn cynnwys dull sy'n seiliedig ar risg, ac mae’n rhoi sicrwydd bod risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar argymhellion ac, yn ôl yr angen, yn cymryd camau cywiro.

Yn dilyn adolygiad o’r trefniadau mewnol, penodwyd Archwilydd Mewnol newydd gan y Gwasanaeth ym mis Mehefin 2023, a hynny er mwyn cryfhau’r trefniadau sicrwydd.

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod argymhellion gan gyrff arolygu a rheoleiddio yn cael eu gweithredu.

**Sut aeth yr Awdurdod i'r afael â Chamau Gwella Llywodraethu 2023/24**

| Maes Gwella Llywodraethu | Cam Gweithredu a Gynlluniwyd | Fforwm | Cyfrifoldeb | Cynnydd erbyn mis Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|
| Lleihau Allyriadau Carbon | Ymateb i argymhellion Adroddiad Archwilio Cymru ar Leihau Allyriadau Carbon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Mawrth 2022 | Pwyllgor Tir ac Eiddo Grŵp Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | PSTC Gweithrediadau<br><br>Rheolwr yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau. Mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r pum argymhelliad a nodwyd gan adroddiad Archwilio Cymru ar leihau ein hallyriadau carbon.<br><br>Roedd y rhain yn cynnwys sefydlu gwaelodlin carbon, paratoi Strategaeth Amgylcheddol 2023-2030, a drafftio cynlluniau datgarboneiddio pwrpasol ar gyfer y fflyd, gwresogi, a phŵer.<br><br>Rydym hefyd wedi paratoi Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy, Cynllun Lleihau Gwastraff, a Chynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol. |
| Lleihau Galwadau Tân Diangen | Ymateb i argymhellion Adroddiad Archwilio Cymru ar leihau galwadau tân diangen – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Ebrill 2023 | Pwyllgor Perfformiad Atal a Diogelu | PSTC Gweithrediadau<br><br>Pennaeth Atal a Diogelu | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Datblygwyd rhaglen o arolygiadau dilynol ar gyfer y rhai sydd â risg tân uwch, a hynny o fewn pum mlynedd i'r Archwiliad Diogel ac Iach gwreiddiol.<br>Dadansoddwyd gwerth naw mlynedd (2015 i 2023) o ddata am Larymau Tân Awtomatig (AFA), boed y gwasanaeth wedi mynd allan mewn ymateb neu ddim, er mwyn nodi tueddiadau e.e. lleoliadau sy’n ymddangos yn aml, namau ar systemau a chamgymeriadau gan bobl.<br>Cynhaliwyd astudiaeth amser-mudiant, gan roi sylw arbennig i ba adeg o’r dydd y mae Larymau Tân Awtomatig yn tueddu i seinio (Risg v PDA v Adeg o'r dydd).<br>Mae Larymau Tân Awtomatig mewn lleoliadau Masnachol ac Ysbytai bellach yn cael eu hadolygu'n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | amlach, gan ddefnyddio dangosfwrdd perfformiad sy'n galluogi ymyriadau mwy amserol.<br>Mae staff Diogelwch Tân wedi ailgysylltu â CEF y Berwyn er mwyn adfywio'r rhaglen ymyriad cynnau tanau i oedolion oherwydd trosiant uchel ymhlith staff y Carchar. |
| Cydnerthedd Cymunedol a Hunanddibyniaeth | Adolygu argymhellion adroddiad 'Gyda'n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau' Archwilio Cymru er mwyn nodi unrhyw effeithiau a goblygiadau i GTAGC | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Gwella | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Er bod yr adroddiad 'Gyda'n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau' yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus ehangach, mae Archwilio Cymru wedi cadarnhau ei fod wedi'i anelu'n bennaf at awdurdodau lleol, ac ni fyddant yn disgwyl ymateb ffurfiol gan ATAGC. |
| Ailstrwythuro'r Gwasanaeth (cyflwynwyd 1 Ebrill 2022) | Gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i gynllunio proses flynyddol, sy'n cynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r adran Archwilio Mewnol yn benodol, i asesu i ba raddau y mae egwyddorion y | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Gwella | DBST<br><br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Nid yw'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Bydd yn cael ei gynnwys yng nghamau gweithredu 2024/25 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Fframwaith Llywodraethu Da yn cael eu cymhwyso. | | | |
| Cyfansoddiad | Cam gweithredu i Glerc yr Awdurdod ychwanegu at y Cyfansoddiad y trefniadau ar gyfer y cyfnodau cyn-etholiadol sy'n arwain at etholiadau llywodraeth leol ac ar gyfer cyfnodau saib rhwng Awdurdodau. | GTAGC | Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub. | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Cyflwynodd y Clerc bapur i'r Panel Gweithredol ar 18 Rhagfyr a oedd yn argymell diwygiadau i'r Cyfansoddiad, fel y disgrifir yn y weithred, ac fe'i cymeradwywyd. |
| Cynllunio Adrannol | Cynnal adolygiad o'r fframwaith cynllunio adrannol ar gyfer cynlluniau adrannol 23/24, ac mae hyn yn blaenoriaethu casglu tystiolaeth yn erbyn y Blociau Adeiladu, amcanion y Cynllun Corfforaethol ac amcanion Deddf | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid. | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Yn ogystal ag alinio'r amcanion adrannol, mae'r templed hefyd yn cynnwys newidiadau i risgiau adrannol a chynllunio'r gweithlu, gan roi trosolwg mwy cyflawn o bob adran. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | | | |
| Asesiad Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) a Chynllunio Corfforaethol | Cwblhau CRMP newydd sy'n cyd-fynd â Rhaglen Rheoli Risg Cymunedol NFCC, ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth Bwrdd Gwella | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid. | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029 a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-2025 ar 25 Mawrth 2024, ac maent yn destun cyfnod o ymgynghori cyhoeddus yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys amcanion Llesiant a Gwella. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ym mis Mehefin a bydd fersiynau terfynol o'r Cynlluniau yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Gorffennaf 2024. |
| Ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys | Gweithio tuag at alinio ag 'Arfer Gorau' y Sefydliad Ymgynghori o ran sicrhau ansawdd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus a gwblheir ar gynigion yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Perfformiad | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol<br><br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mae'r cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau.<br>Yn sgil cwblhau'r Dadansoddiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar Adolygiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o'r Ddarpariaeth Frys, bodlonwyd gofynion y broses sicrhau ansawdd ffurfiol a oruchwyliwyd gan y Sefydliad Ymgynghori.<br><br>Cydnabuwyd bod gan yr Awdurdod 'Arfer Da' ym mhob elfen o'r ymgynghoriad.<br><br>Cadarnhaodd hyn fod y drefn ymgynghori yn bodloni 'Egwyddorion Gunning', sef y sylfaen gyfreithiol gydnabyddedig a ddefnyddir i asesu cyfreithlondeb ymgyngoriadau cyhoeddus. |

**Camau Gwella Llywodraethu'r Awdurdod 2024/25**

| Maes Gwella o fewn Llywodraethu | Cam Gweithredu a Gynlluniwyd | Fforwm | Cyfrifoldeb | I'w gwblhau erbyn |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu | Gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i gynllunio proses flynyddol, sy'n cynnwys Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r adran Archwilio Mewnol yn benodol, i asesu i ba raddau y mae egwyddorion y Fframwaith Llywodraethu Da yn cael eu cymhwyso. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth - Bwrdd Perfformiad | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 2025 |
| Trefniadau Llywodraethu | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Drefniadau Llywodraethu. | Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 2025 |
| Effeithiolrwydd Gweithgareddau Atal | Ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru o Atal. | Awdurdod Tân ac Achub | Pennaeth Atal a Diogelu | Mawrth 2025 |
| Rheoli Risg Strategol | Gweithredu argymhellion yr adolygiad gan Archwilio Mewnol o Reolaethau Craidd Rheoli Risg | Grŵp Rheoli Risg | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 2025 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: | Y rhwymedigaeth statudol i sicrhau bod yr amcanion llesiant yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni; | Bwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 2025 |
| Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 | Ymgorffori egwyddorion a gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. | Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi | Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid | Mawrth 20205 |

# Cydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol

Cynlluniwyd Cod Rheoli Ariannol CIPFA (Cod RhA CIPFA) i gefnogi arfer da ym maes rheoli ariannol ac i gynorthwyo'r Awdurdod i ddangos ei gynaliadwyedd ariannol. Mae Cod RhA CIPFA felly'n gosod safonau rheoli ariannol i'r Awdurdod.

Mae'r Cod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gefnogir gan safonau a datganiadau ymarfer penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ddarparu'r sylfaen gref i:

- Reoli cyllid yr Awdurdod yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- Rheoli gwydnwch ariannol er mwyn ateb y galw a ragwelir ar wasanaethau
- Rheoli cyllid pan fo newidiadau annisgwyl yn eu hamgylchiadau ariannol.

Rhaid i bob Awdurdod ddangos bod gofynion y Cod yn cael eu bodloni.

Fel Swyddog Adran 151 mae gen i Gyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth yr Uwch Dîm Arweinyddol ac Aelodau'r Awdurdod) dros sicrhau cydymffurfiaeth â Chod RhA CIPFA. Rwyf wedi cynnal asesiad llawn o gydymffurfiad â Chod RhA CIPFA fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod yn y mwyafrif o feysydd yn fy marn i.

**Llofnod** ______________________________ **(Trysorydd)**
**2024**

# Casgliad a Barn Llywodraethu

Mae'r Awdurdod yn cydnabod mai llywodraethu da sy'n gosod y sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid, ac sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethu a'r monitro a oedd ar waith ar gyfer 2023/24 a'r camau a gymerwyd i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith a bydd ei ymroddiad i wella'r rhain yn parhau drwy weithredu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2024/25.

**Llofnod** ______________________________ **(Cadeirydd) 2024**

**Llofnod** ______________________________ **(Prif Swyddog Tân) 2024**

MEWN CYFYNGDER Y GELWAIST

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
North Wales Fire and Rescue Authority

**Agenda item 16**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21ain Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Natalie Lloyd Jones, Swyddog Iaith Gymraeg** |
| Pwnc | **Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. I gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth yr Aelodau, Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2023/24 mewn perthynas â'r canlynol;

   a. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 155,161,167, sy'n manylu ar y ffaith bod yn rhaid i'r Awdurdod gynhyrchu adroddiad monitro bob blwyddyn ariannol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae'r Adroddiad Monitro atodol yn amlinellu sut mae'r Gwasanaeth wedi cydymffurfio â'r safonau a grybwyllir uchod, yn bennaf y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau a'r Safonau Gweithredol.

3. Mae'r Adroddiad Monitro yn tynnu sylw at sut mae'r Gymraeg wedi cael ei fonitro, hyrwyddo a datblygu o fewn y Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am ddatblygiad y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth yn ogystal â'r cyfleoedd sydd wedi eu nodi ar gyfer gwella yn y dyfodol.

**ARGYMHELLIAD**

4. Bod Aelodau yn:

   a. cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2023/34 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; ac

   b. nodi bwriad y Gwasanaeth i roi cyhoeddusrwydd i'r ddogfen fel y nodwyd yn Safonau 155,161,167.

**CEFNDIR**

5. Ers 30 Mawrth 2017, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg a disodli'r system flaenorol o gynlluniau iaith Gymraeg. Rhaid i'r Gwasanaeth lunio adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r safonau.

**GWYBODAETH**

6. Eleni, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2023-24 yn ymddangos fel dogfen annibynnol yn hytrach na chael ei hymgorffori o fewn y ddogfen Asesiad Perfformiad Blynyddol.

7. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwerthoedd craidd ac mae'n hanfodol i'n hegwyddorion Pobl, Atal, ac Amddiffyn, sy'n rhan o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 – 2029.

8. 31ain o Fawrth 2024, roedd 88.2% o'n staff yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg (Lefel 1 ac uwch), gyda 38.6% ohonynt yn siaradwyr rhugl (Sgiliau Lefel 4 a 5). Mae hyn wedi cynyddu o'i gymharu â 37% yn y flwyddyn flaenorol.

9. Mae dysgu Cymraeg hefyd wedi cael ei symud yn fewnol a hwylusir gan diwtoriaid o Goleg Cambria ac mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan hwyluso'r broses i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

10. Am y chweched flwyddyn yn olynol, ni chafwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r Gymraeg.

11. Mae'r camau niferus a gymerwyd gan yr Awdurdod i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog dewis iaith ar gyfer yr holl staff a defnyddwyr y Gwasanaeth hefyd yn cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y gwahanol ffyrdd y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo'n fewnol ac yn allanol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Lles** | |
| **Cyllid** | Dim un wedi'i adnabod. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r ddogfen yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

| | |
|---|---|
| **Staffio** | Dim un wedi'i adnabod. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol / Y Gymraeg** | Mae goblygiadau i'r Gymraeg i'w gweld yn y ddogfen hon. |
| **Risgiau** | Dim un wedi'i adnabod. |



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-2024

Sut mae'r safonau'n cael eu bodloni, a sut mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a thrwy'r Gwasanaeth yn cael eu hyrwyddo a'u hwyluso.

**Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024**

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg | This publication is available in English

# Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Trosolwg

Dyma adroddiad blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023 - 2024. Mae'n gwerthuso ein cydymffurfiaeth â'r Safonau, a'r ffyrdd y mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi cael eu hyrwyddo a'u hwyluso, gan sicrhau nad oedd yr iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y flwyddyn. Fe'i paratowyd yn unol ag Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, i fodloni gofynion safonau 158, 164 a 170.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn www.tangogleddcymru.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Swyddog Iaith Gymraeg,
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

**Croesewir galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd defnyddio'r Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.**

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**Dogfennau cysylltiedig**

Mae ein hysbysiad cydymffurfio o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar gael ar ein gwefan.

# Cynnwys


Cyflwyniad . . . . . 4

Cefndir . . . . . 5

Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg . . . . . 6

Safonau Cyflenwi Gwasanaeth: . . . . . 6

Safonau Gweithredol: . . . . . 8

Apwyntiadau a dyrchafiadau diweddar . . . . . 10

Monitro, hyrwyddo, a datblygu'r Gymraeg o fewn y gwasanaeth . . . . . 11

Datblygiad Iaith Gymraeg . . . . . 15

Cyfleoedd ar gyfer gwella yn y dyfodol . . . . . 15







# Cyflwyniad

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein ardal gwasanaeth a'r amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol o fewn ein cymunedau. Rydym wedi ymrwymo i'n dyletswydd gyfreithiol a moesol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg wrth gynnal ein busnes.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd gyfreithiol ar ATAGC i gydymffurfio â Safonau sy'n ymwneud â hyrwyddo, codi ymwybyddiaeth, a hwyluso'r Gymraeg o fewn ein gwasanaeth tân ac achub.

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwerthoedd craidd ac mae'n hanfodol i'n hegwyddorion Pobl, Atal, ac Amddiffyn, sy'n rhan o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 – 2029. Mae'r egwyddor 'Ein Pobl' yn ymrwymo i recriwtio a datblygu gweithlu dwyieithog i gynrychioli demograffig ein hardal. Mae ein hegwyddor 'Atal' yn canolbwyntio ar leihau risgiau i'n cymunedau drwy ymgysylltu â phawb yng Ngogledd Cymru a chynnig dewis iaith yn weithredol. Yn ogystal, mae ein hegwyddor 'Diogelu' yn cynnwys ymgysylltu â busnesau Gogledd Cymru lle mae llawer ohonynt yn cyfathrebu â ni yn Gymraeg.

# Atebolrwydd a Llywodraethu

O fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), mae'r Gymraeg yn cael ei llywodraethu fel rhan o'n strwythur sefydliadol trwy Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg, dan gadeiryddiaeth ein Swyddog Iaith Gymraeg. Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg, aelod o'r adran Cyfathrebu Corfforaethol, yn gyfrifol am weithredu Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth. Mae Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg yn adrodd i'n Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân (DPST). Mae'r DPST yn cymryd yr awenau gweithredol ar yr iaith Gymraeg ac mae ganddo gyfrifoldeb rheoli dros yr adran Gyfathrebu Corfforaethol.

Yn ystod 2023/2024, mae ATAGC wedi parhau gydag ymdrechion i weithredu Safonau'r Gymraeg a'u gofynion. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg; sut rydym yn monitro, hyrwyddo, a datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth; a'r cyfleoedd ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant ac yna cymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2024.

# Cefndir

Disodlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ddyletswyddau cydymffurfio i awdurdodau tân ac achub ar 30 Medi 2016. Mae'r ddogfen hon yn rhestru pa rai o'r Safonau, fel y'u rhestrir yn llawn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023/24 erbyn Medi 2024 a rhoi cyhoeddusrwydd priodol iddo

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal er mwyn cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog cymunedau, yn erbyn cefndir o dreftadaeth naturiol a diwylliannol arwyddocaol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd tuag at ei staff, y rhan fwyaf ohonynt yn drigolion Gogledd Cymru, ac sydd eu hunain yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau eu hunain.

Trwy gydnabod ei ddyletswyddau moesol a chyfreithiol i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a chwrdd â disgwyliadau'r gymuned leol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio tuag at sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes cyhoeddus yn y ddwy iaith.

**Mae Cynllun Gweithredu'r Awdurdod ar gael i'w weld drwy ddefnyddio'r ddolen isod; Safonau'r Gymraeg**

## Safonau'r Iaith Gymraeg

Yn ystod 2023/24, parhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â'r set Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd yn yr Hysbysiad Cydymffurfio 30 Medi 2016. Rydym hefyd yn parhau i weithio ar y cyd â grwpiau iaith allanol drwy Swyddog y Gymraeg, yn ogystal â rheoli llywodraethu mewnol yn y Gymraeg drwy'r Grŵp Llywodraethu'r Gymraeg. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth o bob rhan o'n tân a'n hachub ac mae'n gwasanaethu pwrpas;

- Cydlynu rhwng adrannau ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg
- Craffu a chynnig arweiniad i wella unrhyw agwedd ar ddarpariaeth ddwyieithog y Gwasanaeth
- Cydweithio ar sut i ddatrys unrhyw heriau neu gwynion
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r Saesneg o fewn y Gwasanaeth.

Mae materion cyfieithu Cymraeg yn cael eu contractio i gwmni allanol er mwyn helpu i gyflawni'r holl rwymedigaethau a osodir gan Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i gydweithio â chydweithwyr yn y ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru a Chyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC) i rannu gwybodaeth am arferion gorau a sicrhau dull safonedig.

# Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

## Safonau Cyflenwi Gwasanaeth:

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r Safonau hyn ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r Safonau hyn yn ymwneud â'n hwyneb cyhoeddus a sut rydym yn delio â defnyddwyr ein gwasanaeth, boed yn bersonol, dros y ffôn, neu ar-lein, yn ogystal ag unrhyw gyhoeddiadau corfforol neu ar-lein.

Mae trefniadau wedi'u gwneud i fodloni'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau sydd wedi dod i rym gan gynnwys y canlynol:

### Safonau 1,4, 5-7

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ychwanegwyd canllawiau diwygiedig ar y weithdrefn ohebiaeth ddwyieithog gywir at dudalen Gymraeg mewnrwyd y Gwasanaeth, Hwb Tân. Bydd hyn hefyd yn cael ei gynnwys fel rhan o bolisi defnydd mewnol yr iaith Gymraeg newydd sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i helpu i ddarparu'r canllawiau diweddaraf i staff.

### Safonau 8-22

Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r gofyniad i ystyried pwysigrwydd dewis iaith wrth ymdrin â galwadau ffôn gydag aelodau'r cyhoedd. Mae adnoddau wedi cael eu rhannu'n fewnol ar sut i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Mae canllawiau fideo wedi'u diweddaru wedi'u rhannu ar dudalen Gymraeg fewnrwyd y Gwasanaeth, Hwb Tân, a byddant yn cael eu cynnwys yn ein bolisi defnydd mewnol yr iaith Gymraeg newydd. Er nad yw'n brif linellau ffôn, mae gan ein gorsafoedd tân unigol ganllawiau ar ateb y ffôn yn ddwyieithog hefyd, gyda'r pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf.

Mae'r Awdurdod yn parhau i gydnabod gwerth a budd cynnig dewis iaith fel angen mewn argyfwng ac mae'n gweithredu Ystafell Reoli gwbl ddwyieithog yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd (JCC) yn Llanelwy, er nad oes gofyniad statudol i ateb galwadau 999 yn ddwyieithog. Mae penderfyniad yr Awdurdod i fynd y tu hwn i ofynion y Safonau yn cydnabod y manteision o ran diogelwch mewn sefyllfaoedd brys pan mae'n well gan rai galwyr gyfathrebu yn y Gymraeg fel eu hiaith gyntaf.

Mae swyddi gwag yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd yn cael eu hysbysebu gydag isafswm gofyniad sgiliau Cymraeg Lefel 4  i sicrhau bod dewis iaith weithredol rhagweithiol yn cael ei gynnig i unrhyw alwr sy'n dymuno siarad Cymraeg.

Cesglir data ar faint o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cysylltu â ni yn Gymraeg, at ddibenion monitro a gwerthuso. Ar 31 Mawrth 2024, cafodd 1,042 o alwadau eu trin yn Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys galwadau 999 ac adroddiadau o losgi dan reolaeth.

Mae argaeledd y gwasanaeth hwn yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth ac mewn digwyddiadau cyhoeddus a fynychir er mwyn codi ymwybyddiaeth allanol.

[1] Mae'r safon Gwasanaeth ar gyfer sgiliau Cymraeg Lefel 4 fel a ganlyn: Cynnal sgyrsiau anffurfiol yn y Gymraeg gyda rhuglder, darllen ac ysgrifennu'n rhugl gyda chymorth meddalwedd gramadeg a sillafu er mwyn cywirdeb.

O fewn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd, mae gennym aelodau o staff sy'n gweithredu fel Hyrwyddwyr Cymraeg. Maent yn trefnu sesiynau 'Paned a Sgwrs' cyfrwng Cymraeg yn rheolaidd i'w staff ac i staff ehangach y Gwasanaeth helpu i gynnal proffil y Gymraeg a normaleiddio siarad Cymraeg yn anffurfiol yn y gweithle.




## Safonau 28-32

O ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cyfarfodydd, mae pob gohebiaeth hyrwyddo yn ddwyieithog. Er mwyn hwyluso'r hawl i fynychwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus, mae cyfieithu ar gael ar gyfer pobl ddi-Gymraeg.

Yn ystod ein hymgynghoriad cyhoeddus yn 2023 ar ein cynhaliwyd 17 o gyfarfodydd cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru ac ar-lein, gyda chyfleusterau cyfieithu wedi'u hysbysebu, cyflwyniadau dwyieithog a deunydd gwybodaeth ar gael ym mhob maes.

## Safonau 33,34

Mae hyrwyddo unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus a drefnir gennym yn cael ei wneud mor ddwyieithog, ac mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu hyrwyddo ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi trefnu digwyddiadau fel ein digwyddiadau ymgysylltu fel rhan o'n Hadolygiad or' Ddarpariaeth Frys a diwrnodau agored gorsafoedd tân lle hysbysebwyd a hyrwyddwyd pob digwyddiad gyda chydraddoldeb ieithyddol.

Cynhelir ein cyrsiau 'Biker Down' sydd newydd eu cyflwyno, gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch beiciau modur, yn fisol yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl o fis Ebrill i fis Hydref ac mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth a thrwy gyfrwng tudalen ddwyieithog dynodedig ar y wefan ar gyfer diogelwch beiciau modur. Mae taflenni a phosteri a ddosberthir ledled Gogledd Cymru mewn lleoliadau sy'n boblogaidd gyda beicwyr modur hefyd yn ddwyieithog.

## Safonau 62-64

Mae polisi gwasanaeth yn nodi bod yn rhaid i staff sydd â swyddi sy'n delio â'r cyhoedd yn uniongyrchol fod yn rhugl yn y Gymraeg (sgiliau Lefel 4 ac uwch). Ar 31 Mawrth 2024, roedd gennym 89 aelod o staff yn llenwi'r swyddi dynodedig yma o fewn y Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol (92) o ganlyniad i ailstrwythuro swyddi.

# Safonau Gweithredol:

Gellir gweld yr Hysbysiad Cydymffurfio sy'n rhestru'r safonau hyn ar wefan y Gwasanaeth. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â'n defnydd mewnol o'r Gymraeg. Maent yn gosod dyletswydd arnom i annog defnydd o'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth ac i gefnogi ein swyddogion a'n cynghorwyr i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith.

Mae trefniadau wedi'u gwneud i fodloni'r Safonau Gweithredol hyn, gan gynnwys y canlynol:

## Safonau 96-101

Mae gan staff yr hawl, sy'n cael eu hyrwyddo a'u cyfathrebu'n rheolaidd yn fewnol, i dderbyn unrhyw ohebiaeth berthnasol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae ffurflenni perthnasol, sy'n ymwneud â'u cyflogaeth ar gael yn ddwyieithog a gellir eu gweld ar ein mewnrwyd Hwb Tân. Cedwir cofnod o iaith ddewisol pob aelod o staff i dderbyn gohebiaeth.

## Safonau 102 -108

Cyhoeddir polisïau newydd a diwygiedig yn fewnol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae'n ofynnol i bob polisi gael asesiad effaith integredig cysylltiedig i ganfod ei heffaith ar y Gymraeg, yn ogystal â nodi a hyrwyddo ffyrdd o greu effaith gadarnhaol ac osgoi effaith negyddol. Mae polisi newydd hefyd yn cael ei ddatblygu ar ddefnydd mewnol y Gymraeg.

## Safonau 125 – 132




O fis Ionawr 2024, mae cyrsiau Cymraeg a ddarperir gan Goleg Cambria wedi bod ar gael yn fewnol i'n staff. Mae ein staff eisoes wedi mynychu cyrsiau a hwyluswyd drwy ein partneriaid Heddlu Gogledd Cymru, fodd bynnag, mae gallu cynnig y cyrsiau hyn o fewn ein Gwasanaeth ein hunain wedi galluogi mwy o staff i fynychu a ci ddysgu termau'r Gwasanaeth iddynt.

Gall staff hefyd gael mynediad i'r deunyddiau hunan-ddysgu sydd ar gael ar ein tudalen Gymraeg fewnrwyd Hwb Tân yn ogystal â derbyn cefnogaeth gan y Swyddog Iaith Gymraeg neu hyrwyddwr iaith Gymraeg.

Cynigir sesiynau sgwrsio, gan gynnwys sesiynau 1-i-1, i hyrwyddo a chefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith mewn dwy ffordd; wyneb yn wyneb, fel arfer ar gyfer staff gweithredol sy'n ymuno mewn grwpiau. Yn ail, darperir modiwl ar-lein drwy ein platfform 'LearnPro' ar ymwybyddiaeth iaith.

Mae'r gofyniad i gynnwys y Gymraeg ar lofnodion e-bost a negeseuon 'y tu allan i'r swyddfa' yn cael ei hyrwyddo'n fewnol. Mae enghreifftiau ar gael ar ein tudalen Cymraeg fewnrwyd Hwb Tân ynghyd â logos perthnasol.

## Safon 143

Mae cwynion yn cael eu monitro a'u trin gan yr Adran Adnoddau Dynol a'r Uned Cefnogi Busnes. Mae cwynion a llythyrau gwerthfawrogiad yn cael eu hadrodd bob blwyddyn i'r Awdurdod Tân ac Achub.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2023-2024 mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi gweithdrefn gwyno ar ein gwefan ac mae ganddo hefyd bolisi mewnol ar gyfer staff ar sut i godi pryder neu gŵyn.

## Safon 147, 150, 151

Ar 31 Mawrth 2024, roedd 88.2% o'n staff yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg (Lefel 1 ac uwch), gyda 38.6% ohonynt yn siaradwyr rhugl (Sgiliau Lefel 4 a 5). Mae hyn wedi cynyddu o'i gymharu â 37% yn y flwyddyn flaenorol.

At ei gilydd, roedd gan 97.9% o'n staff naill ai record ffurfiol neu hunanasesu am eu sgiliau Cymraeg.

Mae'n bosibl na fyddai staff sydd wedi cael eu cyflogi am lai na 12 mis wedi cael eu hasesu gan fod polisi Gwasanaeth yn golygu bod ganddynt tan ddiwedd eu cyfnod prawf i gyflawni'r lefel sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer eu swydd. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth 2024, aseswyd 98.7% o'n staff gyda llai na 12 mis o wasanaeth.

Asesir sgiliau Cymraeg pob aelod newydd o staff naill ai yn gynnar ar ôl neu cyn eu penodiad lle mae rhuglder Cymreig yn rhan o'u rôl, neu'n hwyrach yn ystod eu cyflogaeth. Mae'n ofynnol i staff nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg Lefel 2 o leiaf ddatblygu'r sgiliau hyn yn ystod eu cyfnod prawf. Mae sgiliau Cymraeg yn rhan o'r gofynion prawf.

Mae adnoddau hunan-ddysgu ar gael yn ogystal â chyrsiau hyfforddi pellach os digwydd bod staff yn ei chael hi'n anodd datblygu eu sgiliau.





# Penodiadau a dyrchafiadau diweddar

Mae sgiliau Cymraeg ein staff yn ystod dyrchafiad a recriwtio yn cael eu holrhain er mwyn nodi'r angen am ddatblygu sgiliau.

Yn ystod y cyfnod 2023-24, penodwyd un aelod gweithredol o staff a oedd ar lefel is o ran y sgiliau gofynnol ar gyfer y swydd. Mae'r aelod staff hwn yn derbyn cymorth datblygu sgiliau Cymraeg i gyflawni'r lefel ofynnol erbyn diwedd eu cyfnod prawf.

Mae bob swydd wag sydd wedi'i llenwi ar gyfer y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd lle mae rhuglder Cymraeg yn ofyniad hanfodol, ar yr isafswm gofynnol o Lefel 4.

O fewn ein gwasanaethau corfforaethol, cafodd dwy rôl lle'r oedd angen Lefel 4 rhuglder Cymru eu llenwi yn ystod 2023-24. Cafodd un ei lenwi ar y lefel sgiliau Cymraeg gofynnol, a llenwyd yr ail yn is na'r lefel sgiliau Cymraeg yn dilyn tri ymdrech recriwtio aflwyddiannus. Darperir cymorth i staff sy'n disgyn islaw'r categori gofynnol i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

O fewn rolau arweinyddiaeth y Gwasanaeth, cafwyd dau ddyrchafiad yn ystod y flwyddyn, gydag un aelod o staff yn bodloni'r meini prawf iaith ac un arall yn derbyn cymorth ar sail un i un i ddatblygu eu sgiliau i gyflawni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd.

# Monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth

Mae monitro a hyrwyddo'r Gymraeg ymysg staff yn cael ei gyflwyno'n fewnol mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg i'r cyhoedd hefyd yn cael eu hyrwyddo a'u hamlygu drwy ymgyrchoedd allanol

- Mae cynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg yn cynnig lwfans i aelodau staff sy'n rhan o'r cynllun i wobrwyo eu hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn eu hadrannau neu orsafoedd tân. Lleolir Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg ar draws ardal y gwasanaeth. Maent yn helpu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith, i gefnogi staff gydag asesiadau Cymraeg, a hefyd i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg i staff eraill. Mae'n ofynnol i Hyrwyddwyr y Gymraeg gyflwyno ffurflen gorchwyl chwarterol yn nodi eu cyflawniadau er mwyn derbyn eu lwfans ac mae hyn yn rhoi cipolwg ar y gwaith hyrwyddo a wneir rhwng staff.

- Yn gynharach eleni, cwblhaodd tri aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth, gan gynnwys y Dirprwy Brif Swyddog Tân Stewart Forshaw, Rheolwr Ardal Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio a Pherfformio, a'r Cynorthwyydd Gweithredol Lisa Allington, y cwrs Lefel 3 Cymraeg a ddarparwyd gan Heddlu Gogledd Cymru a Choleg Cambria yn llwyddiannus. Rydym bellach wedi sicrhau bod cyrsiau'n cael eu cynnal yn fewnol er mwyn hwyluso staff i allu datblygu eu sgiliau Cymraeg.

- Cafodd Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg eu hannog eleni i ddefnyddio mwy o Gymraeg o fewn eu hadrannau neu orsafoedd tân drwy ddefnyddio'r adnodd gair Cymraeg newydd o'r dydd. Mae bwrdd gwyn yn helpu i hwyluso hyn sy'n annog staff i rannu enghreifftiau o sut mae'r geiriau'n cael eu defnyddio yn y gweithle.




- Mae'r bwletin misol 'Dydd Mercher Cymraeg' yn rhannu gwybodaeth am y Gymraeg i staff, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a sut i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Hefyd wedi'i gynnwys o fewn y bwletin, ceir adran yn atgoffa staff o Safonau'r Iaith Gymraeg a ffyrdd y gallant sicrhau cydymffurfiaeth e.e. llofnodion e-bost dwyieithog ac allan o'r swyddfa. Gan dadansoddi'r data o'r flwyddyn ddiwethaf , mae'n dangos bod y bwletin hwn, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn derbyn 242 o agoriadau unigryw ar gyfartaledd a 169 o gliciau unigryw i wybodaeth bellach sydd wedi'i chynnwys ynddo.

  Yn ogystal, mae cylchlythyr chwarterol 'Tanio Sgwrs' sydd yn Gymraeg ond gyda geirfa Saesneg i gynorthwyo ei ddarllen, yn cael ei anfon at staff sy'n cynnwys gwybodaeth am ein hyrwyddwyr iaith Gymraeg, dysgwyr a siaradwyr newydd yn y gwasanaeth, a gwybodaeth berthnasol eraill.



- Yn ystod mis Rhagfyr 2023, cymerodd y Gwasanaeth ran mewn [ymgyrch cyfryngau cymdeithasol cenedlaethol](#) i hyrwyddo Diwrnod Hawliau'r Gymraeg a hyrwyddo ein hymrwymiad at ddewis iaith, yn fewnol ac yn ein cymunedau. Roedd ein staff yn ymddangos mewn fideos sy'n cael eu hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at y ffaith bod gan bobl ddewis i'w defnyddio Cymraeg gyda ni wrth dderbyn a defnyddio ein gwasanaethau. Er mwyn hyrwyddo hyn yn fewnol, cynhyrchwyd fideo i dynnu sylw at yr hyn y mae Safonau'r Gymraeg yn ei olygu i'n staff.







- Cymerodd y Swyddog Iaith Gymraeg ran mewn [fideo hyrwyddo dwyieithog](#) er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swydd Gweinyddwr Cymorth Busnes a oedd yn gofyn am ruglder yn y Gymraeg. Mae pwysigrwydd sgiliau Cymraeg hyderus yn hanfodol i'r rôl hon gan ei fod yn ymwneud â delio â phobl a pherchnogion busnesau lleol sy'n dewis i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â ni. Roedd y fideo hefyd yn cynnwys ein staff presennol a thrwy ddangos eu gallu Cymreig, roedd gan ddarpar ymgeiswyr well dealltwriaeth o lefel y Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer y swydd






- Roedd dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn 2024 yn cynnwys ein staff yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnwyd yn lleol ac yn cynnal digwyddiadau mewnol i helpu i hyrwyddo'r diwrnod diwylliannol Cymreig hwn gyda staff.

  Eleni darparwyd cennin Pedr sidan i holl staff eu gwisgo, gan ddod â ni at ein gilydd fel Gwasanaeth i'w ddathlu. Daeth criwiau a staff at ei gilydd hefyd i gymryd rhan ym mharêd Dewi Sant yng nghanol tref Wrecsam.




- Mae ymgysylltu â staff yn ystod digwyddiadau cenedlaethol Cymru yn rhan allweddol o hyrwyddo ein hymrwymiad tuag at ddewis iaith. Cynhaliwyd cwis Cymreig ar Ddydd Gŵyl Dewi i staff, a oedd yn cynnwys y cyfle i ennill hamper cynnyrch Cymreig. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â staff ar draws y Gwasanaeth ac yn arwain at fwy o ymgysylltu â thudalennau cyfathrebu mewnol Cymraeg.

- Fel rhan o ddathliadau ehangach, cynhaliwyd dau weithdy staff i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith staff ac asiantaethau partner yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2024, un yn Wrecsam yn Nhŷ Pawb ac un ar Ynys Môn ym Mharc Gwyddoniaeth, Gaerwen. Roedd y gweithdai 'Tanio Sgwrs' hyn ar gael i staff ar hyd a lled y Gwasanaeth gan roi cyfle iddynt ddysgu mwy am y Gymraeg fel iaith fodern a ffyniannus mewn sfferau y tu hwnt i'r gweithle, fel technoleg.

  Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Stephen Rule (Doctor Cymraeg) sy'n awdur ac athro Cymraeg, yr Athro Llusern, diddanwr Cymraeg lleol sydd hefyd yn gweithio ym maes hyrwyddo'r Gymraeg yn y Ardal Sir y Fflint, a Sasha Wanasky, ymchwilydd o Brifysgol Bangor sy'n gweithio ar ddatblygiad adnabod lleferydd Cymraeg.

  These opportunities gave staff an insight into wider Welsh language initiatives as well as a chance to use Welsh with colleagues. Partner organisations attended and were able to share examples of how they promote the Welsh language within their organisations.











- Cyflwynir gwobr 'Cyfraniad i'r Gymraeg' yn ein Seremoni Gwobrau Cymunedol flynyddol i aelod o staff sydd wedi dangos ymroddiad i'r Gymraeg. Yn 2023, cyflwynwyd y wobr ar y cyd i aelodau staff o'r Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd. Dau o'n Hyrwyddwyr Gymraeg sydd wedi gweithio'n ddiwyd yn y gweithle i sicrhau bod staff yn gallu siarad Cymraeg â'i gilydd yn anffurfiol drwy gynnal cyfleoedd rhithiol o 'Paned a Sgwrs'.

- Un o'n prif ffyrdd o ymgysylltu â'r gymuned yw drwy gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach (SAWCs) yn eu cartrefi. Mae nifer y SAWCs a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi ychydig yn ystod 2023-24 i 1,852, o'i gymharu â 1,802 yn 2022-23. Fodd bynnag, roedd gostyngiad yng nghanran yr archwiliadau Cymraeg fel cyfran

o’r holl archwiliadau i 9.3%. Gan gymharu, 10.1% oedd canran y SAWC’s Cymraeg yn y flwyddyn flaenorol. O’i gymharu â blynyddoedd blaenorol, nodir bod y nifer sy’n manteisio ar y cynnig o SAWC yn Gymraeg yn gostwng yn raddol bob blwyddyn.

Er mwyn ymdrechu i wella ar nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd yn Gymraeg, mae ymdrechion targedu yn cael eu cyflwyno i hyrwyddo argaeledd SAWCs yn Gymraeg, gan roi sylw arbennig i dynnu sylw at ddewis iaith gyda’r asiantaethau sy’n gwneud atgyfeiriadau SAWC i’r gwasanaeth tân ac achub. Ar ein ffurflen atgyfeirio ar-lein, ychwanegwyd cwestiwn sy’n benodol i ddewis iaith ar gyfer yr ymweliad. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud gyda’n hasiantaethau partner i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gynnig gan bob trydydd parti. Bydd staff sy’n weithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref hefyd yn derbyn mewnbwn ar y cynnig gweithredol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg fel rhan o’u sesiynau hyfforddi diwrnod datblygu, a ddarperir gan Swyddog Iaith Gymraeg.



- Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â chynhyrchwyr teledu o Gymru, Rondo, mewn cydweithrediad ar gyfer stori ar yr opera sebon poblogaidd ‘Rownd a Rownd’. Staff Gweithredol a Chorfforaethol sydd wedi’u cynnwys mewn penodau fel rhan o’r stori, sy’n hanfodol ar gyfer rhannu negeseuon atal, hyrwyddo recriwtio, a dangos ein bod yn wasanaeth dwyieithog sydd wedi ymrwymo i godi proffil y Gymraeg yn fewnol gyda’n staff a gyda’r gymuned ehangach.

  Roedd hyn yn ddilyniant o bennod flaenorol a oedd yn cynnwys ein staff ar gyfer amlygu bwysigrwydd larymau mwg a pheryglon tanau cannwyll.

- Ymunodd aelodau o’n Hawdurdod Tân ac Achub â chynrychiolwyr ein Rhwydweithiau Staff a’r Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaeth ar gyfer seminar yn canolbwyntio ar ddiwylliant ym mis Chwefror. Roedd hyn yn canolbwyntio ar dynnu sylw at y camau yr ydym yn eu cymryd i feithrin y diwylliant gorau posibl yn ein sefydliad a chodi ymwybyddiaeth o ble rydym yn fel Gwasanaeth o ran ein taith ddiwylliannol.

  Roedd cyfle i aelodau Awdurdod Tân ac Achub sy’n ein dwyn i gyfrif i roi gwybod i ni am unrhyw waith ychwanegol yr hoffent i ni ei wneud. Fel rhan o’r sesiwn, darparodd arweinwyr y Rhwydwaith Staff Gwasanaeth ddiweddariadau ar eu gwaith yn ogystal â chyflwyniad ar ein hymrwymiad i’r iaith Gymraeg - y mae pob un ohonynt yn hanfodol i’n diwylliant. Roedd hon yn ffordd wych o roi gwybod i Aelodau’r Awdurdod am sut ydym yn hyrwyddo’r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth a pha waith sy’n cael ei wneud.

# Datblygiad sgiliau'r Gymraeg

Mae'r Adran Hyfforddiant a Datblygu yn cadw cofnod o'r cyrsiau Cymraeg y mae ein staff yn eu mynychu a'r holl asesiadau y maent wedi'u cynnal ac yn cadw cofnodion o'r canlyniadau ar system recordio fewnol. Yn ogystal, mae cofnod o'r hyfforddiant penodol ar ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg sy'n cael ei gadw.

Yn dilyn asesiad iaith Gymraeg, cofnodir gallu'r staff wedyn ar y system rheoli gwybodaeth staff, iTrent a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth fewnol am staff fel ceisiadau am absenoldeb a thaflenni amser.

Mae cyrsiau Cymraeg bellach yn cael eu hwyluso'n fewnol trwy gydweithrediad â Choleg Cambria ac maent ar gael ar gais gan staff. O fewn cylch yr adroddiad hwn, bu i'r cwrs cyntaf o'r fath yma ddigwydd ym mis Ionawr 2024, gyda mwy wedi eu blaengynllunio ar gyfer Haf 2024.

Mae sesiynau datblygu'r Gymraeg gyda'r Swyddog Iaith Gymraeg hefyd ar gael hyd at Lefel 3 Cymraeg. Gall unrhyw aelod o staff y Gwasanaeth, neu adran/gwylfa gyfan, trefnu'r rhain ar sail grŵp neu 1-2-1.

# Edrych tua'r dyfodol

Mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u nodi fel cyfleoedd i ni wrth symud ymlaen:

- Ym mis Gorffennaf 2024 byddwn yn gweld y cyrsiau Cymraeg newydd ar gyfer Cymraeg lefel 2 a 3 ar gael yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl.
- Adnabod staff sydd â sgiliau Cymraeg wedi'u cofnodi ar Lefel 0 ac 1 a chysylltu â nhw, gan gynnig cymorth i ddatblygu ymhellach.
- Cyflwyno polisi newydd ar ddefnydd mewnol y Gymraeg i helpu staff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.
- Mwy o gydnabyddiaeth i staff am lwyddiant mewn cyflawniad yn dilyn mynychu cyrsiau Cymraeg ac hyrwyddo neu llwyddo yn y Gymraeg
- Cysylltu ag asiantaethau allanol i sicrhau eu bod yn ystyried dewis iaith wrth wneud atgyfeiriadau ar gyfer archwiliadau diogel ac iach.

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r
   (i) Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer 2025/26 i'r Aelodau; a
   (ii) cheisio cymeradwyaeth i ymgynghori â'r cyhoedd ar ein hamcanion gwella a llesiant arfaethedig.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O dan Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016, un o'r prif amcanion ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

3 Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, drwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth. Mae'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr amcanion hyn.

4 Mae'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gyrff Cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant ac adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant.

5 Mae Cylchlythyr Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru rhif: W-FRSC(2024)06 yn nodi y gellir cyflawni'r dyletswyddau o dan Fesur 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 trwy gyhoeddi un adroddiad.

6 Talwyd sylw i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, ac ymgynghorwyd â'r undebau llafur perthnasol yng nghamau ffurfiannol y broses gosod amcanion. Mae'r undebau llafur

hefyd wedi cael fersiwn drafft o Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 a disgwylir eu hymateb i'r amcanion arfaethedig. Rhoddir gwybod i'r Awdurdod Tân ac Achub am unrhyw ymateb yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

7 Nid yw Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 wedi bod gerbron y panel gweithredol oherwydd y cyfyngiadau amser yn sgil sicrhau bod y cylch cynllunio yn cyd-redeg â'r broses o bennu cyllideb.

**ARGYMHELLIAD**

8 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

(i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a

(ii) Chymeradwyo Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft 2025/26 ar gyfer ymgynghori ag Aelodau'r Awdurdod Tân, staff, undebau llafur perthnasol, rhanddeiliaid a'r cyhoedd cyn eu cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2025.

**CEFNDIR**

9 Wedi iddynt gael eu cymeradwyo, bydd yr amcanion sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 yn sail i weithgarwch yr ail flwyddyn tuag at gyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol pum mlynedd 2024-29, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024.

**GWYBODAETH**

10 Mae'r gwaith o ddatblygu amcanion gwella a llesiant, ac ymgynghori arnynt wedyn, wedi'i symud ymlaen er mwyn sicrhau bod y gwaith o osod amcanion yn cyd-redeg â chylch cynllunio'r gyllideb. Dylai'r ffaith eu bod yn cyd-redeg liniaru unrhyw wariant sylweddol yn ystod y flwyddyn, yn gysylltiedig â chyflawni'r amcanion, nad oedd wedi'i ragweld.

11 Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar wefan yr Awdurdod Tân ac Achub, gan ddefnyddio rhaglen Microsoft 365, a bydd yn cael ei gynnal rhwng 22 Hydref ac 16 Rhagfyr 2024.

12 Bydd yn cael ei gefnogi gan gyfathrebu mewnol ac allanol gan gynnwys defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

13 Y bwriad yw y bydd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol drafft ar gyfer 2025/26 yn dilyn trefn ymgynghori fewnol ac allanol y Gwasanaeth ac yn cynnwys Aelodau'r Awdurdod Tân, y cyhoedd, staff a rhanddeiliaid perthnasol eraill i roi adborth, cyn ei gyhoeddi yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2025.

14 Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael yn ogystal â fformat hygyrch, hawdd ei ddeall.

15 Paratowyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Economaidd-Gymdeithasol a chaiff ei gyhoeddi ynghyd â'r dogfennau ymgynghori.

16 Mae Asesiad Effaith Diogelu Data wedi'i gwblhau mewn cysylltiad ag unrhyw ddata personol a fydd yn cael ei gasglu yn ystod yr ymgynghoriad.

17 Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben bydd yr adborth yn cael ei asesu a bydd unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i Gynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26.

18 Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i Banel Gweithredol yr Awdurdod Tân ar 17 Mawrth 2025 i'w chymeradwyo a'i dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

19 Bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod Tân llawn i'w chymeradwyo a'i chyhoeddi ym mis Ebrill 2025.

20 Ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, bydd cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024/29 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 yn cynnwys datganiad Llesiant fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf. |
| **Cyllideb** | Dylai'r ffaith bod y cylch gosod amcanion blynyddol yn cyd-redeg â chylch cynllunio'r gyllideb liniaru unrhyw wariant sylweddol yn ystod y flwyddyn, yn gysylltiedig â chyflawni'r amcanion, nad oedd wedi'i ragweld. |
| **Cyfreithiol** | Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025/26 wedi'i baratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.<br>GDPR – Mae Asesiad Effaith Diogelu Data wedi'i gwblhau a'i adolygu gan y Swyddog Diogelu Data. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Paratowyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a bydd yn cael ei gyhoeddi ar adeg ymgynghori a chyhoeddi. |
| **Risgiau** | Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol

## Amcanion Llesiant a Gwella

## 2025 - 2026

**Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel – dweud eich dweud**

| POBL | ATAL | DIOGELU | YMATEB | AMGYLCHEDD |
|---|---|---|---|---|

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Ein Gwasanaeth | 3 |
| Ein Staff | 4 |
| Ardal Ein Gwasanaeth | 4 |
| Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth | 5 |
| Ein Risgiau a'r Galw | 7 |
| Ein Hegwyddorion | 7 |
| Ein Hegwyddor Pobl | 8 |
| Ein Hegwyddor Atal | 10 |
| Ein Hegwyddor Diogelu | 11 |
| Ein Hegwyddor Ymateb | 12 |
| Ein Hegwyddor Amgylcheddol | 13 |
| Nodau Llesiant Cymru – Sut rydym yn cyfrannu | 14 |
| Sut i Roi Adborth | 17 |













# Cyflwyniad

Un o'r prif amcanion ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yw mynd ati'n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg ac i wella diogelwch dinasyddion a chymunedau.

Nod y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) yw nodi'r risgiau sy'n wynebu'r gymuned, ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

Ym mis Gorffennaf 2024, cafodd ein CRMP pum mlynedd ei gyhoeddi, yn sgil ymgynghoriad â'r cyhoedd, yn ogystal â'n Cynllun Gweithredu ar gyfer 2024-25, a oedd yn cynnwys amcanion gwella a llesiant a fyddai yn ein galluogi i gyflawni yn erbyn ein hamcanion hirdymor. Mae'r ddau gynllun i'w cael yma.

Y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer 2025-26 yw'r ail gynllun blynyddol i gynnwys amcanion sy'n cyflawni yn erbyn amcanion CRMP 2024-29.

# Ein Gwasanaeth

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys 28 o gynghorwyr etholedig o chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru, gyda nifer y cynrychiolwyr yn cael eu pennu gan boblogaeth yr ardal. Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal ddiogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Gallwch ddarllen mwy am ein strwythur a'n trefniadau llywodraethu, gan gynnwys rôl yr Awdurdod Tân ac Achub, yma.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Brif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r tîm hwn yn cynnwys uwch swyddogion a rheolwyr sy'n gyfrifol am adrannau sy'n gofalu am swyddogaethau gweithredol a chorfforaethol allweddol ein Gwasanaeth.

# Ein Staff

Mae ein diffoddwyr tân yn ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ac argyfyngau eraill o 44 o orsafoedd tân ar draws Gogledd Cymru. Mae gennym 54 injan dân. Mae gan rai o'n gorsafoedd tân ddwy injan dân. Mae gan orsafoedd eraill gerbydau arbenigol fel peiriannau ag ysgol ac esgynlawr, cerbydau cefnogi digwyddiadau neu gychod, yn dibynnu ar y risg yn eu hardal.



Gallwch ddarllen mwy am waith y rhai sy'n ymateb i argyfyngau a'r bobl sy'n sicrhau bod y Gwasanaeth yn rhedeg yn dda, boed nhw'n ddiffoddwyr tân neu'n arbenigwyr busnes, yma.

# Ardal Ein Gwasanaeth

Mae Gogledd Cymru yn ardal o 6,172 cilomedr sgwâr sydd â phoblogaeth o 687,000, ac sydd â chryn amrywiaeth yn ei thirwedd, gan gynnwys mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri, ardaloedd arfordirol, cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol mawr.

Mae gogledd Cymru'n cynnwys chwe sir: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r A55 yn rhedeg trwy bump o'r chwe sir, ac mae'n ffordd sy'n rhan o un o'r llwybrau hiraf yn Ewrop, gan ymestyn o Gaergybi i Ddwyrain Ewrop. Gallwch ddarllen mwy am ein daearyddiaeth a'n demograffeg yma.



# Ein Llywodraethu a Deddfwriaeth

Fel pob corff arall yn y sector cyhoeddus, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru weithredu yn unol â nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth. Gallwch ddarllen mwy am y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein Gwasanaeth yma.

Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud trefniadau ar gyfer gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau, a hynny trwy osod amcanion gwella iddo'i hun ym mhob blwyddyn ariannol yn erbyn o leiaf un o saith swyddogaeth.

Ar ben hynny, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymgynghori â'r cyhoedd ar ei amcanion gwella arfaethedig. Ceir manylion am sut y gallwch roi adborth ar ein hamcanion arfaethedig yma.

Mae asesiad o'n perfformiad yn erbyn ein hamcanion llesiant a gwella blaenorol i'w gael yn ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol 2023-24, yma.

Mae ein hamcanion ar gyfer 2025-26 hefyd wedi'u datblygu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.




## Datganiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rydym wedi ymroi i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan groesawu'r dyletswyddau a'r gwaith a ddaw o fod yn bartner statudol ar draws tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydyn ni'n deall diben a nod y Ddeddf, ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau ar gymunedau ardal y Gwasanaeth.

O ganlyniad, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, byddwn yn ystyried effeithiau posibl y penderfyniadau hyn ar y bobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru, yn awr ac yn y dyfodol. Hefyd, byddwn yn cofio bod angen ystyried amrywiaeth cyfoethog y bobl sy'n byw, sy'n gweithio, ac sy'n ymweld â Gogledd Cymru, a byddwn yn parhau i gydweithio ag eraill er mwyn helpu'r Awdurdod i wireddu ei Amcanion a, pan fo'n berthnasol, i helpu eraill i wireddu eu hamcanion hwy.

## Cymru Lewyrchus

Trwy ein **Hegwyddorion Atal a Diogelu**, byddwn yn gwneud gwaith arloesol i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi a'u busnesau. Trwy leihau'r costau sy'n gysylltiedig â marwolaethau, difrod, anafiadau a tharfu yn sgil tân, byddwn yn gwella ein cefnogaeth i economïau lleol Gogledd Cymru.

## Cymru Gydnerth

Mae ein **Hegwyddor Amgylcheddol** a'n hamcanion sylfaenol yn cyfrannu tuag at greu Cymru Gydnerth trwy fabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon. Trwy ein **Hegwyddor Amddiffyn** byddwn yn ymdrechu i leihau'r nifer o danau gwyllt, a thrwy hynny wella ansawdd aer a gwarchod cynefinoedd naturiol ac ecosystemau.

## Cymru Sy'n Fwy Cyfartal

Gyda'n **Hegwyddor Pobl**, byddwn yn recriwtio, yn datblygu ac yn cadw gweithlu medrus, dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Byddwn hefyd yn nodi potensial staff ac yn gwneud y mwyaf ohono drwy reoli a datblygu pobl yn effeithiol, gan arwain at ddiwylliant o berfformiad uchel, lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu ei gilydd, a thrwy hynny gyfrannu at Gymru sy'n fwy Cyfartal. Byddwn yn parhau i ymgynghori â staff, undebau llafur a'r cyhoedd ar faterion a chynigion statudol a allai gael effaith sylweddol ar y gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd.

## Cymru Iachach

Byddwn yn cyfrannu at greu Cymru Iachach gyda'n **Hegwyddor Atal**, trwy ddarparu archwiliadau diogel ac iach i'r dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed, a thrwy wneud i bob cyswllt gyfrif trwy rannu unrhyw bryderon iechyd a llesiant a nodir gyda phartneriaid perthnasol.

Trwy gynnal ymgyrchoedd aml-asiantaethol, ar sail gwybodaeth, sy'n targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn Gwrthdrawiadau ar y Ffordd neu ddigwyddiadau boddi mewndirol, byddwn yn lleihau'r risg o farwolaeth ac anafiadau difrifol.

Trwy ein **Hegwyddor Pobl** byddwn yn cefnogi ein gweithlu i fod yn ffit yn gorfforol ac yn wydn yn feddyliol, a thrwy ein **Hegwyddor Ymateb** byddwn yn gwella darpariaeth frys yn ein hardaloedd mwy gwledig a llai poblog.

## Gymru o Gymunedau Cydlynus

Trwy ein **Hegwyddorion Atal, Diogelu, Ymateb ac Amgylcheddol** byddwn yn cyfrannu at greu Cymru o Gymunedau Cydlynus, gan sicrhau bod tanau mewn cartrefi, busnesau neu ar dir agored naill ai'n cael eu hatal, neu trwy leihau eu heffaith cymaint ag sy'n bosibl.

### Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Bydd ein **Hegwyddor Pobl** yn cyfrannu at greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a hynny trwy gynnig mynediad at ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg a thrwy ganiatáu i bobl gyfathrebu â ni yn y Gymraeg, gan gefnogi ein staff i siarad eu hiaith ddewisol yn y gweithle a chynnig cyfleoedd i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

### Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Trwy ein **Hegwyddor Amgylchedd**, byddwn yn chwarae ein rhan mewn Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. Byddwn yn lleihau ein hallyriadau carbon ein hunain trwy newid ein fflyd o Injanau Tân diesel fel eu bod yn rhedeg ar Olew Llysiau wedi'i Drin â Hydrogen, trwy brynu ceir a faniau allyriadau sero neu isel iawn yn unig, a thrwy gael gwared ar wres nwy a Nwy Petroliwm Hylif o'n hystad yn raddol.

Gyda'n **Hegwyddorion Atal a Diogelu**, byddwn yn sicrhau bod Gogledd Cymru yn ddiogel drwy gynnal gweithgareddau ataliol, a hynny gan flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau a thrwy fod yn barod i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Cymunedol.

Trwy ein gwaith **Diogelu**, byddwn yn ceisio osgoi neu gyfyngu ar allyriadau o nwyon niweidiol i'r atmosffer o ganlyniad i danau gwastraff diwydiannol neu amgylcheddol.

Trwy ein **Hegwyddor Diogelu**, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gadw safleoedd ac adeiladau treftadaeth yn ddiogel rhag tân.

# Ein Risgiau a'r Galw

Mae'r gwaith o gyflawni ein hamcanion blwyddyn wedi'i gynllunio i liniaru rhai o'r risgiau a nodwyd fel rhan o ddatblygiad ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol. Gallwch ddarllen am sut rydym yn asesu risg a galw yma.

# Ein Hegwyddorion




Mae ein Gwerthoedd Craidd wedi ein tywys tuag at fabwysiadu pum Egwyddor. Trwy'r egwyddorion hyn, byddwn yn darparu gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel i'n cymunedau ac i'r bobl sy'n ymweld â Gogledd Cymru ac yn gweithio yma. Datblygwyd ein Hegwyddorion yn dilyn ymgynghoriad mewnol a byddant yn ein cynorthwyo i liniaru'r risgiau i'n cymunedau ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar wella o fewn ein Gwasanaeth dros y pum mlynedd nesaf. Gallwch ddarllen mwy am ein Hegwyddorion yma.

# Ein Hegwyddor Pobl

***Bod yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau cywir.***

Sicrhau gweithlu medrus iawn drwy recriwtio, datblygu a chadw gweithlu dwyieithog, llawn cymhelliant sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo amrywiaeth y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2025-26?

- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys darparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a thrwy hyrwyddo gweithgareddau, yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer gwella, yn dilyn arolwg staff Teulu Tân 2023.
- Cynllunio a chynnal arolwg staff Teulu Tân 2025.
- Cyfathrebu'r argymhellion a'r camau gweithredu sy'n deillio o adolygiad diwylliant annibynnol CREST.
- Parhau i gynnal proses gadarnhaol a chefnogol i wella presenoldeb, a hynny trwy ddarparu cymorth iechyd a lles galwedigaethol rhagorol.
- Trawsnewid y Gwasanaeth a'i adnoddau er mwyn llywio'r galw am bobl a sgiliau yn y dyfodol, ac i alluogi'r Gwasanaeth i ddatblygu ac i adeiladu yn effeithlon ar y gweithlu presennol ac ar lwyfannau presennol er mwyn ateb y galw hwnnw.
- Mynd i'r afael â phroffil seiberddiogelwch systemau'r Gwasanaeth a'i gynnal, gan alinio â bygythiadau seiber sy'n esblygu.
- Darparu hyfforddiant technegol, sy'n cynnwys cyflwyno ymgyrch gwe-rwydo, hyfforddiant seiber, a hyfforddiant TG pwrpasol.
- Ysgrifennu Adroddiad Partneriaeth Gymdeithasol a gaiff gymeradwyaeth yr Awdurdod Tân, a hynny er mwyn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru.
- Parhau â'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Halogyddion mewn perthynas â'r halogyddion tân a grëir gan yr holl danau, ac i ddatblygu'r arferion gorau a geir o ddysgu Rhanbarthol a Chenedlaethol.

- Datblygu Strategaeth Hyfforddiant a Datblygu 2026-2029.
- Parhau i feithrin diwylliant cynhwysol yn y gweithle sy'n grymuso pob aelod o staff i ragori ac i fodloni anghenion amrywiol ein cymunedau yn effeithiol.
- Datblygu a chyflawni gofynion Deddf Caffael 2023.
- Nodi a gweithredu gwelliannau digidol i effeithlonrwydd swyddogaeth y gyflogres.
- Datblygu'r broses cynllunio ariannol.
- Monitro canlyniadau trawsnewid a rheoli newid.

**Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:**

- Effeithiolrwydd Strategol, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd



# Ein Hegwyddor Atal

***Gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel.***

Lleihau'r risgiau i'n cymunedau, yn enwedig i'r bobl hynny a allai fod yn fwy agored i niwed, drwy ein rhaglenni ymyrraeth sefydledig fel Archwiliadau Diogel ac Iach a Phrosiect Ffenics.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2025-26?

- Defnyddio data uchel o ran ei ansawdd i gefnogi gweithgareddau diogelwch tân, yn enwedig y dull newydd sy'n seiliedig ar risg i nodi ac i gynnal o leiaf 17,500 o Archwiliadau Diogel ac Iach lefel uchel.
- Darparu ymyriadau diogelwch yn y cartref sy'n seiliedig ar wybodaeth ac sy'n targedu'r preswylwyr mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Byddwn yn cyflawni 12 ymgyrch aml-asiantaethol wedi'u targedu ar draws Gogledd Cymru.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer ardaloedd lleol yn unol â Chynllun Rheoli Risg Cymunedol 2025-29.
- Cynnal 12 o ymgyrchoedd aml-asiantaethol sy'n seiliedig ar wybodaeth ac sy'n targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod mewn Gwrthdrawiadau ar y Ffordd neu ddigwyddiadau boddi mewndirol.
- Darparu pecynnau ymyrraeth gynnar pwrpasol sydd wedi'u hachredu gan Ymddiriedolaeth y Tywysog, gan ddefnyddio dull sy'n ystyriol o drawma er mwyn meithrin plant a phobl ifanc sy'n fwy diogel, sy'n gryfach ac yn fwy gwydn.
- Darparu 12 o ddigwyddiadau Datblygu Proffesiynol Parhaus i staff drwy gydol y flwyddyn, a hynny er mwyn meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, gan eu galluogi i wasanaethu eu cymunedau lleol yn well.

**Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:**

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

# Ein Hegwyddor Diogelu

***Gwneud busnesau'n fwy diogel gyda'n gilydd.***

Darparu canllawiau arbenigol i fusnesau ar ddiogelu rhag tân i helpu i sicrhau diogelwch adeiladau, gweithwyr a chwsmeriaid, a thrwy hynny gefnogi busnesau i dyfu.  Mae adeiladau risg uchel yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer arolygiadau, gan gyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2025-26?

- Datblygu pob swyddog goruchwylio a swyddogion ar y system dyletswydd hyblyg i fod ar Lefel 2 mewn Diogelwch Tân Busnes
- Parhau i ddarparu Rhaglen Arolygu Seiliedig ar Risg sy'n defnyddio gwybodaeth er mwyn lleihau'r nifer o anafiadau a marwolaethau sy'n digwydd o ganlyniad i danau mewn eiddo domestig ac annomestig.
- Cynnal ymgyrchoedd misol i roi sicrwydd ynghylch diogelwch tân i fusnesau er mwyn hyrwyddo diogelwch mewn eiddo masnachol.
- Gweithio gydag asiantaethau partner a chynnal ymyriadau a digwyddiadau tymhorol er mwyn rheoli ein tirwedd ac i leihau'r nifer o danau gwyllt sy'n digwydd.

**Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:**

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

# Ein Hegwyddor Ymateb

*Darparu ymateb brys effeithiol.*

Bod yn barod i ymateb pan fydd arnoch ein hangen: i ddiogelu'r hyn sy'n bwysig i chi, i achub bywydau, lleihau niwed, ac amddiffyn cartrefi a busnesau.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2025-26?

- Dylunio, caffael a dosbarthu peiriannau diffodd tân sydd â gwelliannau a fydd yn darparu cab glân, gan atal halogyddion rhag cyrraedd criwiau.
- Gosod Mesuryddion Llif ar beiriannau pwmpio, mewn ymateb i'r hyn a ddysgwyd yn sgil Grenfell, ac argymhelliad gan Brif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru.
- Arwain a chydlynu gwaith i uwchraddio systemau technoleg ar draws y Gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn seiber-ddiogel ac yn addas i'r diben
- Cefnogi a gweithredu'r penderfyniadau a'r argymhellion a wneir gan Weithgor Darpariaeth Frys yr Awdurdod Tân.
- Cynyddu'r sefydliad o weithwyr ar alwad er mwyn gwella argaeledd peiriannau ar draws y rhanbarth.
- Creu amserlen o ymarferion yn unol â phroffil risg Gogledd Cymru y Fforwm Cydnerthedd Lleol.
- Parhau â'r ymateb ymgynghorol aml-asiantaethol ac i wneud gwaith rheoli risg ar gyfer systemau storio ynni a batris mawr.
- Parhau â'r rhaglen Tyrau Hyfforddi newydd.

**Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:**

- Effeithiolrwydd Strategol, Ansawdd y Gwasanaeth, Argaeledd y Gwasanaeth, Tegwch, Effeithlonrwydd ac Arloesedd.

# Ein Hegwyddor Amgylcheddol

***Diogelu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.***

Mabwysiadu arferion ecogyfeillgar yn ein gweithrediadau beunyddiol i leihau allyriadau carbon ac effeithiau amgylcheddol eraill a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff a'n cymunedau.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2025-26?

- Adolygu eitemau stoc a datblygu arferion gwaith gorau er mwyn gwella effeithlonrwydd a sut y rheolir lefelau stoc.
- Ehangu'r rhwydwaith presennol o Fannau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCP) ar draws y Gwasanaeth.
- Caffael cerbydau ysgafn er mwyn cadw'r proffil oedran ar lefel resymol ac i sicrhau bod ein fflyd o gerbydau ysgafn yn ddibynadwy, yn cyrraedd y safonau diogelwch diweddaraf ar gyfer ein staff, ac mor effeithlon ag sy'n bosibl o ran yr amgylchedd.
- Newid y cerbydau presennol sy'n defnyddio diesel i ddefnyddio olew llysiau sydd wedi'i drin â hydrogen (HVO).
- Uwchraddio'r System Rheoli Adeiladau er mwyn lliniaru effaith BT yn rhoi'r gorau i ddefnyddio llinellau copr.
- Monitro ac adrodd ar ddata ynni, dŵr a gwastraff, gan gynnwys adrodd i Lywodraeth Cymru ar adrodd ar garbon.

**Bydd y camau hyn yn bodloni Amcanion Gwella canlynol Mesur 2009:**

- Effeithiolrwydd Strategol, Cynaliadwyedd, Effeithlonrwydd ac Arloesedd

# Nodau Llesiant Cymru – Sut rydym yn cyfrannu

Dyma rai enghreifftiau o sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol:

## Cymru Lewyrchus

- Y nod wrth weithredu'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yw gwella'r ddarpariaeth frys mewn ardaloedd gwledig, gan greu cyfleoedd cyflogaeth newydd.
- Cynyddu'r sefydliad o ddiffoddwyr tân ar alwad ledled Gogledd Cymru, gan gynnig llwybrau at gyflogaeth lawn-amser
- Hyfforddi pob aelod o staff i ddefnyddio Microsoft 365 ac i fod yn seiber-ymwybodol.

## Cymru Gydnerth

- Rydym eisoes yn sicrhau nad ydym yn torri gwair rhwng Mai a Medi bob blwyddyn ar ein hystad.
- Byddwn yn dal ati i addysgu tirfeddianwyr am sut i ddefnyddio tir yn gyfrifol, gan gynnwys gadael i anifeiliaid bori a mesurau eraill sy'n atal tanau gwyllt.
- Rydym yn gosod blychau nythu ar gyfer gwenoliaid duon mewn lleoliadau priodol o amgylch ein hystad.
- Ein nod yw trosi ein Fflyd o Gerbydau Trwm i ddefnyddio Olew Llysiau wedi'i drin â Hydrogen (HVO) yn hytrach na Diesel.
- Byddwn yn ceisio trosi ein hystad fel nad oes yna systemau gwresogi sy'n defnyddio hydrocarbonau.
- Ein nod yw gosod paneli solar ffotofoltäig yn y mwyafrif o'n safleoedd erbyn 2030.

## Cymru sy'n Fwy Cyfartal

- Byddwn yn datblygu strategaeth hyfforddiant a datblygu 2026-2029 yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi, gan alluogi ein staff i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd arnyn nhw eu hangen.
- Byddwn yn defnyddio ein hymgyngoriadau â'r cyhoedd, y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, a'r arolygon Teulu Tân a gynhelir bob dwy flynedd er mwyn rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau.
- Cydraddoldeb Canlyniadau Iechyd - diogelwch tân a diogelwch ar y ffyrdd - ACE ac ymyriadau ieuenctid

## Cymru Iachach

- Byddwn yn parhau â'r gwaith o sefydlu prosesau cadarnhaol a chefnogol i wella presenoldeb, a hynny trwy ddarparu cymorth iechyd a lles galwedigaethol rhagorol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi mannau gwyrdd cymunedol drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau fel rhai casglu sbwriel, mewn partneriaeth â chymdeithasau tai a chynghorau lleol.
- Byddwn yn cynnal dadansoddiadau o ansawdd uchel er mwyn cefnogi'r defnydd o ddulliau gwell o gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach rhagweithiol, yn seiliedig ar risg.
- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn dod i ddeall esblygiad y bygythiad gan Systemau Storio Ynni Batri, a byddwn yn cynnal ymgyrchoedd i wella ymwybyddiaeth er mwyn hysbysu'r cyhoedd.
- Rydym yn rhagweithiol wrth hyrwyddo'r cynllun beicio i'r gwaith, ynghyd ag ymgyrchoedd eraill sy'n annog ffyrdd iach ac egnïol o fyw. Rydym yn annog ein staff i fyw mewn ffordd iach ac egnïol, a hynny trwy hyrwyddo cynlluniau maetheg a thrwy bennu amseroedd i ddefnyddio ein hystafelloedd ffitrwydd.

## Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Mae rhwydweithiau staff mewnol a grwpiau adnoddau yn creu llwyfannau diogel a chynhwysol lle gall pobl gael gafael ar gyngor, codi pryderon, rhannu syniadau a darparu adborth.
- Trwy ddefnyddio dylunio cynhwysol, mae ein pobl yn lleihau eu hôl troed amgylcheddol trwy weithio'n ystwyth, yn hyblyg, ac o bell. Mae ein mentrau rhannu ceir yn effeithiol ac yn helpu ein pobl i leihau costau tanwydd ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
- Mae natur y gwaith a wnawn i atal tanau yn golygu bod ein gwasanaeth yn ychwanegu llawer o werth i gymuned Gogledd Cymru, gan gynnig cyngor diogel ac iach sy'n cynnwys diogelwch, iechyd a llesiant. Hefyd, trwy wneud gwaith ymgysylltu gweithredol yn y gymuned yn ystod 2025/26, bydd ein gwasanaeth yn cyflawni rhaglenni, prosiectau ac ymgyrchoedd sy'n meithrin cymunedau sy'n iachach ac yn fwy diogel. Mae cyngor a gwybodaeth yn cael eu cyfleu gan ddefnyddio ystod o wahanol fethodolegau cyfathrebu, gan wella mynediad i wahanol fudd-ddeiliaid, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed.
- Rydym yn ychwanegu gwerth sylweddol i gymuned Gogledd Cymru drwy gynnal archwiliadau diogel ac iach, gan gael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch personol, ar iechyd ac ar les.
- Rydym yn aelodau gweithgar o amrywiaeth o rwydweithiau a fforymau sydd wedi'u sefydlu gan sefydliadau pwysig yn y gymuned. Er enghraifft, mae Tîm Cydlyniant Cymunedol Gogledd Cymru wedi sefydlu Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Cymru.

## Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

- Byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac yn hyrwyddo gweithgareddau yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog, gan gynnig cyrsiau Cymraeg yn y gweithle i staff ar lefelau 2 a 3.
- Rydym yn sicrhau bod staff rheng flaen sy'n delio'n uniongyrchol â phobl agored i niwed, fel gweithwyr yr Ystafell Reoli a Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref, oll yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig dewis iaith rhagweithiol yn unol â'r gwerthoedd a geir yn fframwaith 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru
- Drwy hyrwyddo ein gwasanaethau dwyieithog, rydym yn caniatáu i holl drigolion Gogledd Cymru ac ymwelwyr â'r ardal eu defnyddio yn eu hiaith ddewisol.
- Byddwn yn parhau i gydweithio â Mentrau Iaith ledled Gogledd Cymru i sicrhau ein bod yn amlwg mewn dathliadau neu ddigwyddiadau diwylliannol lle gall y Gwasanaeth wneud gwaith ymgysylltu

## Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

- Byddwn yn adolygu eitemau stoc yn ein Storfeydd ac yn datblygu arferion gweithio sy'n lleihau gwastraff.
- Byddwn yn parhau i newid ein fflyd o gerbydau ysgafn er mwyn defnyddio cerbydau hybrid a thrydan.
- Byddwn yn parhau i ddadansoddi cyflenwyr ar sail sgôr datblygu Cynaliadwyedd a datblygu dwysedd Carbon.
- Rydym yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy parhaus ar gyflenwyr, gan gynnwys: cydymffurfiaeth â threth ac â'r gyfraith, caethwasiaeth fodern, a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth Cyflog Byw Cenedlaethol neu Isafswm Cyflog Byw, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn gweithredu mewn modd moesegol.
- Defnyddio cyflenwyr o fewn fframweithiau sydd â Dangosyddion Perfformiad Allweddol moesegol a chynaliadwy sydd wedi'u pennu ymlaen llaw.
- Rydym wedi cyhoeddi datganiad Caethwasiaeth Fodern.
- Rydym yn cynnal gwiriadau DBS ar bob aelod o staff fel rhan o'n mesurau diogelwch, gan sicrhau ein bod yn cynnal amgylchedd diogel i'n gweithwyr ac i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

# Sut i Roi Adborth

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cynhwysfawr i geisio barn ar y cynigion a nodir yn y CRMP drafft hwn cyn i ni wneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Hoffem i chi gymryd rhan a dweud eich dweud.

Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd. Y brif ffordd o wneud fydd defnyddio'r arolwg ar-lein, sydd i'w gael yma neu trwy sganio'r cod QR.

## Fersiynau Amgen

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd

Ffoniwch neu anfonwch neges destun i **07717 516187**; neu danfonwch e-bost i **OurFivePrinciples@northwalesfire.gov.wales** – gallwn anfon copi papur o'r holiadur atoch, a gallwch ei ddychwelyd atom am ddim.

Mae fformat hawdd ei ddarllen ar gael ar ein gwefan – sydd hefyd yn cynnig gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg ac yn darparu bar offer cynorthwyol hawdd ei ddefnyddio, gan gynnwys swyddogaeth darllen yn uchel, testun mwy a'r gallu i weld yr wybodaeth mewn nifer o ieithoedd ychwanegol.

Byddwn yn croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau. Mae'r ymgynghoriad yn digwydd rhwng **21 October to 15 December 2024.**

Fel arall, gallwch roi adborth trwy gysylltu â ni ar ein gwefan www.tangogleddcymru.llyw.cymru, trwy ein ffonio ni ar **01745 535250** neu trwy ddanfon llythyr i;
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd adroddiad sy'n cynnwys yr holl adborth a dderbyniwyd yn cael ei gyflwyno i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w ystyried yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer **17 Mawrth 2025**.

Bydd yr holl adborth a gawn yn cael ei ystyried a bydd angen cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Bydd Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2025-2026 yn dod i rym ar 1 Ebrill 2025 a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

## Gwneud Cais Am Archwiliad Diogelwch Tân Yn Y Cartref

Gallwch ofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref i chi'ch hun, perthynas dibynnol neu gymydog, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar **0800 169 1234**.

## Ein dilyn ni

**@northwalesfire**

**@northwalesfireservice**

**@northwalesfire**

**@nwalesfireservice**

*This document is available in English* **Eitem 19 ar yr Agenda**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Tim Christensen**<br>**Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd** |
| Pwnc | **Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion ein Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi, sy'n darparu mesurau manwl ac amserlenni i liniaru'r allyriadau carbon sy'n deillio o wresogi ein hystad ar gyfer y cyfnod hyd at 2030.

**ARGYMHELLIAD**

2 Bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 O dan gyfraith Cymru, mae'n ofynnol i ni liniaru ein hôl troed carbon gweithredol erbyn 2030. Mae'r Cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r allyriadau yn sgil gwresogi ein hystad, gyda chynllun manwl i ddileu'r allyriadau hyn fel sy'n ofynnol o dan ein Strategaeth Amgylcheddol.

4 Mae'r cynllun yn cynnig rhoi terfyn ar osod neu wneud gwaith adnewyddu sylweddol ar systemau gwresogi sy'n defnyddio hydrocarbonau o ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Yn dilyn hyn, rydym yn bwriadu cynnal rhaglen raddol o amnewid y systemau nwy neu LPG presennol, y gofynnir amdani fel rhan o'r gyllideb ddrafft bob blwyddyn.

**CEFNDIR**

5 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno cyfres o gyllidebau carbon, gan nodi llwybr i Gymru fod yn genedl garbon-niwtral erbyn 2050. O dan Gyllideb Garbon 2, mae'n ofynnol i sector cyhoeddus Cymru fod wedi cyrraedd y nod hwn erbyn 2030.

6 Er mwyn cydymffurfio â'r uchelgais hon, mabwysiadodd yr Awdurdod Strategaeth Amgylcheddol ar 17 Gorffennaf 2023 ar gyfer y cyfnod 2023-2030. Ymhlith targedau eraill, roedd y strategaeth hon yn gorfodi

datblygu Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi, gan nodi sut y byddem yn lliniaru'r allyriadau carbon Cwmpas 1 (uniongyrchol) sy'n deillio o wresogi ein hystad.

7 Cafodd Gweithgor Aelodau ei gynnull rhwng Ebrill a Gorffennaf 2023 i roi gwybodaeth berthnasol i'r Aelodau ac i gael cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu cynlluniau datgarboneiddio manwl. Cymeradwyodd y grŵp hwn y strategaeth datgarboneiddio gwresogi a nodir yn yr adroddiad hwn.

**GWYBODAETH**

8 Mae'r Cynllun yn nodi ystod o dechnolegau carbon isel neu ddi-garbon a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer pob safle yn unigol. Y dull arfaethedig yw rhannu safleoedd yn ddau gategori yn seiliedig ar lefel eu defnydd.

9 Ar gyfer safleoedd sydd â lefelau uchel o ddefnydd – fel arfer gorsafoedd criw dydd a 24 awr, bydd dull cost uwch, uchel o ran effeithlonrwydd yn cael ei ddefnyddio. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys gosod pwmp gwres o'r aer.

10 Ar gyfer safleoedd is eu defnydd (gorsafoedd tân ar alwad fel arfer), byddwn yn anelu at osod systemau gwresogi trydan datganoledig sy'n costio llai ond yn llai effeithlon. Fel arfer, bydd y rhain yn cael eu gosod gyda rheolyddion wedi'u hamseru fel mai dim ond pan fydd lleoedd yn cael eu defnyddio neu os oes angen amddiffyn yr adeiledd rhag tymereddau allanol isel y mae gwres yn cael ei ddarparu.

11 Rydym yn bwriadu newid y systemau gwresogi presennol mewn rhaglen fesul cam, sy'n debygol o fod yn un safle defnydd uchel a thri safle defnydd isel y flwyddyn. Sefydlwyd Gweithgor gyda phersonél y Gwasanaeth i flaenoriaethu a chynllunio'r prosiectau hyn, gan ystyried oedran, effeithlonrwydd a chyflwr y systemau presennol.

12 Bydd y Gweithgor hwn hefyd yn archwilio anghenion gwresogi cilfachau parcio peiriannau yn y dyfodol, fesul achos.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Cynllun arfaethedig yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant datganedig yr Awdurdod. |
| Cyllideb | • Costau cyfalaf sylweddol i osod systemau gwresogi newydd, a amcangyfrifir i fod tua £600,000 y flwyddyn am y dyfodol hyd y gellir rhagweld. Fodd bynnag, mae llawer o'r |

| | |
|---|---|
| | systemau gwresogi presennol wedi hen gyrraedd diwedd eu hoes a bydd angen eu newid pan fyddant yn methu beth bynnag.<br>• Dylai costau rhedeg ar safleoedd mwy fod yn sylweddol is na'r systemau nwy ac LPG presennol. Bydd systemau trydan mewn safleoedd llai yn llai effeithlon yn weithredol ond rydym yn gobeithio lliniaru hyn drwy eu rheoli'n well a gosod paneli solar ffotofoltäig. |
| Cyfreithiol | Risg o beidio â chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| Staffio | Ni ragwelir unrhyw newidiadau i lefelau staffio o ganlyniad i'r Cynllun hwn |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ymgynghorwyd â'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, ac ni chodwyd unrhyw faterion. |
| Risgiau | • Risgiau cyllidebol oherwydd cymhlethdod prosiectau unigol a'r angen posibl am ailweirio / gwaith arall.<br>• Bydd angen gwacáu gorsafoedd dros dro mewn llawer o achosion, gan greu risgiau gweithredol. Byddwn yn ymdrechu i ddarparu cyfleusterau amgen addas dros dro ar bob safle lle bynnag y bo modd er mwyn caniatáu i griwiau ac asedau gorsafoedd barhau i fod ar gael. |

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Strategaeth Amgylcheddol 2023 - 2030

# Cynllun Datgarboneiddio Gwresogi

Mehefin 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

**Awdur(on):**
Tim Christensen
Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd

Paratowyd gan:
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

**Cynnwys**

*Tudalen*

1.0 Cyflwyniad ..... 1
2.0 Y Systemau Gwresogi Presennol ..... 3
3.0 Opsiynau Technoleg ar gyfer Datgarboneiddio ..... 4
3.1 Pympiau Gwres ..... 4
3.2 Boeleri Biomas ..... 4
3.3 Systemau Thermol Solar ..... 4
3.4 Gwresogi Trydan ..... 4
3.5 Mesurau Effeithlonrwydd Ynni ..... 4
3.6 Ystyriaethau ar gyfer Gweithredu ..... 5
4.0 Ystyriaethau Ariannol a Ffynonellau Cyllid ..... 6
4.1 Dadansoddiad Cost ..... 6
4.2 Enillion ar Fuddsoddiad ..... 6
4.3 Ffynonellau Cyllid ..... 6
5.0 Strategaeth Weithredu ..... 9
6.0 Goblygiadau Iechyd a Diogelwch ..... 11
6.1 Rheoli Risg ..... 11
6.2 Ansawdd Amgylcheddol ..... 11
6.3 Cyfathrebu ac Ymateb i Argyfwng ..... 12
6.4 Monitro ac Adolygu Parhaus ..... 12
7.0 Monitro ac Adrodd ..... 13
8.0 Cydweithio a Phartneriaethau ..... 15

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.0.1 Oherwydd bod newid hinsawdd yn cyflymu, a'r angen dybryd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae galw ar sefydliadau ar draws pob sector i gymryd camau pendant i wrthsefyll yr argyfwng byd-eang hwn. Mae Cymru, sy'n adnabyddus am ei hymrwymiad i stiwardiaeth amgylcheddol, wedi croesawu'r her, gan arwain mentrau i gyflawni ôl troed carbon sero-net. Gan gydnabod pwysigrwydd arwain trwy esiampl, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ("GTAGC", "y Gwasanaeth") wedi ymgymryd â'i rôl yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

1.0.2 Mae'r cynllun datgarboneiddio gwresogi hwn yn cyflwyno strategaeth gynhwysfawr fel bod GTAGC yn trosglwyddo ei systemau gwresogi o ddibyniaeth ar danwydd ffosil i ddewisiadau amgen cynaliadwy. Drwy gychwyn ar y daith uchelgeisiol hon, nod y Gwasanaeth yw lleihau ei allyriadau carbon yn sylweddol, dangos arweiniad amgylcheddol, a chyfrannu at ddyfodol mwy gwyrdd a mwy gwydn.

1.0.3 Mae'r Gwasanaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu bywydau, eiddo a'r amgylchedd. Mae ei ymrwymiad i ddiogelwch y cyhoedd yn ymestyn y tu hwnt i ymateb i argyfwng, gan gynnwys y cyfrifoldeb i ddiogelu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu rhag y risgiau uniongyrchol a hirdymor a achosir gan newid hinsawdd. Wrth i ddigwyddiadau tywydd eithafol ddod yn fwyfwy aml a dwys, mae'r angen i fynd i'r afael ag achos sylfaenol y ffenomenau hyn yn dod yn hollbwysig.

1.0.4 Mae gwresogi yn cyfrif am gyfran sylweddol o ddefnydd ynni'r Gwasanaeth, ac mae gan ddibyniaeth ar danwydd ffosil ganlyniadau amgylcheddol sylweddol. Mae trawsnewid i atebion gwresogi carbon isel yn cyd-fynd â'n Strategaeth Amgylcheddol yn ogystal ag ymdrechion cenedlaethol a rhyngwladol ehangach i liniaru newid hinsawdd, gwella effeithlonrwydd ynni, a chroesawu arferion cynaliadwy.

1.0.5 Mae'r cynllun datgarboneiddio hwn yn nodi map ffordd i'r GTA ymgymryd â chyfres o gamau strategol gyda'r nod o drawsnewid ei seilwaith gwresogi. Mae'n croesawu technolegau arloesol, arferion effeithlon o ran ynni, a ffynonellau ynni adnewyddadwy i leihau allyriadau carbon wrth gynnal y gwasanaethau gwresogi hanfodol sydd eu hangen ar gyfer parodrwydd gweithredol.

1.0.7 Drwy gydol y cynllun hwn, rhoddir pwyslais ar gydweithredu, ymgysylltu a rhannu gwybodaeth. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd partneriaethau gyda chyrff y llywodraeth, budd-ddeiliaid y diwydiant, a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu i feithrin gweledigaeth gyffredin o gynaliadwyedd. Trwy gynnwys yr holl bartïon perthnasol, nod y Gwasanaeth yw defnyddio arbenigedd ac adnoddau ar y cyd i gyflymu'r broses ddatgarboneiddio a chreu newid cadarnhaol parhaol.

1.0.8 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r nodau strategol, yn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau amgen ar gyfer gwresogi carbon isel, yn archwilio strategaethau cyllido a gweithredu, ac yn tynnu sylw at y manteision posibl sy'n ymestyn y tu hwnt i leihau allyriadau.

1.0.9 Efallai y bydd y daith tuag at ddatgarboneiddio yn peri heriau, ond mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i arwain trwy esiampl ac ysbrydoli sefydliadau eraill i wneud yr un peth. Drwy weithredu'r cynllun hwn, bydd y Gwasanaeth yn dangos ei ymroddiad diwyro i gyfrifoldeb amgylcheddol, ac yn parhau i gyflawni ei rôl hanfodol yn amddiffyn bywydau a chefnogi cymunedau gwydn ledled Gogledd

Cymru.

## 2.0 Y SYSTEMAU GWRESOGI PRESENNOL

2.0.1 Mae Ystad y Gwasanaeth yn cynnwys 47 o leoliadau gwahanol. Mae hyn yn cynnwys:

- Tair gorsaf â chriwiau 24 awr
- Pum gorsaf â chriwiau dydd
- 36 o orsafoedd ar alwad
- Dau leoliad swyddfa
- Un swyddfa / depo fflyd

2.0.2 Oed canolrifol yr ystad yw 55 mlwydd oed, gyda'r orsaf hynaf wedi'i hadeiladu yn 1900, a'r orsaf fwyaf newydd yn 2015. Mae rhai adeiladau wedi cael eu hadnewyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

2.0.3 Mae'r systemau gwresogi yn cael eu pweru gan gyfuniad o drydan, nwy naturiol prif gyflenwad a nwy petroliwm hylifedig (LPG). Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae yna:

- 39 o safleoedd wedi'u gwresogi â nwy naturiol prif gyflenwad
- Tri safle wedi'u gwresogi ag LPG
- Pum safle wedi'u gwresogi â thrydan

2.0.4 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae gan 16 o safleoedd Systemau Rheoli Ynni Adeilad (BEMS), sy'n caniatáu mwy o oruchwyliaeth a rheolaeth ar y gwresogi yn y safleoedd hynny.

2.0.5 Mae cryn amrywiaeth o ran effeithlonrwydd ynni rhwng safleoedd, gan amlygu sawl enghraifft o aneffeithlonrwydd o ran adeiledd ac ymddygiad.

## 3.0 OPSIYNAU TECHNOLEG AR GYFER DATGARBONEIDDIO

3.0.1 Er mwyn cyflawni'r nod uchelgeisiol o ddatgarboneiddio'r systemau gwresogi yn ystad y Gwasanaeth, mae amrywiaeth eang o opsiynau technoleg ar gael. Mae'r adran hon yn archwilio gwahanol ddewisiadau amgen i wresogi sy'n seiliedig ar danwydd ffosil, y bydd y Gwasanaeth yn eu hystyried wrth geisio amnewid y systemau gwresogi presennol, ac yn amlinellu eu defnydd, eu manteision a'u hystyriaethau posibl ar gyfer eu gweithredu.

### 3.1 Pympiau Gwres

3.1.1 Mae pympiau gwres yn dechnoleg effeithlon a chynyddol boblogaidd ar gyfer datgarboneiddio gwresogi. Mae pympiau gwres o'r ddaear yn tynnu gwres o'r ddaear, tra bod pympiau gwres o'r aer yn tynnu gwres o'r awyr. Mae'r systemau hyn yn defnyddio trydan i drosglwyddo gwres i adeiladau, gan gynnig arbedion carbon sylweddol o gymharu â dulliau gwresogi traddodiadol. Mae pympiau gwres yn arbennig o addas ar gyfer adeiladau'r Gwasanaeth sydd angen gwresogi gofod cyson a dŵr poeth oherwydd defnydd uchel. Gellir eu hintegreiddio â systemau gwresogi presennol a darparu atebion gwresogi dibynadwy, carbon isel.

### 3.2 Boeleri Biomas

3.2.1 Mae boeleri biomas yn defnyddio deunyddiau organig fel pelenni pren, sglodion pren, neu wastraff amaethyddol i gynhyrchu gwres. Maent yn cynnig dewis amgen adnewyddadwy yn lle boeleri tanwydd ffosil, gan leihau allyriadau carbon yn sylweddol. Gall boeleri biomas fod yn arbennig o addas ar gyfer cyfleusterau'r Gwasanaeth sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd â mynediad at ffynonellau tanwydd biomas cynaliadwy. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i ganfod tanwydd, monitro allyriadau, a gofynion cynnal a chadw i sicrhau gweithrediad cynaliadwy ac effeithlon.

### 3.3 Systemau Thermol Solar

3.3.1 Mae systemau thermol solar yn defnyddio ynni'r haul i gynhesu dŵr neu aer, gan ddarparu ateb gwresogi cynaliadwy. Mae'r systemau hyn yn cynnwys casglwyr solar sy'n amsugno golau'r haul ac yn trosglwyddo'r ynni thermol a ddaliwyd i gylched wresogi. Gellir integreiddio systemau thermol solar â systemau dŵr poeth presennol, gan wrthbwyso cyfran sylweddol o'r defnydd o danwydd ffosil a lleihau allyriadau carbon. Mae dichonoldeb systemau thermol solar yn dibynnu ar argaeledd gofod to addas a'r hinsawdd leol.

### 3.4 Gwresogi Trydan

3.4.1 Daw systemau gwresogi trydan ar sawl ffurf, wedi'u rhannu'n bennaf yn wresogi rheiddiol a darfudol. Maent fel arfer yn llai effeithlon o ran ynni na systemau sy'n seiliedig ar hydrocarbon, ond gall rhai ffurfiau fel isgoch fod yn effeithiol iawn wrth wresogi gofodau mawr. Mae gwresogi trydan, yn gyffredin ag opsiynau eraill a allai barhau i dynnu cerrynt trydanol mewn gweithrediad arferol, yn dal i gynhyrchu allyriadau carbon Cwmpas 2, ond bydd y mesurau a nodir yn y Cynllun Datgarboneiddio Pŵer yn mynd i'r afael â'r rhain, yn ogystal â datgarboneiddio parhaus y Grid Cenedlaethol.

### 3.5 Mesurau Effeithlonrwydd Ynni

3.5.1 Mae gwella effeithlonrwydd ynni yn agwedd sylfaenol ar unrhyw gynllun datgarboneiddio. Gall uwchraddio inswleiddio, cael y gorau o reolaethau

adeiladu, a gweithredu systemau gwresogi clyfar leihau'r galw am ynni a lleihau allyriadau carbon yn sylweddol. Yn aml gall ôl-osod adeiladau presennol gyda mesurau effeithlon o ran ynni arwain at fanteision sylweddol o ran arbedion cost ac effaith amgylcheddol. Gall cynnal archwiliadau ac asesiadau ynni helpu i nodi meysydd i'w gwella a blaenoriaethu mesurau arbed ynni.

## 3.6 Ystyriaethau ar gyfer Gweithredu

Asesiadau Dichonoldeb

3.6.1 Dylid gwerthuso pob opsiwn technoleg yn seiliedig ar ffactorau safle-benodol, megis nodweddion yr adeilad, gofynion gwresogi, y gofod sydd ar gael, a gofynion ynni.

Cost ac Ariannu

3.6.2 Dylid gwerthuso ystyriaethau ariannol, gan gynnwys costau ymlaen llaw, treuliau gweithredol, a'r opsiynau ariannu sydd ar gael, yn ofalus er mwyn sicrhau hyfywedd economaidd y dechnoleg a ddewisir.

Cynnal a Chadw a Chefnogaeth

3.6.3 Dylid ystyried y gofynion cynnal a chadw tymor hir, argaeledd rhannau sbâr, a chymorth technegol ar gyfer y dechnoleg a ddewisir.

Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid

3.6.4 Bydd cynnwys budd-ddeiliaid perthnasol, gan gynnwys personél y Gwasanaeth, cymunedau lleol ac arbenigwyr y diwydiant, yn meithrin cefnogaeth, rhannu gwybodaeth, a gweithredu effeithiol.

## 4.0 YSTYRIAETHAU ARIANNOL A FFYNONELLAU CYLLID

4.0.1 Mae gweithredu cynllun datgarboneiddio gwresogi ar gyfer y Gwasanaeth yn gofyn am ystyriaeth ofalus o'r agweddau ariannol dan sylw. Mae'r adran hon yn amlinellu'r ystyriaethau ariannol allweddol ac yn nodi ffynonellau cyllid posibl i gefnogi'r newid i dechnolegau gwresogi carbon isel.

### 4.1 Dadansoddiad Cost

4.1.1 Bydd y Gwasanaeth yn:

- Cynnal dadansoddiad cost cynhwysfawr i werthuso goblygiadau ariannol y cynllun datgarboneiddio gwresogi.
- Asesu'r costau ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â gosod systemau gwresogi newydd a'r costau gweithredu a chynnal a chadw parhaus.
- Ystyried ffactorau fel costau prynu neu brydlesu offer, costau gosod, defnydd o ynni, prisiau tanwydd, a gofynion cynnal a chadw. Bydd y dadansoddiad hwn yn rhoi dealltwriaeth glir o'r ymrwymiadau ariannol ac yn galluogi cyllidebu effeithiol.

### 4.2 Enillion ar Fuddsoddiad

4.2.1 Bydd dadansoddiad trylwyr o Enillion ar Fuddsoddiad (ROI) yn helpu i gyfiawnhau'r buddsoddiad ariannol ac yn dangos hyfywedd economaidd trosglwyddo i dechnolegau gwresogi carbon isel. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r enillion posibl ar fuddsoddiad, bydd y Gwasanaeth yn:

- Gwerthuso enillion posibl ar fuddsoddiad y cynllun datgarboneiddio gwresogi. Ystyried yr arbedion cost hirdymor sy'n deillio o ddefnyddio llai o ynni a chostau tanwydd is.
- Asesu'r buddion ariannol sy'n gysylltiedig â gwell effeithlonrwydd ynni, grantiau neu gymhellion posibl, a'r effaith gadarnhaol ar ôl troed carbon y Gwasanaeth.

### 4.3 Ffynonellau Cyllid

4.3.1 Bydd y Gwasanaeth yn archwilio ffynonellau cyllid amrywiol sydd ar gael i gefnogi'r cynllun datgarboneiddio gwresogi. Gall y rhain gynnwys partneriaethau sector cyhoeddus a phreifat neu drefniadau cytundebol.

<u>Grantiau a Chymhellion y Llywodraeth</u>

4.3.2 Er mwyn sicrhau bod yr effaith ar gyllidebau'r Gwasanaeth yn cael ei lleihau, byddwn yn ceisio cymryd rhan mewn cynlluniau grant a chymhelliant lle bynnag y bo modd. Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Ymchwilio i gynlluniau grant a chymhellion y llywodraeth genedlaethol a lleol sydd â'r nod o hybu effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio.
- Parhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cyfleoedd ariannu a ddarperir gan adrannau'r llywodraeth, asiantaethau ynni, a rhaglenni amgylcheddol a gynlluniwyd yn benodol i gefnogi'r newid i dechnolegau carbon isel.

<u>Cronfeydd Buddsoddi Gwyrdd</u>

4.3.3 Bydd y Gwasanaeth yn archwilio partneriaethau gyda chronfeydd buddsoddi gwyrdd sy'n canolbwyntio ar ariannu prosiectau ynni cynaliadwy. Mae'r cronfeydd hyn yn aml yn cefnogi mentrau sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd ynni, a lliniaru newid hinsawdd. Gall cydweithio â chronfeydd o'r fath ddarparu mynediad at adnoddau ariannol ac arbenigedd sydd wedi'u teilwra i amcanion datgarboneiddio'r Gwasanaeth.

Contractau Perfformiad Ynni

4.3.4 Bydd y Gwasanaeth yn ymchwilio i opsiynau contractio perfformiad ynni, lle mae costau cychwynnol gosod systemau gwresogi carbon isel yn cael eu talu gan gwmni gwasanaeth ynni allanol (ESCO). Yna mae'r ESCO yn adennill ei fuddsoddiad drwy'r arbedion ynni a gyflawnir dros gyfnod y contract. Gall y trefniant hwn helpu i oresgyn cyfyngiadau cychwynnol o ran cyllideb a sicrhau trosglwyddiad esmwyth i atebion gwresogi cynaliadwy ar yr un pryd.

Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat

4.3.5 Bydd y Gwasanaeth yn archwilio cyfleoedd ar gyfer partneriaethau cyhoeddus-preifat, lle mae endidau preifat yn buddsoddi mewn gosod a chynnal systemau gwresogi carbon isel yn gyfnewid am gytundebau cyflenwi ynni tymor hir neu drefniadau eraill sydd o fudd i'r ddwy ochr. Gall y dull hwn fod yn fodd o ddefnyddio arbenigedd ac adnoddau'r sector preifat i gyflymu'r broses ddatgarboneiddio.

Ailddyrannu'r Gyllideb Fewnol

4.3.6 Ystyrir bod datgarboneiddio ystad y Gwasanaeth yn flaenoriaeth uchel. Er mwyn hwyluso'r broses o newid ein cyfleusterau i wresogi carbon isel, efallai y bydd yn bosibl ailddyrannu arian sydd wedi'i gyllidebu o bryd i'w gilydd. Lle penderfynir y gallai hyn fod yn bosibl, byddwn yn:

- Gwerthuso'r posibilrwydd o ailddyrannu cyllidebau mewnol i ariannu'r cynllun datgarboneiddio gwresogi.
- Adolygu cyllidebau presennol a nodi arbedion cost posibl mewn meysydd eraill y gellid eu hailgyfeirio tuag at fentrau gwresogi cynaliadwy. Gallai hyn gynnwys blaenoriaethu mesurau effeithlonrwydd ynni neu archwilio opsiynau ar gyfer eu gweithredu fesul cam i gyd-fynd â'r adnoddau cyllidebol sydd ar gael.

Rhannu Costau a Chydweithio

4.3.7 Trwy gyfuno adnoddau, rhannu arbenigedd, a defnyddio cryfderau cyfunol, gall y Gwasanaeth oresgyn rhwystrau ariannol a chreu llwybr cynaliadwy tuag at gyflawni ein nodau datgarboneiddio. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd rhannu costau a chydweithio wrth sicrhau cyllid ar gyfer y mentrau datgarboneiddio gwresogi. Er mwyn gwneud y mwyaf o fanteision posibl gweithio yn y modd hwn, byddwn yn:

- Ystyried dulliau cydweithredol o rannu costau ac adnoddau gyda sefydliadau neu fudd-ddeiliaid eraill.
- Archwilio'r potensial ar gyfer caffael systemau gwresogi ar y cyd, prynu tanwydd mewn swmp, neu rannu seilwaith ar gyfer rhwydweithiau gwresogi ardal. Gall cydweithredu helpu i leihau costau unigol, manteisio ar arbedion maint, a meithrin partneriaethau sy'n cefnogi mabwysiadu arferion gwresogi cynaliadwy yn ehangach.

Asesiad Cost Cylch Oes

4.3.8 Mae deall costau cylch oes llawn ac effeithiau amgylcheddol unrhyw systemau gwresogi newydd posibl yn hanfodol er mwyn cyflawni'r nodau a amlinellir yn y Strategaeth Amgylcheddol. Er mwyn ymgorffori'r wybodaeth hon, bydd y Gwasanaeth yn:

- Ystyried costau cylch oes y systemau gwresogi dan sylw. Er y gall costau buddsoddi cychwynnol amrywio, asesu'r costau cynnal a chadw, atgyweirio ac amnewid hirdymor sy'n gysylltiedig â gwahanol dechnolegau.
- Gwerthuso gwydnwch, gwarantau a hyd oes disgwyliedig offer i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus sy'n gwneud y mwyaf o gostau cylch oes.

Rheolaeth Ariannol Barhaus

4.3.9 Bydd y Gwasanaeth yn:

- Datblygu cynllun rheoli ariannol i sicrhau monitro, cyllidebu, a chael y costau gorau yn barhaus drwy gydol y broses datgarboneiddio gwresogi.
- Adolygu'r defnydd o ynni, prisiau tanwydd a threuliau gweithredol yn rheolaidd i nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion neu welliannau pellach.
- Ystyried defnyddio ymgynghorwyr ariannol neu ymgynghorwyr ynni i ddarparu arbenigedd wrth reoli agweddau ariannol y cynllun.

## 5.0 STRATEGAETH WEITHREDU

5.0.1 Er mwyn gweithredu'r cynllun datgarboneiddio gwresogi ar gyfer ystad y Gwasanaeth yn llwyddiannus, mae strategaeth weithredu sydd wedi'i diffinio'n dda yn hanfodol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau a'r ystyriaethau allweddol sydd eu hangen i drosglwyddo'n effeithiol i dechnolegau gwresogi carbon isel a sicrhau parodrwydd gweithredol ac amharu cyn lleied â phosibl ar gyfleusterau GTAGC ar yr un pryd.

5.0.2 Ni fydd y Gwasanaeth yn dechrau unrhyw waith gosod newydd nac unrhyw waith adnewyddu sylweddol ar unrhyw system wresogi sy'n defnyddio tanwydd hydrocarbon yn ei ystad ar ôl diwedd Blwyddyn Ariannol 2024/25.

5.0.3 Bydd amnewid systemau gwresogi hydrocarbon presennol â dewisiadau di-garbon yn cael ei wneud lle bo hynny'n ymarferol, gan roi blaenoriaeth ar sail oedran/cyflwr y systemau presennol ac allyriadau carbon.

5.0.4 Lle cedwir y systemau presennol, bydd y Gwasanaeth yn gweithredu mesurau i leihau allyriadau carbon gymaint â phosibl lle bo modd. Gellir cyflawni hyn drwy addasu patrymau gwresogi, defnyddio BEMS ymhellach, hyfforddi staff a gwelliannau o ran effeithlonrwydd yr adeiledd.

<u>Asesu Systemau Gwresogi Presennol</u>

5.0.2 Bydd y Gwasanaeth yn cynnal asesiad cynhwysfawr o'r seilwaith gwresogi presennol ar draws cyfleusterau GTAGC. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso'r defnydd o ynni, nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni, ac asesu addasrwydd pob safle ar gyfer gwahanol dechnolegau gwresogi carbon isel. Dylid ystyried nodweddion safle-benodol, megis oedran, maint a lleoliad adeiladau, yn ystod yr asesiad hwn.

<u>Blaenoriaethu a Gweithredu Fesul Cam</u>

5.0.3 Bydd y Gwasanaeth yn datblygu fframwaith blaenoriaethu i nodi cyfleusterau lle dylid canolbwyntio ymdrechion datgarboneiddio i ddechrau. Mae'r ffactorau i'w hystyried yn y blaenoriaethu hwn yn cynnwys defnydd ynni, ôl troed carbon, y potensial i arbed costau, ac ymarferoldeb gweithredu technolegau gwahanol ym mhob lleoliad. Byddwn yn defnyddio'r fframwaith blaenoriaethu hwn i greu dull o weithredu fesul cam, gan dargedu safleoedd uchel eu heffaith i'w gweithredu'n gynnar, ac ystyried argaeledd adnoddau a chyfyngiadau cyllidebol ar yr un pryd.

<u>Dewis Technoleg</u>

5.0.4 Yn seiliedig ar yr asesiad a'r blaenoriaethu, bydd y Gwasanaeth yn dewis technolegau gwresogi carbon isel priodol ar gyfer pob cyfleuster. Bydd y broses hon yn ystyried ffactorau fel gofynion gwresogi'r safle, y ffynonellau ynni sydd ar gael, amodau amgylcheddol lleol, ac ymarferoldeb integreiddio'r dechnoleg a ddewiswyd â'r seilwaith presennol. Byddwn yn ymgysylltu â chyflenwyr technoleg, arbenigwyr yn y diwydiant a budd-ddeiliaid perthnasol i sicrhau y gwneir penderfyniadau gwybodus.

<u>Cynllunio Ariannol a Chyllid</u>

5.0.5 Er mwyn sicrhau bod cyllid priodol ar gael i gyflawni'r nodau a amlinellir yn y cynllun hwn, bydd y Gwasanaeth yn:

- Datblygu cynllun ariannol sy'n amlinellu costau amcangyfrifedig gweithredu'r

technolegau a ddewiswyd, gan gynnwys caffael offer, gosod a chynnal a chadw parhaus.

- Archwilio cyfleoedd ariannu, megis grantiau'r llywodraeth, cymhellion, a chynlluniau cyllido effeithlonrwydd ynni, i wrthbwyso costau buddsoddi cychwynnol.
- Cydweithio â'r adran Gyllid, ceisio partneriaethau gyda sefydliadau ariannu, ac ymchwilio i gyfleoedd posibl i rannu costau o fewn y Gwasanaeth a'r gymuned ehangach.

Prosiectau Peilot a Monitro

5.0.6 Bydd y Gwasanaeth yn ystyried cychwyn prosiectau peilot i brofi technolegau dethol ar raddfa lai cyn eu gweithredu'n ehangach. Mae cynlluniau peilot yn rhoi cyfle i asesu ymarferoldeb, perfformiad a heriau posibl sy'n gysylltiedig ag atebion gwresogi penodol. Fel rhan o hyn, byddwn yn sefydlu systemau monitro cadarn i olrhain y defnydd o ynni, allyriadau carbon ac arbedion cost, gan ganiatáu ar gyfer gwerthusiadau sy'n cael eu gyrru gan ddata o effeithiolrwydd ac effaith technolegau a weithredir.

Hyfforddiant ac Addysg

5.0.7 Er mwyn sicrhau gweithrediad diogel a'r gweithrediad gorau posibl, bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl bersonél perthnasol yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i weithredu a chynnal y systemau gwresogi newydd. I wneud hyn, byddwn yn datblygu rhaglenni hyfforddi i sicrhau bod staff yn ymgyfarwyddo â'r technolegau a ddewiswyd, eu gofynion gweithredol, ac unrhyw ystyriaethau diogelwch. Yn ogystal, bydd y Gwasanaeth yn ystyried gweithredu mentrau addysgol i godi ymwybyddiaeth ymhlith personél GTAGC a'r gymuned ehangach am fanteision gwresogi wedi'i ddatgarboneiddio a phwysigrwydd arferion cynaliadwy.

Ymgysylltu a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid

5.0.8 Bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â budd-ddeiliaid perthnasol, gan gynnwys staff, cymunedau lleol, cyrff y llywodraeth a phartneriaid yn y diwydiant. Byddwn yn meithrin dulliau cyswllt agored i gasglu adborth, mynd i'r afael â phryderon a hyrwyddo dealltwriaeth o amcanion a chynnydd y cynllun datgarboneiddio. Bydd y Gwasanaeth yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar y strategaeth weithredu, y cerrig milltir a gyflawnwyd, ac effaith gadarnhaol ymdrechion datgarboneiddio i adeiladu cefnogaeth ac annog mabwysiadu'n ehangach.

Gwerthusiad a Gwella Parhaus

5.0.9 Bydd mecanweithiau'n cael eu sefydlu ar gyfer monitro, gwerthuso ac asesu perfformiad parhaus y technolegau gwresogi a weithredir. Bydd hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i adolygu'r defnydd o ynni, arbedion cost a gostyngiadau allyriadau carbon yn rheolaidd er mwyn nodi meysydd i'w gwella a mireinio'r strategaeth weithredu yn unol â hynny. Bydd y personél sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun hwn yn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf am dechnolegau datblygol, newidiadau polisi, ac arferion gorau i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i fod ar flaen y gad o ran ymdrechion i ddatgarboneiddio gwresogi.

## 6.0 GOBLYGIADAU IECHYD A DIOGELWCH

6.0.1 Wrth i'r Gwasanaeth ymgymryd â datgarboneiddio ei systemau gwresogi, mae ystyriaeth ofalus o oblygiadau iechyd a diogelwch yn hollbwysig. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y ffactorau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau llesiant personél y Gwasanaeth Tân ac Achub, ymwelwyr, a'r cymunedau a wasanaethir yn ystod y cyfnod o drawsnewid i dechnolegau gwresogi carbon isel.

## 6.1 Rheoli Risg

Asesiadau Risg

6.1.1 Bydd y Gwasanaeth yn cynnal asesiadau risg cynhwysfawr i nodi'r peryglon posibl sy'n gysylltiedig â gosod, gweithredu a chynnal a chadw systemau gwresogi newydd. Gwerthuso risgiau megis peryglon trydanol, risgiau tân, a thrin offer, tanwydd, a seilwaith cysylltiedig yn ddiogel. Byddwn yn cynnwys arbenigwyr iechyd a diogelwch yn y broses asesu ac yn datblygu mesurau rheoli cadarn i liniaru'r risgiau a nodwyd.

Diogelwch a Chydymffurfiaeth Offer

6.1.2 Bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl offer, cydrannau a gosodiadau gwresogi yn cydymffurfio â safonau, ardystiadau a rheoliadau diogelwch perthnasol. I wneud hyn, byddwn yn defnyddio cyflenwyr a chontractwyr cymwys sy'n cadw at arferion gorau'r diwydiant ac sydd â hanes profedig o ddarparu systemau gwresogi diogel. Bydd y Gwasanaeth yn archwilio ac yn cynnal a chadw offer yn rheolaidd i gynnal safonau diogelwch ac yn mynd i'r afael yn brydlon ag unrhyw faterion neu ddiffygion a nodir.

Hyfforddiant a Chymhwysedd

6.1.3 Bydd hyfforddiant cynhwysfawr yn cael ei ddarparu ar gyfer personél y Gwasanaeth sy'n ymwneud â gweithredu, cynnal a chadw, ac ymateb i argyfyngau sy'n ymwneud â'r systemau gwresogi newydd. Dylai'r hyfforddiant gwmpasu gweithdrefnau gweithredu diogel, trin offer, protocolau cau i lawr mewn argyfwng, a mesurau cymorth cyntaf sy'n benodol i'r technolegau gwresogi a weithredir. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i hyrwyddo diwylliant o ymwybyddiaeth o ddiogelwch a grymuso personél i roi gwybod am beryglon neu ddigwyddiadau posibl yn brydlon.

Ystyriaethau Diogelwch Tân

6.1.4 Er mwyn mynd i'r afael â'r goblygiadau diogelwch tân sy'n gysylltiedig â'r systemau gwresogi newydd, bydd y Gwasanaeth yn cynnal asesiadau risg tân ar gyfer pob safle, gan ystyried ffactorau fel deunyddiau fflamadwy, ffynonellau gwres, cydrannau trydanol, a ffynonellau tanio posibl.

Diogelu Adeiledd

6.1.5 Bydd yr adeiledd presennol ac arfaethedig yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw system wresogi arfaethedig newydd neu addasiad gweithredol sylweddol, er mwyn atal unrhyw ddifrod eilaidd sy'n deillio o'r gwaith gosod neu weithrediad parhaus y system newydd.

## 6.2 Ansawdd Amgylcheddol

Ansawdd Aer Dan Do

6.2.1 Fel rhan o'r broses ddylunio a manylebu, bydd y Gwasanaeth yn gwerthuso effaith technolegau gwresogi newydd ar ansawdd aer dan do, yn enwedig wrth ystyried boeleri biomas neu systemau eraill sy'n seiliedig ar hylosgi. Yna byddwn yn rhoi mesurau priodol ar waith i liniaru risgiau llygredd aer posibl, megis sicrhau awyru priodol, gosod dyfeisiau rheoli allyriadau, a/neu fonitro lefelau ansawdd aer yn rheolaidd. Mae cynnal a chadw ac arolygu offer yn rheolaidd yn hanfodol er mwyn cael y gorau o effeithlonrwydd hylosgi a lleihau allyriadau gymaint â phosibl.

Canfod Carbon Monocsid (CO)

6.2.2 O ystyried y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â hylosgi tanwydd yn anghyflawn, bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod systemau canfod carbon monocsid (CO) dibynadwy yn cael eu gosod a'u cynnal ym mhob cyfleuster GTAGC lle ceir risg o hyn. Byddwn yn profi ac yn graddnodi synwyryddion carbon monocsid yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn, ac yn addysgu personél a budd-ddeiliaid am beryglon carbon monocsid a sefydlu protocolau clir ar gyfer ymateb pe bai yna ddigwyddiad yn ymwneud â carbon monocsid.

## 6.3 Cyfathrebu ac Ymateb i Argyfwng

6.3.1 Bydd y Gwasanaeth yn adolygu ac yn dilyn y protocolau cyfathrebu cadarn presennol er mwyn lledaenu canllawiau iechyd a diogelwch, gweithdrefnau a chynlluniau ymateb i argyfwng i holl bersonél GTAGC, contractwyr ac ymwelwyr. Mae'r rhain yn sicrhau ein bod yn rhoi cyfarwyddiadau clir ar roi gwybod am bryderon neu ddigwyddiadau diogelwch yn brydlon. Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru cynlluniau ymateb brys yn rheolaidd i gyd-fynd â'r technolegau gwresogi newydd a sicrhau cydlynu di-dor mewn argyfwng.

## 6.4 Monitro ac Adolygu Parhaus

6.4.1 Bydd y Gwasanaeth yn adolygu ac yn dilyn y mecanweithiau presennol ar gyfer monitro, gwerthuso ac adolygu'n barhaus yr agweddau iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â datgarboneiddio systemau gwresogi. Byddwn yn asesu effeithiolrwydd mesurau rheoli yn rheolaidd, yn cynnal archwiliadau diogelwch, ac yn ymgysylltu â gweithwyr iechyd a diogelwch proffesiynol i nodi meysydd i'w gwella. Drwy wneud hyn, ein nod yw meithrin diwylliant o welliant parhaus drwy annog personél i roi adborth a chymryd rhan mewn mentrau diogelwch.

## 7.0 MONITRO AC ADRODD

7.0.1 Trwy olrhain cynnydd yn effeithiol, asesu effaith y mesurau a weithredir, ac adrodd yn dryloyw ar y canlyniadau, gall y Gwasanaeth sicrhau atebolrwydd, ysgogi gwelliant parhaus, a dangos ei ymrwymiad i stiwardiaeth amgylcheddol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r agweddau allweddol ar fonitro ac adrodd yn y cynllun datgarboneiddio.

Olrhain Defnydd o Ynni ac Olrhain Allyriadau

7.0.2 Bydd y Gwasanaeth yn gweithredu systemau er mwyn monitro ac olrhain y defnydd o ynni, allyriadau carbon, a metrigau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â systemau gwresogi. Mae hyn yn cynnwys casglu data ar y defnydd o danwydd, y defnydd o drydan, a pharamedrau gweithredol offer gwresogi. Byddwn yn dadansoddi'r data hwn yn rheolaidd i asesu effeithlonrwydd ynni, nodi tueddiadau, ac olrhain y gostyngiadau mewn allyriadau a gyflawnir o ganlyniad i'r ymdrechion datgarboneiddio.

Gwerthuso'r Perfformiad

7.0.3 Bydd gwerthusiad rheolaidd yn cael ei gynnal o berfformiad y technolegau gwresogi a weithredir a'r seilwaith cysylltiedig. Bydd hyn yn asesu effeithiolrwydd mesurau arbed ynni, megis gwelliannau inswleiddio, rheolyddion clyfar, a'r defnydd gorau o amserlenni gwresogi. Bydd y data a geir yn cael ei ddefnyddio i gymharu'r perfformiad go iawn yn erbyn y canlyniadau a'r targedau disgwyliedig a osodwyd yn y cynllun datgarboneiddio, ac i nodi meysydd lle gallai fod angen addasiadau neu fireinio i wneud y defnydd gorau er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ynni ac arbedion carbon i'r eithaf.

Monitro'r Ansawdd Amgylcheddol Dan Do

7.0.4 Bydd y Gwasanaeth yn ystyried gweithredu systemau monitro ansawdd amgylcheddol dan do i asesu effaith technolegau gwresogi ar ffactorau fel tymheredd, lleithder ac ansawdd aer o fewn cyfleusterau'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Os bydd y systemau hyn yn cael eu gosod, o bryd i'w gilydd byddwn yn defnyddio'r data hwn i werthuso'r lefelau cysur, lles defnyddwyr yr adeilad, a'r effeithiau iechyd posibl sy'n gysylltiedig â'r systemau gwresogi newydd, a gwneud addasiadau angenrheidiol i sicrhau'r amodau amgylcheddol dan do gorau posibl.

Dadansoddiad Ariannol

7.0.5 Bydd y Gwasanaeth yn cynnal dadansoddiad ariannol rheolaidd i asesu hyfywedd economaidd a chost-effeithiolrwydd y technolegau gwresogi a weithredir. Bydd hyn yn ein galluogi i olrhain arbedion o ran costau ynni, treuliau gweithredol, ac unrhyw gymhellion ariannol neu grantiau a dderbynnir. Byddwn yn defnyddio'r data hwn i gymharu'r costau buddsoddi â'r buddion a ragwelwyd ac a wireddir, gan gynnwys arbedion ynni, lleihau carbon, a buddion ategol posibl fel gwella dibynadwyedd offer neu gostau cynnal a chadw is.

Adrodd a Dogfennaeth

7.0.6 Fel sy'n ofynnol dan y Strategaeth Amgylcheddol, bydd y Gwasanaeth yn paratoi adroddiadau rheolaidd i gofnodi'r cynnydd, y cyflawniadau a'r heriau a wynebir yn ystod y broses o ddatgarboneiddio gwresogi. Dylai'r adroddiadau hyn gynnwys data meintiol, asesiadau ansoddol, a dangosyddion perfformiad allweddol sy'n berthnasol i amcanion y cynllun. Byddant yn cael eu cyflwyno i'r

Pwyllgor Tir ac Eiddo i'w hystyried.

Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid

7.0.7 Bydd y Gwasanaeth yn ymdrechu i ymgysylltu â budd-ddeiliaid perthnasol, gan gynnwys personél GTAGC, cyrff llywodraethu a chymunedau lleol, trwy sianeli cyfathrebu rheolaidd. Byddwn yn darparu diweddariadau ar gynnydd ymdrechion i ddatgarboneiddio gwresogi, yn rhannu metrigau perfformiad allweddol, ac yn gofyn am adborth neu awgrymiadau.

Monitro Cydymffurfiaeth

7.0.8 Bydd y Gwasanaeth yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau, safonau, a gofynion adrodd perthnasol yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni, allyriadau carbon ac effaith amgylcheddol. Byddwn yn adolygu rhwymedigaethau rheoleiddiol yn rheolaidd ac yn monitro newidiadau mewn deddfwriaeth i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus. Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau perthnasol a chyrff y diwydiant i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am safonau ac arferion gorau datblygol.

Gwelliant Parhaus

7.0.9 Bydd y Gwasanaeth yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy fonitro ac adrodd i ysgogi gwelliant parhaus yn y cynllun datgarboneiddio gwresogi. Byddwn yn ceisio nodi meysydd i'w mireinio neu wneud y mwyaf ohonynt, a datblygu strategaethau i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau perfformiad neu heriau a wynebir. Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r cynllun datgarboneiddio yn rheolaidd yn seiliedig ar y ddealltwriaeth a gafwyd o fonitro, adborth gan fudd-ddeiliaid, a datblygiadau technolegol sy'n dod i'r amlwg.

## 8.0 CYDWEITHIO A PHARTNERIAETHAU

8.0.1 Trwy gydweithio, rhannu gwybodaeth, a manteisio ar adnoddau, gall y Gwasanaeth gyflymu'r broses o drosglwyddo i dechnolegau gwresogi carbon isel a gwneud y mwyaf o'r effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Mae'r adran hon yn amlinellu pwysigrwydd cydweithio ac yn nodi budd-ddeiliaid allweddol ar gyfer partneriaeth.

Cydweithio Mewnol

8.0.2 Bydd y Gwasanaeth yn hyrwyddo cydweithio rhwng gwahanol adrannau i sicrhau dull cyfannol o ddatgarboneiddio gwresogi. Byddwn yn ymgysylltu â phersonél o dimau rheoli cyfleusterau, peirianneg, cyllid, ac iechyd a diogelwch i sicrhau bod pob agwedd ar y trawsnewid yn cael ei hystyried. Ein nod yw meithrin amgylchedd o gydweithio traws-swyddogaethol, gan annog rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd i gael y gorau o gynllunio, gweithredu a monitro ymdrechion i ddatgarboneiddio gwresogi.

Awdurdodau Lleol ac Asiantaethau'r Llywodraeth

8.0.3 Bydd y Gwasanaeth yn ceisio sefydlu partneriaethau gydag awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned, asiantaethau ynni, ac adrannau amgylcheddol, er mwyn cydweithio ar strategaethau datgarboneiddio rhanbarthol, rhannu arferion gorau, a chydweddu ymdrechion i fanteisio ar adnoddau a chyfleoedd ariannu sydd ar gael. Byddwn yn ceisio ymgysylltu ag asiantaethau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am bolisi ynni, grantiau a chymhellion i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau, ac elwa o raglenni cymorth sy'n hyrwyddo mabwysiadu technolegau gwresogi carbon isel.

Arbenigwyr ac Ymgynghorwyr y Diwydiant

8.0.4 Bydd y Gwasanaeth yn ceisio cydweithio ag arbenigwyr, ymgynghorwyr a chynghorwyr technegol yn y diwydiant sy'n arbenigo mewn technolegau gwresogi cynaliadwy. Gall y gweithwyr proffesiynol hyn ddarparu dealltwriaeth werthfawr wrth ddewis, gosod a gweithredu systemau gwresogi carbon isel. Byddwn yn defnyddio eu gwasanaethau i gynnal astudiaethau dichonolrwydd, archwiliadau ynni ac asesiadau technoleg. Gall eu harbenigedd helpu i gael y gorau o atebion gwresogi, sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r diwydiant, a llywio unrhyw heriau technegol a allai godi.

Cyflenwyr Ynni a Darparwyr Gwasanaethau

8.0.5 Bydd y Gwasanaeth yn archwilio'r posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth â chyflenwyr ynni a darparwyr gwasanaethau sy'n cynnig atebion ynni adnewyddadwy neu'n arbenigo mewn gosod a chynnal a chadw technolegau gwresogi carbon isel. O dan drefniant o'r fath, byddem yn anelu at gydweithio â nhw i archwilio opsiynau caffael ynni arloesol, negodi contractau ffafriol, ac asesu dichonoldeb rhwydweithiau gwresogi ardal neu systemau ynni a rennir. Gall y partneriaethau hyn ddarparu mynediad at ffynonellau ynni dibynadwy, sicrhau cefnogaeth barhaus, a hwyluso atebion cost-effeithiol a chynaliadwy.

Sefydliadau Ymchwil a Phrifysgolion

8.0.6 Bydd y Gwasanaeth yn ymgysylltu â sefydliadau ymchwil a phrifysgolion sy'n arbenigo mewn ynni, cynaliadwyedd ac astudiaethau amgylcheddol lle bo hynny'n ymarferol. Byddwn yn cynnig cydweithio ar brosiectau ymchwil, mentrau ar y cyd, a rhannu gwybodaeth; yn ogystal â chymryd rhan mewn rhaglenni

peilot a phrosiectau arddangos i brofi technolegau datblygol a chyfrannu at hyrwyddo arferion gwresogi cynaliadwy. Gall y cydweithio hwn feithrin arloesedd, hwyluso mynediad at ymchwil arloesol, a hyrwyddo mabwysiadu’r arferion gorau.

Ymgysylltu â'r Gymuned a'r Cyhoedd

8.0.7 Bydd y Gwasanaeth yn cynnwys y gymuned leol yn yr ymdrechion datgarboneiddio drwy feithrin deialog a rhannu gwybodaeth am fanteision technolegau gwresogi carbon isel. Byddwn yn ceisio annog cyfranogiad cymunedol mewn mentrau arbed ynni, megis rhaglenni effeithlonrwydd ynni neu brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol. Gall y partneriaethau hyn gynyddu cefnogaeth y cyhoedd, codi ymwybyddiaeth, a sicrhau bod y cynllun datgarboneiddio gwresogi yn cyd-fynd ag anghenion a dyheadau lleol.

Sefydliadau Ariannol a Chyrff Cyllido

8.0.8 Bydd y Gwasanaeth yn ymgysylltu â sefydliadau ariannol, cronfeydd buddsoddi gwyrdd, a chyrff cyllido sy'n cefnogi prosiectau ynni cynaliadwy. Byddwn yn ymdrechu i gydweithio ar geisiadau am gyllid, archwilio opsiynau ariannu, a denu grantiau neu gymhellion sydd ar gael i wrthbwyso'r costau buddsoddi cychwynnol. Gall partneriaeth â'r sefydliadau hyn wella hyfywedd ariannol y cynllun datgarboneiddio gwresogi a datgloi adnoddau ychwanegol ar gyfer ei weithredu'n llwyddiannus.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 19**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elisabeth Nairn, Rheolwr yr Uned Cefnogi Busnes** |
| Pwnc | **Cwynion a Gwerthfawrogiadau** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi diweddariad i'r aelodau ar gŵynion a datganiadau o werthfawrogiad allanol a gafodd y Gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Yn ystod 2023/24 cafodd y Gwasanaeth 35 o gŵynion allanol. Mae'r adroddiad manwl yn darparu cyd-destun a dadansoddiad pellach. Mae pob cwyn yn destun adolygiad ac ymchwiliad, gyda chyfleoedd i ddysgu a gwella. Mae nifer o gŵynion yn cyrraedd yn ddienw a rhoddir sylw i'r rhain i gyd er nad yw'n bosibl ymateb i'r achwynydd. Pan fo'r mater yn ymwneud ag ymddygiad aelod o staff, ymdrinnir â'r rhain yn unol â'r Polisi Adnoddau Dynol priodol.

3 Yn ystod 2023/24 cafwyd cyfanswm o 33 datganiad o werthfawrogiad drwy'r sianelau adrodd ffurfiol. Mae bellach yn gyffredin i werthfawrogiadau allanol cyffredinol gael eu postio ar lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol ac nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## ARGYMHELLIAD

4 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

5 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

## CEFNDIR

6 Mae cwynion y mae'r Gwasanaeth yn eu cael oddi wrth sefydliadau allanol, grwpiau neu aelodau o'r cyhoedd yn destun gweithdrefnau rheoli a monitro

ffurfiol. Mae hyn yn hyrwyddo cysondeb wrth ymdrin â chŵynion ac yn cefnogi dysgu a gwelliant parhaus.

7 Ymchwilir i'r holl gŵynion y mae'r Gwasanaeth yn eu cael, gan gynnwys y rhai o ffynhonnell anhysbys. Oherwydd natur amrywiol cwynion unigol, nid yw'n bosibl darparu dadansoddiad manwl o dueddiadau, er bod yr holl faterion yn cael eu hystyried a bod camau dysgu yn cael eu cymryd fel y bo'n briodol.

8 Mae natur y cwynion y rhoddir gwybod i'r Gwasanaeth amdanynt yn cynnwys safon y gwasanaeth a ddarparwyd, safon y gyrru, ymddygiad staff neu unrhyw un arall sy'n gweithredu ar ran y Gwasanaeth.

9 Mae'r datganiadau o werthfawrogiad y mae'r Gwasanaeth yn eu cael, yn yr un modd, yn destun dull gweithredu safonol o ran eu rheoli, gan y gall y rhain ddangos arfer da a sicrhau bod cyflawniadau neu weithredoedd penodol gan aelodau o staff yn cael eu cydnabod.

**GWYBODAETH**

10 Mae'r tablau isod yn manylu ar nifer y cwynion ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2024. Y cyfartaledd tair blynedd yw 38 o gŵynion y flwyddyn a chaiff y rhain eu dadansoddi ymhellach yn y tabl. Mae pob cwyn yn destun adolygiad mewnol o fewn y Gwasanaeth a, lle bo'n bosibl, nodir cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella.

11 Pan fo'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad personol neu broffesiynol aelod o staff, caiff y mater ei gyfeirio at Adran Adnoddau Dynol y Gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau bod pob mater yn cael ei drin yn briodol ac mewn modd cyson. Lle bo'n briodol, caiff materion o'r fath eu symud ymlaen drwy'r polisïau cwyno a disgyblaeth arferol.

12 Mae'r holl faterion sy'n ymwneud â gyrru yn cael eu cyfeirio at Hyfforddwr Gyrru'r Gwasanaeth i'w hadolygu a'u hystyried. Lle bo angen, bydd unigolion yn cael cymorth pellach i wella.

| **Natur y gŵyn** | **20/21** | **21/22** | **22/23** | **Cyfartaledd 3 blynedd** | **23/24** | **Amrywiad i'r cyfartaledd** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymddygiad | 20 | 18 | 13 | 17 | 15 | -2 |
| Gyrru | 11 | 6 | 2 | 6 | 10 | +4 |
| Diogelwch Tân Busnesau/Cymunedol | 4 | 2 | 4 | 3 | 5 | +2 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau yr Ochr Weithredol | 6 | 8 | 10 | 8 | 4 | -4 |
| Polisi a gweithdrefn | 3 | 6 | 0 | 3 | 1 | -2 |
| **Cyfanswm** | **44** | **40** | **29** | **38** | **35** | **-3** |

13 Mae'r tabl isod yn cadarnhau nifer y datganiadau o werthfawrogiad a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2024. Mae'n amlwg bod nifer y datganiadau o werthfawrogiad ffurfiol wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, nodir hefyd bod gwerthfawrogiad, bellach, yn cael ei fynegi trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac nid yw'r ffigurau hyn wedi'u cynnwys.

| **Categorïau Gwerthfawrogiad** | **20/21** | **21/22** | **22/23** | **Cyfartaledd 3 blynedd** | **23/24** | **Amrywiad i'r cyfartaledd** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Ochr Weithredol | 23 | 32 | 30 | 28 | 18 | -10 |
| Cefnogaeth Elusennol | 0 | 4 | 7 | 4 | 3 | -1 |
| Diogelwch Cymunedol | 8 | 9 | 6 | 8 | 4 | -4 |
| Ymddygiad | 11 | 23 | 13 | 16 | 6 | -10 |
| Partneriaeth | 3 | 6 | 2 | 4 | 2 | -2 |
| **Cyfanswm** | **45** | **74** | **58** | **60** | **33** | **-27** |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor ATAGC, sef "Hwyluso gwasanaethau tân ac achub ymatebol, o ansawdd uchel sydd wedi'u hintegreiddio'n well fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb mewn argyfwng barhau i fod ar gael pan a lle bo angen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | Gall cwynion, o bosibl, arwain at gamau gweithredu sydd â goblygiadau cyllidebol. I'r gwrthwyneb, gall camau gwella helpu i leihau risg ariannol. |
| Cyfreithiol | Mae'r holl ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei hystyried wrth ymdrin â chŵynion. |

| | |
|---|---|
| Staffio | Ystyrir nad yw’n berthnasol. Dim goblygiadau penodol yn sgil nodi'r adroddiad hwn. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Bydd yr holl nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu hystyried a'r gwerthfawrogiad/cwyn yn cael eu trin yn ddwyieithog neu yn unol â chais yr unigolyn. |
| Risgiau | Gall rheoli cwynion yn effeithiol helpu i leihau'r risg gyfreithiol ac ariannol i'r Awdurdod. |